



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 14 Mai 2008
Wednesday, 14 May 2008**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery
18	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills
36	Datganiad ar Grant Ad-dalu Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Statement on the Child Trust Fund Reimbursement Grant
45	Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders
45	Sefydlu ac Ethol Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr Establish and Elect the Proposed Learner Travel Measure Committee
46	Dadl yn Ceisio Caniatâd y Cynulliad i Gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod ynghylch Gwasanaethau Ieuenctid Debate Seeking the Assembly's Leave to Introduce a Member Proposed Measure for Youth Services
68	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Pris Bwydydd Hanfodol Welsh Conservatives Debate: The Price of Essential Foodstuffs
92	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig Welsh Conservatives Debate: Autistic Spectrum Disorders
117	Amser Pleidleisio Voting Time
125	Dadl Fer: Gwneud Cymunedau'n Hapusach Short Debate: Making Communities Happier

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 12.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 12.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Questions to the Minister for Finance and Public Service Delivery

The Presiding Officer: Question 1, OAQ(3)0331(FPS), has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ(3)0331(FPS), yn ôl.

The Barnett Formula

Fformiwla Barnett

Q2 Nick Bourne: What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the Barnett formula? OAQ(3)0324(FPS)

C2 Nick Bourne: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch fformiwla Barnett? OAQ(3)0324(FPS)

The Minister for Finance and Public Service Delivery (Andrew Davies): The Assembly Government has regular dialogue with the UK Government on a wide range of financial matters.

Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies): Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cael trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU am ystod eang o faterion ariannol.

Nick Bourne: I thank the Minister for that response. Specifically, what meetings has he had with Treasury Ministers regarding the Barnett consequential of the Olympics—something that has been raised here previously—what sort of sum is he seeking, and what progress has he made? It may be particularly apposite at the moment given that so much money is being thrown around, so perhaps you could redouble your efforts on this.

Nick Bourne: Diolchaf i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Yn benodol, pa gyfarfodydd y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion y Trysorlys ynghylch swm canlyniadol Barnett yng nghyswllt y Gemau Olympaidd—rhywbeth sydd wedi'i godi yma o'r blaen. Pa fath o swm y mae'n chwilio amdano, a pha gynnydd y mae wedi'i wneud? Gall fod yn arbennig o briodol ar hyn o bryd a chofio bod cymaint o arian yn cael ei daflu o gwmpas, felly efallai y gallech ailddyblu eich ymdrechion yn hyn o beth.

Andrew Davies: From memory, I have had at least three meetings with the Chief Secretary to the Treasury, and the issue of our Barnett consequential from the Olympics has arisen each time. There have also been exchanges of correspondence and telephone discussions. I do not know the precise number of times that the issue has been raised, but it has been raised frequently. Our stance remains the same: we believe that we are due a consequential for comparable spending on the Olympics, and we continue to press the case.

Andrew Davies: O'r hyn a gofiai, yr wyf wedi cael tri chyfarfod o leiaf gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac mae mater ein swm canlyniadol Barnett yng nghyswllt y Gemau Olympaidd wedi cael ei godi bob tro. Yr ydym hefyd wedi bod yn gohebu ac yn cael trafodaethau dros y ffôn. Nid wyf yn gwybod faint o weithiau'n union y mae'r mater wedi cael ei godi, ond mae wedi cael ei godi'n aml. Erys ein safiad yr un fath: credwn y dylem gael swm canlyniadol ar gyfer gwariant cymharol ar y Gemau Olympaidd, a pharhawn i ddadlau o blaid yr achos.

Alun Ffred Jones: Ymwelodd y Pwyllgor Cyllid â Gogledd Iwerddon a'r Alban yn ddiweddar, ac un peth a ddaeth i'r amlwg oedd bod ganddynt symiau llawer mwy sylweddol i wario ar wariant cyfalaf na sydd gennym ni. A oes gennych chi ffigurau sy'n dangos y gymhariaeth rhwng Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban? Ymddengys ein bod mewn perygl o golli llawer o gyfleoedd oherwydd y system bresennol nad yw'n ariannu Cymru i'r graddau y dylai.

Andrew Davies: When you say that Wales is disadvantaged in terms of capital expenditure, I am not sure whether you are referring to the annual departmental expenditure limit or whether you are including end-year flexibility. We have consistently managed our budget prudently, regularly spending something like 99 per cent of our DEL. Scotland has a significant underspend, which is available through end-year flexibility, and I suspect that a great deal of the capital expenditure that the Scottish Government is able to access includes the figures for end-year flexibility. However, I will look at the capital/revenue split in the DEL, and I will write to you on the issue.

Jenny Randerson: Alun Ffred referred to the Finance Committee visit, but, of course, what he did not mention was that one of the ways in which Northern Ireland and Scotland have maximised their available capital is through the use of private sector money, through a variety of mechanisms. I was interested to note in your written statement yesterday, Minister, that you have not ruled out public-private partnership as a way of moving ahead. As there is a variance of views in the Chamber on the use of private sector money and the significance of the way in which the capital board will work, will you agree to make an oral statement here so that we can ask specific questions? Will you also agree to produce a written, published strategy, so that we and our constituents can understand how capital money will be allocated and divided up?

Andrew Davies: I am sorry that it has taken a written statement that I issued on the work of the strategic capital investment board for

Alun Ffred Jones: The Finance Committee recently visited Northern Ireland and Scotland, and one thing that became evident was that they have much more significant sums for capital expenditure than we do. Do you have figures that show the comparison between Wales, Northern Ireland and Scotland? It appears that we are at risk of losing many opportunities because of the present system, which does not fund Wales to the degree that it should.

Andrew Davies: Pan ddywedwch fod Cymru dan anfantais o ran gwariant cyfalaf, nid wyf yn siŵr a ydych yn cyfeirio at y terfyn gwariant adrannol blynyddol ynteu a ydych yn cynnwys hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Yr ydym bob amser wedi rheoli ein cyllideb yn ddoeth, gan wario rhywbeth fel 99 y cant o'n terfyn gwariant adrannol yn rheolaidd. Mae gan yr Alban danwariant sylweddol, sydd ar gael drwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn, a thybiaf fod cryn dipyn o'r gwariant cyfalaf y mae Llywodraeth yr Alban yn gallu cael gafael arno yn cynnwys y ffigurau hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Fodd bynnag, edrychaf ar y rhaniad cyfalaf/refeniw yn ein terfyn gwariant adrannol, ac ysgrifennaf atoch am y mater.

Jenny Randerson: Cyfeiriodd Alun Ffred at ymweliad y Pwyllgor Cyllid, ond, wrth gwrs, ni chrybwyllodd mai un o'r ffyrdd y mae Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi cynyddu faint o gyfalaf sydd ar gael iddynt yw drwy ddefnyddio arian y sector preifat, a hynny drwy amrywiol fecanweithiau. Wrth edrych ar eich datganiad ysgrifenedig ddoe, yr oedd yn ddiddorol gennyf sylwi, Weinidog, nad ydych wedi diystyru partneriaeth cyhoeddus-preifat fel ffordd ymlaen. Oherwydd bod safbwyntiau amrywiol yn y Siambr ynghylch defnyddio arian sector preifat ac arwyddocâd y ffordd y bydd y bwrdd cyfalaf yn gweithio, a gytunwch i wneud datganiad llafar yma er mwyn inni gael gofyn cwestiynau penodol? A gytunwch hefyd i gynhyrchu strategaeth ysgrifenedig i'w chyhoeddi, er mwyn i ni a'n hetholwyr allu deall ym mha fodd y dyrennir ac y rhennir arian cyfalaf?

Andrew Davies: Mae'n ddrwg gennyf ei bod wedi cymryd datganiad ysgrifenedig a gyhoeddais ar waith y bwrdd buddsoddi

Jenny to be aware of the Government's position on the use of private finance. We have ruled out the use of the private finance initiative, specifically for the health service, as I am sure that Members will be aware. I am sure that colleagues from other parties, who have asked me similar questions on many occasions in the Chamber and in the Finance Committee, have had the same response from me and from the First Minister. We will be looking to maximise expenditure wherever we can. I and other colleagues have been in discussions with the European Investment Bank, for example, about the use of EIB funds. We have a good record in many areas of using private finance. Finance Wales is an example of a public-private partnership between the Assembly Government and, in the previous round of European funding under Objective 1, Barclays Bank. Similarly, we have pioneered innovative public-private partnerships in a range of areas. In the Department for the Economy and Transport, there is a great deal of innovation, flexibility and imagination in devising those public-private partnerships. Our policy has not changed; it remains the same.

Public Sector Procurement

Q3 Joyce Watson: What is the Welsh Assembly Government doing to improve public sector procurement?
OAQ(3)0309(FPS)

Andrew Davies: Through Value Wales, we are working with organisations in the public, private and third sectors to improve procurement practices and collaborative working. Initiatives such as the all-Wales sourcing plan, procurement route planner and the xchangewales programme all aim to provide innovative and robust tools and approaches to procurement.

Joyce Watson: As you said, there are plenty of well-established and successful fora to promote public sector recruitment in Wales. I am sure that you are aware of the fact that 99 per cent of all Welsh businesses are small and medium-sized enterprises, which often thrive on local trading opportunities.

cyfalaf strategol i Jenny fod yn ymwybodol o safbwynt y Llywodraeth o ran defnyddio arian preifat. Yr ydym wedi diystyru defnyddio'r fenter cyllid preifat, yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth iechyd, fel y gŵyr yr Aelodau, yr wyf yn siŵr. Yr wyf yn siŵr y bydd cyd-Aelodau o bleidiau eraill, sydd wedi gofyn cwestiynau cyffelyb imi droeon yn y Siambr ac yn y Pwyllgor Cyllid, wedi cael yr un ateb gennyf fi a chan y Prif Weinidog. Byddwn yn ceisio sicrhau'r gwariant mwyaf posibl lle bynnag y gallwn. Yr wyf fi a chyd-Aelodau eraill wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda Banc Buddsoddi Ewrop, er enghraifft, ynghylch defnyddio cyllid y banc. Mae gennym record dda mewn nifer o feysydd yng nghyswllt defnyddio arian y sector preifat. Mae Cyllid Cymru'n enghraifft o bartneriaeth cyhoeddus-preifat rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac, yng nghylch cyllido diwethaf arian Ewropeaidd dan Amcan 1, Banc Barclays. Yn yr un modd, yr ydym wedi ffurfio partneriaethau cyhoeddus-preifat arloesol mewn amrywiaeth o feysydd. Yn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth, ceir cryn dipyn o arloesi, hyblygrwydd a dychymyg wrth ddyfeisio'r partneriaethau cyhoeddus-preifat hynny. Nid yw ein polisi wedi newid; mae'n aros yr un fath.

Caffael yn y Sector Cyhoeddus

C3 Joyce Watson: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella caffael yn y sector cyhoeddus? OAQ(3)0309(FPS)

Andrew Davies: Drwy gyfrwng Gwerth Cymru, yr ydym yn gweithio gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wella arferion caffael a chydweithio. Mae cynlluniau megis cynllun cyrchu Cymru gyfan, y canllaw cynllunio caffael a'r rhaglen xchangewales oll yn anelu at ddarparu dulliau a chyfryngau caffael arloesol a chadarn.

Joyce Watson: Fel y dywedaso, ceir digon o fforymau llwyddiannus sydd wedi hen ennill eu plwyf i hybu recriwtio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y gwyddoch am y ffaith bod 99 y cant o holl fusnesau Cymru yn fentrau bach a chanolig eu maint, sy'n aml yn ffynnu ar gyfleoedd

Therefore, public sector procurement and the links that it fosters between local government and local businesses can and do make an important contribution to the health of local economies and their communities. Therefore, would you join me in congratulating Carmarthenshire County Council on its successful procurement events and surgeries, which have supported more than 2,000 businesses since they started two and a half years ago?

Andrew Davies: I am more than happy to congratulate Carmarthenshire County Council, which has been innovative in its use of procurement to drive the economic and social benefits of public sector procurement. I am not sure that I can quote the latest figures from memory, but Carmarthenshire County Council stood out because it employed something like six procurement professionals within the local authority to drive just this type of policy. It may not be the highest profile policy that is available but it is certainly significant. Around £4.5 billion is spent every year by the Welsh public sector in the procurement of goods and services, from stationery to significant major construction projects. We know that the economic benefits of that can be substantial. About three years ago, around one third of that expenditure was won by Welsh-based companies. The latest figures show that just under half of that expenditure, 49 per cent, was won by Welsh-based companies. We know that, for every 1 per cent of expenditure that is won by Welsh-based companies, particularly small and medium-sized enterprises, as you pointed out, Joyce, 2,000 extra jobs are created. Clearly, it is an important tool at our disposal. I am delighted that Carmarthenshire County Council is actively seizing that opportunity.

David Melding: The Minister has referred to the increase from 35 per cent a few years ago, to 49 per cent. How is that verified? I know that the figures are difficult to calculate and we need an accurate picture. I commend the initiatives that are taking place; it is clearly important that, within all appropriate regulations, particularly at European level, we source as many goods and services in Wales, as that has a big impact on

masnachu lleol. Felly, mae caffael yn y sector cyhoeddus a'r cysylltiadau y mae'n eu meithrin rhwng llywodraeth leol a busnesau lleol yn gallu gwneud ac yn llwyddo i wneud cyfraniad pwysig at iechyd economïau lleol a'u cymunedau. Felly, a ymunech â mi i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin ar ei gymorthfeydd a'i ddigwyddiadau caffael llwyddiannus, sydd wedi cefnogi dros 2,000 o fusnesau ers iddynt gychwyn ddwy flynedd a hanner yn ôl?

Andrew Davies: Yr wyf yn dra pharod i longyfarch Cyngor Sir Caerfyrddin, a fu'n arloesol wrth ddefnyddio caffael i annog manteision economaidd a chymdeithasol caffael yn y sector cyhoeddus. Nid wyf yn siŵr y gallaf ddyfynnu'r ffigurau diweddaraf o'm cof, ond yr oedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn enghraifft amlwg oherwydd iddo gyflogi rhywbeth fel chwech o bobl broffesiynol ym maes caffael yn yr awdurdod lleol i fynd â'r union fath hwn o bolisi rhagddo. Efallai nad hwn yw'r polisi uchaf ei broffil sydd ar gael ond mae'n sicr yn arwyddocaol. Caiff tua £4.5 biliwn ei wario bob blwyddyn gan sector cyhoeddus Cymru wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, o offer nwyddau swyddfa i brosiectau adeiladu mawr allweddol. Gwyddom y gall manteision economaidd hynny fod yn sylweddol. Tua tair blynedd yn ôl, enillwyd oddeutu un rhan o dair o'r gwariant hwnnw gan gwmnïau o Gymru. Dengys y ffigurau diweddaraf i ychydig llai na hanner y gwariant hwnnw, 49 y cant, gael ei ennill gan gwmnïau o Gymru. Am bob 1 y cant o wariant a enillir gan gwmnïau o Gymru, yn arbennig gan gwmnïau bach a chanolig eu maint, gwyddom, fel y dywedaso, Joyce, y creir 2,000 o swyddi ychwanegol. Mae'n amlwg yn arf pwysig y gallwn ei ddefnyddio. Yr wyf yn falch iawn bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn manteisio'n frwd ar y cyfle hwnnw.

David Melding: Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at y cynnydd o 35 y cant ychydig flynyddoedd yn ôl i 49 y cant. Ym mha fodd y gwiriwyd hyn? Gwn fod y ffigurau'n anodd eu cyfrifo ac mae angen darlun manwl gywir arnom. Cymeradwyaf y mentrau sydd ar waith; mae'n amlwg yn bwysig ein bod yn sicrhau, gan ddilyn yr holl reoliadau priodol, yn enwedig ar lefel Ewrop, bod cynifer o nwyddau a gwasanaethau â phosibl yn tarddu

employment. We need good data and we need to set our ambitions higher. If Wales won 60 per cent—perhaps two-thirds—of local procurement it would be a great boost to our economy.

12.40 p.m.

Andrew Davies: I think that the third figure was a guesstimate; the 49 per cent figure was more of an estimate. The figures are more robust. They were based, essentially, on the postcodes of those companies that had won public sector contracts. It would be difficult for us to set targets, not least because, under European state aid legislation, we are not allowed to discriminate in favour of suppliers, and, quite rightly, we cannot run a Wales-based procurement initiative. In fact, I have been criticised by companies in England because of their assumption that we are doing that; we are not. We are trying to create a level playing field and allow companies, particularly small companies, wherever they may be in Wales, to access that huge opportunity.

Nerys Evans: Yr wyf wedi bod yn siarad gyda sawl cynhyrchydd bwyd bach ar draws y canolbarth a'r gorllewin, ac un thema gyson yw eu hanhawster i gymryd rhan a llwyddo yn y broses tendro ar gyfer darparu bwydydd yn ein hysgolion a'n hysbytai. Pa arweiniad a ydych chi fel Llywodraeth yn ei roi i lywodraeth leol i sicrhau bod cyfle teg i bawb i gystadlu a pha arweiniad ydych yn ei roi ynglŷn â phwysigrwydd prynu'n lleol? A ydych chi, fel Llywodraeth, yn fodlon ystyried ailedrych ar reolau cystadlu Ewropeaidd er mwyn ei wneud yn haws i gwmnïau bach i ennill cytundebau bwyd, fel mae rhai ardaloedd mewn gwledydd eraill yn Ewrop yn ei wneud?

Andrew Davies: We, and I as Minister, see procurement as a crucial tool for us. For the last four years, I have chaired the business procurement taskforce, which is addressing the very questions that you asked, Nerys. Any interpretation of European law will need expert opinion, and we have legal representation on the business procurement

o Gymru, gan fod hynny'n cael effaith sylweddol ar gyflogaeth. Mae angen data da arnom ac mae angen inni fod yn fwy uchelgeisiol. Petai Cymru'n ennill 60 y cant—efallai dwy ran o dair—o gaffael lleol, byddai'n hwb enfawr i'n heconomi.

Andrew Davies: Yr wyf yn meddwl mai hanner dyfalu hanner amcangyfrif oedd y trydydd ffigur; yr oedd y ffigur 49 y cant yn fwy o amcangyfrif. Mae'r ffigurau'n fwy cadarn. Fe'u seiliwyd, yn eu hanfod, ar godau post y cwmnïau hynny a oedd wedi ennill contractau sector cyhoeddus. Byddai'n anodd inni bennu targedau, yn arbennig oherwydd yn ôl deddfwriaeth cymorth gwladwriaethol Ewropeaidd nid oes gennym hawl i wahaniaethu o blaid cyflenwyr ac, yn ddigon teg, ni allwn redeg menter caffael ar sail Cymru. Yn wir, fe'm beirniadwyd gan gwmnïau yn Lloegr oherwydd eu bod yn tybio ein bod yn gwneud hynny; nid ydym. Yr ydym yn ceisio creu sefyllfa lle mae pawb yn cael chwarae teg er mwyn caniatáu i gwmnïau, yn enwedig cwmnïau bach, lle bynnag y maent yng Nghymru, fanteisio ar y cyfle anferth hwnnw.

Nerys Evans: I have been speaking to many small food producers across mid and west Wales, and one constant theme is the difficulty they have in taking part and being successful in the tendering process for supplying food to our schools and hospitals. What guidance are you as a Government giving to local government to ensure fair play to all competitors and what guidance are you giving regarding local procurement? Are you, as a Government, willing to look again at European competition rules in order to make it easier for small companies to win food contracts, as some regions in other countries are doing?

Andrew Davies: Yr ydym ni, ac yr wyf fi fel Gweinidog, yn edrych ar gaffael fel arf allweddol inni. Am y pedair blynedd diwethaf, yr wyf wedi cadeirio'r tasglu caffael busnes, sy'n mynd i'r afael â'r union gwestiynau a ofynasoch, Nerys. Bydd angen barn arbenigwr ar unrhyw ddiffiniad o gyfraith Ewrop, ac mae gennym

taskforce, so that we get the best and latest information on the application of European legislation. However, it is clear that, as long as we in the public sector are transparent about our procurement policies, you can discriminate, for example, in favour of supported employment companies such as Remploy, or we can embed principles of sustainability and community benefit, with the so-called social clauses, which will help local companies in Wales and will also increase employment and training for people who may be long-term unemployed. Therefore, I believe that the policy is good. We need to ensure that the entire public sector, particularly local authorities, is aware of the opportunities. Our problem is that some local authorities, such as Carmarthenshire County Council, are forging ahead, while others may not have realised how important this is. I was delighted to see a press release from the Welsh Local Government Association today about how north Wales local authorities, led by Gwynedd Council, are leading on an all-Wales local government procurement partnership. We believe that that is another significant development.

gynrychiolaeth gyfreithiol ar y tasglu caffael busnes, er mwyn inni allu cael y wybodaeth orau a'r wybodaeth ddiweddaraf am roi deddfwriaeth Ewrop ar waith. Fodd bynnag, mae'n amlwg, cyn belled ag y byddwn ni yn y sector cyhoeddus yn dryloyw ynghylch ein polisiau caffael, y gallwch wahaniaethu, er enghraifft, o blaid cwmnïau cyflogaeth sy'n cael cymorth megis Remploy, neu gallwn wreiddio egwyddorion ar fanteision cymunedol a chynaliadwyedd, gyda'r cymalau cymdeithasol, fel y'u gelwir, a fydd yn cynorthwyo cwmnïau lleol yng Nghymru ac a fydd hefyd yn cynyddu lefelau cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir efallai. Felly, credaf fod y polisi yn un da. Mae angen inni sicrhau bod y sector cyhoeddus drwyddo draw, yn enwedig awdurdodau lleol, yn gwybod am y cyfleoedd. Y broblem sydd gennym yw bod rhai awdurdodau lleol, megis Cyngor Sir Caerfyrddin, yn llamu ymlaen, tra nad yw eraill, efallai, wedi sylweddoli pa mor bwysig yw hyn. Yr oedd yn bleser gennyf weld datganiad i'r wasg heddiw gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r modd y mae awdurdodau lleol y gogledd, dan arweiniad Cyngor Gwynedd, yn arwain ar bartneriaeth caffael llywodraeth leol Cymru gyfan. Credwn fod hwn yn ddatblygiad arwyddocaol arall.

Budgeting and Managing Finances

Cyllidebu a Rheoli Cyllid

Q4 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on his vision for budgeting and managing the finances of the Welsh Assembly Government? OAQ(3)0322(FPS)

C4 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei weledigaeth ar gyfer cyllidebu a rheoli cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0322(FPS)

Andrew Davies: My focus is on the delivery of the 'One Wales' programme in a way that maximises what I call the 'Welsh pound'.

Andrew Davies: Yr wyf yn canolbwyntio ar gyflenwi rhaglen 'Cymru'n Un' mewn ffordd sy'n cael y gwerth gorau posibl o'r hyn a alwaf yn 'bunt Gymreig'.

Jenny Randerson: The key part of the 'One Wales' programme is the foundation phase. Has the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills asked you for additional funding to cover the additional costs of that phase?

Jenny Randerson: Mae'r cyfnod sylfaen yn rhan allweddol o raglen 'Cymru'n Un'. A yw'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi gofyn ichi am arian ychwanegol i dalu am gostau ychwanegol y cyfnod hwnnw?

Andrew Davies: The Minister for education and I have been in extensive negotiations over one of the major commitments of the 'One Wales' programme since last October.

Andrew Davies: Mae'r Gweinidog dros addysg a minnau wedi cael negodiadau helaeth am un o brif ymrwymadau 'Cymru'n Un' er mis Hydref y llynedd. Mae'r

Those meetings and discussions are ongoing, but we also need our other partner bodies to co-operate actively with us on this. Until fairly recently, we had not received accurate figures. I believe that, in March, only five of the 22 local authorities had supplied accurate workforce figures for us to be able to plan the roll-out of the foundation phase. We need to work collaboratively with local authorities, the Association of Directors of Education Wales and the unions. I am delighted that my colleague, the Minister for education, is actively driving this forward.

Jenny Randerson: Last week, the Minister for education announced additional money, which I gather will come from the rest of the education budget. That rung considerable alarm bells with other potential beneficiaries of that money, not least those in further education. What percentage of increased funding have you allowed for further education next year? I raise this in light of news from a further education college in my constituency that its funding for this year is being pegged at last year's levels, and that it is £1 million below the harmonised rate, which is the rate that it should receive.

Andrew Davies: I will ask Jane Hutt to write to you on the specific FE funding issue. However, I come back to my earlier point that our ability to roll out the foundation phase, for example, and our ability to deliver on that commitment is dependent on local authorities providing accurate information on workforce planning. I know that one local authority—Swansea—initially provided the figures, but then had to withdraw and resubmit them because they were not accurate. That puts us in an impossible position as a Government as regards taking forward this major commitment, because it takes two to tango. My ministerial colleague, Jane Hutt, is actively looking at this, and we are driving this commitment forward.

William Graham: At this time of economic uncertainty, do you agree that your Government's spending commitment to

cyfarfodydd a'r trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt, ond mae arnom angen hefyd i'r cyrff eraill sy'n bartneriaid inni gydweithredu'n frwd â ni ar hyn. Hyd yn weddol ddiweddar, nid oeddem wedi cael ffigurau cywir. Ym mis Mawrth, credaf mai dim ond pump o'r 22 awdurdod lleol oedd wedi rhoi ffigurau cywir inni ar eu gweithlu er mwyn inni allu trefnu i gyflwyno'r cyfnod sylfaen. Mae angen inni gydweithio ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a'r undebau. Yr wyf yn hynod falch bod fy nghyd-Aelod, y Gweinidog dros addysg, yn gyrru hyn yn ei flaen yn weithredol.

Jenny Randerson: Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd arian ychwanegol gan y Gweinidog dros addysg, a thybiaf mai o weddill y gyllideb addysg y daw hwnnw. Perodd hynny bryder mawr ymhlith buddiolwyr posibl eraill yr arian hwnnw, yn enwedig y rheini mewn addysg bellach. Pa ganran o arian ychwanegol yr ydych wedi'i ganiatáu ar gyfer addysg bellach y flwyddyn nesaf? Codaf hyn yng ngoleuni newyddion gan goleg addysg bellach arall yn fy etholaeth, bod ei gyllid ar gyfer eleni ar yr un lefel â'r llynedd, a'i fod £1 miliwn yn is na'r raddfa gyson, sef y raddfa y dylai ei chael.

Andrew Davies: Gofynnaf i Jane Hutt ysgrifennu atoch ynghylch mater penodol cyllid AB. Fodd bynnag, dof yn ôl at y pwynt a fynegais yn gynharach, sef bod ein gallu i gyflwyno'r cyfnod sylfaen, er enghraifft, a'n gallu i gyflawni'r ymrwymiad hwnnw'n dibynnu ar awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth fanwl gywir am gynllunio'r gweithlu. Gwn i un awdurdod lleol—Abertawe—ddarparu'r ffigurau ar y cychwyn, ond bu'n rhaid iddo dynnu'r ffigurau'n ôl a'u hailgyflwyno gan nad oeddent yn gywir. Fel Llywodraeth, mae hynny'n ein rhoi mewn sefyllfa amhosibl o ran bwrw ymlaen â'r ymrwymiad pwysig hwn, oherwydd nid arnom ni'n unig y mae'r cyfrifoldeb. Mae fy nghyd-Weinidog, Jane Hutt, yn ymchwilio o ddifrif i hyn, ac yr ydym yn symud yr ymrwymiad hwn yn ei flaen.

William Graham: A ninnau'n wynebu cyfnod o ansicrwydd economaidd, a gytunwch mai ychydig y mae ymrwymiad

continual restructuring do little to reassure a concerned Welsh public? I am thinking in particular of the consultation on the future of the NHS in Wales, poor ambulance response times in south-east Wales, and people's concerns that they will not be able to access the drugs that they require. Your lack of vision and the clarity of your purpose seem to be at odds, sadly.

Andrew Davies: That may be your view, William, but it is not ours. There has been significant improvement in the performance of the NHS in Wales, including the substantial reduction in waiting times. Nearly every indicator in the health service shows that there has been an improvement, including in the response times of ambulances. However, we are always reviewing how services are delivered. The Minister for Health and Social Services is taking forward the reconfiguration because we as a Government believe that it is a much more effective way of delivering better services, as well as ensuring that we get value for the Welsh pound.

Funding Allocations

Q5 Andrew R.T. Davies: What representations did the Minister receive during the budget round regarding funding allocations for South Wales Central? OAQ(3)0308(FPS)

Andrew Davies: As part of the budget process, I received representations from a wide range of stakeholders.

Andrew R.T. Davies: On the ongoing budget negotiations and given the massive energy and fuel cost increases that many public sector service providers have had to endure, are you confident that the allocations that you gave portfolio holders were sufficient to absorb those increases without damaging front-line delivery? As the financial year continues, if you find that front-line delivery is being affected because of service providers having to divert their budget to meet those increased energy costs, would you be receptive to applications for

gwariant eich Llywodraeth i ailstrwythuro'n barhaus yn ei wneud i dawelu meddwl y cyhoedd pryderus yng Nghymru? Yr wyf yn meddwl yn benodol am yr ymgynghoriad ar ddyfodol y GIG yng Nghymru, amseroedd ymateb gwael ambiwlansys yn y deddwyrain, a phryderon pobl na fyddant yn gallu cael gafael ar y cyffuriau y mae eu hangen arnynt. Mae eich diffyg gweledigaeth a'r eglurhad o'ch bwriad yn gwrthddweud ei gilydd yn anffodus.

Andrew Davies: Efallai mai dyna yw eich barn chi William, ond nid dyna yw ein barn ni. Cafwyd gwelliant sylweddol ym mherfformiad y GIG yng Nghymru, gan gynnwys lleihau amseroedd aros yn sylweddol. Dengys bron pob dangosydd yn y gwasanaeth iechyd y cafwyd gwelliant, gan gynnwys mewn amseroedd ymateb ambiwlansys. Fodd bynnag, yr ydym bob amser yn adolygu sut y cyflenwir gwasanaethau. Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwrw ymlaen â'r gwaith ailgyflunio oherwydd yr ydym ni, fel Llywodraeth, yn credu y ceir ffordd fwy effeithiol o lawer o gyflenwi gwell gwasanaethau, yn ogystal â sicrhau y cawn werth am y bunt Gymreig.

Dyraniadau Cyllido

C5 Andrew R.T. Davies: Pa sylwadau a gafodd y Gweinidog yn ystod cylch y gyllideb ynghylch dyraniadau cyllido ar gyfer Canol De Cymru? OAQ(3)0308(FPS)

Andrew Davies: Cefais sylwadau gan ystod eang o randdeiliaid fel rhan o broses y gyllideb.

Andrew R.T. Davies: Parthed y negodiadau sy'n mynd rhagddynt ynghylch y gyllideb, a chan ystyried codiadau enfawr costau ynni a thanwydd y mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau'r sector cyhoeddus wedi gorfod eu dioddef, a ydych yn ffyddiog bod y dyraniadau a roddasoch i ddeiliaid portffolios yn ddigon i amsugno'r codiadau hynny heb niweidio'r cyflenwi ar y rheng flaen? Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, os byddwch yn canfod yr effeithir ar y cyflenwi ar y rheng flaen gan ei bod yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau gyfeirio eu

additional funding to help to alleviate the effects of that?

Andrew Davies: We and those organisations that we fund will have to take into account the recent increase in energy prices—and they are recent, historically, as I believe that they have doubled in about four years. It makes it even more imperative that we use our energy efficiently, and I will be working with my colleague, Jane Davidson, the Minister for Environment, Sustainability and Housing, to improve energy efficiency, particularly of the public sector. However, as I indicated when I announced the budget earlier this year, we have reserves in place to account for things that we cannot forecast, and I do not believe that anyone, until recently, had forecast the significant increase in energy prices. My colleagues will take that into account as we enter the preparatory stages of the next budget planning round, which will start this summer.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 6, OAQ(3)0334(FPS), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Additional Funding

Q7 David Melding: What representations has the Minister received regarding the provision of additional funding for the children, education, lifelong learning and skills portfolio? OAQ(3)0304(FPS)

Andrew Davies: I have regular discussions with the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills to discuss budget and expenditure matters.

David Melding: As you know, Lord Leitch has called for a revolution in the levels of skills, without which we cannot be a productive and competitive economy in an ever-globalising economy. I think that employers accept that, at the higher end of skills, they have to make a considerable contribution. However, the first problem that

cyllidebau i fodloni'r costau ynni uwch hynny, a fyddech yn barod i dderbyn ceisiadau am gyllid ychwanegol i gynorthwyo i liniaru effeithiau hynny?

Andrew Davies: Bydd yn rhaid i ni a'r sefydliadau hynny yr ydym yn eu hariannu ystyried y cynnydd diweddar mewn prisiau ynni—ac maent yn ddiweddar, yn hanesyddol, gan iddynt ddyblu mewn oddeutu pedair blynedd fe gredaf. Mae hynny'n ei gwneud hyd yn oed yn fwy angenrheidiol inni ddefnyddio ein hynni'n effeithlon, a byddaf yn gweithio gyda'm cyd-Weinidog, Jane Davidson, sef y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni, yn enwedig yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth gyhoeddi'r gyllideb yn gynharach eleni, mae gennym arian wrth gefn ar gyfer y pethau na allwn eu rhagweld, ac ni chredaf fod neb, tan yn ddiweddar, wedi rhagweld y codiadau sylweddol mewn prisiau ynni. Bydd fy nghyd-Aelodau'n ystyried hynny wrth inni fentro i gamau paratoadol cylch cynllunio nesaf y gyllideb, a fydd yn dechrau'r haf hwn.

The Presiding Officer: Question 6, OAQ(3)0334(FPS), is transferred for written answer.

Cyllid Ychwanegol

C7 David Melding: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol i'r portffolio plant, addysg, dysgu gydol oes a sgiliau? OAQ(3)0304(FPS)

Andrew Davies: Byddaf yn cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn trafod materion yn ymwneud â gwariant ac â'r gyllideb.

David Melding: Fel y gwyddoch, mae'r Arglwydd Leitch wedi galw am chwyldro mewn lefelau sgiliau—sgiliau na allwn fod yn economi gystadleuol a chynhyrchiol hebddynt mewn economi sy'n mynd yn fwy a mwy byd-eang. Credaf fod cyflogwyr yn derbyn ei bod yn rhaid iddynt wneud cyfraniad sylweddol o ran sgiliau ar y lefel

we have is with low-level skills, or the basics. Given that the critical first stage has to be done there, are you confident that we have the resources in place to do that? At the moment, the rhetoric is very much that it must be a partnership approach, with employers leading from the front, but they should not really have to make good the basic skills shortages.

12.50 p.m.

Andrew Davies: It has been long identified that the no-skill low-skill tail within the Welsh workforce is a significant issue that we need to address. That is highlighted not only in the Leitch report, but in our response, 'Skills that Work for Wales', which my colleague, Jane Hutt, and the Deputy Minister for Skills, John Griffiths, are taking forward. There has been a consultation on 'Skills that Work for Wales' and its roll-out, and it is very much at the top of our agenda and has been for some time. However, we need to work with employers on improving skills within the workforce, for example, by rolling out the Employer Pledge on basic skills and dealing with the basic skills deficit. Having worked in industry on a change programme with the Ford Motor Company, I know how important it is to tackle issues of numeracy and literacy within the prevailing workforce. Therefore, we are seized of that and, as we take forward 'Skills that Work for Wales', we will be taking that into account in the next budget planning round.

Gareth Jones: Dywed 'Cymru'n Un' y byddwch yn asesu effaith mewnfudo o wledydd newydd yr Undeb Ewropeaidd ar y ddarpariaeth addysgol yng Nghymru. Mae hyn yn fater o bwys yn rhannau o'r gogledd. Beth mae'r Llywodraeth wedi ei wneud hyd yma i asesu'r effaith y mae'r mewnfudo hwn yn ei gael ar yr ardaloedd hyn?

Andrew Davies: I will write to you to give you details on that. However, recent movements, particularly those concerning workers from Poland, show the difficulties

uchaf. Fodd bynnag, y broblem gyntaf sydd gennym yw sgiliau lefel isel, neu'r sgiliau sylfaenol. A chofio ei bod yn rhaid cymryd y cam cyntaf allweddol yn y fan honno, a ydych yn hyderus bod yr adnoddau gennym i wneud hynny? Ar hyn o bryd, yn rhethregol, rhaid iddo fod yn ddull gweithredu partneriaeth, gyda chyflogwyr yn arwain o'r tu blaen, ond ni ddylent mewn gwirionedd orfod gwella'r sefyllfa o ran diffyg sgiliau sylfaenol.

Andrew Davies: Gwyddys ers cryn amser bod elfen sgiliau-isel dim-sgiliau gweithlu Cymru yn broblem sylweddol y mae angen inni fynd i'r afael â hi. Pwysleisir hynny yn adroddiad Leitch ac yn ein hymateb ninnau, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', y mae fy nghyd-Aelod, Jane Hutt, a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, John Griffiths, yn bwrw ymlaen ag ef. Cafwyd ymgynghoriad ar 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' a'r gwaith sydd ynghlwm wrth ei gyflwyno—mae ar frig ein hagenda a hynny ers cryn amser. Fodd bynnag, mae angen inni weithio gyda chyflogwyr ar wella sgiliau'r gweithlu, er enghraifft, drwy gyflwyno Addewid y Cyflogwr am sgiliau sylfaenol ac ymdrin â'r diffyg sgiliau sylfaenol. A minnau wedi gweithio mewn diwydiant ar raglen newid gyda'r Ford Motor Company, gwn pa mor bwysig yw mynd i'r afael â rhifedd a llythrennedd ymhlith y gweithlu cyffredinol. Felly, yr ydym yn mynd i'r afael â hynny ac, wrth inni fwrw ymlaen â 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru', byddwn yn ystyried hynny yng nghylch cynllunio nesaf y gyllideb.

Gareth Jones: 'One Wales' states that you will assess the impact of immigration from the new European Union member states on educational provision in Wales. This is a matter of some importance in parts of north Wales. What has the Government done so far to assess the impact that immigration is having on these areas?

Andrew Davies: Ysgrifennaf atoch i roi manylion ichi ynghylch hynny. Fodd bynnag, dengys symudiadau diweddar, yn enwedig y rheini'n ymwneud â gweithwyr o Wlad Pwyl,

that we face. My understanding is that recent figures show that there is now a net outflow of Polish workers, which makes it difficult for Government, local authorities and others to plan workforce skills development and so on. These fluctuations in movement can be significant and, as we found out in the past year or two, can have major impacts on service provision. However, as I said, either Jane Hutt or I will write to you on that.

Kirsty Williams: Minister, could I return to the issue of the foundation stage and give you another opportunity to give a straight answer to the question that my colleague, Jenny Randerson, asked? Did Jane Hutt ask you for the additional £5 million that she announced last week for the foundation phase? If so, why did you turn it down? If this is really the fault of local authorities for not giving their figures on time, rather than having a collective wringing of hands, why did you not actively pursue that issue? After all, you are the Minister with responsibility for public service delivery.

Andrew Davies: We did pursue it very vigorously; Jane Hutt and her officials pursued it very vigorously indeed. In meetings with local authorities and the Association of Directors of Education in Wales, the case was made continuously for robust and accurate information and, as I said, I have had numerous meetings with the Minister for education on the funding issue. During negotiations on the budget that was published earlier this year, a significant additional resource was allocated to the foundation phase, following a request from the Minister for education, which I agreed to. The decision to put in an additional £5 million to safeguard the pilot projects was a decision that Jane made. She decided that she could find the funding within her own budget or main expenditure group, and we will be looking at any future resource implications, either this year or for the next budget planning round. To give any commitment at this stage would be premature, until we have had accurate figures from the local authorities and we have had time to digest them and see what the implications are.

yr anawsterau a wynebwn. Caf ar ddeall y dengys ffigurau diweddar y ceir yn awr all-lif net o weithwyr o Wlad Pwyl, sy'n ei gwneud yn anodd i'r Llywodraeth, awdurdodau lleol ac eraill i gynllunio datblygu sgiliau'r gweithlu ac ati. Gall yr amrywiadau hyn mewn symudiadau fod yn sylweddol a, fel y canfuom yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, gallant gael effaith aruthrol ar y modd y darperir gwasanaethau. Fodd bynnag, fel y dywedais, bydd Jane Hutt neu minnau yn ysgrifennu atoch ynghylch hynny.

Kirsty Williams: Weinidog, a allaf ddychwelyd at y cyfnod sylfaen, a rhoi cyfle arall ichi roi ateb syml i'r cwestiwn a ofynnodd fy nghyd-Aelod, Jenny Randerson? A ofynnodd Jane Hutt ichi am y £5 miliwn ychwanegol a gyhoeddodd yr wythnos diwethaf ar gyfer y cyfnod sylfaen? Os felly, pam y gwnaethoch ei wrthod? Os mai bai'r awdurdodau lleol yw hyn mewn gwirionedd am beidio â chyflwyno eu ffigurau'n brydlon, yn hytrach na rhincian eich dannedd, pam nad aethoch ar drywydd y mater hwnnw'n weithredol? Wedi'r cyfan, chi yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Andrew Davies: Aethom ar ei drywydd yn frwd iawn; yn wir, aeth Jane Hutt a'i swyddogion ar ei drywydd yn eithriadol o frwd. Dadleuwyd o blaid cael gwybodaeth gadarn a chywir yn gyson mewn cyfarfodydd gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, ac fel y dywedais, yr wyf wedi cael nifer dirifedi o gyfarfodydd gyda'r Gweinidog dros addysg ynghylch cyllido. Yn ystod negodiadau ynghylch y gyllideb a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, dyrannwyd adnodd ychwanegol sylweddol i'r cyfnod sylfaen, yn dilyn cais gan y Gweinidog dros addysg, a chytunais innau i hynny. Jane wnaeth y penderfyniad i gynnwys £5 miliwn ychwanegol i ddiogelu'r prosiectau peilot. Penderfynodd y gallai ddod o hyd i'r cyllid o fewn ei chyllideb ei hun neu'r prif grŵp gwariant, a byddwn yn edrych ar unrhyw oblygiadau o ran adnoddau i'r dyfodol naill ai eleni neu yng nghylch cynllunio nesaf y gyllideb. Byddai rhoi unrhyw ymrwymiad ar y cam hwn yn gynamserol, nes inni gael ffigurau manwl gywir gan yr awdurdodau lleol ac inni gael amser i'w crynhoi i weld

beth yw'r goblygiadau.

Y Gemau Olympaidd

C8 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau diweddar gyda'r Trysorlys ynglŷn â'r goblygiadau i Gymru yn sgîl y gwariant ar y Gemau Olympaidd yn Llundain? OAQ(3)0332(FPS)

Andrew Davies: As I said to Nick Bourne, in my regular discussions with the Treasury, I have continued to press the Assembly Government's view that Wales, and the other devolved administrations, should receive a consequential increase in our departmental expenditure limit in respect of relevant funding for the Olympics in 2012.

Alun Ffred Jones: Thank you for that answer. You have made that comment several times in the Chamber, but recent statements by Tessa Jowell and Ken Livingstone seem to have strengthened our hand, because they keep referring to the fact that most of the spending on the Olympics is on regeneration projects. Indeed, Ken Livingstone claims that he invited the Olympics to London to attract regeneration funds to specific parts of it. That may be an overstatement, but perhaps it contains a kernel of truth. Tessa Jowell has used the regeneration of London as the justification for the huge spending on the Olympics. Given that these statements are in the public domain, will you redouble your efforts to make the case to the Westminster Government, because the stated position of the Government seems to be that much of the spending on the Olympics is specifically for regeneration?

Andrew Davies: We will continue to press the case. I will be meeting Yvette Cooper, the relatively new Chief Secretary to the Treasury, and this will be one item that I will raise with her. Notwithstanding the former mayor of London's comments, our understanding is that a significant proportion of the expenditure on the Olympics was for regeneration and transport investment. Therefore, were the configuration of UK

The Olympic Games

Q8 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on the recent discussions held with the Treasury regarding the implications for the Welsh block of expenditure on the London Olympic Games? OAQ(3)0332(FPS)

Andrew Davies: Fel y dywedais wrth Nick Bourne, yn ystod fy nhrafodaethau rheolaidd gyda'r Trysorlys, yr wyf wedi parhau i bwysleisio safbwynt Llywodraeth y Cynulliad y dylai Cymru, a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, gael cynnydd canlyniadol yn ein terfyn gwariant adrannol o ran cyllid perthnasol ar gyfer y Gemau Olympaidd yn 2012.

Alun Ffred Jones: Diolch ichi am yr ateb hwnnw. Yr ydych wedi gwneud y sylw hwnnw droeon yn y Siambr, ond mae datganiadau diweddar gan Tessa Jowell a Ken Livingstone wedi cryfhau ein siawns i bob golwg, oherwydd maent wastad yn cyfeirio at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r gwariant ar y Gemau Olympaidd yn mynd ar brosiectau adfywio. Yn wir, mae Ken Livingstone yn honni iddo wahodd y Gemau Olympaidd i Lundain er mwyn denu cyllid adfywio i rannau o'r ddinas. Efallai fod hynny'n or-ddweud, ond efallai ei fod yn cynnwys llygedyn o wirionedd. Mae Tessa Jowell wedi defnyddio'r gwaith i adfywio Llundain fel cyfiawnhad dros y gwario enfawr ar y Gemau Olympaidd. A chofio bod y datganiadau hyn ar gael i'r cyhoedd, a ailddyblwch eich ymdrechion i gyflwyno'r ddadl i Lywodraeth San Steffan, oherwydd ymddengys mai safbwynt y Llywodraeth yw bod llawer o'r gwario ar y Gemau Olympaidd yn mynd yn benodol ar adfywio?

Andrew Davies: Byddwn yn dal i gyflwyno'r ddadl. Byddaf yn cwrdd ag Yvette Cooper, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, sy'n gymharol newydd, a bydd hwn yn un mater y byddaf yn ei godi gyda hi. Er gwaethaf sylwadau cyn faer Llundain, cawn ar ddeall mai ar gyfer buddsoddi mewn trafniadaeth ac adfywio yr oedd cyfran helaeth o'r gwario ar y Gemau Olympaidd. Felly, petai ffurfwedd cyllidebau

Government budgets different, we would have received an automatic consequential—as we will for the Crossrail development, for example. We will continue to make the case vigorously to the Treasury on this matter.

Paul Davies: When the Westminster Government sought support for the Olympic bid from the nations of the UK, it promised that everyone would benefit. There was talk of funding to provide training villages in Cardiff, and of using the marina at Pwllheli for water sports events. Recently, the Minister for Heritage estimated the detrimental cost to Wales to be around £70 million between 2009 and 2012, and that the impact would be felt for years to come. Do you agree with him?

In addition, in response to Nick Bourne and Alun Ffred Jones, you said that you are pressing the UK Government to provide us with a Barnett consequential. Can you tell us exactly what you are doing?

Andrew Davies: As I said in my response to Nick Bourne and Alun Ffred Jones, I have raised this issue in several meetings, telephone conversations and in correspondence with Andy Burnham, the former Chief Secretary to the Treasury. It has also been raised with senior officials at the Treasury. I am not sure what figures you were quoting on the detrimental effect to Wales, but on the first point that you made about the benefits to Wales, we are actively seeking as many teams as possible to train in Wales, for a wide range of sporting activities, and that work is ongoing. I cannot give you accurate figures, but I know that there has been a significant amount of interest from sporting teams all over the world in using Welsh facilities, whether for sailing, cycling, or mountain biking in the Afan Valley.

Gwerth Cymru

Q9 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiect budd i'r gymuned Gwerth Cymru? OAQ(3)0315(FPS)

Llywodraeth y DU yn wahanol, byddem wedi cael swm canlyniadol yn awtomatig—fel y cawn am y datblygiad Crossrail er enghraifft. Byddwn yn parhau i ddadlau o blaid y mater hwn yn frwd wrth y Trysorlys.

Paul Davies: Pan oedd Llywodraeth San Steffan yn ceisio cymorth gan genhedlodd y DU ar gyfer y cais am y Gemau Olympaidd, addawodd y byddai pawb ar eu hennill. Yr oedd sôn am gyllid i ddarparu pentrefi ymarfer yng Nghaerdydd ac y defnyddid y marina ym Mhwllheli ar gyfer digwyddiadau chwaraeon dŵr. Yn ddiweddar, amcangyfrifodd y Gweinidog dros Dreftadaeth y byddai'r gost andwyol i Gymru oddeutu £70 miliwn rhwng 2009 a 2012, ac y teimlid yr effaith am flynyddoedd i ddod. A gytunwch ag ef?

Hefyd, wrth ateb Nick Bourne ac Alun Ffred Jones, dywedasoch eich bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU i roi swm canlyniadol Barnett inni. A allwch ddweud wrthym beth yn union yr ydych yn ei wneud?

Andrew Davies: Fel y dywedais yn fy ateb i Nick Bourne ac i Alun Ffred Jones, yr wyf wedi codi'r mater hwn mewn llu o gyfarfodydd, yn ystod nifer o sgysiau dros y ffôn a drwy ohebiaeth gydag Andy Burnham, cyn Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae hefyd wedi cael ei godi gydag uwch swyddogion y Trysorlys. Nid wyf yn siŵr beth oedd y ffigurau yr oeddech yn eu dyfynnu ynghylch yr effaith andwyol ar Gymru, ond o ran y pwynt cyntaf a wnaethoch ynghylch y buddiannau i Gymru, yr ydym yn ceisio denu cynifer o dimau â phosibl i ymarfer yng Nghymru ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon, ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo. Ni allaf roi ffigurau manwl gywir ichi, ond gwn fod timau chwaraeon o bedwar ban byd wedi dangos llawer o ddiddordeb mewn defnyddio cyfleusterau Cymru, boed hynny ar gyfer hwylio, seiclo neu feicio mynydd yng Nghwm Afan.

Value Wales

C9 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the Value Wales community benefits project? OAQ(3)0315(FPS)

Andrew Davies: The Welsh Assembly Government's Value Wales community benefits project is encouraging procurement that incentivises training opportunities for the unemployed and is just one of the many 'One Wales' commitments on which we are making significant progress.

David Lloyd: As you said, 'One Wales Delivery Plan 2007-2011' states that this initiative is at the preparatory stage. Six years ago, a review bearing an almost identical name, the Better Value Wales procurement initiative, was launched by the then-Finance Minister, Edwina Hart. In essence, this initiative will have therefore taken more than eight years to go from inception to implementation. Therefore, can you give an assurance that the One Wales Government will succeed in delivering this valuable initiative where the previous Labour administration failed?

Andrew Davies: I would not agree that we had failed. Significant progress was made, and we are now building on that in the 'One Wales' programme for government. An example that is often quoted is the Porth relief road, which was procured by Rhondda Cynon Taf County Borough Council with funding from my department in the Assembly Government when I was Minister for transport. We were able to embed the community benefit clause through our contact with the construction company, Costain, which led to just under 50 long-term unemployed people getting a job in construction and receiving the appropriate level of training. They now have long-term prospects in a very dynamic sector.

1.00 p.m.

Thirteen projects across a wide range of local authorities are now embedding community benefit clauses in their procurement contracts. Those include Rhondda Cynon Taf, in terms of the Church Village bypass and the RCT Homes project. Many local authorities are embedding community benefit clauses in their housing stock improvement programme. So, we are building on the substantial progress that has been made. We cannot dictate to local authorities—we can

Andrew Davies: Mae Gwerth Cymru, sef prosiect budd i'r gymuned Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog caffael sy'n annog cyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ddi-waith ac mae'n un o nifer o ymrwymadau 'Cymru'n Un' lle yr ydym yn gwneud cynnydd sylweddol.

David Lloyd: Fel y dywedasoch, mae 'Cynllun Cyflenwi Cymru'n Un 2007-2011' yn datgan bod y cynllun hwn yn y cam paratoadol. Chwe blynedd yn ôl, lanswyd adolygiad a oedd yn dwyn yr un enw yn union bron, y cynllun caffael Gwell Gwerth Cymru, gan y Gweinidog Cyllid ar y pryd, Edwinda Hart. Yn ei hanfod, bydd y cynllun hwn wedi cymryd felly dros wyth mlynedd i fynd o'i gyfnod cychwynol i'w weithredu. Felly, a allwch sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru'n Un yn llwyddo i gyflenwi'r cynllun gwerthfawr hwn lle mae'r weinyddiaeth Lafur flaenorol wedi methu?

Andrew Davies: Ni fyddwn yn cytuno ein bod wedi methu. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol, ac yr ydym yn awr yn adeiladu ar hynny yn y rhaglen llywodraethu 'Cymru'n Un'. Enghraifft a ddyfynnir yn aml yw ffordd liniaru'r Porth, a gafodd ei chaffael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyda chyllid gan fy adran i yn Llywodraeth y Cynulliad pan oeddwn yn Weinidog dros drafnidiaeth. Llwyddasom i fewnosod y cymal er budd y gymuned drwy ein cysylltiad â'r cwmni adeiladu, Costain, ac arweiniodd hyn at ychydig o dan 50 o bobl a oedd wedi bod yn ddi-waith am dymor hir yn cael gwaith ym maes adeiladu ac yn cael y lefel hyfforddiant briodol. Mae ganddynt ddyfodol tymor hir mewn sector deinamig dros ben bellach.

Mae tri phrosiect ar ddeg ar draws ystod eang o awdurdodau lleol bellach yn cynnwys cymalau budd i'r gymuned yn eu contractau caffael. Mae'r rheini'n cynnwys Rhondda Cynon Taf, o ran ffordd osgoi Pentre'r Eglwys a phrosiect Cartrefi RCT. Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnwys cymalau budd i'r gymuned yn eu rhaglen gwella stoc tai. Felly, yr ydym yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaethpwyd. Ni allwn orchymyn awdurdodau lleol—dim ond eu

only encourage them, and I am delighted that some have realised those opportunities, as I said in my reply to Joyce Watson.

Improving Public Service Delivery

Q10 Paul Davies: Will the Minister make a statement outlining his plans for improving public service delivery? OAQ(3)0318(FPS)

Andrew Davies: I am determined to focus clearly on delivery. That is why I welcome the development of local service boards. Those will help us do things differently and will play a vital role in transforming key services. The new local service boards will help take joint action on major challenges.

Paul Davies: The Assembly Government sets targets to improve delivery continuously within governmental departments. Performance management is essential, but surely that should be realised at an individual level of activity—for example, hospitals should take on the risk and cost of adverse events rather than ally themselves to central Government targets. Do targets apply to Government Ministers and, if so, do you think that they should suffer the consequences if targets are continuously not met?

Andrew Davies: When it comes to public service delivery, we need to address some of the substantial challenges ahead. There has been significant improvement in public service delivery—I referred earlier to performance in the health service. Services have also improved significantly in many local authorities. However, there has been wide variability of performance, which I have termed a postcode lottery and which I think is unacceptable. That is why, with the Minister for Social Justice and Local Government, we are negotiating with the Welsh Local Government Association the establishment of national minimum standards. The citizens of Wales should not have to put up with a postcode lottery, but should be able to access universally high-quality services, irrespective of where they live. As Ministers, we will be

hannog, ac yr wyf yn falch bod rhai wedi gwireddu'r cyfleoedd hynny, fel y dywedais yn fy ateb i Joyce Watson.

Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn Well

C10 Paul Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu ei gynlluniau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn well? OAQ(3)0318(FPS)

Andrew Davies: Yr wyf yn benderfynol o ganolbwyntio'n glir ar gyflenwi. Dyna paham yr wyf yn croesawu datblygiad y byrddau gwasanaethau lleol. Bydd y rheini'n ein helpu i wneud pethau'n wahanol a byddant yn chwarae rhan hanfodol wrth weddnewid gwasanaethau allweddol. Bydd y byrddau gwasanaethau lleol newydd yn helpu i weithredu ar y cyd ar heriau o bwys.

Paul Davies: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gosod targedau er mwyn i adrannau'r llywodraeth gyflenwi'n well drwy'r amser. Mae rheoli perfformiad yn hanfodol, ond oni ddylid sicrhau hynny ar lefel gweithgarwch unigol—er enghraifft, dylai ysbytai ysgwyddo risg a chost digwyddiadau andwyol yn hytrach na chysylltu eu hunain â thargedau'r Llywodraeth ganolog. A yw targedau'n berthnasol i Weinidogion y Llywodraeth ac, os ydynt, a ydych yn meddwl y dylent ddioddef y canlyniadau os na chyrhaeddir y targedau yn rheolaidd?

Andrew Davies: Wrth sôn am gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, mae angen inni roi sylw i rai o'r heriau sylweddol o'n blaenau. Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus wedi gwella'n sylweddol—cyfeiriais yn gynharach at berfformiad yn y gwasanaeth iechyd. Mae gwasanaethau wedi gwella'n sylweddol mewn nifer o awdurdodau lleol hefyd. Fodd bynnag, gwelwyd amrywiaeth eang o ran perfformiad, ac yr wyf yn galw hyn yn loteri cod post ac yn meddwl ei fod yn annerbyniol. Dyna pam ein bod ni, ynghyd â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn trafod sefydlu safonau gofynnol cenedlaethol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ni ddylai dinasyddion Cymru orfod goddef loteri cod post, ond dylent allu cael mynediad at wasanaethau o safon uchel yn gyffredinol,

judged on our ability to provide those high-quality services. No doubt the electorate, in due course, will make its own decisions.

Bethan Jenkins: As you are aware, the credit crunch has led to an increase in the cost of borrowing, the effect of which can be seen in the buy-to-let sector, where landlords are getting into extreme difficulty. Have you taken into consideration the effect of the credit crunch on the capacity to borrow of those who have transferred their stock to housing associations? Will they be able to transfer their stock or successfully manage their companies under the current circumstances?

Andrew Davies: Housing is not my responsibility, but I will follow that up with the Deputy Minister for Housing, Jocelyn Davies.

An initial look at the impact of the credit crunch on the Assembly Government and on public services in Wales will not give us a clear answer as to whether we will be net losers or net gainers. The tightness of credit and the increase in the cost of credit does have its disadvantages, but there may also be advantages, in that the Government and public sector would be regarded by banks, financial institutions and other lenders as blue chip and, therefore, we would have greater security. So, it is too soon to say what the overall position would be. However, on the specific issue of housing and access to funds by housing associations and registered social landlords, I will discuss that with colleagues and get back to you.

waeth ble y maent yn byw. Fel Gweinidogion, cawn ein beirniadu am ein gallu i ddarparu'r gwasanaethau safon uchel hynny. Diau y bydd yr etholwyr yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain, maes o law.

Bethan Jenkins: Fel y gwyddoch, mae'r wasgfa gredyd wedi arwain at gynnydd mewn cost benthyca, a gellir gweld effaith hyn yn y sector prynu i osod lle mae landlordiaid yn wynebu anawsterau eithriadol. A ydych wedi ystyried effaith y wasgfa gredyd ar allu'r rheini sydd wedi trosglwyddo eu stoc i gymdeithasau tai i fenthyca? A fyddant yn gallu trosglwyddo eu stoc neu lwyddo i reoli eu cwmnïau yn yr amgylchiadau presennol?

Andrew Davies: Nid wyf yn gyfrifol am dai, ond byddaf yn dilyn trafod hynny gyda'r Dirprwy Weinidog dros Dai, Jocelyn Davies.

Ni fydd cipolwg ar effaith y wasgfa gredyd ar Lywodraeth y Cynulliad ac ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi ateb clir ynghylch a fyddwn ar ein hennill ynteu ar ein colled. Gall y sefyllfa dynn o ran credyd a'r cynnydd yng nghost credyd arwain at anfanteision, ond gall fod manteision hefyd, gan y byddai banciau, sefydliadau ariannol a benthyccwyr eraill yn ystyried y Llywodraeth a'r sector cyhoeddus yn flaengar a byddai gennym, felly, fwy o ddiogelwch. Felly, mae'n rhy fuan dweud beth fydd y sefyllfa gyffredinol. Fodd bynnag, ynghylch y mater penodol o dai a mynediad cymdeithasau tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig at gyllid, byddaf yn trafod hynny gyda chyd-Aelodau ac yn dod yn ôl atoch.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Further Education Institutions

Q1 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the level of funding for further education institutions in Wales?
OAQ(3)0395(CEL)

The Deputy Minister for Skills (John Griffiths): The 2008-09 further education

Sefydliadau Addysg Bellach

C1 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y cyllid ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru?
OAQ(3)0395(CEL)

Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (John Griffiths): Mae cyfanswm dyraniadau

allocations, including those for Welsh for adults centres and further education in higher education institutions, totals £295.98 million. Capital funding is £18.37 million.

Kirsty Williams: Further education institutions in Wales have major capital and estate problems. One college in the north-east of England is receiving over £60 million of capital investment—that is more than the entire capital allocation for further education in Wales over the last five years. How do you expect our FE colleges to maintain their high standards and to continue to compete against their English counterparts when you will not put in the investment that they need?

John Griffiths: You rightly point to the high standards in further education in Wales, and if we look at the Estyn reports and the various reviews, evaluations and monitoring that take place, we see that, over the last few years, the number of Estyn grades 1 and 2—which indicate outstanding or good provision—has almost doubled. Therefore, we have seen an impressive increase in standards, and that shows that we are on the right lines, and are providing the resources for further education in Wales that enables those standards to be reached.

Comparisons with England are always made; I travel all around Wales as the Deputy Minister for Skills, and just in the last few months I have opened various new centres at further education colleges. There is a lot of new building work taking place, which is good to see. When we look at comparisons with England, there are various factors that have to be borne in mind. It is not just a matter of Government money—it is also about land sales, borrowing, cash reserves, and leveraging in other funding. When we look at the situation for this particular financial year, the amount of Government money available for capital spend in further education in Wales is not hugely different to England when you take into account differences in population. What we want to do is to work with further education in Wales so that we can take provision to even higher standards, and ensure that we have good

addysg bellach 2008-09, gan gynnwys y dyraniadau ar gyfer canolfannau Cymraeg i oedolion ac addysg bellach mewn sefydliadau addysg uwch yn £295.98 miliwn. Mae cyllid cyfalaf yn £18.37 miliwn.

Kirsty Williams: Mae gan sefydliadau addysg bellach yng Nghymru broblemau mawr o ran cyfalaf ac ystadau. Mae un coleg yng ngogledd-ddwyrain Lloegr yn cael dros £60 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf—mae hynny'n fwy na'r holl ddyraniad cyfalaf ar gyfer addysg bellach yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf. Sut yr ydych yn disgwyl i'n colegau addysg bellach gynnal eu safonau uchel a pharhau i gystadlu yn erbyn y colegau yn Lloegr pan nad ydych rhoi'r buddsoddiad y mae eu hangen arnynt?

John Griffiths: Yr oeddech yn gywir ddigon i dynnu sylw at safonau uchel addysg bellach yng Nghymru, ac os edrychwn ar adroddiadau Estyn a'r adolygiadau, y gwerthusiadau a'r monitro amrywiol sy'n digwydd, gwelwn fod nifer graddau 1 a 2 Estyn—sy'n cynrychioli darpariaeth ragorol neu dda—bron wedi dyblu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, yr ydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn safonau, ac mae hynny'n dangos ein bod ar y trywydd cywir, ac yn darparu'r adnoddau ar gyfer addysg bellach yng Nghymru sy'n ein galluogi i gyrraedd y safonau hynny.

Gwneir cymariaethau â Lloegr bob amser; yr wyf yn teithio o amgylch Cymru fel y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau, a hyd yn oed yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf yr wyf wedi agor nifer o ganolfannau newydd mewn colegau addysg bellach. Mae llawer o waith adeiladu newydd yn digwydd, sy'n beth braf i'w weld. Pan edrychwn ar gymariaethau â Lloegr, mae'n rhaid inni ystyried rhai ffactorau. Nid arian y Llywodraeth yn unig sy'n bwysig—mae a wnelo hyn hefyd â gwerthu tir, benthyca, arian wrth gefn, a denu cyllid arall. Pan fyddwn yn ystyried y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn ariannol benodol hon, nid yw swm yr arian sydd ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer gwariant cyfalaf mewn addysg bellach yng Nghymru yn wahanol iawn i'r swm yn Lloegr pan fyddwch yn ystyried y gwahaniaeth mewn poblogaeth. Yr hyn yr ydym am ei wneud yw gweithio gydag addysg bellach yng Nghymru fel y

capital spend and good infrastructure, including nice new buildings.

Kirsty Williams: Further education colleges are achieving those excellent results despite you, not because of you. Further education colleges in Wales have been given an increase of 1.7 per cent in their overall allocation from the Assembly Government this year. Given that that allocation is below inflation, and that colleges have already had to make year-on-year efficiency savings, and given that they are expected to meet pay increases and increments for their staff to keep them in line with school teachers—as well as the fact that the Welsh Assembly Government has failed to adopt three-year funding allocations, despite that being a ‘One Wales’ commitment—when can FE colleges in Wales expect to get a fair deal from the Labour-Plaid Cymru Government?

John Griffiths: That is far from the truth. When I meet further education college principals, and other staff, they see the further education sector working in close partnership with the Assembly Government. That is how we have made progress, and delivered the standards that we have—with that partnership approach. To say that the Assembly Government has played no part in improving those standards is absolute nonsense, and I think that most people would see it as such.

It is also the case that we are committed, and will remain committed, to equality of pay between further education and schools in Wales, and we make no apologies for that. It has played an important part in improving standards. There are various increases in colleges’ revenue allocations for 2008-09, from over 10 per cent in some cases, including that of Powys, to more or less standstill budgets for others. That is partly to do with moving towards the harmonised rate in 2010, it is partly to do with historical factors, but it is also because of the volume of learning activity. Therefore, I do not recognise the negative and simplistic picture

gallwn godi’r ddarpariaeth i safonau uwch hyd yn oed, a sicrhau bod gennym wariant cyfalaf da a seilwaith da, gan gynnwys adeiladau newydd, braf.

Kirsty Williams: Mae colegau addysg bellach yn cyflawni’r canlyniadau ardderchog hynny er gwaethaf yr hyn yr ydych yn ei wneud, nid oherwydd yr hyn yr ydych yn ei wneud. Mae colegau addysg bellach yng Nghymru wedi cael cynnydd o 1.7 y cant yn eu dyraniad cyffredinol gan Lywodraeth y Cynulliad eleni. Gan fod y dyraniad yn is na chwyddiant, a bod colegau eisoes wedi gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd o flwyddyn i flwyddyn, a chan ystyried y disgwylir iddynt fodloni’r cynnydd o ran cyflog i’w staff fel eu bod yn cydymffurfio â chyflogau athrawon ysgol—yn ogystal â’r ffaith bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi methu mabwysiadu dyraniadau arian tair blynedd, er bod hyn yn ymrwymiad yn ‘Cymru’n Un’—pryd y gall colegau addysg bellach yng Nghymru ddisgwyl cael bargaen deg gan y Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru?

John Griffiths: Nid yw hynny’n wir o gwbl. Pan gyfarfûm â phenaethiaid colegau addysg bellach, ac â staff eraill, yr oeddent yn gweld bod y sector addysg bellach yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda Llywodraeth y Cynulliad. Dyna sut yr ydym wedi gwneud cynnydd, ac wedi cyflawni’r safonau hynny—gyda’r dull partneriaeth. Mae dweud nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi chwarae unrhyw ran yn y broses o wella’r safonau hynny yn hollol hurt, a chredaf y byddai’r rhan fwyaf o bobl yn cytuno â mi.

Mae hyn hefyd yn wir am ein hymrwymiad i gydraddoldeb o ran cyflog rhwng addysg bellach ac ysgolion yng Nghymru, a byddwn yn parhau â’n hymrwymiad i hyn, ac nid ymddiheuraf am hynny. Mae wedi chwarae rhan bwysig yn y broses o wella safonau. Mae codiadau amrywiol yn nyraniadau cyllid colegau ar gyfer 2008-09, dros 10 y cant mewn rhai achosion, gan gynnwys Powys, i gyllideb ddigyfnewid fwy neu lai mewn achosion eraill. Mae hynny’n rhannol oherwydd y broses o symud at y gyfradd gyson yn 2010, yn rhannol yn ymwneud â ffactorau hanesyddol, ond hefyd oherwydd maint y gweithgarwch dysgu. Felly, nid wyf

that you paint, Kirsty. We have been able to achieve high standards through good partnership working between the Welsh Assembly Government and the further education sector. That is how we aim to continue.

1.10 p.m.

Gareth Jones: Mae gan addysg bellach y potensial i gyfrannu'n helaeth iawn at raglen 'Cymru'n Un' i adfywio'n cymunedau. Pa gymorth ariannol ychwanegol allwch chi ei ddarparu ar gyfer sefydliadau i'w cynorthwyo gyda'r gwaith allweddol hwn?

John Griffiths: We work on a cross-departmental basis in the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. Yesterday, I met my colleague Leighton Andrews, Deputy Minister for Regeneration, to address these very issues and to look at how we can work closely together and with other departments to ensure that we deliver more by working together than we could in comparative isolation. A number of projects already exist, such as Môn a Menai in north-west Wales, which we discussed yesterday. Therefore, we see the very powerful role that education and training can play in regenerating communities. We are determined that 'Skills that Work for Wales' and the action plan that develops as a result of that will deliver on that front.

As an administration, social justice is a central driving force in our programme for government. We want to ensure that the Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills plays a central role in that. That is the spirit in which we will take forward 'Skills that Work for Wales' and everything that we do.

David Melding: Minister, you made reference to the excellent inspection reports that Estyn has given to further education institutions recently—a few months ago, Deeside College had seven straight grade 1s. Do you share our puzzlement that you are now seeking, through the framework of intervention, greater powers to intervene in FE colleges when similar powers are not available for schools or for universities? This

yn cydnabod y darlun negyddol a syml yr ydych yn ei ddarlunio, Kirsty. Yr ydym wedi gallu cyflawni safonau uchel drwy waith partneriaeth da rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector addysg bellach. Dyna sut yr ydym yn bwriadu parhau.

Gareth Jones: Further education has the potential to contribute greatly to the 'One Wales' programme to regenerate our communities. What financial assistance can you provide for organisations to help them with this vital work?

John Griffiths: Yr ydym yn gweithio ar sail trawsadrannol yn yr Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Ddoe, cyfarfûm â'm cyd-Aelod Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ac i edrych ar sut y gallwn gydweithio'n agos ag adrannau eraill er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni mwy drwy weithio gyda'n gilydd na phetaem yn gweithio ar ein pen ein hunain. Mae nifer o brosiectau'n bodoli eisoes, megis Môn a Menai yng ngogledd-orllewin Cymru, fel y gwnaethom ei drafod ddoe. Felly, gwelwn y rôl bwerau iawn y gall addysg a hyfforddiant eu chwarae wrth adfywio cymunedau. Yr ydym yn benderfynol y bydd 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' a'r cynllun gweithredu sy'n datblygu o ganlyniad i'r strategaeth honno yn cyflawni hynny.

Fel gweinyddiaeth, mae cyfiawnder cymdeithasol yn ganolog yn ein rhaglen llywodraethu. Yr ydym am sicrhau bod yr Adran Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn chwarae rôl ganolog yn hynny. Yn yr ysbryd hwnnw y byddwn yn llywio'r 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' a phopeth yr ydym yn ei wneud.

David Melding: Weinidog, cyfeiriasoch at yr adroddiadau arolygu ardderchog y mae Estyn wedi'u rhoi i sefydliadau addysg bellach yn ddiweddar—rai misoedd yn ôl, rhoddyd saith gradd 1 i Goleg Glannau Dyfrdwy. A ydych yn deall pam ein bod mor ddryslyd eich bod bellach, drwy'r fframwaith ymyrryd, yn ceisio mwy o bwerau er mwyn ymyrryd â cholegau addysg bellach pan nad yw pwerau tebyg ar gael o ran ysgolion na

is something that has been roundly condemned by Fforwm as promoting an interfering agenda. Why are you doing it?

John Griffiths: It is not interference, David; it is partnership being extended and taken further. We have told further education colleges—and I think that Fforwm is appreciative of this—that, where colleges are working well and delivering excellence, of which Deeside College is a very good example, we want to lighten the burden of regulation and, indeed, intervention. They will be able to go forward, in terms of self-regulation and self-assessment, more strongly than has hitherto been the case. We would be abdicating our responsibility as a Government if we did not take those powers to intervene where things are not going well and where learners are not being well served. That is our responsibility as the administration in Wales.

Improving School Buildings

Q2 Lesley Griffiths: What steps is the Welsh Assembly Government taking to improve school buildings in Wales? OAQ(3)0417(CEL)

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt): In line with our 'One Wales' commitment, Assembly Government funding for capital investment is increasing from £82 million in 2002-03 to £168.5 million in 2008-09; authorities are also investing their own resources.

Lesley Griffiths: I recently visited Darland High School in Rossett in my constituency, when I was shown its plans for a brand new science block, which will be state of the art in terms of design and will deliver huge improvements to the education of local children who, unfortunately, are currently being taught in science laboratories that are not of the standard that we would want. Minister, do you agree that this type of investment demonstrates the Government's determination to help schools like Darland to turn themselves around?

Jane Hutt: You have already written to me

phrifysgolion? Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi'i gondemnio'n frwd gan Fforwm fel achos o hyrwyddo agenda ymyrryd. Pam yr ydych yn gwneud hyn?

John Griffiths: Nid ymyrraeth yw hyn, David; partneriaeth ydyw sy'n cael ei ehangu a'i symud ymhellach. Yr ydym wedi rhoi gwybod i golegau addysg bellach—a chredaf fod Fforwm yn gwerthfawrogi hyn—pan fydd colegau'n gweithio'n dda ac yn cyflawni rhagoriaeth, ac mae Coleg Glannau Dyfrdwy yn enghraifft dda iawn o hynny, ein bod am ysgafnhau'r baich rheoleiddio ac, yn wir, yr ymyrraeth. Byddant yn gallu symud ymlaen, o ran hunan-reoleiddio a hunan-asesu, yn gryfach nag o'r blaen. Byddem yn diosg ein cyfrifoldeb fel Llywodraeth pe na fyddem yn defnyddio'r pwerau hynny i ymyrryd pan na fydd pethau'n mynd yn dda a phan na fydd dysgwyr yn cael eu gwasanaethu'n dda. Dyna ein cyfrifoldeb fel gweinyddiaeth yng Nghymru.

Gwella Adeiladau Ysgol

C2 Lesley Griffiths: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i wella adeiladau ysgol yng Nghymru? OAQ(3)0417(CEL)

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt): Yn unol â'n hymrwymiad yn 'Cymru'n Un', mae arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn cynyddu o £82 miliwn yn 2002-03 i £168.5 miliwn yn 2008-09; mae awdurdodau hefyd yn buddsoddi eu hadnoddau eu hunain.

Lesley Griffiths: Ymwelais ag Ysgol Uwchradd Darland yn Rossett yn fy etholaeth yn ddiweddar, lle cefais weld ei chynlluniau ar gyfer uned wyddoniaeth newydd sbon, a fydd yn arloesol o ran cynllun ac a fydd yn dod â gwelliannau mawr i addysg plant lleol sydd, yn anffodus, yn cael eu haddysgu ar hyn o bryd mewn labordai gwyddoniaeth nad ydynt yn cyrraedd y safon briodol. Weinidog, a ydych yn cytuno bod y math hwn o fuddsoddiad yn dangos penderfyniad y Llywodraeth i helpu ysgolion fel Darland i drawsnewid eu hunain?

Jane Hutt: Yr ydych eisoes wedi ysgrifennu

about these important issues in relation to Wrexham's plans for school rebuilding, refurbishment and extension, which I welcome. It clearly demonstrates our commitment to ensure that all schools are fit for purpose and deliver twenty-first century education. Between 2002-03 and 2008-09, Wrexham received £18.338 million in school buildings improvement grant, and Darland is one of the three secondary schools currently being upgraded in phase 2 of the authority's secondary school reorganisation.

Andrew R.T. Davies: The other day, I had the pleasure of visiting Cowbridge Comprehensive School, where I was shown around by the headteacher, Mrs Evans. I am sure that you are well aware of the condition of the school's buildings, as the matter has been debated and raised in questions many times in this Chamber. There seems to be consensus about the importance of the new school build and its going ahead, but the headteacher emphasised to me concerns about the current state of the existing school buildings for schoolchildren in the transition phase, given that the school will have a record intake in year 7 of 240 pupils in September of this year. How confident are you, Minister, that you will be able to assist, where possible, the LEA in addressing the transition into the new school buildings, given that I am sure that you are more than aware, as the constituency Member, of the appalling state of the current buildings and the fact that the new buildings could be up to two and a half years away?

Jane Hutt: I am also delighted, Andrew, that the former administration in the Vale of Glamorgan made progress and moved forward on the rebuilding of Cowbridge Comprehensive School. By September 2010, the authority will have redeveloped Cowbridge comprehensive and it is on course to redevelop two other schools.

In terms of understanding the pressures on this school, I am a regular visitor, as you know, to both the lower and the middle school buildings. I know that the authority is addressing the condition of those buildings in its asset management plan and its existing

ataf ynghylch y materion pwysig hyn yng nghyswllt cynlluniau Wrecsam ar gyfer ailadeiladu, adnewyddu ac ehangu ysgolion, ac yr wyf yn eu croesawu. Mae'n dangos yn glir ein hymrwymiad i sicrhau bod pob ysgol yn addas at ei phwrpas ac yn cyflwyno addysg yr unfed ganrif ar hugain. Rhwng 2002-03 a 2008-09, cafodd Wrecsam £18.338 miliwn o grant gwella adeiladau ysgolion, ac mae Darland yn un o'r tair ysgol uwchradd sydd ar hyn o bryd yn cael eu huwchraddio yng nghanam 2 ad-drefniad ysgolion uwchradd yr awdurdod.

Andrew R.T. Davies: Y dydd o'r blaen, cefais y pleser o ymweld ag Ysgol Gyfun y Bont-faen, lle'm hebryngwyd o gwmpas gan y pennaeth, Mrs Evans. Yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod yn iawn am gyflwr adeiladau'r ysgol, gan fod y mater wedi'i drafod a'i godi mewn cwestiynau lawer gwaith yn y Siambr hon. Ymddengys fod consensws ynghylch pwysigrwydd adeiladu ysgol newydd ac y dylai'r gwaith fynd rhagddo, ond pwysleisiodd y pennaeth bryderon i mi ynghylch cyflwr cyfredol adeiladau presennol yr ysgol i blant ysgol yn y cyfnod pontio, gan gofio y bydd yr ysgol yn derbyn mwy o ddisgyblion nag erioed o'r blaen, sef 240, i flwyddyn 7 ym Medi eleni. Pa mor hyderus ydych chi, Weinidog, y byddwch yn gallu helpu yr awdurdod addysg lleol, lle bo modd, i hwyluso'r trawsnewid i'r adeiladau newydd, a chithau, yr wyf yn siŵr, yn fwy nag ymwybodol, a chithau'n Aelod dros yr etholaeth, o gyflwr echrydus yr adeiladau cyfredol a'r ffaith y gallai'r adeiladau newydd fod hyd at ddwy flynedd a hanner i ffwrdd?

Jane Hutt: Yr wyf finnau wrth fy modd, Andrew, fod y cyn weinyddiaeth ym Mro Morgannwg wedi cymryd camau a symud ymlaen ar fater ailadeiladu Ysgol Gyfun y Bont-faen. Erbyn Medi 2010, bydd yr awdurdod wedi ailddatblygu Ysgol Gyfun y Bont-faen ac mae ar y trywydd i ailddatblygu dwy ysgol arall.

O ran deall y pwysau ar yr ysgol hon, yr wyf yn ymwelydd rheolaidd, fel y gwyddoch, ag adeiladau'r ysgol is a'r ysgol ganol ill dwy. Gwn fod yr awdurdod yn rhoi sylw i gyflwr yr adeiladau hynny yn ei gynllun rheoli asedau a'i raglen gynnal a thrwsio bresennol.

maintenance and repair programme.

Eleanor Burnham: We discussed the condition of school buildings yesterday, Minister. Professor Bramley's report was referred to with regard to spending based on need and not on historical data. You and your predecessor have constantly assured us that all schools in Wales will be of an acceptable standard by 2010. I also visited Darland High School, some time ago, and windows were being blown in because of rotten frames and so on. How will you assure all schools that you are on track to ensuring that they are all of an adequate standard, as you have promised?

Jane Hutt: The allocation of resources is critical, and funding will increase to £672.256 million as a result of the increase in our budget. However, local authorities also need to develop strategic, robust plans for capital investment in schools, taking into account pupil numbers and the fact that they have to accelerate the delivery of twenty-first century schools and achieve the fitness for purpose target.

Working with Welsh Local Government Association, I am ensuring that we target our funding. We have given the £9 million school building investment grant to all authorities, and now we want to target it to make sure that they deliver on robust capital investment programmes.

The Presiding Officer: Question 3, OAQ(3)0432(CEL), has been transferred for written answer.

Funding for Higher Education

Q4 Kirsty Williams: Will the Minister make a statement on the level of funding for higher education in Wales? OAQ(3)0396(CEL)

Jane Hutt: I recently set out my strategic priorities, along with a budget allocation of some £440 million for the higher education sector in 2008-09. A ministerial advisory group, chaired by Professor Merfyn Jones, will assist me in addressing funding challenges for HEIs in Wales.

Eleanor Burnham: Trafodasom gyflwr adeiladau ysgolion ddoe, Weinidog. Cyfeiriwyd at adroddiad yr Athro Bramley ynglŷn â gwario ar sail angen ac nid ar sail data hanesyddol. Yr ydych chi a'ch rhagflaenydd wedi'n sicrhau'n gyson y bydd pob ysgol yng Nghymru o safon dderbyniol erbyn 2010. Ymwelais innau ag Ysgol Uwchradd Darland, dro yn ôl, ac yr oedd ffenestri'n cael eu chwythu i mewn oherwydd bod fframiau wedi pydru ac ati. Sut y gwnewch chi roi sicrwydd i bob ysgol eich bod ar y trywydd iawn i sicrhau eu bod i gyd o safon ddigonol, yn unol â'ch addewid?

Jane Hutt: Mae dyraniad adnoddau'n allweddol, a bydd y cyllid yn cynyddu i £672.256 miliwn o ganlyniad i'r codiad yn ein cyllideb. Fodd bynnag, mae angen i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau strategol cadarn hefyd ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion, gan roi ystyriaeth i niferoedd disgyblion a'r ffaith bod yn rhaid iddynt brysuru i ddarparu ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a chyrraedd y targed addasrwydd i'r diben.

Gan weithio gyda Chymdeithas Lywodraeth Leol Cymru, yr wyf yn sicrhau ein bod yn targedu ein harian. Yr ydym wedi rhoi'r grant £9 miliwn ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgolion i bob awdurdod, ac yn awr mae arnom eisiau ei dargedu i wneud yn siŵr eu bod yn cyflawni rhaglenni buddsoddi cyfalaf cadarn.

Y Llywydd: Trosglwyddwyd cwestiwn 3, OAQ(3)0432(CEL), i'w ateb yn ysgrifenedig.

Cyllid ar gyfer Addysg Uwch

C4 Kirsty Williams: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y cyllid ar gyfer addysg uwch yng Nghymru? OAQ(3)0396(CEL)

Jane Hutt: Yn ddiweddar, amlinellais fy mlaenoriaethau strategol, ynghyd â dyraniad cyllideb o ryw £440 miliwn ar gyfer y sector addysg uwch yn 2008-09. Bydd grŵp cynghori Gweinidogion, dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones, yn fy nghynorthwyo i wynebu heriau cyllid i sefydliadau addysg

uwch yng Nghymru.

Kirsty Williams: The Higher Education Funding Council for Wales's funding gap report for 2005-06 shows that the deficit in public funding of universities in Wales, when compared to the funding in England, increased by 53 per cent in one year, from £40 million to £61 million. That figure is expected to rise to £70 million by the end of 2007. Do you dispute these figures? If you do not, what are you doing to address the shortfall?

Jane Hutt: We need to put this into context. Welsh Assembly Government funding via HEFCW comprises 42 per cent of Welsh higher education institutions' income. We are not the only source of revenue for higher education. In fact, HEFCW is supporting HEIs and developing their capacity in this regard. We have to look to research council awards and EU structural funds. I have already announced that I have established a ministerial advisory group chaired by the vice-chancellor of Bangor University and chair of Higher Education Wales to take forward the challenges and to advise me about HEI funding.

Kirsty Williams: It is hard to imagine that that group will say anything that is different from the figures before us, Minister. The shortfall in funding, when English and Welsh universities are compared, is £70 million. You do not need an advisory group to tell you that. You need to go back to Andrew Davies and get some more money out of him to invest properly in our universities. In 2005, all parties in this Chamber signed up to address the funding gap. Have you forgotten that promise?

1.20 p.m.

Jane Hutt: I am optimistic rather than pessimistic, as you are. You are entitled to hold that view, if you wish, in opposition. However, if we look at this optimistically, if we take the level of higher education institution funding and student finance in Wales together, it is on a par with levels in England. The evidence shows that our spend

Kirsty Williams: Mae adroddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar y bwch cyllid am 2005-06 yn dangos fod y diffyg yn y cyllid cyhoeddus i brifysgolion yng Nghymru, o'i gymharu â'r cyllid yn Lloegr, wedi cynyddu 53 y cant mewn un flwyddyn, o £40 miliwn i £61 miliwn. Disgwylir i'r ffigur hwnnw godi i £70 miliwn erbyn diwedd 2007. A ydych yn gwadu'r ffigurau hyn? Os nad ydych, beth yr ydych yn ei wneud i ateb y diffyg?

Jane Hutt: Mae angen inni roi hyn yn ei gyd-destun. Mae cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn gyfrifol am 42 y cant o incwm sefydliadau addysg uwch. Nid ni yw'r unig ffynhonnell refeniw i addysg uwch. Yn wir, mae'r cyngor cyllido'n cefnogi sefydliadau addysg uwch ac yn datblygu eu capasiti yn hyn o beth. Rhaid inni edrych at ddyfarniadau cynghorau ymchwil a chronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi fy mod wedi sefydlu grŵp cynghori Gweinidogion dan gadeiryddiaeth is-ganghellor Prifysgol Bangor a chadeirydd Addysg Uwch Cymru i symud yr heriau ymlaen ac i roi cyngor imi am gyllid sefydliadau addysg uwch.

Kirsty Williams: Mae'n anodd dychmygu y dywed y grŵp hwnnw unrhyw beth sy'n wahanol i'r ffigurau o'n blaen, Weinidog. Mae'r diffyg yn y cyllid, o gymharu prifysgolion Cymru â phrifysgolion Lloegr, yn £70 miliwn. Nid oes angen grŵp cynghori i ddweud hynny wrthyh. Mae angen ichi fynd yn ôl at Andrew Davies a chael mwy o arian o'i groen i fuddsoddi'n iawn yn ein prifysgolion. Yn 2005, cytunodd pob plaid yn y Siambr hon i fynd i'r afael â'r bwch cyllid. A ydych wedi anghofio'r addewid hwnnw?

Jane Hutt: Yr wyf yn optimistaidd yn hytrach nag yn besimistaidd fel chi. Mae gennych hawl i'ch barn, os dymunwch, fel gwrthblaid. Fodd bynnag, ac edrych ar hyn yn optimistaidd, os cymerwn lefel cyllid sefydliadau addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru gyda'i gilydd, mae'n gydradd â'r lefelau yn Lloegr. Dengys y dystiolaeth

per head of population is comparable to that in England. With my ministerial advisory group, I want to ensure that we secure increased income for higher education. We discussed the commercialisation agenda in committee, which is important, and we have discussed the European structural funds and research council income. I am confident that we will move forward optimistically, not pessimistically.

Kirsty Williams: Minister, the measures that you are talking about are not going to touch the sides in terms of addressing the significant funding gap between England and Wales. The best that you can hope for from your advisory group is some tips on how you can get more money out of Andrew Davies.

Jane Hutt: This advisory group will be chaired by the chair of Higher Education Wales and the vice-chancellor of Bangor University, and will include people who will take an optimistic and proactive approach to ensuring that higher education institutions in Wales are succeeding in accessing funding from all sources—not just public-sector funding and research-council funding, but also funding from businesses. If we look at the outcomes in terms of higher education institutions in Wales, we must recognise that they are succeeding. Not only is the number of our students increasing, along with student satisfaction, but ‘Reaching Higher’ and collaboration is resulting in such initiatives as the merger of the Institute of Grassland and Environmental Research with Aberystwyth University, which I am sure that you would welcome, to create the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences.

Alun Davies: In the ‘One Wales’ agreement we have a vision of a strong and enterprising economy, which is based, at least partly, on the success of the higher education sector in Wales. In your recent remit letter to the Higher Education Funding Council for Wales, you outline that a priority for it is the creation of a national science academy, which I hope will underpin the commercialisation of research in higher education institutions in Wales. Can you outline your vision for the national science academy?

fod ein gwariant ni ar bob pen o'r boblogaeth yn debyg i'r gwariant yn Lloegr. Gyda'm grŵp cynghori Gweinidogion, mae arnaf eisiau gwneud yn siŵr y sicrhawn fwy o incwm i addysg uwch. Trafodasom yr agenda masnacholi yn y pwyllgor, sydd yn bwysig, ac yr ydym wedi trafod yr incwm o gronfeydd strwythurol Ewrop a'r cynghorau ymchwil. Yr wyf yn hyderus y symudwn ymlaen yn optimistaidd, nid yn besimistaidd.

Kirsty Williams: Weinidog, nid yw'r camau yr ydych chi'n sôn amdanynt yn mynd i gyffwrdd yr ochrau o ran cau'r bwlech cyllid sylweddol rhwng Cymru a Lloegr. Y gorau y gallwch obeithio amdano gan eich grŵp cynghori yw ambell gyngor ar sut y gallwch gael mwy o arian o groen Andrew Davies.

Jane Hutt: Caiff y grŵp cynghori hwn ei gadeirio gan gadeirydd Addysg Uwch Cymru ac is-ganghellor Prifysgol Bangor, a bydd yn cynnwys pobl a aiff ati'n optimistaidd ac yn rhagweithiol i sicrhau bod sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n llwyddo i gael cyllid o bob ffynhonnell—nid arian sector cyhoeddus a chynghorau ymchwil yn unig, ond arian oddi wrth fusnesau hefyd. Os edrychwn ar y canlyniadau yn nhermau sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, rhaid inni gydnabod eu bod yn llwyddo. Nid yn unig y mae nifer ein myfyrwyr yn cynyddu, ynghyd â boddhad myfyrwyr, ond mae ‘Ymgeisio yn Uwch’ a chydweithio'n arwain at fentrau megis uno'r Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd â Phrifysgol Aberystwyth, rhywbeth yr wyf yn siŵr y croesawech, i greu Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig.

Alun Davies: Yng nghytundeb ‘Cymru'n Un’ mae gennym weledigaeth o economi cryf a mentrus, sydd yn seiliedig, yn rhannol o leiaf, ar lwyddiant y sector addysg uwch yng Nghymru. Yn eich llythyr cylch gwaith diweddar at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, dywedwch mai blaenoriaeth iddo yw creu academi wyddoniaeth genedlaethol, a fydd, gobeithio, yn tanategu masnacheiddiad ymchwil mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. A allwch amlinellu eich gweledigaeth ar gyfer yr academi wyddoniaeth genedlaethol?

Jane Hutt: I share this agenda with the First Minister, who takes the lead on science policy, and also with Ieuan Wyn Jones, the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport. In ‘One Wales’ we commit ourselves to preparation for implementation in 2009. It is about addressing the research capacity and the contribution of business and universities, and recognising and assessing the supply of scientists, technologists, engineers and mathematicians. It will take us forward from 2009-10.

Nick Bourne: I will take the Minister back to the funding gap in higher education, which she will know has been an issue for at least four years. It has been admitted privately by Ministers that there has been a significant and cumulative funding gap over the past four years. It has been £190 million, and the gap is widening as we speak. Does the Minister agree that there is a substantial funding gap in comparison to England and is she proposing to put in extra money to close that gap? I do not want to hear any guff about the committee, because while the committee is sitting the funding gap is getting greater. If the Minister does nothing, we can only assume that it is Plaid-Labour policy to see a loss of students, research projects, staff and national prestige in higher education.

Jane Hutt: The higher education institutions in Wales will be very disappointed by the negative, undermining tone of the contributions made by the opposition this afternoon. Do you wish to undermine the role of Professor Merfyn Jones, who has taken on this role of advising me—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. I want to hear the Minister; this barracking, again, seems to be the forte of the official opposition. You know of my dire warnings in the past, Mr Melding.

Jane Hutt: I am awaiting Mr Melding’s contribution this afternoon. Welsh Assembly Government funding for higher education has increased from £325 million in 2002-03 to more than £436 million—an increase of more than one third in seven years. Do you not recognise the level of the increase? Will you

Jane Hutt: Rhannaf yr agenda hwn â’r Prif Weinidog, sef yr arweinydd ar bolisi gwyddoniaeth, a hefyd â Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Yn ‘Cymru’n Un’ yr ydym yn ymrwmo i baratoi ar gyfer gweithredu yn 2009. Mae a wnelo hyn â delio â’r capasiti ymchwil a chyfraniad busnesau a phrifysgolion, a chydabod ac asesu’r cyflenwad o wyddonwyr, technolegwyr, peirianwyr a mathemategwyr. Aiff â ni ymlaen o 2009-10.

Nick Bourne: Af â’r Gweinidog yn ôl at y bwch cyllid mewn addysg uwch, sydd wedi bod yn broblem ers o leiaf bedair blynedd, fel y gŵyr hi. Mae Gweinidogion wedi cyfaddef yn breifat y cafwyd bwch sylweddol a chronnol dros y pedair blynedd diwethaf. Bu’n £190 miliwn, ac mae’r bwch yn lledu wrth inni siarad. A ydyw’r Gweinidog yn cytuno bod bwch cyllid sylweddol o’i gymharu â Lloegr ac a ydyw hi’n bwriadu rhoi arian ychwanegol i mewn i gau’r bwch hwnnw? Nid oes arnaf eisiau clywed unrhyw lol am y pwyllgor, oherwydd tra eistedda’r pwyllgor mae’r bwch cyllid yn tyfu. Os na wna’r Gweinidog ddim byd, ni allwn ond tybio mai polisi Plaid a Llafur yw gweld colli myfyrwyr, prosiectau ymchwil, staff a bri cenedlaethol mewn addysg uwch.

Jane Hutt: Bydd y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru’n siomedig iawn â thôn negyddol, danseiliol y cyfraniadau a wnaethpwyd gan yr wrthblaid y prynhawn yma. A ydych yn dymuno tansilio rôl yr Athro Merfyn Jones, sydd wedi ymgymryd â’r rôl hon o roi cyngor imi—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Mae arnaf eisiau clywed y Gweinidog; mae’n ymddangos, eto, mai’r heclo hwn yw cryfder yr wrthblaid swyddogol. Gwyddoch am fy rhybuddion llym yn y gorffennol, Mr Melding.

Jane Hutt: Yr wyf yn aros am gyfraniad Mr Melding y prynhawn yma. Mae cyllid Llywodraeth Cynulliad Cymru i addysg uwch wedi codi o £325 miliwn yn 2002-03 i fwy na £436 miliwn—cynnydd o fwy na thraean mewn saith mlynedd. Onid ydych yn cydnabod lefel y cynnydd? Oni wnewch chi

not look at progress in Wales, instead of always harping on about what is happening over the border in England? As I said, the quantum—the allocation for student support and Assembly Government funding—is on a par with England. However, I am not content with that. With regard to my remit letter and the publication of the HEFCW analysis, I take action. I set up a ministerial group and I ensure that I am being advised on how we address this from every aspect, from the commercialisation agenda to the research councils' agenda and income generation.

I have not mentioned the strategic capital investment board, but I know that I will visit it provided that higher education institutions, working with us, can produce the bids that will secure additional funding from capital investment.

The Presiding Officer: I will now call a member of the opposition on the condition that its Members will stop barracking.

I see that they would prefer to barrack. I call Bethan Jenkins.

Bethan Jenkins: We must realise that public expenditure on education in England has reduced due to top-up fees. That is also reflected in the Barnett formula. Therefore, do you believe that you should be making representations to the Barnett formula panel, which is going to be taking part in the review of the system to ensure that we get a Barnett consequential, or, if we are not getting a Barnett consequential, to ensure that the higher education funding system is secure, that this is resolved, and that, in Wales, we do not make students incur the cost, as is the case in England?

Jane Hutt: I want to concentrate on what we can achieve in Wales. Clearly, I will look to the investigation when it begins with regard to Barnett consequentials and the impact on Wales. I am much more concerned, with regard to my negotiations and collaboration with the UK Government, to ensure that we are getting our fair share from UK research councils. We must understand that this is not only the Welsh higher education sector that I am supporting, because it is part of the UK,

edrych ar y cynnydd yng Nghymru yn lle rhygno ymlaen o hyd am yr hyn sy'n digwydd dros y ffin yn Lloegr? Fel y dywedais, mae'r cwantwm—y dyraniad i gynnal myfyrwyr a chyllid Llywodraeth y Cynulliad—ar yr un gwastad â Lloegr. Fodd bynnag, nid wyf yn fodlon ar hynny. Ynglŷn â'm llythyr cylch gwaith a chyhoeddi dadansoddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr wyf yn gweithredu. Sefydlaes grŵp Gweinidogion a sicrhaf fy mod yn cael cyngor ar sut y dylem ymdrin â hyn o bob safbwynt, o'r agenda masnacholi i agenda'r cynghorau ymchwil a chynhyrchu incwm.

Nid wyf wedi crybwyll y bwrdd buddsoddi cyfalaf strategol, ond gwn y byddaf yn ymweld ag ef ar yr amod y gall sefydliadau addysg uwch, gan gydweithio â ni, lunio'r cynigion a fydd yn sicrhau cyllid ychwanegol drwy fuddsoddiad cyfalaf.

Y Llywydd: Galwaf yn awr ar aelod o'r wrthblaid ar yr amod bod ei haelodau'n rhoi'r gorau i heclo.

Gwelaf y byddai'n well ganddynt heclo. Galwaf ar Bethan Jenkins.

Bethan Jenkins: Rhaid inni sylweddoli bod gwariant cyhoeddus ar addysg yn Lloegr wedi lleihau oherwydd ffioedd atodol. Mae hynny wedi'i adlewyrchu hefyd yn fformiwla Barnett. Felly, a ydych yn credu y dylech fod yn gwneud sylwadau i banel fformiwla Barnett, sydd yn mynd i fod yn cymryd rhan yn yr adolygiad o'r system i sicrhau y cawn elfen ganlyniadol Barnett, neu, os na chawn elfen ganlyniadol Barnett, i sicrhau bod system gyllido addysg uwch yn ddiogel, y caiff hyn ei ddatrys, ac, yng Nghymru, na wnawn i fyfyrwyr wynebu'r gost, fel y gwneir yn Lloegr?

Jane Hutt: Mae arnaf eisiau canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni yng Nghymru. Yn amlwg, edrychaf at yr ymchwiliad pan ddechreuwa o ran elfennau canlyniadol Barnett a'r effaith ar Gymru. Yr wyf yn llawer mwy awyddus, o ran fy negodi a'm cydweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i sicrhau ein bod yn cael ein cyfran deg oddi wrth gynghorau ymchwil y Deyrnas Unedig. Rhaid inni ddeall nad dim ond sector addysg uwch Cymru yr wyf yn ei gefnogi, oherwydd

and, indeed, the global, higher education sector, in which Wales must compete—and I believe that we are doing that. However, you make a fair point about the implications of the Barnett consequential issues.

mae'n rhan o sector addysg uwch y Deyrnas Unedig ac, yn wir, y byd, lle mae'n rhaid i Gymru gystadlu—a chredaf ein bod yn gwneud hynny. Fodd bynnag, gwnewch bwynt teg ynglŷn â goblygiadau materion canlyniadol Barnett.

Nutrition in Schools

Q5 Lorraine Barrett: What is the Welsh Assembly Government doing to improve nutrition in schools in Wales? OAQ(3)0388(CEL)

Jane Hutt: I launched the 'Appetite for Life' action plan on 22 November 2007. It defines the strategic direction and actions required to improve the nutritional standards of food and drink provided in schools in Wales. Work is under way with local authorities and schools to move the agenda forward.

Lorraine Barrett: Thank you for that response, Minister. I welcome the action plan, part of which is saying that it is not just about providing healthy options in schools, but involving pupils in the choices that they make and giving them an understanding of food. Therefore, will you join me in a visit to Willows High School in Tremorfa? It has an excellent hospitality and catering training centre, where pupils learn about the choice, preparation and presentation of food—something that will continue to be useful in their lives outside school when they must make choices, often on their own, about the food that they eat.

Jane Hutt: Thank you, Lorraine. I would like to visit Willows High School again to look at that facility and to recognise the important role and contribution of pupils with regard to the developments. This is part of a whole-school approach, and 'Appetite for Life' recognises that we need to look at the school ethos, the curriculum, the environment and links with the wider community. Those are all important if we are to take the drive for healthy eating and improving nutrition in schools to families and communities.

1.30 p.m.

Brynle Williams: I agree that healthy eating

Maeth mewn Ysgolion

C5 Lorraine Barrett: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i wella maeth mewn ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)0388(CEL)

Jane Hutt: Lansiais y cynllun gweithredu 'Blas am Oes' ar 22 Tachwedd 2007. Mae'n diffinio'r cyfeiriad a'r camau strategol y mae eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a ddarperir mewn ysgolion yng Nghymru. Mae gwaith ar droed gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i symud yr agenda ymlaen.

Lorraine Barrett: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Croesawaf y cynllun gweithredu, y mae rhan ohono'n dweud nad dim ond mater o ddarparu dewisiadau iach mewn ysgolion ydyw, ond o gynnwys disgyblion yn y dewisiadau a wnânt a rhoi dealltwriaeth o fwyd iddynt. Felly, a wnewch chi ymuno â mi mewn ymweliad i Ysgol Uwchradd Willows yn Nhremorfa? Mae ganddi ganolfan hyfforddi lletygarwch ac arlwyo ragorol, lle bydd disgyblion yn dysgu am ddewis, paratoi a chyflwyno bwyd—rhywbeth a fydd yn dal i fod yn ddefnyddiol yn eu bywydau y tu allan i'r ysgol pan fydd raid iddynt wneud dewisiadau, ar eu pen eu hunain yn aml, ynghylch y bwyd a fwyfânt.

Jane Hutt: Diolch, Lorraine. Hoffwn ymweld ag Ysgol Uwchradd Willows eto i edrych ar y cyfleuster hwnnw ac i gydnabod rôl a chyfraniad pwysig disgyblion yng nghyswllt y datblygiadau. Rhan o agwedd ysgol-gyfan yw hyn, ac mae 'Blas am Oes' yn cydnabod bod angen inni edrych ar ethos yr ysgol, y cwricwlwm, yr amgylchedd a chysylltiadau â'r gymuned ehangach. Mae'r rheini i gyd yn bwysig os ydym am fynd â'r ymgyrch dros fwyta'n iach a gwella maeth mewn ysgolion at deuluoedd a chymunedau.

Brynle Williams: Cytunaf fod bwyta'n iach

is essential and that it must start with children in school. Some people are turning around and looking at me, but we will not go there. [Laughter.] We are living in an age when the majority, regrettably, of schoolchildren do not realise where their food comes from or how it is produced. It is alarming that some children think that milk comes from a supermarket. What plans do you have to look at the experience of England in its year of food and farming and to introduce a similar scheme in Wales, which would encourage a partnership between local farms and schools so that schoolchildren could have a better appreciation of where their food is grown, how it is produced and of the healthy aspect of it?

Jane Hutt: We are supportive of the food and farming links. As a result of the local initiative 'Food for Thought', I had the pleasure of meeting a cow in a playground at Maes yr Haul school in Bridgend. The children there were being introduced by a farmer to one of his cows and were learning about where milk comes from, followed by where cereal comes from and so on. We will be taking advantage of the initiatives in terms of links to food and farming. This is part of our 'Appetite for Life' action plan. I am working closely with the Minister for Rural Affairs with regard to local sourcing and ensuring that schoolchildren are learning about this issue and are taking it on board as part of the curriculum.

Jenny Randerson: As you know, I am seeking to build on the excellent start that has been made through 'Appetite for Life' through my proposed Measure on healthy eating in schools. In the process of preparing for that, I have visited many schools, and I am aware of the variability in the levels of knowledge from one child to another with regard to nutrition and diet. There is a lack of understanding in many schools, and in others, there is a low level of commitment to the whole concept, while other schools are taking an excellent lead. What are you doing to ensure that the information on nutrition and a good, healthy diet is available to all children in all parts of Wales through the curriculum?

Jane Hutt: The consultation work that you are doing with regard to your Measure, which

yn hanfodol a'i bod yn rhaid iddo ddechrau gyda phlant yn yr ysgol. Mae rhai pobl yn troi ac yn edrych arnaf, ond af i ddim ar drywydd hynny. [Chwerthin.] Yr ydym yn byw mewn oes pan nad yw'r rhan fwyaf o blant ysgol, yn anffodus, yn sylweddoli o le daw eu bwyd neu sut y caiff ei gynhyrchu. Mae'n ddychrynlyd bod rhai plant yn meddwl bod llaeth yn dod o archfarchnad. Pa gynlluniau sydd gennych i edrych ar brofiad Lloegr yn ei flwyddyn bwyd a ffermio ac i gyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru, a fyddai'n annog partneriaeth rhwng ffermydd lleol ac ysgolion er mwyn i blant ysgol allu deall yn well lle caiff eu bwyd ei dyfu, sut y caiff ei gynhyrchu ac agwedd iach hynny?

Jane Hutt: Yr ydym yn cefnogi'r cysylltiadau bwyd a ffermio. O ganlyniad i'r fenter leol 'Cnoi Cli', cefais bleser cwrdd â buwch mewn cae chwarae yn ysgol Maes yr Haul ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr oedd ffermwr yn cyflwyno'r plant i un o'i fuchod ac yr oeddent yn dysgu o le y daw llaeth, wedi'i ddilyn gan o le y daw grawnfwyd ac yn y blaen. Byddwn yn manteisio ar y cynlluniau o ran cysylltiadau â bwyd a ffermio. Mae hyn yn rhan o'n cynllun gweithredu 'Blas am Oes'. Yr wyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig yng nghyswllt defnyddio bwyd lleol a sicrhau bod plant ysgol yn dysgu am y mater hwn ac yn ei dderbyn fel rhan o'r cwricwlwm.

Jenny Randerson: Fel y gwyddoch, yr wyf yn ceisio adeiladu ar y dechrau gwych a wnaethpwyd drwy 'Blas am Oes' drwy fy Mesur arfaethedig ar fwyta'n iach mewn ysgolion. Yn y broses o baratoi ar gyfer hynny, yr wyf wedi ymweld â nifer o ysgolion, ac yr wyf yn ymwybodol o'r amrywiaeth mewn lefelau gwybodaeth rhwng un plentyn a'r llall yng nghyswllt maeth a deiet. Ceir diffyg dealltwriaeth mewn nifer o ysgolion, ac mewn rhai eraill, ceir lefel isel o ymrwymiad i'r cysyniad cyfan, tra mae ysgolion eraill yn arwain y gad. Beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod y wybodaeth am faeth a deiet da ac iach ar gael i bob plentyn ym mhob cwr o Gymru drwy'r cwricwlwm?

Jane Hutt: Mae'r gwaith ymgynghori yr ydych yn ei wneud yng nghyswllt eich

we supported in principle and on which we are awaiting a response, is important. You will also be aware of the recent Estyn reports on food and fitness in schools, which was published on 6 May. To reassure you, as part of the revised design and technology Order, which will be introduced in the new school curriculum from September onwards, food will become a compulsory material in the programmes of study for key stages 2 and 3, and pupils will have opportunities to practise, safely and hygienically, a broad range of practical food preparation and cooking tasks and to consider current healthy eating messages and nutritional needs. That was sent out to schools earlier this year. It means that all schools must take on board this important part of the curriculum.

The Welsh Baccalaureate

Q6 William Graham: Can the Minister confirm that the Welsh baccalaureate is an acceptable entry qualification to all universities in the UK? OAQ(3)0391(CEL)

Jane Hutt: The Welsh baccalaureate is already recognised and valued by higher education institutions. The advanced diploma is worth 120 UCAS points, equivalent to an A grade at A-level.

William Graham: Perhaps you could help me in guiding a constituent of mine, who has written to me. She went to look at a Medlink course in Nottingham. She has become alarmed at finding that numerous English universities have never heard of the Welsh baccalaureate, including her particular choice of Sheffield University. Minister, you will be aware that, in the previous Education and Lifelong Learning Committee, we warned your predecessor that this was likely to be the case. What can you do to arrest this?

Jane Hutt: You will probably know that I have written to your constituent—I believe that it is the same one—to say how concerned I was to hear about this case. She also told me how much she was enjoying her Welsh baccalaureate qualification studies. The Welsh Joint Education Committee then contacted two universities that had reported back to her on this issue—I believe that it

Mesur, yr oeddem yn ei gefnogi mewn egwyddor ac yr ydym yn disgwyl ymateb yn ei gylch, yn bwysig. Byddwch hefyd yn gwybod am adroddiadau diweddar Estyn am fwyd a ffitrwydd mewn ysgolion, a gyhoeddwyd ar 6 Mai. I'ch sicrhau, fel rhan o'r Gorchymyn dylunio a thechnoleg diwygiedig, a gyflwynir i'r cwricwlwm ysgol newydd o fis Medi ymlaen, bydd bwyd yn ddeunydd gorfodol yn y rhaglenni astudio ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3, a bydd disgyblion yn cael cyfleoedd i ymarfer, yn ddiogel ac yn hylan, amrywiaeth eang o dasgau paratoi a choginio bwyd ac ystyried negeseuon bwyta'n iach ac anghenion maethol. Anfonwyd hwnnw i ysgolion yn gynharach eleni. Mae hynny'n golygu ei bod yn rhaid i bob ysgol dderbyn y rhan bwysig hon o'r cwricwlwm.

Bagloriaeth Cymru

C6 William Graham: A all y Gweinidog gadarnhau bod bagloriaeth Cymru yn gymhwyster mynediad derbyniol ym mhob prifysgol yn y DU? OAQ(3)0391(CEL)

Jane Hutt: Mae sefydliadau addysg uwch eisoes yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi bagloriaeth Cymru. Mae'r diploma uwch werth 120 pwynt UCAS, sydd gyfwerth â gradd A Safon Uwch.

William Graham: Efallai y gallech fy helpu i arwain un o'm hetholwyr, sydd wedi ysgrifennu ataf. Aeth i edrych ar gwrs Medlink yn Nottingham. Cafodd ei dychryn wrth ganfod nad oedd nifer o brifysgolion yn Lloegr erioed wedi clywed am faglorigiaeth Cymru, gan gynnwys ei dewis penodol hi sef Prifysgol Sheffield. Weinidog, byddwch yn gwybod inni rybuddio eich rhagflaenydd yn yr hen Bwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ei bod yn debygol y byddai hyn yn digwydd. Beth allwch ei wneud i rwystro hyn?

Jane Hutt: Mae'n debyg eich bod yn gwybod fy mod wedi ysgrifennu at eich etholwraig—credaf mai'r un y soniasoch amdani ydyw—i ddweud pa mor bryderus oeddwn i glywed am yr achos hwn. Dywedodd wrthyf hefyd faint yr oedd yn mwynhau ei hastudiaethau ar gyfer ei chymhwyster bagloriaeth Cymru. Yna, cysylltodd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru â'r

was those in Nottingham and Sheffield—and the WJEC informed us that both had confirmed officially that the Welsh baccalaureate is an accepted qualification for medicine. They said that they were horrified to think that someone had given misinformation about this.

I am grateful to William for bringing this to Plenary today, as it is important. Allegedly, someone made this comment about the Welsh baccalaureate, but the universities at Sheffield and Nottingham assured the WJEC that they consider that the broader skills developed by the Welsh baccalaureate are desirable for medicine courses.

This year, we will see the first university graduates who gained the Welsh baccalaureate. They will certainly be role models as are all of those who are enjoying the Welsh baccalaureate at present.

Alun Ffred Jones: A fedrwch roi gwybodaeth ynglŷn â'r niferoedd a'r ganran o fyfyrwyr sy'n astudio bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg?

Jane Hutt: I will write to you to provide the actual details in terms of students studying the Welsh baccalaureate through the medium of Welsh. I am sure that you will be interested in the number of new centres that are taking this on board, including many Welsh-medium centres across Wales. Looking specifically at your constituency, Ysgol Tryfan, Ysgol Dyffryn Ogwen, Coleg Meirion-Dwyfor and Coleg Menai have already taken the Welsh baccalaureate on board. However, across Wales, Welsh-medium schools are fully participating in the Welsh baccalaureate. I see that as developing step by step.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(3)0399(CEL), yn ôl.

ddwy brifysgol a oedd wedi rhoi gwybod iddi am y mater hwn—credaf mai'r rheini yn Nottingham ac yn Sheffield oeddynt—a rhoddodd CBAC wybod inni fod y naill a'r llall wedi cadarnhau'n swyddogol bod bagloriaeth Cymru yn gymhwyster a dderbynnir ar gyfer meddygaeth. Dywedasant eu bod wedi dychryn wrth feddwl bod rhywun wedi rhoi gwybodaeth anghywir ynghylch hyn.

Yr wyf yn ddiolchgar i William am ddod â hyn i'r Cyfarfod Llawn heddiw, gan ei fod yn bwysig. Yn honedig, gwnaeth rywun y sylw hwn am fagloriaeth Cymru, ond yr oedd y prifysgolion yn Sheffield a Nottingham wedi sicrhau CBAC eu bod yn ystyried bod y sgiliau ehangach a ddatblygir gan fagloriaeth Cymru yn ddymunol ar gyfer cyrsiau meddygaeth.

Eleni, byddwn yn gweld y graddedigion prifysgol cyntaf a gafodd fagloriaeth Cymru. Yn sicr byddant yn esiamplau yn yr un modd â phawb sy'n mwynhau bagloriaeth Cymru ar hyn o bryd.

Alun Ffred Jones: Can you provide information on the numbers and percentage of students studying the Welsh baccalaureate through the medium of Welsh or partly through the medium of Welsh?

Jane Hutt: Ysgrifennaf atoch i ddarparu'r union fanylion o ran myfyrwyr sy'n astudio bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. Yr wyf yn siŵr y bydd yn ddiddorol ichi gael gwybod am nifer y canolfannau newydd sy'n mynd â hyn rhagddo, gan gynnwys nifer o ganolfannau gyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Ac edrych yn benodol ar eich etholaeth, mae Ysgol Tryfan, Ysgol Dyffryn Ogwen, Coleg Meirion-Dwyfor a Choleg Menai eisoes yn mynd â bagloriaeth Cymru rhagddi. Fodd bynnag, ledled Cymru, mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cymryd rhan lawn ym magloriaeth Cymru. Yr wyf yn gweld y bydd hynny'n datblygu gam wrth gam.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)0399(CEL), is withdrawn.

Rudolf Steiner Schools

Q8 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on the role that Rudolf Steiner schools have in Wales? OAQ(3)0429(CEL)

Jane Hutt: The Rudolf Steiner schools in Wales are non-maintained and therefore operate as independent schools. Their educational philosophy emphasises the development of the child as a whole, focusing on creativity and social integration. Currently there is one pre-14 school and one kindergarten for three to seven-year-olds in Wales.

Nerys Evans: I recently visited Ysgol Nant-y-Cwm in Clunderwen and witnessed the excellent work being carried out there. The children are educated in line with Estyn's expectations. The school has just received feedback from an Estyn inspection that was encouraging. The school works on an annual budget of around £200,000. I invite you to visit the school to see what is being done on this small budget. Since the school is being treated as any other in terms of the Estyn inspections, does the Minister believe that there is room for the Government to help fund Steiner schools in Wales in the same way that the Irish Government is currently doing?

Jane Hutt: I was invited to an open day, which I was unable to attend, unfortunately. I know a great deal from children and adults who have engaged in the Rudolf Steiner schools and I know how effective they are. They operate as independent schools without state funding. With the pressures on the education budget, it would be difficult for us to consider this, but I would certainly want to visit.

The Foundation Phase

Q9 Peter Black: Will the Minister make a statement on any representations she has had about the foundation phase? OAQ(3)0402(CEL)

Jane Hutt: I have actively sought and taken

Ysgolion Rudolf Steiner

C8 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y swyddogaeth sydd gan ysgolion Rudolf Steiner yng Nghymru? OAQ(3)0429(CEL)

Jane Hutt: Mae ysgolion Rudolf Steiner yng Nghymru yn ysgolion nas cynhelir ac felly maent yn gweithredu fel ysgolion annibynnol. Mae eu hathroniaeth addysgol yn pwysleisio datblygiad y plentyn yn ei gyfanrwydd, gan ganolbwyntio ar greadigrwydd ac integreiddiad cymdeithasol. Ar hyn o bryd ceir un ysgol i blant dan 14 oed ac un ysgol feithrin ar gyfer plant rhwng tair a saith oed yng Nghymru.

Nerys Evans: Yn ddiweddar ymwelais ag Ysgol Nant-y-cwm yng Nghlunderwen a gwelais y gwaith gwych a oedd yn cael ei wneud yno. Caiff y plant eu haddysgu yn unol â disgwyliadau Estyn. Mae'r ysgol newydd gael adborth o adolygiad Estyn a oedd yn galonogol. Mae'r ysgol yn gweithio ar gyllideb flynyddol o oddeutu £200,000. Yr wyf yn eich gwahodd i ymweld â'r ysgol a gweld beth sy'n cael ei wneud ar y gyllideb fach hon. Gan fod yr ysgol yn cael ei thrin fel unrhyw ysgol arall o ran arolygiadau Estyn, a yw'r Gweinidog yn credu bod lle i'r Llywodraeth helpu i gyllido ysgolion Steiner yng Nghymru yn yr un modd ag y mae Llywodraeth Iwerddon yn ei wneud ar hyn o bryd?

Jane Hutt: Cefais fy ngwahodd i ddiwrnod agored, ond yn anffodus ni allwn fynd. Yr wyf wedi clywed llawer iawn gan blant ac oedolion sydd wedi bod yn ymwneud ag ysgolion Rudolf Steiner a gwn pa mor effeithiol ydynt. Maent yn gweithredu fel ysgolion annibynnol heb gyllid gan y wladwriaeth. Gyda'r pwysau ar y gyllideb addysg, byddai'n anodd inni ystyried hyn, ond yn sicr byddwn eisiau ymweliad.

Y Cyfnod Sylfaen

C9 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw sylwadau a gafodd am y cyfnod sylfaen? OAQ(3)0402(CEL)

Jane Hutt: Yr wyf wedi bod wrthi'n

account of views expressed by parents, local government, teachers' unions, headteachers, teachers, the non-maintained sector and Estyn. A task and finish group of key stakeholders is advising me on securing the successful implementation of the foundation phase.

Peter Black: Would you agree with representations that I have received that say that the £5 million that you found to maintain the pilot schemes and to allow the pilot schemes to maintain the staff that they have involved in the foundation phase has effectively created two classes of school, namely those that can afford to fund the foundation phase fully, namely the pilot schemes, and those that cannot because they do not have sufficient resources. Do you not believe that you should revisit this issue and find the additional resources needed to help the schools that have not had that extra funding?

Jane Hutt: That is a new angle that has not been put to me before, Peter. We have piloted the foundation phase over a period of four years. We piloted it in order to understand, evaluate and ensure that we are getting it right. With pilot schemes, you ensure that they have the full support and resources to be able to deliver effectively, so that we can learn from the pilot schemes and then roll it out, as with any piloting programme. The rolling out of the foundation phase, as is clearly stated in the 'One Wales' Government programme, will happen from September.

1.40 p.m.

We have secured support through the extra £5 million for the pilot schools and the early starts schools, and you will recall, from my oral statement last week, that we recognise that it is a transitional year for them and we are securing their funding during this transitional year, so that we can safeguard them as we roll out the rest of the foundation phase from September. I am interested in checking up on the Swansea situation, for example, but I will not go into the issues of whether and when it gave us this information, unless you ask me about that. The additional

weithredol yn ceisio ac yn ystyried sylwadau a fynegwyd gan rieni, llywodraeth leol, undebau athrawon, penaethiaid, athrawon, y sector nas cynhelir ac Estyn. Mae grŵp gorchwyl a gorffen o randdeiliaid allweddol yn fy nghynghori ar sicrhau bod y cyfnod sylfaen yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Peter Black: A fyddech yn cytuno â'r sylwadau yr wyf wedi'u cael sy'n dweud bod y £5 miliwn y daethoch o hyd iddo i gynnal y cynlluniau peilot ac i ganiatáu i'r cynlluniau peilot gynnal y staff sydd ganddynt ynghlwm wrth y cyfnod sylfaen wedi creu dau ddsbarth o ysgolion yn ei hanfod, sef y rheini sy'n gallu fforddio cyllido'r cyfnod sylfaen yn llawn, sef y cynlluniau peilot, a'r rheini na allant oherwydd nad oes ganddynt ddigon o adnoddau. Onid ydych yn credu y dylech ailedrych ar y mater hwn a dod o hyd i'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen i helpu'r ysgolion nad ydynt wedi cael y cyllid ychwanegol hwnnw?

Jane Hutt: Dyna ongl newydd nas rhoddwyd imi o'r blaen, Peter. Yr ydym wedi treialu'r cyfnod sylfaen dros gyfnod o bedair blynedd. Yr ydym wedi'i dreialu er mwyn deall, gwerthuso a sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn. Gyda chynlluniau peilot, yr ydych yn sicrhau bod y gefnogaeth a'r adnoddau llawn ganddynt er mwyn gallu darparu'n effeithiol, er mwyn inni allu dysgu o'r cynlluniau peilot ac wedyn ei gyflwyno, yn yr un modd ag unrhyw raglen beilot. Fel y nodir yn glir yn rhaglen 'Cymru'n Un' y Llywodraeth, bydd cyflwyno'r cyfnod sylfaen yn digwydd o fis Medi ymlaen.

Yr ydym wedi sicrhau cefnogaeth drwy'r £5 miliwn ychwanegol ar gyfer y cynlluniau peilot ac ysgolion dechrau'n gynnar, a byddwch yn cofio o'm datganiad llafar yr wythnos diwethaf, ein bod yn cydnabod ei bod yn flwyddyn drosiannol iddynt ac yr ydym yn sicrhau eu cyllid yn ystod y flwyddyn drosiannol hon, er mwyn inni allu eu diogelu wrth inni gyflwyno gweddill y cyfnod sylfaen o fis Medi ymlaen. Mae gennyf ddiddordeb mewn edrych ar y sefyllfa yn Abertawe, er enghraifft, ond nid af ar drywydd materion a fydd a phryd y bydd yn

£5 million announced will release at least £180,000 for use on staffing in other schools to secure the roll-out from September. That is a positive step.

Irene James: Last Friday, the First Minister and I visited Tŷ Isaf Infant School to witness all the good work that the school is doing. While there, many of the teachers stressed the learning benefits that the foundation phase brings and informed me that, although the school was not part of the pilot group, they were using some of the new curriculum in their classes. Will you join me in congratulating the teachers and pupils at Tŷ Isaf, who are already working hard to prepare for the foundation phase to ensure that it is an outstanding success?

Jane Hutt: I congratulate the headteacher and the teachers at Tŷ Isaf Infant School who have been innovative and positive in embracing the principles of the foundation phase curriculum. I have seen that across Wales; I saw it last week in Carl Sergeant's constituency at Bryn Deva Primary School, which some of you might have seen featured on *Panorama* on Monday. It is an excellent example, and the headteacher told me that she was rolling out the principles of the foundation phase throughout the whole school. We have seen some great innovation and imagination across Wales in delivering those principles.

Nick Ramsay: I concur with the sentiments expressed by Peter Black in his opening question and also those of Irene James. I too have visited schools where there was a great deal of excitement about the potential of the foundation phase. You have been grilled on this this afternoon, Minister, for good reason, because it is a concern that is close to the hearts of teachers and parents. This is a great scheme, but the money must be in place, and while we welcome the £5 million, in many people's eyes, it is not sufficient to deliver the full benefits of the scheme. Are you confident that local authorities and pilot schools and teachers will have the necessary resources to deliver this important scheme?

rhoi'r wybodaeth hon inni, oni bai y byddwch yn gofyn imi am hynny. Bydd y £5 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd yn rhyddhau o leiaf £180,000 i'w ddefnyddio ar staffio mewn ysgolion arall i sicrhau'r cyflwyno o fis Medi ymlaen. Mae hwnnw'n gam cadarnhaol.

Irene James: Ddydd Gwener ddiwethaf, bu'r Prif Weinidog a minnau'n ymweld ag Ysgol Fabanod Tŷ Isaf i weld yr holl waith y mae'r ysgol yn ei wneud. Pan oeddem yno, yr oedd nifer o'r athrawon wedi pwysleisio manteision dysgu'r cyfnod sylfaen a dywedasant wrthyf, er nad oedd yr ysgol yn rhan o'r grŵp peilot, eu bod yn defnyddio rhywfaint o'r cwricwlwm newydd yn eu dosbarthiadau. A wnewch ymuno â mi i longyfarch athrawon a disgyblion Tŷ Isaf, sydd eisoes yn gweithio'n galed i baratoi ar gyfer y cyfnod sylfaen i sicrhau ei fod yn llwyddiant ysgubol?

Jane Hutt: Yr wyf yn llongyfarch pennaeth ac athrawon Ysgol Fabanod Tŷ Isaf sydd wedi bod yn arloesol ac yn gadarnhaol drwy gofleidio egwyddorion cwricwlwm y cyfnod sylfaen. Yr wyf wedi gweld hynny ledled Cymru; fe'i gwelais yr wythnos diwethaf yn etholaeth Carl Sergeant yn Ysgol Gynradd Bryn Defa, efallai i rai ohonoch weld yr ysgol ar *Panorama* ddydd Llun. Mae'n enghraifft wych, a dywedodd y pennaeth wrthyf ei bod yn cyflwyno egwyddorion y cyfnod sylfaen drwy'r ysgol gyfan. Yr ydym wedi gweld arloesedd a dychymyg gwych ledled Cymru yng nghyswllt gwireddu'r egwyddorion hynny.

Nick Ramsay: Yr wyf yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan Peter Black yn ei gwestiwn agoriadol a barn Irene James hefyd. Yr wyf finnau hefyd wedi ymweld ag ysgolion lle bu cryn gyffro am botensial y cyfnod sylfaen. Yr ydych wedi cael eich holi'n dwll ynghylch hyn y prynhawn yma, Weinidog, am reswm da, oherwydd mae'n bryder sy'n agos at galonnau athrawon a rhieni. Mae hwn yn gynllun gwych, ond rhaid i'r arian fod yn ei le, ac er ein bod yn croesawu'r £5 miliwn, yn nhyb nifer o bobl, nid yw'n ddigon i ddarparu manteision llawn y cynllun. A ydych yn ffyddiog y bydd yr adnoddau angenrheidiol gan awdurdodau lleol ac ysgolion peilot ac athrawon er mwyn darparu'r cynllun pwysig

hwn?

Jane Hutt: Thank you, Nick, for that constructive contribution. I am glad that I am being grilled about the foundation phase, because we must deliver it. It is an exciting innovation in early years education, and it is important that we get it right, and that is the benefit of having an Assembly where I can be scrutinised effectively. However, I must also work on the basis of the information and advice that I am given. I know that the £5 million is supporting the pilot schools and the early starts schools and that that is releasing funding. We will know by the end of the month what impact it will have because that is when we expect to receive the information from every local authority. I will come back to you and tell you if I have not got it, and I am sure that you will want to hear if I have not, because it is only with that information that we can see and judge what we can deliver in terms of the roll-out from September.

Jane Hutt: Diolch, Nick, am y cyfraniad adeiladol hwnnw. Yr wyf yn falch fy mod yn cael fy holi'n dwll am y cyfnod sylfaen, oherwydd mae'n rhaid inni ei ddarparu. Mae'n arloesiad cyffrous ym maes addysg y blynyddoedd cynnar, ac mae'n bwysig ein bod yn ei gael yn iawn, a dyna fantais Cynulliad lle gellir craffu arnaf yn effeithiol. Fodd bynnag, rhaid imi hefyd weithio ar sail y wybodaeth a'r cyngor a roddir imi. Gwn fod y £5 miliwn yn cefnogi'r ysgolion peilot a'r ysgolion dechrau'n gynnar a bod hynny'n rhyddhau cyllid. Erbyn diwedd y mis byddwn yn gwybod pa effaith a gaiff hynny oherwydd dyna pryd yr ydym yn disgwyl cael y wybodaeth gan bob awdurdod lleol. Dof yn ôl atoch a dweud wrthyech os nad wyf wedi'i gael, ac yr wyf yn siŵr y bydd arnoch eisiau clywed os nad wyf wedi'i gael, oherwydd dim ond gyda'r wybodaeth honno y gallwn weld a barnu beth y gallwn ei ddarparu o ran cyflwyno o fis Medi ymlaen.

Datganiad ar Grant Ad-dalu Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Statement on the Child Trust Fund Reimbursement Grant

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Mae'n bleser gennyf gael y cyfle hwn i roi'r diweddaraf i chi am y trefniadau newydd i ychwanegu at gyfrifon cronfa ymddiriedolaeth plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I am pleased to have this opportunity to update you on new arrangements to top up the child trust fund accounts of looked-after children.

Bydd Aelodau yn cofio inni gyflwyno cynllun yn 2006 i ad-dalu hyd at £50 y plentyn y flwyddyn i awdurdodau lleol am gyfraniadau y maent yn eu gwneud i gyfrifon y gronfa ymddiriedolaeth plant ar gyfer plant cymwys yn eu gofal. Yr oedd 622 o blant ar eu hennill yn sgîl hyn yn 2007-08. Bu'r cynllun hefyd yn fuddiol o ran annog awdurdodau lleol, yn rhieni corfforaethol, i wneud cyfraniadau ychwanegol at gyfrifon y plant hynny y maent yn gyfrifol am ofalu amdanynt.

Members will recall that we introduced a scheme in 2006 to reimburse local authorities up to £50 per child per year for the contributions that they make to the child trust funds of eligible children who are in their care. A total of 622 children benefited from that scheme in 2007-08. The scheme has also proved positive in encouraging local authorities, as corporate parents, to make additional contributions to the funds of the children whom they are responsible for looking after.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi, yn dilyn adolygu'r cynllun ar ôl ei weithredu am ddwy flynedd, fy mod wedi penderfynu cynyddu'r cyfraniadau ychwanegol o £50 i £100 y flwyddyn fesul plentyn, ac ymestyn y

I am delighted to announce that I have decided, following a review of the scheme after two years of its operation, to increase the amount of the top-ups from £50 to £100 per year per child, and to extend the top-up

cyfraniadau ychwanegol i grŵp ehangach o blant sy'n derbyn gofal.

Mae hefyd yn bleser gennyf gyhoeddi fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn rhannol drwy ysbrydoliaeth cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru dros blant mewn gofal, hefyd wedi cyflwyno cynllun i roi cyfraniad ychwanegol o £100 y flwyddyn i gyfrifon plant cymwys sy'n derbyn gofal yn y Deyrnas Unedig.

The Department for Children, Schools and Families will fund that scheme, which we have agreed to administer in Wales on behalf of the UK Government. This is excellent news for looked-after children in Wales, who will now receive an annual top-up of £200 to their child trust fund account for every year they spend in care from 1 April 2007. We estimate that some 500 children will benefit from the new arrangements this year, with that number rising to 640 in 2009-10, and to 770 in 2010-11. Local authorities may contribute more from their own resources, and we encourage them to do so. Third parties can contribute up to the maximum contribution of £1,200 per year per child.

Research shows that having access to even a modest level of savings at the age of 18 makes a real difference to the decisions that young people make about their futures, and encourages a sense of investment in their lives. We have a special responsibility for children in care, and this scheme is just one strand of a wider skein of work to improve the outcomes for them. Later this year, we will consult on a strategy for vulnerable children, which will include looked-after children and care leavers.

Tackling child poverty and inequality among children and young people is a fundamental component of our broader strategy to improve their quality of life and to promote social inclusion and equal opportunities for all. Child trust funds have a key role to play in achieving this objective, by providing all children with a financial asset for the future. I am delighted that Wales has led the way on

payments to a wider group of looked-after children.

I am also delighted to announce that, partly inspired by the Welsh Assembly Government's scheme for children in care, the UK Government has also introduced a scheme that will top up the child trust fund accounts of all eligible looked-after children in the United Kingdom by £100 per year per child.

Bydd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn ariannu'r cynllun hwnnw, yr ydym wedi cytuno i'w weinyddu yng Nghymru ar ran Llywodraeth y DU. Mae hyn yn newydd ardderchog i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, a fydd bellach yn cael cyfraniad ychwanegol o £200 y flwyddyn yn eu cyfrif cronfa ymddiriedolaeth plant am bob blwyddyn y maent mewn gofal o 1 Ebrill 2007. Yr ydym yn amcangyfrif y bydd tua 500 o blant yn elwa o'r trefniadau newydd eleni, ac y bydd y nifer hwnnw'n codi i 640 yn 2009-10, ac i 770 yn 2010-11. Caiff awdurdodau lleol gyfrannu mwy o'u hadnoddau eu hunain ac yr ydym yn eu hannog i wneud hynny. Gall trydydd partion gyfrannu hyd at yr uchafswm o £1,200 y flwyddyn i bob plentyn.

Mae ymchwil yn dangos bod cael mynediad at gynilion, hyd yn oed os ydynt ar lefel gymharol isel, yn 18 oed yn gwneud gwir wahaniaeth yn y penderfyniadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud am eu dyfodol, a'i fod yn hybu ymdeimlad o fuddsoddi yn eu bywyd. Mae gennym gyfrifoldeb arbennig dros blant sydd mewn gofal, ac nid yw'r cynllun hwn ond yn un elfen mewn gwaith ehangach i wella'r canlyniadau ar eu cyfer. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn ymgynghori ar strategaeth ar gyfer plant sy'n agored i niwed, a fydd yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal.

Mae delio â thlodi plant ac anghydraddoldeb ymysg plant a phobl ifanc yn elfen hanfodol yn ein strategaeth ehangach i wella ansawdd eu bywydau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfle cyfartal i bawb. Mae rôl allweddol i gronfeydd ymddiriedolaeth plant wrth gyflawni'r amcan hwn, drwy roi ased ariannol i bob plentyn ar gyfer y dyfodol. Yr wyf wrth fy modd bod Cymru

encouraging savings and investment for looked-after children across the UK. I thank Christine Chapman again for initiating the development in 2005, which is making a positive contribution to help local authorities to strengthen the savings habits of the children whom they look after, and to spread the benefits of asset ownership. It will also send positive messages to the parents of looked-after children about the need to save for their children's future, to allow them to have greater opportunities and a better choice in the use of the money when they start their adult life.

William Graham: We thank the Deputy Minister for bringing forward this statement. The Welsh Conservatives wholly endorse the comments made in the report. I reiterate our gratitude to Christine Chapman, and I am sorry that she is not in the Chamber to hear the comments that have rightly been made about her help in bringing this to fruition.

1.50 p.m.

I have a few specific questions, Deputy Minister. I suspect that the £200 is for every full year. Could you clarify that—and it may be necessary to do so by letter—because, by the very nature of care, looked-after children may not necessarily be in any particular situation for a complete year? It may be only a matter of months. Would they still qualify? Otherwise, this fund is rather meaningless.

I am also a bit concerned that the numbers of looked-after children will continue to rise, although we all hope that that particular category will, in fact, reduce. Although you are prudent to make a contribution to that end, I seek clarification on that point.

I also emphasise once more the press reports on the child trust fund itself, of which you, Minister, will be aware. Throughout the United Kingdom—and, although figures are available for each constituency, they are not particularly broken down for Wales—there were 77,000 children who still did not have any savings in a child trust fund. Could the

wedi arwain y ffordd ar hyrwyddo cynilion a buddsoddi ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled y DU. Diolchaf eto i Christine Chapman am gychwyn y datblygiad yn 2005, gan ei fod yn gyfraniad pendant at helpu awdurdodau lleol i gryfhau arferion cynilo'r plant y maent yn gofalu amdanynt, ac at ledaenu'r buddion a geir o berchnogaeth ar asedau. Bydd hefyd yn cyfleu negeseuon cadarnhaol i rieni plant sy'n derbyn gofal am yr angen i gynilo er mwyn dyfodol eu plant, i ganiatáu mwy o gyfleoedd iddynt a gwell dewis o ran defnyddio'r arian pan fyddant yn dechrau byw fel oedolion.

William Graham: Diolchwn i'r Dirprwy Weinidog am roi'r datganiad hwn gerbron. Mae Ceidwadwyr Cymru yn llwyr gymeradwyo'r sylwadau a wneir yn yr adroddiad. Ailddatganaf ein diolch i Christine Chapman, ac mae'n ddrwg gennyf nad yw yn y Siambr i glywed y sylwadau sydd wedi'u gwneud yn briodol am ei chymorth wrth gael y maen i'r wal.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau penodol, Ddirprwy Weinidog. Yr wyf yn amau bod y £200 ar gyfer pob blwyddyn lawn. A allech egluro hynny—ac efallai y bydd angen gwneud hynny drwy lythyr—gan ei bod yn bosibl, oherwydd union natur gofal, na fydd plant sy'n derbyn gofal yn aros mewn unrhyw sefyllfa benodol am flwyddyn gyfan o reidrwydd? Gallai bara am ychydig fisoedd yn unig. A fyddent yn dal yn gymwys? Fel arall, mae'r gronfa hon braidd yn ddiystyr.

Yr wyf braidd yn bryderus hefyd y bydd niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn dal i gynyddu, er bod pob un ohonom yn gobeithio y bydd y categori penodol hwnnw'n mynd yn llai, mewn gwirionedd. Er ei fod yn beth doeth ichi roi cyfraniad i'r perwyl hwnnw, ceisiaf eglurhad ar y pwynt hwnnw.

Tynnaf sylw hefyd unwaith eto at yr adroddiadau yn y wasg am y gronfa ymddiriedolaeth plant ei hun, y byddwch chi, Weinidog, yn ymwybodol ohonynt. Ledled y Deyrnas Unedig—ac er bod ffigurau ar gael ar gyfer pob etholaeth, nid ydynt wedi'u dadansoddi'n neilltuol ar gyfer Cymru—yr oedd 77,000 o blant a oedd yn dal i fod heb

Minister assure us that this category will be specifically looked at, given that we know, and many commentators have well recorded, that this is one way of helping looked-after children when they enter adult life?

Gwenda Thomas: Thank you, William, for the positive remarks at the beginning of your contribution. You asked about eligibility for the full year, and children will have to have been in care for a full year from 1 April 2007—and, of course, we are now past that point for the first year. I believe that the full-year qualification will continue, but I will confirm that.

You also mentioned the rise in numbers and I agree with you that that is a matter of concern. However, I have given you the estimates for next year and the year after, and we have anticipated the numbers until then.

I do not think that this is an empty gesture; £100 per year will be a considerable asset for our most vulnerable children, who have spent quite a number of years in care by the time they reach the age of 18. On top of that, the extra £100 will now be provided by the UK Government and I really think that that is good news. The children who qualify are those who qualify for the child trust fund under the Children Act 1989 in any case, namely those born from 1 September 2002. Those children are now easily identifiable because of audit processes. Today's announcement on the child trust fund will extend entitlement, because it will not restrict children on the grounds of the legal basis of their care: it used to be dependent on section 31, which covered children coming into care after court proceedings, and section 20, covering children who were accommodated voluntarily. Both of those groups make up the group of looked-after children, but this announcement will embrace all children in care, whatever its legal basis, if they have been in care for a year.

unrhyw gynilion mewn cronfa ymddiriedolaeth plant. A allai'r Gweinidog ein sicrhau y rhoddir sylw penodol i'r categori hwn, gan ein bod yn gwybod, a chan fod llawer o sylwebyddion wedi nodi'n helaeth, fod hyn yn un modd i helpu plant sy'n derbyn gofal pan fyddant yn dechrau byw fel oedolion?

Gwenda Thomas: Diolch i chi, William, am eich sylwadau cadarnhaol ar ddechrau'ch cyfraniad. Holasoch am gymhwyster ar gyfer y flwyddyn lawn, a bydd yn rhaid i blant fod mewn gofal am flwyddyn lawn o 1 Ebrill 2007—ac, wrth gwrs, yr ydym wedi mynd heibio i'r pwynt hwnnw ar gyfer y flwyddyn gyntaf bellach. Credaf y bydd y cymhwyster blwyddyn lawn yn parhau, ond gwnaf gadarnhau hynny.

Cyfeiriasoch hefyd at y cynnydd mewn niferoedd a chytunaf â chi fod hynny'n destun pryder. Fodd bynnag, yr wyf wedi rhoi ichi'r amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn wedyn, ac yr ydym wedi rhagweld y niferoedd tan hynny.

Nid wyf yn credu bod hwn yn weithred ddiystyr; bydd £100 y flwyddyn yn ased sylweddol i'r plant sy'n fwyaf agored i niwed, sydd wedi treulio cryn nifer o flynyddoedd mewn gofal erbyn iddynt gyrraedd 18 oed. Ar ben hynny, bydd y £100 ychwanegol yn cael ei ddarparu'n awr gan Lywodraeth y DU a chredaf o ddifrif fod hynny'n newydd da. Y plant sy'n gymwys yw'r rheini sy'n gymwys ar gyfer y gronfa ymddiriedolaeth plant o dan Ddeddf Plant 1989 beth bynnag, sef y rhai a anwyd o 1 Medi 2002. Gellir adnabod y plant hynny'n rhwydd yn awr oherwydd prosesau archwilio. Bydd cyhoeddiad heddiw am y gronfa ymddiriedolaeth plant yn ymestyn yr hawl, gan na fydd yn cyfyngu plant yn ôl sail gyfreithiol eu gofal; arferai fod yn ddibynnol ar adran 31, a ymdriniai â phlant sy'n cael eu derbyn i ofal ar ôl achosion llys, ac adran 20, sy'n ymdrin â phlant a gâi eu lletya'n wirfoddol. Mae'r ddau grŵp hynny yn ffurfio grŵp y plant sy'n derbyn gofal, ond bydd y cyhoeddiad hwn yn cwmpasu'r holl blant sydd mewn gofal, beth bynnag fo'i sail gyfreithiol, os ydynt wedi bod mewn gofal am flwyddyn.

Helen Mary Jones: I begin by saying how pleased I am to welcome this statement on behalf of my party and as Chair of the Children and Young People Committee. This amounts to a practical investment in the future of looked-after children, and I believe that it demonstrates the Assembly Government taking a lead in fulfilling its role in the corporate parenting of looked-after children in Wales.

We all know of the problems that young people face when they leave care, but we should also celebrate their successes. In that context, I draw Members' attention to Foster Care Fortnight, which is happening now, and to the digital stories produced by children and young people, who talk about their care experiences in a positive way. That was launched in the Senedd on Monday. Those stories demonstrated the huge achievements that looked-after children can accomplish if they get the right support at the right time and, of course, the necessary financial backing. It would be interesting to talk to that group of young people who have now left care about whether having a little bit of cash available to them when they became 18 would have made a difference.

Like the Deputy Minister, I am proud that Wales has, once again, set a good example of supporting vulnerable children. It is pleasing to see the Westminster Government follow the Assembly Government in this regard, as it did with the establishment of a children's commissioner. As others have said, Christine Chapman is to be credited for bringing this idea forward in the first place. I recall it having very enthusiastic support at the time. We were talking about modest sums of money to begin with, but I think that £200 saved every year until they leave care will really add up to a worthwhile amount of money for some children, who will, sadly, have spent most of their lives being looked after.

This is far from an empty gesture; it is symbolic. The Government and the Assembly are investing in each of those looked-after children as individuals, which shows them, as opposed to just telling them, that they are worth investing in. That in itself matters, as

Helen Mary Jones: Dechreuaf drwy ddweud mor falch yr wyf o groesawu'r datganiad hwn ar ran fy mhlaidd ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Mae hyn yn fuddsoddiad ymarferol yn nyfodol plant sy'n derbyn gofal, a chredaf ei fod yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn arwain wrth gyflawni ei rôl ym maes rhianta corfforaethol ar blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Yr ydym oll yn gwybod am y problemau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu pan fyddant yn gadael gofal, ond dylem ddathlu eu llwyddiannau hefyd. Yn y cyd-destun hwnnw, tynnaf sylw Aelodau at Bythefnos Gofal Maeth, sy'n digwydd yn awr, ac at y storïau digidol a luniwyd gan blant a phobl ifanc, sy'n sôn yn gadarnhaol am eu profiadau mewn gofal. Lansiodd hynny yn y Senedd ddydd Llun. Dangosodd y storïau hynny y cyflawniadau aruthrol sy'n bosibl i blant sy'n derbyn gofal os cânt y gefnogaeth briodol ar yr adeg briodol ac, wrth gwrs, y gefnogaeth ariannol sy'n angenrheidiol. Byddai'n ddiddorol siarad â'r grŵp hwnnw o bobl ifanc sydd wedi gadael gofal erbyn hyn ynghylch a fuasai gwahaniaeth pe buasai ychydig o arian ar gael iddynt pan ddaethant yn 18 oed.

Fel y Dirprwy Weinidog, yr wyf yn falch bod Cymru wedi gosod esiampl dda, unwaith eto, drwy gefnogi plant sy'n agored i niwed. Mae'n braf gweld Llywodraeth San Steffan yn dilyn Llywodraeth y Cynulliad yn hyn o beth, fel y gwnaeth yn achos sefydlu comisiynydd plant. Fel y mae eraill wedi dweud, mae Christine Chapman i'w chanmol am ddwyn y syniad hwn gerbron yn y lle cyntaf. Cofiaf fod cefnogaeth frwd iawn iddo ar y pryd. Yr oeddem yn sôn am symiau bach o arian i ddechrau, ond credaf y bydd cynilo £200 bob blwyddyn nes byddant yn gadael gofal yn fodd i wneud swm buddiol o arian i rai plant, a fydd, gwaetha'r modd, wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd yn derbyn gofal.

Mae hyn ymhell o fod yn weithred ddiystyr; mae'n symbolaidd. Mae'r Llywodraeth a'r Cynulliad yn buddsoddi ym mhob un o'r plant hynny sy'n derbyn gofal fel unigolion, ac mae hynny'n dangos iddynt, yn hytrach na dim ond dweud wrthynt, eu bod yn werth

well as having a sum of money available.

I also have specific questions to ask the Deputy Minister. What proactive steps is the Assembly Government taking to encourage local government to put more resources into the child trust fund for children? I am thinking in particular of those children who may be looked after for a long period, because, if local authorities put in even another £50 a year over the period of their care, it would make a great difference.

I understand that this applies to the category of children who would have been entitled to the child trust fund had they grown up in families. However, will the Minister give consideration to a savings fund for older looked-after children? Perhaps there is some way in which the Assembly Government could encourage and invest in that type of fund, as it has with this group of looked-after children. I realise that there are resource constraints, but it may be possible to discuss with local authorities how to encourage older children currently in the looked-after system to save, and to understand about investing in their future.

Children will receive this capital sum when they reach the age of 18. What steps will the Assembly Government take with local authorities to ensure that those children and young people have access to good advice about what to do with that capital resource, including advice about investing it and saving it for another few years? We all know that many of our young people—and not only those who are looked after—do not necessarily have much in the way of financial skills and knowledge. Most of us usually look to our parents and families for that advice, but that option is often not available to young people leaving care. It is important that overall financial advice is more available to young people to help them to manage budgets as they move into independent living.

Would it also be possible, perhaps in

buddsoddi ynddynt. Mae hynny'n bwysig ohono'i hun, yn ogystal â bod â swm o arian sydd ar gael.

Mae gennyf finnu gwestiynau penodol i'r Dirprwy Weinidog. Pa gamau rhagweithiol y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i annog llywodraeth leol i roi mwy o adnoddau yn y gronfa ymddiriedolaeth plant i blant? Yr wyf yn meddwl yn benodol am y plant hynny a allai dderbyn gofal dros gyfnod hir, oherwydd, os bydd awdurdodau lleol yn rhoi hyd yn oed £50 arall y flwyddyn dros gyfnod eu gofal, byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Yr wyf yn deall bod hyn yn gymwys i'r categori o blant y buasai ganddynt hawl i gael y gronfa ymddiriedolaeth plant petaent wedi'u magu mewn teuluoedd. Fodd bynnag, a wnaiff y Gweinidog ystyried cronfa gynilo ar gyfer plant hŷn sy'n derbyn gofal? Efallai fod rhyw fodd y gallai Llywodraeth y Cynulliad hyrwyddo cronfa o'r fath a buddsoddi ynddi, fel y gwnaeth yn achos y grŵp hwn o blant sy'n derbyn gofal. Sylweddolaf fod cyfyngiadau ar adnoddau, ond gallai fod yn bosibl trafod ag awdurdodau lleol y modd i gymell plant hŷn sydd yn y system derbyn gofal ar hyn o bryd i gynilo, ac i ddeall yr angen i fuddsoddi yn eu dyfodol.

Bydd plant yn cael y swm cyfalaf hwn pan gyrrhaeddant 18 oed. Pa gamau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hynny'n cael mynediad at gyngor da am yr hyn i'w wneud â'r adnodd cyfalaf hwnnw, gan gynnwys cyngor am ei fuddsoddi ac am ei gadw am ychydig o flynyddoedd eto? Yr ydym oll yn gwybod bod llawer o'n pobl ifanc—ac nid y rheini sy'n derbyn gofal yn unig—nad ydynt o reidrwydd yn meddu ar lawer o sgiliau a gwybodaeth ariannol. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn disgwyl gael cyngor o'r fath gan ein rhieni fel arfer, ond nid yw'r dewis hwnnw ar gael yn aml i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'n bwysig bod cyngor ariannol cyffredinol ar gael yn rhwyddach i bobl ifanc i'w helpu i reoli cyllidebau wrth iddynt ddechrau byw'n annibynnol.

A fyddai hefyd yn bosibl ystyried sefydlu

partnership with one of our universities, to look at setting up a research project over a period of years to see how this step helps to improve outcomes for looked-after children and young people leaving care? It is too easy to say that initiatives such as this are a gimmick, and so it would be useful to have some positive evidence to the contrary, and I firmly believe that it is not a gimmick. It would be useful to have some positive evidence to demonstrate the difference that it makes in practical terms, and also in saying to those young people, 'We believe that you are worth this, at least'.

Gwenda Thomas: Thank you, Helen Mary. On your first question on proactive steps, the scheme includes administrative support for local authorities who are already administering the existing scheme for the Welsh Assembly Government. There will be administrative support for the scheme, contributed by the Welsh Assembly Government, as is the case at present, and, now, by the UK Government. All local authorities have participated and have been positive so far in the administration of the child trust fund, and have shown a willingness to contribute to the scheme. I commend them for that, and I am sure that that will continue.

You made a point about older children in care, and I think that the corporate parenting role of local authorities will kick in there. For those children who have missed out because of an accident of birth, because they were born before 1 September 2002, this is an issue, but that it who the Act covers. However, I will take up your point that it would be good to encourage a saving culture among these children, if possible.

You also mentioned that these trust funds come to fruition at the age of 18, and I am sure that the children and young people who want advice at that point will have access to it.

2.00 p.m.

On your last point about the review and evaluation of these schemes, the Welsh

prosiect ymchwil dros gyfnod o flynyddoedd, mewn partneriaeth ag un o'n prifysgolion efallai, i weld sut y mae'r cam hwn yn helpu i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal? Mae'n rhy hawdd dweud bod cynlluniau fel hwn yn gimig, ac felly byddai'n fuddiol cael rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol i'r gwrthwyneb, a chredaf yn gryf nad gimig ydyw. Byddai'n fuddiol cael rhywfaint o dystiolaeth gadarnhaol i ddangos y gwahaniaeth ymarferol y mae'n ei wneud, a hefyd o ran dweud wrth y bobl ifanc hynny, 'Yr ydym yn credu eich bod yn haeddu hyn, o leiaf'.

Gwenda Thomas: Diolch i chi, Helen Mary. Ynghylch eich cwestiwn cyntaf am gamau rhagweithiol, mae'r cynllun yn cynnwys cymorth gweinyddol i awdurdodau lleol sydd eisoes yn gweinyddu'r cynllun presennol ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd cymorth gweinyddol ar gyfer y cynllun, wedi'i gyfrannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, fel y ceir ar hyn o bryd, a, bellach, gan Lywodraeth y DU. Mae'r holl awdurdodau lleol wedi cymryd rhan ac wedi bod yn gadarnhaol hyd yn hyn o ran gweinyddu'r gronfa ymddiriedolaeth plant, ac wedi dangos eu bod yn barod i gyfrannu i'r cynllun. Fe'u cymeradwyaf am hynny, ac yr wyf yn sicr y bydd hynny'n parhau.

Gwnaethoch bwynt am blant hŷn sydd mewn gofal, a chredaf y bydd rôl rhianta corfforaethol yr awdurdodau lleol yn berthnasol yn hynny o beth. Yn achos y plant hynny sydd ar eu colled am iddynt ddiwydd cael eu geni cyn 1 Medi 2002, mae hyn yn fater sy'n codi, ond dyna pwy y mae'r Ddeddf yn ei gynnwys. Er hynny, af ynghylch y pwynt a wnaethoch i'r perwyl y byddai'n dda hybu arferion cynilo ymysg y plant hyn, os oes modd.

Dywedasocho hefyd fod y cronfeydd ymddiriedolaeth hyn yn dwyn ffrwyth yn 18 oed, ac yr wyf yn siŵr y bydd y plant a'r bobl ifanc sydd am gael cyngor bryd hynny'n cael mynediad ato.

Ynghylch eich pwynt diwethaf am adolygu a gwerthuso'r cynlluniau hyn, mae

Assembly Government and the UK Government are committed to reviewing this new scheme at the end of two years. I will take up your point about including a university research programme in that.

Jenny Randerson: Thank you for your statement. As you will recall, the Liberal Democrats were not in favour of the establishment of child trust funds at the outset, because we felt that the £1.25 billion cost over each four-year parliament would be better spent on education—the foundation phase could be a worthy recipient of our portion in Wales. However, since this fund is now fully established and is well under way, I welcome the additional money for a £100 top-up. That is certainly a much more realistic amount to make a difference to a child. In the case of looked-after children—the most vulnerable children in our society—we in Britain have let them down at every stage and continue to let them down in many ways. This is one small contribution to trying to redress the balance. So, I welcome your comments.

However, my concern is for those children who are still missing out, who come mainly from the income group that is at the poorest level in society. Last year's statistics show that the Government spent £14 million promoting and advertising the child trust fund, but that more than a quarter of parents had failed to set one up. As you would expect, the Government's own analysis shows that take-up is lowest among the lower income groups, largely because they cannot afford it and perhaps because they may not have the same level of financial literacy. The Government itself said that those who open an account are considerably more likely to be older—in the 30-plus age group—and to be from the higher social classes. So, the children from poorer families are still missing out.

I believe that this is yet another UK Government gimmick, and is an example of a badly targeted benefit. Following the 10p tax rate fiasco, we accept this, perhaps, as the Government missing its mark. However, this is a universal benefit that, because of the skewed way in which the money is taken up,

Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i adolygu'r cynllun newydd hwn ar ôl dwy flynedd. Af ar drywydd eich pwynt am gynnwys rhaglen ymchwil prifysgol yn hynny.

Jenny Randerson: Diolch yn fawr am eich datganiad. Fel y cofiwch, nid oedd y Democratiaid Rhyddfrydol o blaid sefydlu cronfeydd ymddiriedolaeth plant yn wreiddiol, oherwydd teimlem y byddai'n well gwario'r £1.25 biliwn bob pedair blynedd senedd ar addysg—gallai'r cyfnod sylfaen fod yn achos teilwng i gael ein cyfran ni yng Nghymru. Fodd bynnag, gan fod y gronfa hon yn awr wedi ennill ei phlwyf ac yn mynd rhagddi, croesawaf yr arian ychwanegol i ychwanegu £100. Mae hynny'n sicr yn swm mwy realistig i wneud gwahaniaeth i blentyn. O ran plant sy'n cael gofal—y plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas—yr ydym yn gwneud cam â nhw ym Mhrydain ym mhob cyfnod ac yn dal i wneud cam â nhw mewn nifer o ffyrdd. Mae hwn yn un cyfraniad bach i geisio unioni'r sefyllfa. Felly, croesawaf eich sylwadau.

Fodd bynnag, yr wyf yn poeni am y plant hynny sy'n dal ar eu colled, ac sy'n dod yn bennaf o'r grŵp incwm sydd ar y lefel dlotaf mewn cymdeithas. Dengys ystadegau y llynedd fod y Llywodraeth wedi gwario £14 miliwn yn hyrwyddo ac yn hysbysebu'r gronfa ymddiriedolaeth plant, ond bod dros chwarter y rhieni wedi methu agor cyfrif. Fel y byddech yn ei ddisgwyl, mae dadansoddiad y Llywodraeth ei hun yn dangos mai ymhlith y grwpiau incwm isaf yn bennaf y mae'r gyfran leiaf sy'n manteisio ar y gronfa am nad ydynt yn gallu ei fforddio, ac efallai nad oes ganddynt yr un lefel o lythrennedd ariannol. Dywedodd y Llywodraeth ei hun fod y rheini sy'n agor cyfrif yn fwy tebygol o fod yn hŷn—yn y grŵp oed 30+—ac yn dod o'r dosbarthau cymdeithasol uwch. Felly, mae'r plant o deuluoedd tlotach yn dal ar eu colled.

Credaf fod hyn yn un arall o gimics Llywodraeth y DU, ac yn enghraifft o fudd y cael ei dargedu'n wael. Yn dilyn helynt y gyfradd dreth 10c, derbyniwn hyn, efallai, fel Llywodraeth yn methu ei nod. Fodd bynnag, mae hwn yn fudd cyffredinol, ond oherwydd y duedd anghymesur o ran y bobl sy'n

is disproportionately benefiting the better off in society. So, I am specifically interested in asking you what discussion you have had with the UK Government on how we can increase take-up among the poorer sections in society, so that we can benefit those children who come from the poorest homes and the poorest backgrounds, who will, when they reach adult life at the age of 18, be most likely to have to stand on their own two feet financially—they will not be able to rely on their parents to financially bail them out. What are you doing with the UK Government to ensure that we increase take-up in Wales and what are you doing to ensure that there is take-up among the poorest sections of society?

Gwenda Thomas: Thank you, Jenny. You have also made positive comments, which I acknowledge. I did not quite understand your first point on the cost. We estimate that 500 children will benefit from this new scheme this year. That will rise to 640 children in 2009-10 and to 770 children in 2010-11. That will be at a cost to the Welsh Assembly Government of £50,000, £64,000 and £77,000 over those three years. Therefore, I do not understand the figures that you quoted, but perhaps we can clarify that between us.

You referred to income groups and children who are excluded. The Child Trust Funds Act 2004 and the legal issues that surround it are non-devolved areas. The powers that the Assembly has at present are confined to contributing to child trust funds or encouraging contributions from third parties. However, you could usefully make those points when we consult on the vulnerable children strategy later in the year. We can then look at the issue of non-devolved matters that affect children, as well as the devolved matters.

We have had numerous discussions with the UK Government with regard to the vulnerable children legislative competence Order, which touches on the matters that you raise, and those discussions are ongoing.

manteisio ar yr arian, mae pobl sy'n well eu byd mewn cymdeithas yn elwa'n anghymesur ohono. Felly, mae gennyf ddiddordeb penodol mewn gofyn pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sut y gallwn gael mwy o bobl o rannau tlotaf cymdeithas i fanteisio ar y gronfa, fel y bydd y plant hynny sy'n dod o'r cartrefi a'r cefndiroedd tlotaf yn elwa ohoni. Pan fyddant yn dod yn oedolion yn 18 oed, y rhain sydd fwyaf tebygol o orfod cynnal eu hunain yn ariannol—ni fyddant yn gallu dibynnu ar eu rhieni i'w helpu i ddod allan o dwll ariannol. Beth yr ydych yn ei wneud gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod mwy o bobl Cymru'n manteisio ar y gronfa, a beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod pobl o rannau tlotaf cymdeithas yn manteisio ar y gronfa?

Gwenda Thomas: Diolch yn fawr, Jenny. Yr ydych hefyd wedi gwneud sylwadau cadarnhaol, a chydabyddaf hynny. Nid oeddwn yn deall yn llwyr eich pwynt cyntaf am y costau. Amcangyfrifwn y bydd 500 o blant yn elwa o'r cynllun newydd hwn eleni. Bydd y ffigur yn cynyddu i 640 o blant yn 2009-10 ac i 770 o blant yn 2010-11. Bydd hyn yn costio £50,000, £64,000 a £77,000 i Lywodraeth y Cynulliad dros y tair blynedd hynny. Felly, nid wyf yn deall y ffigurau a ddyfynnwyd gennych, ond efallai y gallwn egluro hynny rhyngom.

Cyfeirich at grwpiau incwm ac at blant sydd wedi'u heithrio. Nid yw Deddf Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant 2004 na'r materion cyfreithiol cysylltiedig yn feysydd sydd wedi eu datganoli. Mae'r pwerau sydd gan y Cynulliad ar hyn o bryd wedi'u cyfyngu i gyfrannu at gronfeydd ymddiriedolaeth plant neu i annog cyfraniadau gan drydydd partion. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gallech wneud y pwyntiau hynny pan fyddwn yn ymgynghori ar y strategaeth ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yna, gallwn edrych ar faterion heb eu datganoli sy'n effeithio ar blant, yn ogystal ag ar faterion wedi'u datganoli.

Cawsom drafodaethau niferus gyda Llywodraeth y DU ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant sy'n agored i niwed, ac maent yn cyfeirio at y materion yr ydych yn eu codi, ac mae'r

Tomorrow, I will be giving evidence to the Welsh Affairs Select Committee in the House of Commons on that vulnerable children legislative competence Order, so we can look at its progress and decide what we want to include in our strategy when we consult on it.

trafodaethau hynny'n mynd rhagddynt. Yfory, byddaf yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw ar blant sy'n agored i niwed, er mwyn inni allu edrych ar y cynnydd a phenderfynu'r hyn yr ydym am ei gynnwys yn ein strategaeth pan fyddwn yn ymgynghori arni.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad.

The Presiding Officer: I thank the Deputy Minister for her statement.

Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiau fod

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 35.6 a 35.8:

the National Assembly for Wales in accordance with Standing Orders Nos. 35.6 and 35.8:

yn atal Rheol Sefydlog Rhif 7.18(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog Rhif 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynigion dan eitem 4 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 14 Mai 2008. (NNDM3940)

suspends Standing Order No. 7.18(i) and that part of Standing Order No. 6.10 that requires the weekly announcement under Standing Order No. 6.3 to constitute the timetable for business in Plenary for the following week, to allow the motions under item 4 to be considered in Plenary on Wednesday 14 May 2008. (NNDM3940)

Y Llywydd: Yr wyf cymryd bod pawb yn cytuno. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: I take it that everyone is in agreement. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion carried.*

Sefydlu ac Ethol Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr Establish and Elect the Proposed Learner Travel Measure Committee

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Cynigiau fod

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 21.1, yn sefydlu pwyllgor i ystyried trafodion Cyfnod 2 y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) ac i gyflwyno adroddiad arno. Bydd y pwyllgor yn dod i ben os bydd y Mesur yn cael ei basio, os bydd yn syrthio

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 21.1 establishes a committee for Stage 2 proceedings of the Proposed Learner Travel (Wales) Measure. The committee shall cease to exist if the proposed Measure is passed, falls or is withdrawn. (NNDM3941)

neu os caiff ei dynnu yn ôl. (NNDM3941)

Cynigiaf fod

I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 10.3, yn ethol Lorraine Barrett (Llafur), Ann Jones (Llafur), Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru), Alun Cairns (Ceidwadwyr) a Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol) yn aelodau o'r Pwyllgor ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Teithio gan Ddysgwyr. (NNDM3942)

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 10.3, elects Lorraine Barrett (Labour), Ann Jones (Labour), Ieuan Wyn Jones (Plaid Cymru), Alun Cairns (Conservative) and Kirsty Williams (Liberal Democrat) as members of the Proposed Learner Travel Measure Committee. (NNDM3942)

Y Llywydd: Yr wyf gweld bod pawb yn mynegi cyntundeb. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynigion eu derbyn.

The Presiding Officer: I see that everyone is expressing agreement. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motions are therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynigion.
Motions carried.*

Dadl yn Ceisio Caniatâd y Cynulliad i Gyflwyno Mesur Arfaethedig Aelod ynghylch Gwasanaethau Ieuenctid
Debate Seeking the Assembly's Leave to Introduce a Member Proposed Measure for Youth Services

Peter Black: I propose that

Peter Black: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 23.103:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.103:

grants leave for Peter Black to introduce a proposed Measure to give effect to the pre-ballot information provided on 6 December 2007 under Standing Order No. 23.102. (NDM3918)

yn caniatáu i Peter Black gyflwyno Mesur arfaethedig er mwyn gweithredu'r wybodaeth cyn y balot a ddarparwyd ar 6 Rhagfyr 2007 dan Reol Sefydlog Rhif 23.102. (NDM3918)

I wanted to start by acknowledging the good work that is already going on around Wales, by local councils and young people's partnerships, in providing vital services for youngsters. There are many examples of good projects all over Wales—run by local councils and their partners—helping to promote crime prevention, working across disciplines within communities, providing mentoring and positive role models, youth forums and play facilities, working in schools, and promoting the involvement of children and young people in community regeneration.

Yr oeddwn am ddechrau drwy gydnabod y gwaith da sydd eisoes ar waith ledled Cymru, gan gynghorau lleol a phartneriaethau pobl ifanc, o ran darparu gwasanaethau hanfodol i bobl ifanc. Mae nifer o enghreifftiau o brosiectau da ledled Cymru—yn cael eu rhedeg gan gynghorau lleol a'u partneriaid—sy'n helpu hyrwyddo atal troseddu, yn gweithio ar draws disgyblaethau o fewn cymunedau, yn darparu mentoriaid a modelau rôl cadarnhaol, fforymau ieuenctid a chyfleusterau chwaraeon, yn gweithio mewn ysgolion ac yn annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn adfywio cymunedol.

There are also some good Welsh Assembly Government strategies, including a national

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd rai strategaethau da, gan gynnwys strategaeth

youth service strategy for Wales, and the extending entitlement scheme, which advocated ensuring that all young people have access to the support that they need to make a success of their lives.

The issue, however, is that little of this provision is statutory. There is no statutory duty on local authorities to provide sporting facilities or leisure centres. Each local authority determines what level of provision they want to provide, and there are significant differences between authorities. I do not seek through this Measure to impose a standard level of youth provision across Wales. Each local authority area has unique needs and pressures. However, at a minimum, there should be a requirement on local councils to consult with young people and systematically plan and deliver services across their area to meet the needs of each community. My Measure seeks to impose that duty.

This is a markedly different approach to that taken by the UK Government in particular. I know from my own experience that many anti-social behaviour incidents reported to the authorities arise because local residents feel intimidated by groups of young people gathering in a particular place. These youngsters can be noisy or boisterous, but that is not a crime. When you talk to them, what they want above anything else is somewhere to go, where they can hang out and where they are safe.

2.10 p.m.

Despite this, the UK Government seeks to demonise these young people. Home Office statistical bulletins, for example, list a series of anti-social behaviour indicators, including abandoned or burnt-out cars, people being drunk or rowdy in public places, using or dealing in drugs and vandalism, graffiti and other deliberate damage to property. I think that we would all agree that these amount to anti-social behaviour. However, I am not so sure whether, in the vast majority of cases, teenagers hanging around on the streets fall into the same class, yet it is also listed there. Let us be clear: the vast majority of young people do not engage in anti-social

genedlaethol ar gyfer gwasanaeth ieuentid Cymru, a'r cynllun ymestyn hawliau, a oedd yn eiriol dros sicrhau bod pobl ifanc i gyd yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i gael bywyd llwyddiannus.

Fodd bynnag, y broblem yw mai ychydig iawn o hyn sy'n statudol. Nid oes dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau chwaraeon neu ganolfannau hamdden. Mae pob awdurdod lleol yn pennu faint o ddarpariaeth y mae'n ei ddarparu, ac mae cryn wahaniaeth rhwng awdurdodau. Nid wyf am geisio gosod lefel safonol ar gyfer darpariaeth i bobl ifanc ledled Cymru drwy'r Mesur hwn. Mae gan bob ardal awdurdod lleol anghenion a phwysau unigryw. Fodd bynnag, dylai fod yn ofynnol i gynghorau lleol o leiaf ymgynghori â phobl ifanc a chynllunio a chyflwyno gwasanaethau'n systematig ledled eu hardal i ddiwallu anghenion pob un gymuned. Mae fy Mesur yn ceisio gosod y ddyletswydd honno.

Mae hon yn agwedd wahanol iawn i agwedd Llywodraeth y DU yn benodol. Gwn o'm profiad fy hun fod nifer o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol y bydd yr awdurdodau'n cael gwybod amdanynt yn digwydd oherwydd bod trigolion lleol yn teimlo dan fygythiad gan grwpiau o bobl ifanc yn ymgasglu mewn lle penodol. Gall y bobl ifanc hyn fod yn swnllyd ac yn llawn miri, ond nid yw hynny'n drosedd. Pan siaradwch â nhw, yr hyn y mae arnynt ei angen yn anad dim yw rhywle i fynd, lle gallant sefyllian a bod yn ddiogel.

Er hyn, mae Llywodraeth y DU yn ceisio pardduo'r bobl ifanc hyn. Mae bwletinâu ystadegol y Swyddfa Gartref, er enghraifft, yn rhestru cyfres o ddangosyddion ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys ceir sy'n cael eu gadael a'u llosgi, pobl yn feddw neu'n afreolus mewn lleoedd cyhoeddus, defnyddio neu werthu cyffuriau, neu fandaleiddio, graffiti a difrod bwriadol arall i eiddo. Credaf y byddem bob un yn cytuno bod y rhain yn gyfystyr ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, nid wyf mor siŵr, yn y rhan fwyaf o achosion, a yw pobl ifanc yn eu harddegau yn sefyllian ar y stryd yn yr un dosbarth, ond mae hynny ar y

behaviour. However, they require facilities and a place to go where they can socialise and engage with their peers in the same way as everyone else. They need adequate transport provision and affordable leisure facilities. The group most likely to be victims of anti-social behaviour or crime are young people themselves.

We have talked recently about the value of play in helping 3 to 7-year-olds learn as part of the foundation phase. The same applies to teenagers and those in their early 20s as well. Youth provision does not have to be structured around educational opportunities, nor does it have to be organised leisure time. Many young people would run a mile from such services. Young people need to be treated with respect and trusted to fill their own leisure time. In my view, it is the role of statutory authorities to provide facilities to enable them to fulfil their potential and so enable them to learn how to interact with others and to take responsibility for their own lives.

A recent report commissioned jointly by South Wales Police and the Children's Commissioner for Wales identified the benefits of a more universal youth provision as providing positive things for young people to do. This can include increasing confidence and competence among marginalised children and young people, the greater involvement of young people and other local residents in positive community-based activity, the better co-ordination of specialist services for children and young people, and improvements to the physical environment and provision of opportunities for economic regeneration. The report stated that:

'Whilst recognising the many positive initiatives that are being taken forward in South Wales...there is a feeling amongst many practitioners that much more could be achieved. For example, what benefits would be derived from services being able to better co-ordinate or integrate the diverse range of activity that is currently available? Is it possible to look at all of the statutory, private, voluntary and community group activity with

rhestr. Gadewch inni fod yn glir: nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Fodd bynnag, mae arnynt angen cyfleusterau a lleoedd i fynd i gymdeithasu â'u ffrindiau fel phawb arall. Mae arnynt angen darpariaeth cludiant digonol a chyfleusterau hamdden fforddiadwy. Y grŵp sydd fwyaf tebygol o ddioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drosedd yw pobl ifanc eu hunain.

Yr ydym wedi siarad yn ddiweddar am werth chwarae wrth helpu plant rhwng 3 a 7 oed i ddysgu fel rhan o'r cyfnod sylfaen. Mae'r un peth yn wir am bobl ifanc yn eu harddegau a phobl yn eu 20au cynnar hefyd. Nid yw'n rhaid i ddarpariaeth i bobl ifanc gael ei seilio ar gyfleoedd addysgol yn unig, nac ychwaith ar amser hamdden wedi ei drefnu. Byddai llawer o bobl ifanc yn troi eu cefnau'n syth ar wasanaethau felly. Mae angen trin pobl ifanc gyda pharch, a dylid ymddiried ynddynt i lenwi eu hamser hamdden eu hunain. Yn fy marn i, swyddogaeth awdurdodau statudol yw darparu'r cyfleusterau i'w galluogi i gyflawni eu potensial a'u galluogi i ddysgu sut i ryngweithio ag eraill a chymryd y cyfrifoldeb dros eu bywydau eu hunain.

Mewn adroddiad yn ddiweddar a gomisiynwyd ar y cyd gan Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Plant, tynnwyd sylw at fanteision cael darpariaeth fwy cyffredinol ar gyfer pobl ifanc er mwyn darparu pethau mwy cadarnhaol i bobl ifanc eu gwneud. Gall hyn gynnwys meithrin hyder a gallu ymysg plant a phobl ifanc sydd ar y cyrion, cael pobl ifanc a thrigolion lleol eraill i gymryd mwy o ran mewn gweithgareddau cadarnhaol yn y gymuned, cydlynu gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc yn well, gwella'r amgylchedd ffisegol a darparu cyfleoedd ar gyfer adfywio economaidd. Meddai'r adroddiad:

'Er eu bod yn cydnabod y mentrau cadarnhaol niferus sydd yn cael eu datblygu yn Ne Cymru... mae llawer o ymarferwyr yn teimlo y gellid cyflawni llawer mwy. Er enghraifft, pa fanteision ddeuai yn sgil gwell gallu ymhlith gwasanaethau i gydlynu neu integreiddio'r amrywiaeth mawr o weithgaredd sydd ar gael ar hyn o bryd? A oes modd edrych ar yr holl weithgaredd statudol, preifat, gwirfoddol a grwpiau

and for young people and develop a more holistic approach? A model that offers a broad menu of services and support, involves young people in improving the communities in which they live; and which involves service providers working in collaboration rather than competition.'

It is that vision that I hope to work towards through this Measure.

One of the best examples of the sort of provision that I believe is beneficial is the KPC youth centre in Pyle, in Bridgend. The facility could act as an exemplar of good practice to local authorities up and down the country, yet KPC youth is not operated by the council, but is run on a completely voluntary basis. The facility was started by Helena Parobij after her 18-year old son died of a drug overdose. Her vision was for a youth centre that would provide an opportunity for young people to escape the kind of boredom that might cause anti-social behaviour, petty crime or drug use. When setting up the facility, Helena asked local youngsters what kind of facilities they wanted and the result is a state-of-the-art centre with a music and dance studio, a computer suite, pool and table tennis tables, drop-in cafe, information centre, all-weather pitch, BMX course, skateboard park and much more. It has 750 18 to 25-year-olds on its books from Pyle, Cornelly, Kenfig Hill and Cefn Cribwr and there has been a drop in crime in those communities. Agencies such as the police are fully engaged and, the last time that I spoke to them, there were plans to set up a social enterprise there to ease the path of local youngsters into employment. The big issue for the centre has been the lack of core funding. It is now on its third three-year lottery grant and raises money from a host of other events and donations.

If you talk to young people in other communities, they will tell you that there are very few things for teenagers to do or places to go. They want more after-school facilities, music facilities and drama groups, youth

cymunedol gydag ac ar gyfer pobl ifanc a datblygu ymagwedd fwy cyfannol? Model sy'n cynnig dewis eang o wasanaethau a chefnogaeth, sy'n cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o wella'r cymunedau lle y maent yn byw; ac sy'n golygu bod darparwyr gwasanaethau'n cydweithio yn hytrach na chystadlu.'

Dyna'r weledigaeth yr wyf yn gobeithio ymgynraedd ati drwy'r Mesur hwn.

Un o'r enghreifftiau gorau o'r math o ddarpariaeth y credaf sy'n fuddiol yw'r ganolfan ieuentid KPC yn y Pîl, ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gallai'r cyfleuster fod yn enghraifft o arfer da i awdurdodau lleol ledled y wlad, ond ni chaiff canolfan ieuentid KPC ei rhedeg gan y cyngor, ond yn hytrach ar sail hollol wirfoddol. Helena Parobij oedd yn gyfrifol am gychwyn y cyfleuster ar ôl i'w mab 18 oed farw o orddos o gyffuriau. Ei gweledigaeth hi oedd canolfan ieuentid a fyddai'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddianc o'r math o ddifflastod a allai achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol, mân droseddau neu gymryd cyffuriau. Pan oedd Helena yn sefydlu'r cyfleuster, gofynnodd i'r bobl ifanc leol pa fath o gyfleusterau yr hoffent eu cael, a'r canlyniad yw canolfan fodern gyda stiwdio gerddoriaeth a dawns, ystafell cyfrifiaduron, byrddau pŵl a thenis bwrdd, caffï galw-heibio, canolfan wybodaeth, maes chwarae pob tywydd, cwrs BMX, parc sglefr-fyrddio a llawer iawn mwy. Mae dros 750 o bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed ar y gofrestr o'r Pîl, Corneli, Mynydd Cynffig a Cefn Cribwr a gwelwyd gostyngiad mewn troseddau yn y cymunedau hynny. Mae asiantaethau megis yr heddlu yn ymgysylltu'n llawn, a'r tro diwethaf i mi siarad â nhw yr oedd ganddynt gynlluniau i sefydlu menter gymdeithasol i hwyluso llwybr pobl ifanc leol i gyflogaeth. Y broblem fawr i'r ganolfan yw'r prinder cyllid craidd. Bellach, mae grant y loteri yn ei drydedd flwyddyn ac maent yn codi arian drwy gynnal llu o ddigwyddiadau eraill a thrwy roddion.

Os siaradwch â phobl ifanc mewn cymunedau eraill, byddant yn dweud wrthyhch nad oes gan bobl ifanc yn eu harddegau lawer i'w wneud na lleoedd i fynd. Maent am gael mwy o gyfleusterau ar ôl yr ysgol,

clubs, better leisure facilities and much more. They would like a centre like the KPC youth centre, or something similar. Where we do not have that provision, we are failing young people and we are failing the communities in which they live. I ask, therefore, that we give those youngsters a chance by supporting this Measure today. Let us put a duty on local authorities to provide those facilities, backed up by the Assembly Government and any additional resources that it can put in to support that duty.

The Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Hutt):

I welcome the opportunity for the Assembly to have this debate about supporting young people as a result of your initiative, Peter. As you say, the youth service has a key role to play in opening up opportunities for young people to develop a range of new knowledge, skills and attitudes that will be of use and importance in their lives. With enhanced resources and the new youth service strategy, a wider range of positive contacts and engagement with young people is opening up, and these positive opportunities result in the wellbeing of individuals and the communities in which they live, work and enjoy their leisure time. A wider outcome of this learning process is that young people are positively and constructively engaged in their leisure time.

It is estimated that, each year, 200,000 young people in Wales are in contact with the youth service and other Assembly Government strategies. This is likely to increase to 300,000. An added value of the youth service is that it contributes to the reduction of youth annoyance, crime, substance misuse, unemployment, poor educational attainment, poor sexual health and teenage pregnancy.

To develop appropriate skills, young people need access to a wide range of creative and challenging activities to support them in making positive and constructive choices, to gain new skills and enhanced emotional competence, and to learn from their

cyfleusterau cerddoriaeth a grwpiau drama, clybiau ieuenctid, gwell cyfleusterau hamdden a llawer iawn mwy. Hoffent gael canolfan debyg i ganolfan ieuenctid KPC, neu rywbeth cyffelyb. Lle nad oes gennym y ddarpariaeth honno, yr ydym yn gwneud tro gwael â phobl ifanc ac yn gwneud tro gwael â'r cymunedau lle maent yn byw. Gofynnaf, felly, inni roi cyfle i'r bobl ifanc hynny drwy gefnogi'r Mesur hwn heddiw. Gadewch inni roi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r cyfleusterau hynny, gyda chefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad ac unrhyw adnoddau ychwanegol y gall eu rhoi i gefnogi'r ddyletswydd honno.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):

Croesawaf y cyfle i'r Cynulliad gael y ddatl hon am gefnogi pobl ifanc yn sgil eich menter chi, Peter. Fel y dywedwch, mae gan y gwasanaeth ieuenctid rôl allweddol wrth agor y drws i gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu ystod o wybodaeth, sgiliau ac agweddau newydd a fydd o ddefnydd ac o bwys yn eu bywydau. Gyda mwy o adnoddau a'r strategaeth gwasanaeth ieuenctid newydd, mae ystod ehangach o gysylltiadau cadarnhaol a dulliau o feithrin cysylltiad â phobl ifanc yn ymagor, ac mae'r cyfleoedd cadarnhaol hyn yn llesol i unigolion ac i'r cymunedau lle maent yn byw, yn gweithio ac yn mwynhau eu hamser hamdden. Canlyniad ehangach i'r broses ddysgu hon yw bod pobl ifanc yn treulio'u hamser hamdden mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol.

Amcangyfrifir bod 200,000 o bobl bob blwyddyn yng Nghymru mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ieuenctid a strategaethau eraill Llywodraeth y Cynulliad. Mae hyn yn debygol o gynyddu i 300,000. Gwerth ychwanegol y gwasanaeth ieuenctid yw ei fod yn cyfrannu at leihau ymddygiad blinderus gan bobl ifanc, troseddu, camddefnyddio sylweddau, diweithdra, diffyg cyrhaeddiad addysgol, iechyd rhywiol gwael a beichiogrwydd yn yr ardegau.

Er mwyn iddynt feithrin sgiliau priodol, mae angen i bobl ifanc allu cael ystod eang o weithgareddau creadigol sy'n her iddynt i'w cynorthwyo i ddewis yn gadarnhaol ac yn adeiladol, i feithrin sgiliau newydd a gallu delio'n well â'u hemosiynau, ac i ddysgu o'u

experiences and supportive surroundings with the help of appropriate adults. Young people's rights to participate in making decisions, and in planning and in reviewing actions that concern them is enshrined in the youth service approach.

It might be worth remembering that it is estimated that young people spend the equivalent of nine minutes of every waking hour in formal learning in school settings. This means that they spend the remaining 51 minutes at home and in their communities. It is here in the community-based setting that the youth service in particular has the greatest untapped capacity to make a difference to the lives of young people. The important contribution made by non-formal learning opportunities to the lives of young people, their communities and the economy of Wales is recognised in 'The Learning Country: Vision into Action', our 10-year strategy to transform education and lifelong learning in post-devolution Wales.

The Assembly Government's policy for those aged between 11 and 25, 'Extending Entitlement: supporting young people in Wales', takes a distinctive, constructive, participatory and enabling policy approach, recognising that young people have a universal entitlement to education, training, work experience, basic skills, volunteering opportunities, high-quality and accessible services, information advice services, personal support and advice, recreational and social opportunities and, yes, Peter, the right to be heard, to be consulted on and to participate in decisions that concern them or impact on their lives. Recreation and social opportunities delivered by the youth service would include arts, cultural and sporting activities, which align to the aspirations in 'One Wales', which also contains a commitment to place a statutory obligation on local authorities to promote culture and to encourage partnership to deliver high-quality cultural experiences for their communities.

You raised the importance of partnership and co-ordination. One of the key aims in

profiadau a'u hamgylchedd cefnogol gyda chymorth oedolion priodol. Mae hawliau pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses benderfynu, ac wrth gynllunio ac adolygu'r camau sy'n berthnasol iddynt, yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r gwasanaeth ieuenctid yn gwneud ei waith.

Gall fod yn werth cofio yr amcangyfrifir bod pobl ifanc yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i naw munud o bob awr pan fyddant yn effro yn dysgu mewn man dysgu ffurfiol yn yr ysgol. Golyga hyn eu bod yn treulio'r 51 munud arall gartref ac yn eu cymunedau. Yma yn y gymuned y mae'r cyfle mwyaf i'r gwasanaeth ieuenctid yn benodol wneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc, cyfle na fanteisiwyd arno eto. Caiff cyfraniad pwysig cyfleoedd dysgu anffurfiol i fywydau pobl ifanc, i'w cymunedau ac i economi Cymru ei gydnabod yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', ein strategaeth 10-mllynedd i weddnewid addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru ers datganoli.

Mae polisi Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer pobl rhwng 11 a 25 oed, 'Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru', yn arddel agwedd bolisi unigryw, adeiladol, gyfranogol a galluogol, gan gydnabod bod gan bobl ifanc hawl sylfaenol i addysg, hyfforddiant, profiad gwaith, sgiliau sylfaenol, cyfleoedd i wirfoddoli a gwasanaethau o safon uchel a'r rheini ar gael yn rhwydd, gwasanaethau cyngor am wybodaeth, cymorth a chyngor personol, cyfleoedd i hamddena a chymdeithasu, ac ie, Peter, yr hawl i gael eu clywed, i bobl ymgynghori â hwy ac i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n berthnasol iddynt neu sy'n effeithio ar eu bywydau. Rhai o'r cyfleoedd i hamddena a chymdeithasu a ddarperid gan y gwasanaeth ieuenctid fyddai gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon. Mae hynny'n gyson â dyheadau 'Cymru'n Un', sydd hefyd yn cynnwys ymrwymiad i osod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo diwylliant ac annog partneriaeth er mwyn darparu profiadau diwylliannol o safon uchel ar gyfer eu cymunedau.

Soniecch am bwysigrwydd partneriaeth a chydlynu. Un o amcanion allweddol

'Extending Entitlement' is to ensure that providers of broader youth services should work together to provide a network of support and experiences to all young people. Local authorities are expected to work in partnership with other agencies, including those from the voluntary sector, to ensure the provision of a comprehensive network of services for young people in their areas.

In support of the implementation of 'Extending Entitlement' in 2007, the Assembly Government published a national youth service strategy, the purpose of which was to provide a vision for the youth service in Wales and its contribution to the Assembly Government's policy agenda. In 'One Wales', the Assembly Government committed itself to the establishment of a new national youth service fund to support local authorities to co-ordinate the implementation of the youth service strategy. Over the next three years, an additional £10 million in capital funding will be made available to local authorities to support building improvements and the purchase of equipment. In addition, £3 million in revenue funding is also being made available over the next two years to assist authorities to deliver on the outcomes for young people identified in the youth service strategy. That includes the appointment of short-term specialist instructors to widen the range of activities offered by the youth service, the development of a national marketing strategy, raising the profile of the youth service, and contributing to our targets to increase the number of young people who engage with the youth service. In addition to the new funding already agreed with the youth service, we are also looking at how the unclaimed assets fund could be used to meet the vision of the youth service identified in the strategy.

2.20 p.m.

On 13 June 2002, the National Assembly for Wales unanimously approved a motion on the Youth Support Services Directions (Wales) 2002. During the debate, my colleague Jane Davidson, in her capacity as the then Minister for Education, Lifelong Learning and Skills, was able to announce that the directions set

'Ymestyn Hawliau' yw sicrhau y dylai darparwyr gwasanaethau ieuencid ehangach gydweithio i ddarparu rhwydwaith o gefnogaeth a phrofiadau ar gyfer pob person ifanc. Disgwylir i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, gan gynnwys y rheini o'r sector gwirfoddol, er mwyn sicrhau darparu rhwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yn eu hardaloedd.

I gefnogi gweithredu 'Ymestyn Hawliau' yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad strategaeth genedlaethol ar wasanaeth ieuencid, a'i phwrpas oedd darparu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ieuencid yng Nghymru a'i gyfraniad at agenda bolisi Llywodraeth y Cynulliad, Yn 'Cymru'n Un', ymrwymodd Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu cronfa gwasanaeth ieuencid cenedlaethol newydd i helpu awdurdodau lleol i gydlyn rhai'r strategaeth gwasanaeth ieuencid ar waith. Dros y tair blynedd nesaf, darperir £10 miliwn yn ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol ar ffurf arian cyfalaf i'w cynorthwyo i wella adeiladau a phrynu offer. Hefyd, darperir £3 miliwn o arian refeniw dros y ddwy flynedd nesaf i gynorthwyo awdurdodau i wireddu'r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc y cyfeirir atynt yn y strategaeth gwasanaeth ieuencid. Mae hynny'n cynnwys penodi hyfforddwyr arbenigol tymor byr i ehangu'r ystod o weithgareddau a gynigir gan y gwasanaeth ieuencid, datblygu strategaeth farchnata genedlaethol, codi proffil y gwasanaeth ieuencid a chyfrannu at ein targedau i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth ieuencid. Yn ogystal â'r arian newydd y cytunwyd arno eisoes gyda'r gwasanaeth ieuencid, yr ydym hefyd yn edrych i weld sut y gellid defnyddio'r gronfa asedau sydd heb eu hawlio i wireddu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ieuencid fel y'i disgrifir yn y strategaeth.

Ar 13 Mehefin 2002, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unfrydol gynnig ar y Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuencid (Cymru) 2002). Yn ystod y ddadl, yr oedd modd i'm cyd-Weinidog, Jane Davidson, yn rhinwedd ei swydd ar y pryd fel y Gweinidog dros Addysg, Dysgu

out for the first time a statutory basis for the youth service in Wales. The 2002 directions, made under the powers conferred by section 123 of the Learning and Skills Act 2000, direct local authorities to provide, secure the provision of or participate in the provision of youth support services, having regard to guidance issued by Welsh Ministers. Youth support services are those services that, in the opinion of the Assembly, encourage, enable or assist young people, directly or indirectly, to participate effectively in education and training, to take advantage of opportunities for employment or to participate effectively in the life of their communities.

I support and endorse Peter's call for local authorities to respond effectively to the needs of young people. The Assembly is committed to implementing the principles of the UN Convention on the Rights of the Child in all aspects of its influence and direct work with young people. 'Extending Entitlement' creates a statutory requirement for local authorities to establish young people's partnerships and to work with the partnerships to prepare a strategic plan for youth support services. The requirement for this plan was modified under the planning guidance issued under the Children Act 2004, which has replaced the requirement for annual delivery plans for youth support services with a requirement for children and young people's plans. The first children and young people's plans, covering 2008 to 2011, are required to be adopted by the end of July this year, and published by the end of September.

As a result of your recognition of the importance of local authorities delivering on their statutory duties, Peter, I have recognised that this new planning requirement for children and young people's partnerships, coupled with the scope for interpretation that could be applied by local authorities to the 2002 directions, means that it is a timely opportunity to review the 'Extending Entitlement' directions and guidance. As part of this process, I have asked my officials to

Gydol Oes a Sgiliau, gyhoeddi bod y cyfarwyddiadau'n gosod allan am y tro cyntaf sylfaen statudol ar gyfer y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Mae cyfarwyddiadau 2002, a wnaethpwyd dan y pwerau a ganiateir gan adran 123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau'r ddarpariaeth neu gyfranogi wrth ddarparu gwasanaethau i gynorthwyo pobl ifanc, gan roi sylw i'r arweiniad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Gwasanaethau Cymorth i bobl ifanc yw'r gwasanaethau hynny sydd, ym marn y Cynulliad, yn annog, yn galluogi neu'n cynorthwyo pobl ifanc, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant, i fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith, neu i gymryd rhan yn effeithiol ym mywyd eu cymunedau.

Yr wyf yn cefnogaf ac yn ategu cais Peter ar i awdurdodau lleol ymateb yn effeithiol i anghenion pobl ifanc. Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i roi egwyddorion Cynhadledd y CU ar Hawliau'r Plentyn ar waith ym mhob agwedd lle mae ganddo ddylanwad ac yn ei waith uniongyrchol gyda phobl ifanc. Mae 'Ymestyn Hawliau' yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu partneriaethau pobl ifanc, a gweithio gyda'r partneriaethau i baratoi cynllun strategol ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl ifanc. Addaswyd y gofyniad ar gyfer y cynllun hwn dan y cyfarwyddyd cynllunio a gyhoeddwyd dan Ddeddf Plant 2004. Yn lle'r gofyniad i ddarparu cynlluniau cyflawni blynyddol ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl ifanc, mae gofyniad i ddarparu cynlluniau plant a phobl ifanc. Mae'n ofynnol mabwysiadu'r cynlluniau plant a phobl ifanc cyntaf, ar gyfer 2008-2011, erbyn diwedd mis Gorffennaf eleni, a'u cyhoeddi erbyn diwedd mis Medi.

A chithau wedi cydnabod pwysigrwydd awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol, Peter, yr wyf wedi cydnabod bod y gofyniad cynllunio newydd hwn ar gyfer partneriaethau plant a phobl ifanc, ynghyd â'r lle i ddehongli y gellid ei gymhwyso gan awdurdodau lleol i gyfarwyddiadau 2002, yn golygu ei bod yn gyfle da yn awr inni adolygu cyfarwyddiadau ac arweiniad 'Ymestyn Hawliau'. Fel rhan o'r broses hon, yr wyf wedi gofyn i'm

revise the directions and guidance in relation to youth support services and to provide additional clarification on the Assembly's expectations and requirements for youth and allied services where necessary. I believe that this will strengthen the statutory basis of the youth service in Wales and ensure that local authorities implement this existing statutory duty to full effect for the purposes for which it is intended.

As you know, Peter, given that we have had discussions on this, I do not intend to move for a new statutory basis, because I believe that we already have it enshrined in statute, but I would very much welcome your contribution to rewriting the directions and guidance. I have asked my officials to share with you a copy of the pre-consultation draft, so that you might comment on its content and on whether you believe that it will meet the aspirations of your proposed Measure. I believe that your knowledge, commitment and influence has been recognised today and I hope that you will view the revision and strengthening of the guidance as meeting the intentions laid out in your proposed Measure.

Nick Ramsay: I welcome the broad policy objectives of Peter Black's Measure, specifically the aim to create an opportunity gateway for our young people and to increase the opportunities for young people to learn and contribute to society. In the long list of decisions that affect young people and their lives that the Minister gave earlier, it was made clear that young people need to have the strongest voice possible in the decisions that affect them and to feel that they are being listened to and taken into account in all parts of the process.

We all agree that establishing further educational and recreational facilities has virtue—the case for that was well made by Peter in his opening remarks. Youth services are a key way in which local authorities can engage with young people in their areas, and it is crucial that they are adequately supported and that those authorities that are less effective in supporting those services are encouraged to improve their act wherever possible.

swyddogion ddiwygio'r cyfarwyddiadau a'r arweiniad yng nghyswllt gwasanaethau cymorth i bobl ifanc, a darparu eglurhad pellach o ddisgwyliadau a gofynion y Cynulliad o ran gwasanaethau ieuencid a gwasanaethau cysylltiedig lle mae angen. Credaf y bydd hyn yn cryfhau sylfaen statudol y gwasanaeth ieuencid yng Nghymru ac yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'r ddyletswydd statudol hon sydd eisoes yn bod at y dibenion a fwriedir.

Fel y gwyddoch, Peter, gan ein bod wedi trafod hyn, nid wyf yn bwriadu cynnig sylfaen statudol newydd, oherwydd credaf fod honno gennym eisoes wedi'i hymgorffori mewn statud, ond byddwn yn croesawu'ch cyfraniad yn fawr wrth ailysgrifennu'r cyfarwyddiadau a'r arweiniad. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion roi i chi gopi o'r drafft cyn-ymgyngori, er mwyn ichi roi eich sylwadau am ei gynnwys a dweud a ydych yn credu y bydd yn gwireddu dyheadau eich Mesur arfaethedig. Credaf bod eich gwybodaeth, eich ymrwymiad a'ch dylanwad wedi eu cydnabod heddiw, a gobeithio y gwelwch fod diwygio a chryfhau'r arweiniad yn bodloni'r bwriadau sydd yn eich Mesur arfaethedig.

Nick Ramsay: Croesawaf amcanion polisi cyffredinol Mesur Peter Black, yn benodol y nod o greu porth cyfle i'n pobl ifanc ac i gynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a chyfrannu i'r gymdeithas. Yn y rhestr hir o benderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc ac ar eu bywydau a gawsom gan y Gweinidog gynnu, fe'i gwnaethpwyd yn glir fod angen i bobl ifanc gael y llais cryfaf posibl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i deimlo bod rhywun yn gwranddo arnynt ac yn rhoi sylw iddynt ym mhob rhan o'r broses.

Yr ydym i gyd yn cytuno bod sefydlu rhagor o gyfleusterau addysg a hamdden yn beth da—yr oedd sylwadau agoriadol Peter yn ddadl gref o blaid hynny. Mae gwasanaethau ieuencid yn un ffordd allweddol i awdurdodau lleol greu cysylltiad â phobl ifanc yn eu hardaloedd, ac mae'n hollbwysig iddynt gael cymorth digonol a bod yr awdurdodau hynny sy'n llai effeithiol wrth gefnogi'r gwasanaethau hynny yn cael eu hannog i wella pethau lle bynnag y mae'n

While supporting the overall aim of this Measure, I urge a note of caution that altering the statutory basis of local authorities' obligation to youth services, which is at the heart of this proposal, will not automatically deliver the sort of improvements that we wish to see, although I appreciate the part that Peter Black believes that it will play. Furthermore, we know that local authorities are struggling with a tight financial situation and must have the resources at their disposal to improve youth services regardless of the statutory requirement. That is not to say that many of them do not do a good job at the moment, and I welcome the comments made earlier about how some authorities deliver in this respect. However, I appreciate that it is not a level playing field; we would like to see an improvement across the board.

In my constituency, Monmouthshire Youth Service works in collaboration with the Assembly Government, the local authority and the police to deliver an integrated network of youth facilities and opportunities. Let us not forget that, under the Children Act 2004, local authorities must already identify lead members and the directors for children and young people. There was a time when that would not have been the case, so, as the Minister said, there are statutory arrangements already in place. We need to look at ways to strengthen and support those.

The proposal before us is compatible with the existing Act. As the Minister said, I would like to see Peter Black put a little more meat on the bones with regard to how this proposed Measure would improve the situation. Let us look at the way in which we can strengthen the legal framework for young people, but let us also look at the nature of the services that are being provided. It is too easy for us to assume that we know what is best for young people and that we are providing the best services or supporting local authorities to provide the best services, without necessarily looking at the evidence. Therefore, whatever the statutory framework is and whatever resources are being put in, let us ensure that we are listening to what young people actually want and that, at the end of it,

bosibl.

Er fy mod yn cefnogi nod cyffredinol y Mesur hwn, rhoddaf air o rybudd, sef na fydd newid sylfaen statudol y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i wasanaethau ieuenctid, sef yr hyn sydd wrth galon y cynnig hwn, o reidrwydd yn arwain at y math o welliannau y dymunwn eu gweld, er y sylweddolaf y rhan y mae Peter Black yn credu y bydd yn ei chwarae. Hefyd, gwyddom fod awdurdodau lleol yn straffaglu gyda sefyllfa ariannol dynn a'i bod yn rhaid iddynt gael yr adnoddau i wella gwasanaethau ieuenctid, ni waeth beth yw'r gofyniad statudol. Nid yw hynny'n golygu nad yw llawer ohonynt yn gwneud gwaith da ar hyn o bryd, a chroesawaf y sylwadau a gafwyd yn gynharach am y ffordd y mae rhai awdurdodau'n llwyddo yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, sylweddolaf nad yw'r maes chwarae yn un gwastad; byddem yn hoffi gweld gwella ym mhob cwr.

Yn fy etholaeth i, mae Gwasanaethau Ieuenctid sir Fynwy yn cydweithio â Llywodraeth y Cynulliad, â'r awdurdod lleol ac â'r heddlu i ddarparu rhwydwaith integredig o gyfleusterau a chyfleoedd i bobl ifanc. Gadewch inni beidio ag anghofio, dan Ddeddf Plant 2004, ei bod eisoes yn rhaid i awdurdodau lleol ddynodi'r aelodau sy'n arwain a'r cyfarwyddwyr ar gyfer plant a phobl ifanc. Ar un adeg, ni fyddai'n rhaid gwneud hynny, felly, fel y dywedodd y Gweinidog, mae trefniadau statudol ar gael eisoes. Mae angen inni edrych ar ffyrdd i gryfhau a chefnogi'r rheini.

Mae'r cynnig sydd ger ein bron yn gydnaws â'r Ddeddf bresennol. Fel y dywedodd y Gweinidog, byddwn yn hoffi gweld Peter Black yn rhoi ychydig mwy o gnawd ar yr esgyrn o ran sut y byddai'r Mesur hwn a gynigir yn gwella'r sefyllfa. Gadewch inni edrych ar y ffordd y gallwn gryfhau'r fframwaith cyfreithiol i bobl ifanc, ond gadewch inni hefyd edrych ar natur y gwasanaethau a ddarperir. Mae'n rhy hawdd inni dybio ein bod yn gwybod beth sydd orau i bobl ifanc a'n bod yn darparu'r gwasanaethau gorau neu'n cynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau gorau, heb edrych o anghenraid ar y dystiolaeth. Felly, beth bynnag yw'r fframwaith statudol a pha adnoddau bynnag a ddarperir, gadewch inni sicrhau ein bod yn

they get out of this what they would want.

gwrando ar yr hyn y mae pobl ifanc mewn gwirionedd yn dymuno'i gael, a'u bod, yn y pen draw, drwy hyn yn cael yr hyn a ddymunent.

Leanne Wood: First, I wish to thank Peter Black for proposing a Measure on this issue. Too often in the current political climate, young people are demonised as 'hoodies', binge drinkers, drug-takers, thugs, timewasters, troublemakers and so on. There has been a concerted propaganda campaign on the part of central Government, backed up by the tabloids, to demonise young people in that way. What has been the result of that propaganda campaign? It has been anti-social behaviour orders, the doubling of the child prison population in a decade and worsening substance use problems among young people. At the same time, the British crime survey shows that young men under the age of 21 are most likely to be the victims of violent crime and that 10 to 15-year-olds are more than twice as likely to be the victim of general crime as adults over 25.

Leanne Wood: Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Peter Black am gynnig Mesur ar y pwnc hwn. Yn rhy aml yn yr hinsawdd gwleidyddol presennol, bydd pobl ifanc yn cael eu pardduo'n 'hwdis', yn labystiau, yn rhai sy'n yfed yn afreolus, yn cymryd cyffuriau, yn gwastraffu amser, yn creu helynt, ac ati. Mae ymgyrch bropaganda ddwys wedi bod ar waith ar ran y Llywodraeth ganol, a'r papurau poblogaidd yn ei chefnogi, i bardduo pobl ifanc fel hynny. Beth yw canlyniad yr ymgyrch bropaganda honno? Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol, dyblu nifer y plant dan glo mewn degawd, a phroblemau camddefnyddio sylweddau'n gwaethygu ymhlith pobl ifanc. Ar yr un pryd, dengys yr arolwg o droseddau Prydain mai dynion ifanc dan 21 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o ddiodef oherwydd troseddau treisgar, a bod pobl ifanc rhwng 10 a 15 oed fwy na dwywaith mor debygol o ddiodef yn sgil troseddu cyffredinol ag yw oedolion dros 25 oed.

Youth crime takes place mostly in public, on the streets, where young people hang around. That is why it is the easiest form of crime to tackle. Although the Home Secretary has recently announced a review, Government targets have been in place for offences brought to justice; the police must bring a total of 1.25 million cases to justice every year. Although the number of adult convictions has remained static, that target is still exceeded. Rod Morgan, the former chair of the Youth Justice Board, says that, for the police, arresting children who are hanging around on the streets is just like picking low-hanging fruit.

Mewn mannau cyhoeddus, gan mwyaf, y bydd troseddau ieuenctid yn digwydd, ar y strydoedd, lle bydd pobl ifanc yn loetran. Dyna pam mai dyma'r math hawsaf o droseddu i fynd i'r afael ag ef. Er bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi cyhoeddi adolygiad yn ddiweddar, mae gan y Llywodraeth dargedau ar gyfer troseddau sy'n dod gerbron y llys; rhaid i'r heddlu ddod ag 1.25 miliwn o achosion gerbron y llys bob blwyddyn. Er bod nifer yr oedolion a geir yn euog wedi aros yr un fath, rhagorir ar y targed hwnnw o hyd. Dywed Rod Morgan, cyn gadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, fod arestio plant sy'n loetran ar y strydoedd mor hawdd i'r heddlu â hel ffrwythau oddi ar ganghennau isel.

We all understand that young people are more likely to be on the streets if they do not have alternative provision, so it is long overdue that we take the issue of youth provision seriously, particularly as youth crime, anti-social behaviour and youth binge drinking are such hot political issues at the moment. Perhaps ASBOs, tough prison

Yr ydym i gyd yn deall bod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod ar y strydoedd os nad oes darpariaeth arall ar gael iddynt, felly mae'n hen bryd inni roi sylw o ddifrif i fater y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc, yn enwedig gan fod troseddau ieuenctid, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yfed afreolus gan bobl ifanc yn bynciau mor llosg

sentences, and teams of police officers confiscating alcohol from young people and pouring it down the drains make good television pictures and news stories. However, if we focus all our attention on punishing kids, instead of supporting them and helping them to achieve their potential, we can expect an even greater and growing divide between generations, which can only mean bigger societal problems in the long run. Thank you for bringing this forward, Peter. I look forward to the rest of the debate.

yn y byd gwleidyddol ar hyn o bryd. Efallai fod ASBOs, dedfrydau carchar llym, a thimau o swyddogion heddlu'n cymryd alcohol oddi ar bobl ifanc a'i dywallt i lawr y draeniau'n creu lluniau teledu a straeon newyddion da. Fodd bynnag, os canolbwyntiwn ein sylw i gyd ar gosbi plant, yn hytrach na'u cefnogi a'u cynorthwyo i gyflawni eu potensial, gallwn ddisgwyl bwlch mwy byth rhwng y cenedlaethau a hwnnw'n fwelch sy'n lledu. Ni all hyn ond achosi problemau cymdeithasol mwy yn y tymor hir. Diolch ichi am ddod â hyn ger ein bron, Peter. Edrychaf ymlaen at weddill y ddadl.

2.30 p.m.

Mark Isherwood: I also thank Peter for raising this topical issue. In calling for an obligation on local authorities to meet the demand for facilities for young people, I hope that you also agree that this should extend to their working strongly with the voluntary sector and to building on what already works from the ground up. I speak, for example, as ambassador of Girl Guides in Clwyd, who are reaching out to communities across the region to help engage young people in constructive ways for the present and the future. Like many of us, I also work with the Scouts and I would endorse that. I recently attended the High Sheriff of Clwyd's Crimebeat awards, which reward young people who do great work in their own communities and who are positively tackling problems for the good of all, working with schemes such as the police cadet scheme and the young firefighter scheme. I recently attended a wonderful awards ceremony in north Wales for young volunteers with the army cadets, sea scouts and the Air Training Corps, which was organised by the Royal British Legion. There is also a great scheme run by Flintshire neighbourhood watch, namely the y factor scheme, which engages young people and builds cross-generational links in community projects where older and younger people build bridges and work together. It is not just a resource issue; it is about empowering people, from the ground up, to achieve so much.

Mark Isherwood: Yr wyf fi hefyd yn diolch i Peter am godi'r pwnc cyfoes hwn. Wrth alw am osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymateb i'r galw am gyfleusterau i bobl ifanc, gobeithio eich bod hefyd yn cytuno y dylai hyn gynnwys gweithio'n gadarn gyda'r sector gwirfoddol ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio o'r gwaelod i fyny. Yr wyf yn siarad, er enghraifft, fel llysgennad y Geidiau yng Nghlwyd, sy'n ymestyn allan at gymunedau ledled y rhanbarth i helpu cynnwys pobl ifanc mewn ffyrdd adeiladol yn y presennol ac i'r dyfodol. Yr wyf fi hefyd, fel llawer ohonom, yn gweithio gyda'r Sgowtiaid, a byddwn yn cefnogi hynny. Yr oeddwn yn bresennol yn ddiweddar yng ngwobrau Crimebeat Uchel-Siryf Clwyd, lle gwobrwyir pobl ifanc sy'n gwneud gwaith gwych yn eu cymunedau eu hunain ac sy'n mynd i'r afael â phroblemau mewn modd cadarnhaol er lles pawb, gan weithio gyda chynlluniau megis cynllun cadetiaid yr heddlu a'r cynllun diffoddwyr tân ifanc. Yn ddiweddar bûm mewn seremoni wobrwyo wych yn y gogledd i wirfoddolwyr ifanc gyda chadetiaid y fyddin, y sgowtiaid môr a'r Corfflu Hyfforddiant Awyr, a'r seremoni wedi'i threfnu gan y Lleng Brydeinig Frenhinol. Mae gwarchod cymdogaeth sir y Flint hefyd yn rhedeg cynllun gwych, sef y cynllun 'y factor', sy'n cynnwys pobl ifanc ac yn creu cysylltiadau rhwng pob cenedlaeth mewn prosiectau cymunedol wrth i bobl hŷn a phobl iau godi pontydd a chydweithio. Nid mater o adnoddau yn unig yw hyn; mae'n golygu grymuso pobl, o'r gwaelod i fyny, i

allu cyflawni cymaint.

Where anti-social behaviour occurs, we must work with community safety partnerships—which we have heard about in other contexts—the police and other public and voluntary sector organisations to provide a little encouragement and to engage young people in projects. However, where there is not anti-social behaviour, but, as you described, young people have nothing else to do, it is important not only to agree with them what they want, but to agree how that is going to be managed and policed and what the rules are. It is about having contracts with them so that they are as committed as organisations are to acting for the good of the whole.

Lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhaid inni weithio gyda phartneriaethau diogelwch cymunedol—y clywsom amdanynt mewn cyd-destunau eraill—yr heddlu a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol er mwyn rhoi rhywfaint o anogaeth ac i gynnwys pobl ifanc mewn prosiectau. Fodd bynnag, lle nad oes ymddygiad gwrthgymdeithasol, ond lle nad oes gan bobl ifanc ddim byd arall i'w wneud, fel yr oeddech yn ei ddisgrifio, mae'n bwysig nid yn unig cytuno â hwy ar yr hyn y mae arnynt ei eisiau, ond hefyd cytuno sut y caiff hynny ei reoli a'i blismona a beth yw'r rheolau. Mae'n golygu cael contractau gyda hwy er mwyn iddynt fod yr un mor ymroddedig â sefydliadau i weithio er lles y gymuned gyfan.

My final point relates to a debate that we had a couple of weeks ago regarding playing space and playing fields and the importance of that space being available for young people. Without it, they will go to other areas and often carry out what others may consider to be anti-social or nuisance behaviour. I conclude, therefore, with the point that outdoor as well as indoor space needs to be provided for those young people.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â dadl a gawsom ychydig wythnosau'n ôl ar leoedd chwarae a chaeau chwarae, a phwysigrwydd sicrhau bod y lleoedd hynny ar gael i bobl ifanc. Hebddynt, byddant yn mynd i fannau eraill ac yn aml yn gwneud yr hyn y byddai eraill, o bosibl, yn ei ystyried yn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n niwsans. Yr wyf yn cloi, felly, drwy nodi bod angen darparu lleoedd yn yr awyr agored, yn ogystal â dan do, i'r bobl ifanc hynny.

Bethan Jenkins: I welcome the chance to debate this issue at the National Assembly for Wales. We debate certain issues with regard to young people, but providing facilities for them is probably one of the most important aspects of youth involvement. I echo some of what Leanne Wood said with regard to this Measure. Providing more facilities for young people will take the stigma away from what are perceived as negative outcomes of young people's behaviours.

Bethan Jenkins: Croesawaf y cyfle i drafod y mater hwn yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Byddwn yn trafod rhai materion yn ymwneud â phobl ifanc, ond mae'n debyg mai darparu cyfleusterau ar eu cyfer yw un o'r agweddau pwysicaf ar gynnwys pobl ifanc. Ategap rywfaint o'r hyn a ddywedodd Leanne Wood ynglŷn â'r Mesur hwn. Bydd darparu rhagor o gyfleusterau i bobl ifanc yn dileu'r stigma y mae pobl yn ei gysylltu â'r hyn yr ystyriant yn ganlyniadau negyddol i ymddygiad pobl ifanc.

As a child poverty spokesperson for Plaid Cymru, this is a vital area for me. I have tried to visit as many youth facilities as possible in the time that I have been the child poverty spokesperson. I visited the Gilfach Goch Communities First partnership, where the youth officer is on continual redundancy leave because the partnership does not have enough funding. Therefore, regardless of the

Fi yw llefarydd Plaid Cymru ar dlodi plant, felly, mae hwn yn faes hollbwysig imi. Yr wyf wedi ceisio ymweld â chynifer â phosibl o gyfleusterau ieuenctid yn ystod fy nghyfnod fel llefarydd ar dlodi plant. Ymwelais â phartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn Gilfach Goch, lle mae'r swyddog ieuenctid wedi ei ddiswyddo'n barhaus am nad oes gan y bartneriaeth ddigon o gyllid.

fact that there are statutory requirements on local authorities to provide facilities for young people, there are still many problems in this sector and a lack of flexibility with regard to seeking funding. Most youth facilities seek funding from various organisations, much of which, as we know, has been taken away to fund the London Olympics.

We know that 1,000 youth facilities are run by the public sector, but 4,000 are not. Although I accept the Minister's sentiments with regard to the provision that is out there, there is a large disparity between what is provided via local authorities and what is done perhaps by churches, the private sector and third sector, voluntary organisations. That must be addressed.

I am a member of the Petitions Committee, and we received a petition from Viva!, which is in the Rhondda, last week. Viva! encourages young people to take part in youth facilities in the Rhondda area and it has 100 young people waiting to access facilities in the Rhondda alone. There are only a few organisations of its kind in Wales and it also targets disabled children. There are large pockets of areas where people cannot access the facilities that they should be able to access.

Going back to child poverty, some young people cannot access provision when facilities are provided due to travel costs, particularly in rural areas, and because they may have to pay for access to a particular facility. Therefore, I think that that should be taken into consideration if any Measure goes through.

The only problem that I may have with this proposed Measure is that it is quite vague. I would like Peter Black to go back and better define, perhaps, the provision of youth services, because we could say that a football pitch is youth provision. Therefore, where do you draw the line? I would be happy to support it.

Felly, er bod gofynion statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfleusterau i bobl ifanc, mae nifer o broblemau yn y sector hwn o hyd a diffyg hyblygrwydd wrth geisio cael cyllid. Mae'r rhan fwyaf o gyfleusterau ieuencid yn chwilio am gyllid gan wahanol sefydliadau, ac mae llawer o'r cyllid hwnnw, fel y gwyddom, wedi'i gymryd i ariannu Gemau Olympaidd Llundain.

Gwyddom fod 1,000 o gyfleusterau ieuencid yn cael eu rhedeg gan y sector cyhoeddus, ond nid yw'r un peth yn wir am 4,000 o gyfleusterau eraill. Er fy mod yn derbyn sylwadau'r Gweinidog ar y ddarpariaeth sydd ar gael, mae gwahaniaeth mawr rhwng yr hyn a ddarperir drwy gyfrwng awdurdodau lleol a'r hyn a wneir efallai gan eglwysi, y sector preifat a'r trydydd sector, sef cyrff gwirfoddol. Rhaid mynd i'r afael â hynny.

Yr wyf yn aelod o'r Pwyllgor Deisebau, a chawsom ddeiseb yr wythnos diwethaf gan Viva! o Rhondda. Mae Viva! yn annog pobl ifanc i ddefnyddio cyfleusterau ieuencid yn ardal Rhondda, ac mae ganddo dros 100 o bobl ifanc yn aros i ddefnyddio cyfleusterau yn Rhondda'n unig. Dim ond ychydig gyrff felly sydd yng Nghymru, ac mae hefyd yn targedu plant anabl. Mae yna ardaloedd eang lle na all pobl ddefnyddio'r cyfleusterau y dylent allu eu defnyddio.

I ddychwelyd at dlodi plant, hyd yn oed pan ddarperir cyfleusterau, ni all rhai pobl ifanc ddefnyddio'r ddarpariaeth oherwydd costau teithio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac oherwydd ei bod yn rhaid iddynt dalu, efallai, i ddefnyddio rhai cyfleusterau. Credaf, felly, y dylid ystyried hynny os bydd unrhyw Fesur yn mynd drwodd.

Yr unig broblem sydd gennyf gyda Mesur arfaethedig hwn efallai yw ei fod yn eithaf amwys. Hoffwn i Peter Black ddychwelyd ato a diffinio darpariaeth gwasanaethau ieuencid yn well, efallai, oherwydd gallem ddweud bod cae pêl-droed yn ddarpariaeth i ieuencid. Ym mhle, felly, yr ydych yn tynnu'r llinell? Byddwn yn fodlon ei gefnogi.

Peter Black: Thank you for giving way. This is a Measure in principle. If the Assembly passes this, I can go away and hold a wider consultation and come back with a detailed proposed Measure at that point.

Bethan Jenkins: That is fine. I accept that.

I also echo Nick Ramsay's comments about duties being put on local authorities. If more duties are put on local authorities, not only must they be encouraged to provide more facilities for young people, they must be made to do so. We do not want to be in a situation where we are debating again in four years' time whether or not more provision should be made for young people.

I would also like to see what cost implications this would have on local authorities and whether we could facilitate more interaction with the voluntary sector and with big charities that currently give funding so that this provision has a streamlined basis.

Eleanor Burnham: I thank Peter for bringing this to our attention. I believe that this proposed Measure would recognise, as he has already said, that different communities will have different levels of need and demand, and it would be balanced against whatever provision exists so that there is not any duplication. The proposed Measure is to ensure that the existing gaps can be filled—like the Heineken slogan.

Mae gan lawer o awdurdodau lleol adnoddau da. Fel y crybwyllwyd hyd yma, nid ydynt bob amser ar gael i bobl ifanc oherwydd diffyg trafndiaeth a ffactorau eraill, yn enwedig gyda chostau trafndiaeth a thanwydd yn cynyddu'n ddyddiol. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud ein gorau i ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau sydd heb yr adnoddau hyn ar hyn o bryd.

The disaffected youths that I used to try to help before becoming an Assembly Member felt quite neglected and tossed aside, not only by education provision but also by society in general. There is much more that we could

Peter Black: Diolch am ildio. Mesur mewn egwyddor yw hwn. Os bydd y Cynulliad yn ei basio, gallaf fynd ymaith a chael ymgynghori ehangach a dod yn ôl gyda Mesur arfaethedig manwl bryd hynny.

Bethan Jenkins: Dim problem. Yr wyf yn derbyn hynny.

Ategaf hefyd sylwadau Nick Ramsay ar osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol. Os rhoddir rhagor o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol, nid eu hannog i ddarparu rhagor o gyfleusterau i bobl ifanc yn unig sydd raid, ond eu gorfodi i wneud hynny. Nid oes arnom eisiau bod mewn sefyllfa ymhen pedair blynedd lle byddwn unwaith eto yn trafod a ddylid cael mwy o ddarpariaeth i bobl ifanc ai peidio.

Hoffwn weld hefyd beth fyddai goblygiadau hyn o ran cost i awdurdodau lleol, ac a allem hwyluso rhagor o ryngweithio gyda'r sector gwirfoddol a chydag elusennau mawr sy'n rhoi cyllid ar hyn o bryd, er mwyn creu sylfaen syml i'r ddarpariaeth hon.

Eleanor Burnham: Diolch i Peter am ddod â'r mater hwn ger ein bron. Fel y dywedodd eisoes, credaf y byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn cydnabod y bydd gan wahanol gymunedau wahanol lefelau o angen a galw, ac y byddai'n cael ei gydbwysu yn erbyn pa ddarpariaeth bynnag sydd eisoes ar gael, fel na fydd dim dyblygu. Diben y Mesur arfaethedig yw sicrhau y gellir llenwi unrhyw fylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd—fel slogan Heineken.

Many local authorities have good resources. As has already been mentioned, they are not always available to young people due to a lack of transport and other factors, particularly with transport and fuel costs rising on a daily basis. It is important that we do our best to provide services in communities that currently do not have these resources.

Yr oedd y bobl ifanc dadrithio yr arferwn geisio'u helpu cyn imi ddod yn Aelod o'r Cynulliad yn teimlo'u bod wedi eu hesgeuluso a'u taflu o'r neilltu, nid yn unig gan y ddarpariaeth addysg ond hefyd gan

do. As many others have said, anti-social behaviour orders are not the way to go. The demonisation of youngsters goes on. We know that there is a lot of street crime, as we have seen recently in London. Thankfully, we do not see it in our communities in Wales but it is an issue for the Metropolitan police. We need to do far more, and this proposed Measure would go some way to giving more adequate provision.

We live in a complex society. For some youngsters, a simple provision would be adequate. However, others need to be re-engaged and taken off street corners, as has been alluded to before.

Estyn's annual report states that there are still significant shortcomings in strategic planning and the quality assurance of youth support services across all parts of Wales and, as we know from this discussion, much more needs to be done. Apparently, Pembrokeshire is working extremely hard. It is not in my neck of the woods but I congratulate Pembrokeshire on what it has achieved. It has 20 different youth clubs and a total of 3,500 youths use the services that the local authority provides, which is commendable, and there are 60 part-time youth workers. If we could use that as best practice through this proposed Measure and put all the pressure that we can on the Government, I am sure that we could see some incredible achievements.

2.40 p.m.

The proposed Measure would make our local authorities look again at where the gaps are in their facilities. This is the issue at hand. Even in some of our cities it can be difficult for some people to access the service due to the constantly increasing cost of transport. As I have just said, facilities need not be expensive; it is surprising how many young people will visit a community hall if there is a pool table or even a kettle and a television

gymdeithas yn gyffredinol. Gallem wneud mwy o lawer. Fel y dywedodd sawl un arall, nid gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r ffordd ymlaen. Mae pobl ifanc yn dal i gael eu pardduo. Gwyddom fod llawer o droseddau ar y stryd, fel y gwelsom yn Llundain yn ddiweddar. Nid ydym yn gweld hynny yn ein cymunedau yng Nghymru, diolch byth, ond mae'n broblem i heddlu Llundain. Mae angen inni wneud mwy o lawer, a byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn gam at roi darpariaeth fwy digonol.

Yr ydym yn byw mewn cymdeithas gymhleth. I rai pobl ifanc, byddai darpariaeth syml yn ddigonol. Mae angen cynnwys eraill o'r newydd, fodd bynnag, a'u tynnu oddi ar gornel y stryd, a chyfeiriwyd at hyn eisoes.

Mae adroddiad blynyddol Estyn yn dweud bod diffygion sylweddol o hyd o ran cynllunio strategol a sicrhau ansawdd gwasanaethau cymorth ieuenctid ym mhob rhan o Gymru. Ac fel y gwyddom o'r drafodaeth hon, mae angen gwneud mwy o lawer. Yn ôl y sôn, mae sir Benfro yn gweithio'n hynod o galed. Nid yw'r ardal honno'n lleol i mi, ond yr wyf yn llongyfarch sir Benfro ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni. Mae yno 20 o wahanol glybiau ieuenctid a chyfanswm o 3,500 o bobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaethau y mae'r awdurdod lleol yn eu darparu, sy'n haeddu ei ganmol. Mae yno hefyd 60 o weithwyr ieuenctid rhan-amser. Pe gallem ddefnyddio hynny fel enghraifft o arfer gorau drwy gyfrwng y Mesur arfaethedig hwn a rhoi cymaint o bwysau â phosibl ar y Llywodraeth, yr wyf yn siŵr y gallem weld cyflawni pethau rhyfeddol.

Byddai'r Mesur arfaethedig yn gwneud i'n hawdurdodau lleol ailedrych ar y manau hynny lle mae bylchau yn eu cyfleusterau. Dyna yw'r mater dan sylw. Hyd yn oed yn rhai o'n dinasoedd, gall fod yn anodd i rai pobl ddefnyddio'r gwasanaeth oherwydd y cynnydd parhaus yng nghost cludiant. Fel y dywedais gynnu, nid oes angen i gyfleusterau fod yn ddrud; mae'n syndod faint o bobl ifanc sy'n fodlon ymweld â

there, or anything else, particularly IT facilities, to encourage and engage them.

The Quirk review in England concluded that transferring public assets to community ownership management could have significant public benefits, and, as a result of that review, the UK Government is making available £30 million to help transfer underused public buildings to community use. Having such a scheme in Wales, in conjunction with this proposed Measure, would allow communities to take action to help their young people and to help local authorities to identify and use buildings that are not currently meeting their full potential.

I know that there are some good schemes; I was with Mark Isherwood only the other day when a Welsh Assembly Government grant was given to Denbighshire Voluntary Services Council, and I commend that, as we did then. However, it can only issue grants of about £5,000 each, and places such as the Corwen pavilion in my region are looking for more than £5,000 to increase their facilities for the local community.

Please do not be mealy-mouthed, Minister. Peter has put forward a good proposed Measure that deserves your support. I commend Peter's proposed Measure. Let us look forward to increased facilities for our long-suffering, patient and deserving youth.

Kirsty Williams: I would like to begin by reiterating what this debate is about. It is not about the minute details of a piece of legislation that will go through this house; this is a debate on whether the Assembly believes that we should strengthen the statutory duty that local authorities have to provide services for young people. I accept that there may be issues of concern with regard to duplication or costs, but I believe that they can be overcome in the stages that this proposed Measure would follow, should it be given leave to continue today. It would give Peter and subsequent Assembly

neuadd gymunedol os oes bwrdd pŵl yno, neu degell a theledu hyd yn oed, neu unrhyw beth arall, yn enwedig cyfleusterau TG, i'w hannog ac i ennyn eu diddordeb.

Daeth adolygiad Quirk yn Lloegr i'r casgliad y gallai trosglwyddo asedau cyhoeddus i reolaeth neu berchnogaeth gymunedol esgor ar fanteision cyhoeddus sylweddol, ac o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw mae Llywodraeth y DU yn darparu £30 miliwn i helpu trosglwyddo adeiladau cyhoeddus segur i ddefnydd y gymuned. Byddai cael cynllun o'r fath yng Nghymru, ar y cyd â'r Mesur arfaethedig hwn, yn caniatáu i gymunedau gymryd camau i helpu eu pobl ifanc ac i helpu awdurdodau lleol i ddarganfod a defnyddio adeiladau nad ydynt ar hyn o bryd yn cyrraedd eu potensial llawn.

Gwn fod yna rai cynlluniau da; yr oeddwn gyda Mark Isherwood ychydig ddiwrnodau'n ôl pan roddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, a chanmolaf hynny, fel y gwnaethom bryd hynny. Fodd bynnag, dim ond grantiau o ryw £5,000 yr un y gall eu rhoi, ac mae lleoedd megis pafiliwn Corwen yn fy rhanbarth i yn chwilio am dros £5,000 i gynyddu eu cyfleusterau i'r gymuned leol.

Erfyniaf arnoch i beidio â bod yn gyndyn, Weinidog. Mae Peter wedi cyflwyno Mesur arfaethedig da sy'n haeddu eich cefnogaeth. Yr wyf yn cymeradwyo Mesur arfaethedig Peter. Gadewch inni edrych ymlaen at weld mwy o gyfleusterau i'n hieuenctid haeddiannol, sy'n hir eu dioddef a'u hamynedd.

Kirsty Williams: Hoffwn gychwyn drwy ailadrodd diben y ddadl hon. Nid dadl ydyw ynglŷn ag union fanylion y darn deddfwriaeth a fydd yn mynd drwy'r tŷ hwn; dadl yw hon ynglŷn â'r cwestiwn a yw'r Cynulliad yn credu y dylem gryfhau'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc. Derbynnaf y gall fod problemau o ran dyblygu neu gostau sy'n peri pryder, ond credaf y gellir eu datrys yn ystod y camau y byddai'r Mesur arfaethedig hwn yn eu dilyn, os caniateir iddo barhau heddiw. Byddai'n gyfle i Peter a phwyllgorau'r Cynulliad wedi

committees the opportunity to consult widely and look at how we can improve the situation.

Without a doubt, many of us will have seen in our constituencies in recent years that youth services and facilities for young people are often the first things to be cut in difficult financial climates. How many communities have seen their play park facilities removed because of a lack of maintenance, not to be replaced with anything new? How many local authorities have looked to save money by cutting back on the number of days that a youth centre is open? Only recently in my constituency, the council looked to cut back severely on the amount of money that it uses to commission services from the young farmers' club movement, a voluntary sector service that provides many opportunities for young people in rural communities.

Therefore, I want to reassure Members who may be concerned, that this is only a debate of principle, and we can begin to address those concerns if the proposed Measure moves forward.

I also want to reassure people that this is not central Government dictating to local authorities what the local youth service provision should be about; this is about giving local authorities the clear message that the National Assembly for Wales believes that investing in facilities for young people is important, not just for the sake of those young people, but for the communities in which they live. My colleague, Peter, has outlined the intrinsic link between a lack of facilities and some young people—and it is only some young people—finding themselves in difficulty.

Each local authority would be able to determine how best to channel resources that the Welsh Assembly Government may make available. In some areas, that might mean investing in new buildings but, in other areas, it might mean giving existing buildings new uses or expanding the provision of services out of available community buildings. It could be about addressing some of the transport issues. Perhaps it would be more appropriate in some areas to lay on transport

hynny i ymgynghori'n eang ac ystyried sut y gallwn wella'r sefyllfa.

Yn ddiamau, bydd llawer ohonom wedi gweld yn ein hetholaethau yn y blynyddoedd diwethaf mai gwasanaethau ieuentid a chyfleusterau pobl ifanc, yn aml, yw'r elfennau cyntaf yr effeithir arnynt pan fydd pethau'n anodd yn ariannol. Faint o gymunedau sydd wedi colli eu cyfleusterau parc chwarae oherwydd diffyg cynnal a chadw, a dim byd newydd yn dod yn eu lle? Faint o awdurdodau lleol sydd wedi ceisio arbed arian drwy ostwng nifer y diwrnodau pan fydd canolfan ieuentid ar agor? Yn fy etholaeth i yn ddiweddar, ceisiodd y cyngor gwtogi'n sylweddol yr arian y mae'n ei ddefnyddio i gomisiynu gwasanaethau gan fudiad y ffermwyr ifanc, gwasanaeth sector gwirfoddol sy'n rhoi llawer o gyfleoedd i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig.

Felly, hoffwn sicrhau Aelodau sy'n bryderus mai dadl ynglŷn â'r egwyddor yn unig yw hon, a gallwn ddechrau mynd i'r afael â'r pryderon hynny os bydd y Mesur arfaethedig yn symud ymlaen.

Hoffwn sicrhau pobl hefyd nad enghraifft yw hyn o'r Llywodraeth ganolog yn gorchymyn i'r awdurdodau lleol pa fath o ddarpariaeth y dylent ei chynnig o ran gwasanaethau ieuentid lleol; diben hyn yw rhoi neges glir i awdurdodau lleol fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn credu bod buddsoddi mewn cyfleusterau i bobl ifanc yn bwysig, nid er lles y bobl ifanc hynny'n unig, ond er lles y cymunedau lle maent yn byw. Mae fy nghyd-Aelod, Peter, wedi amlinellu'r cyswllt cynhenid rhwng diffyg cyfleusterau a rhai pobl ifanc—dim ond rhai pobl ifanc—yn mynd i drybini.

Byddai pob awdurdod lleol yn gallu penderfynu sut orau i gyfeirio'r adnoddau y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru eu darparu. Mewn rhai ardaloedd, gallai hynny olygu buddsoddi mewn adeiladau newydd, ond mewn ardaloedd eraill gallai olygu defnyddio adeiladau presennol mewn ffyrdd newydd neu ehangu'r gwasanaethau a ddarperir mewn adeiladau sydd ar gael yn y gymuned. Gallai olygu ymdrin â rhai o'r problemau cludiant. Mewn rhai ardaloedd,

to enable young people to attend services that are already being provided, and those services could become more sustainable by allowing more young people to be able to use them. In the local authorities where those services are already good, this could give them the opportunity to extend what they have on offer.

This Government is rightly proud of the investment that it has made in free swimming for young people during the school holidays. However, what about looking at investing in discounted rates to use other facilities in leisure centres at different times of the year?

Some youth clubs—including many in my constituency—are open only on certain nights of the week. The young people enjoy the activities very much, but what are they to do on the other nights of the week, when those services are not available? The solution could be to expand the availability of some services. As I said, Mark, that is not to exclude the massive contribution that the voluntary sector has to make. Many adults are only too willing to give of their time to invest in our young people.

You mentioned the scouting and the guiding movement, Mark. In my community, I am hugely proud to be associated with the activities of the Young Farmers' Clubs, an organisation that provides fantastic social, learning, and educational experiences for young people. For those of you who are not familiar with the Young Farmers' Clubs, I invite you to Brecon at the beginning of June to see our rally and barn dance. It is a fantastic day, and you will see young people, who are committed to each other and to their communities, at their very best, displaying a countless array of skills, and, more importantly, having a wonderful time. Therefore, those are the kinds of organisations that we believe that this proposed Measure, given backing by the Assembly, could promote.

I am sure that we can all point to examples in our communities of services for young people

efallai y byddai'n fwy addas darparu cludiant i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio gwasanaethau sydd eisoes ar gael, a gallai'r gwasanaethau hynny fod yn fwy cynaliadwy drwy ganiatáu i ragor o bobl ifanc allu eu defnyddio. Yn yr awdurdodau lleol lle mae'r gwasanaethau hynny eisoes yn dda, gallai hyn roi'r cyfle iddynt ymestyn yr hyn y maent yn ei gynnig.

Mae'r Llywodraeth hon, gyda rheswm da, yn falch o'r buddsoddiad a wnaeth mewn nofio am ddim i bobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol. Fodd bynnag, beth am ystyried buddsoddi mewn cyfraddau disgownt i ddefnyddio cyfleusterau eraill mewn canolfannau hamdden ar wahanol adegau o'r flwyddyn?

Mae rhai clybiau ieuentid—gan gynnwys llawer yn fy etholaeth i—ar agor ar nosweithiau penodol o'r wythnos yn unig. Mae'r bobl ifanc yn mwynhau'r gweithgareddau'n fawr iawn, ond beth maent i fod i'w wneud ar nosweithiau eraill yr wythnos, pan nad yw'r gwasanaethau hynny ar gael? Gallai cynyddu'r nosweithiau pryd y mae rhai gwasanaethau ar gael fod yn ateb. Fel y dywedais, Mark, nid yw hynny'n golygu diystyru'r cyfraniad aruthrol sydd gan y sector gwirfoddol i'w wneud. Mae llawer o oedolion ond yn barod iawn i roi o'u hamser i'w fuddsoddi yn ein pobl ifanc.

Soniech am fudiad y sgowtiaid a'r geidiau, Mark. Yn fy nghymuned i, yr wyf yn falch dros ben o fod yn gysylltiedig â gweithgareddau'r Clybiau Ffermwyr Ifanc, mudiad sy'n darparu profiadau cymdeithasol, dysgu ac addysgol ardderchog i bobl ifanc. I'r rheini ohonoch nad ydych yn gyfarwydd â'r Clybiau Ffermwyr Ifanc, fe'ch gwahoddaf i Aberhonddu ddechrau Mehefin i weld ein rali a'n dawns ysgubor. Mae'n ddiwrnod ardderchog, a chewch weld pobl ifanc, sy'n ymroi i'w gilydd ac i'w cymunedau, ar eu gorau, yn arddangos sgiliau di-rif, ac yn bwysicach yn cael amser rhagorol. O'r herwydd, y rheini yw'r mathau o sefydliadau y credwn ni y gallai'r Mesur arfaethedig hwn eu hyrwyddo, pe câi gefnogaeth gan y Cynulliad.

Yr wyf yn sicr y gallwn i gyd ddangos esiamplau yn ein cymunedau o wasanaethau i

being seen by local authorities as the first place to save money, because of the tough settlements that they have received. However, it does not work that way, because, for every pound that we invest in these services that give young people something to do, we could potentially be saving a lot of money further down the line by preventing those young people from getting themselves into difficulties, or causing difficulties in their communities. We are investing in young people not just for their sakes, but for all our sakes.

I wish that the Minister would think again about giving Peter, and the Assembly, the opportunity to look further at this Measure. The Assembly will have the opportunity to vote it down at Stages 1 or 2, but please give us the opportunity, in conjunction with bodies outside the Assembly, to see what better service we can offer young people in Wales.

The Presiding Officer: I call Peter Black to reply to the debate.

Peter Black: I thank everyone who has contributed to this debate. It has been constructive, interesting and useful, and I am gratified by the support that has come from all sides of the Chamber. There is a general consensus that we need to do something about the facilities available for young people in our local communities. However, I am afraid that the consensus may not stretch as far as agreeing on what we have to do. I had hoped that this Measure would at least be given an opportunity to proceed to the next stage, so that we could start to work on that, and demonstrate what could be done if the Assembly Government, local councils, and all the other bodies and organisations that are interested in helping young people worked in partnership, as well as involving young people in providing the facilities that they need in their local communities.

I will not refer to the vast majority of speeches, but I will pick up on one thing that Nick Ramsay and several other speakers said, namely that local councils need the resources to deliver this sort of facility. I agree. However, I like to approach an issue from the

bobl ifanc sy'n cael eu hystyried gan awdurdodau lleol fel y man cyntaf i arbed arian, oherwydd y setliadau llym a gawsant. Fodd bynnag, nid fel hynny y mae'n gweithio, oherwydd am bob punt a fuddsoddwn yn y gwasanaethau hyn, sy'n rhoi i bobl ifanc rywbeth i'w wneud, gallem efallai fod yn arbed llawer o arian ymhellach ymlaen drwy atal y bobl ifanc hyn rhag mynd i anawsterau, neu rhag achosi anawsterau yn eu cymunedau. Yr ydym yn buddsoddi mewn pobl ifanc nid er eu mwyn hwy yn unig, ond er ein mwyn i gyd.

Hoffwn petai'r Gweinidog yn ailfeddwl am roi i Peter, a'r Cynulliad, y cyfle i edrych ymhellach ar y Mesur hwn. Bydd y Cynulliad yn cael y cyfle i bleidleisio i'w wrthod yng Nghramau 1 neu 2, ond os gwelwch yn dda, rhowch inni'r cyfle, ar y cyd â chyrff eraill y tu allan i'r Cynulliad, i weld pa wasanaethau gwell y gallwn eu cynnig i bobl ifanc yng Nghymru.

Y Llywydd: Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddadl.

Peter Black: Diolchaf i bawb a gyfrannodd at y ddadl hon. Mae wedi bod yn adeiladol, yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol, ac yr wyf yn ddiolchgar am y gefnogaeth o bob ochr i'r Siambr. Mae yna gonsensws cyffredinol fod angen inni wneud rhywbeth am y cyfleusterau sydd ar gael i bobl ifanc yn ein cymunedau lleol. Er hynny, mae arnaf ofn na fydd y consensws efallai yn ymestyn cyn belled â chytuno ar yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud. Yr oeddwn wedi gobeithio y byddai'r Mesur hwn o leiaf yn cael y cyfle i symud ymlaen i'r cam nesaf, fel y gallem ddechrau gweithio ar hynny, a dangos beth y gellid ei wneud petai Llywodraeth y Cynulliad, cynghorau lleol a'r holl gyrff a'r sefydliadau eraill sydd â diddordeb mewn helpu pobl ifanc yn gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â chynnwys pobl ifanc i ddarparu'r cyfleusterau y mae arnynt eu hangen yn eu cymunedau lleol.

Ni chyfeiriaf at fwyafrif helaeth yr areithiau, ond yr wyf am gyfeirio at un peth a ddywedodd Nick Ramsay a nifer o siaradwyr eraill, sef bod ar gynghorau lleol angen yr adnoddau i ddarparu'r math hwn o gyfleuster. Yr wyf yn cytuno. Fodd bynnag, mae'n well

point of view of what can be done about it, and not of which obstacles we can see. For too long, whenever we have talked about provision for young people, we have not done anything because we have always found reasons not to. For once, we need to find reasons to do it, and then find the means to do it. I am sure that, if we had that will and determination, we could put those facilities in place, and provide what is needed.

Nick says that he wants to see the meat on the bones, and Bethan said the same thing; I also want that. It is just the principle of the proposed Measure that is before you today, but, if we carry the motion granting leave to introduce it, we can start to put the meat on the bones. We can open a wider consultation, and the responses that come back to the Assembly can be scrutinised by the committee, and can lead to a fully worked-up proposal that will make a difference to young people's lives and to the dynamics of many communities around Wales. That is important and that is the rationale behind what I am trying to do here.

2.50 p.m.

When I proposed the motion, I neglected to say that I have had meetings with the Welsh Local Government Association and the Children's Commissioner for Wales on this proposed Measure, and both expressed their support for it in principle. The WLGA did raise the issue of resources, but, as I said, we can address that, and the Minister has already indicated that additional resources will be made available over the next few years. If properly directed, those resources could start to make a difference, especially when used in tandem with the resources that could be made available by the voluntary sector—or the third sector as it is now known—and even by local councils. That sort of partnership with grant organisations could mean that the value of the resources could increase exponentially and we could then see some significant provision in place in communities around Wales.

gennyf fi fynd at y mater o safbwynt yr hyn y gellir ei wneud yn ei gylch, nid o safbwynt pa rwystrau y gallwn eu gweld. Ers yn rhy hir, pryd bynnag y bu inni siarad am ddarpariaeth i bobl ifanc, nid ydym wedi gwneud dim oherwydd ein bod bob amser wedi gweld rhesymau dros beidio. Am unwaith, mae angen inni gael rhesymau dros wneud rhywbeth, ac yna gael y modd i'w wneud. Yr wyf yn sicr, petai'r ewylllys a'r penderfyniad hwnnw gennym, y gallem sefydlu'r cyfleusterau hynny, a darparu'r hyn y mae ei angen.

Dywed Nick ei fod eisiau gweld y cnawd ar yr esgyrn, a dywedodd Bethan yr un peth; yr wyf fi hefyd am weld hynny. Egwyddor y Mesur arfaethedig yn unig sydd ger eich bron heddiw, ond os derbyniwn y cynnig gan roi caniatâd i'w gyflwyno, gallwn ddechrau rhoi'r cnawd ar yr esgyrn. Gallwn agor ymgynghoriad ehangach, a gall y pwyllgor graffu ar yr ymatebion a ddaw'n ôl i'r Cynulliad, a gall arwain at gynnig wedi'i baratoi'n drylwyr a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc ac i ddynmeg llawer o gymunedau ledled Cymru. Mae hynny'n bwysig, a dyna'r rhesymeg y tu ôl i'r hyn yr wyf yn ceisio'i wneud yma.

Pan gyflwynais y cynnig, anghofiais ddweud fy mod wedi cael cyfarfodydd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru am y Mesur arfaethedig hwn, a mynegodd y ddau eu cefnogaeth i'r egwyddor. Cododd CLILC y mater adnoddau, ond fel y dywedais, gallwn roi sylw i hwnnw, ac mae'r Gweinidog eisoes wedi dweud y bydd adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu dros y blynyddoedd nesaf. O'u cyfeirio'n briodol, gallai'r adnoddau hynny ddechrau gwneud gwahaniaeth, yn enwedig pan gânt eu defnyddio ochr yn ochr â'r adnoddau y gallai'r sector gwirfoddol eu darparu—neu'r trydydd sector fel y'i gelwir—a hyd yn oed gynghorau lleol. Gallai'r math hwnnw o bartneriaeth gyda sefydliadau grant olygu y gallai gwerth yr adnoddau gynyddu'n gyflymach drwy'r adeg, a gallem wedyn weld sefydlu rhai darpariaethau sylweddol mewn cymunedau ledled Cymru.

I am delighted that the Minister has expressed her support for the principle of the Measure. From talking to her, I understand that the Government fully approves of what we are trying to achieve. She has thanked me for highlighting the issue of patchy provision and for presenting a workable solution to the problem. However, to secure the kind of services that we have been talking about today, I believe that we need to pursue the matter through a Measure; I do not share the Minister's view that the same can be achieved by revising existing guidance. I welcome, nevertheless, her commitment to taking up this cause, but my fear is that the guidance will not be sufficient to achieve what I am seeking to do. Guidance, by its very nature, is not enough. We have had guidance in place before, such as 'Extending Entitlement', and it has not proved to be effective. In fact, the evidence is there in every community around Wales that it has not been effective. We need to work on a strategy based on primary legislation that will extend the opportunities available to young people and enable them to engage constructively with their communities across Wales, not just where there happen to be convenient sums of money available, such as in Communities First areas. A lot of good work has been going on in such areas, using the resources that have been made available; however, a lot of communities do not benefit from that funding.

If you agree with the principle that there should be a stronger commitment to providing opportunities for young people, I urge you to allow me six months to develop this Measure into a fully fledged proposal. At that stage, you will be better placed to judge the merits of my Measure. If you are unsure whether this is the best means of doing it, support it now and consider it again when it comes back to the Chamber. The Government can continue with its guidance in parallel and it may well be able to make a difference, but, if we throw this Measure out now and the guidance proves to be insufficient, we will have failed a generation of young people by the time we can revisit the issue. We have before us a real opportunity to work the principles of the

Yr wyf yn falch dros ben fod y Gweinidog wedi mynegi ei chefnogaeth i egwyddor y Mesur. O siarad â hi, deallaf fod y Llywodraeth yn cymeradwyo'n llwyr yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Mae hi wedi diolch imi am dynnu sylw at y ddarpariaeth dameidiog ac am gyflwyno ateb dichonadwy i'r broblem. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r math o wasanaethau y buom yn siarad amdanynt heddiw, credaf fod angen inni fynd ar drywydd y mater drwy gyfrwng Mesur; nid wyf yn rhannu barn y Gweinidog y gellir cyflawni'r un peth drwy adolygu'r arweiniad presennol. Fodd bynnag, yr wyf yn croesawu ei hymrwymiad i ymgymryd â'r achos hwn, ond ofnaf na fydd yr arweiniad yn ddigonol i gyflawni'r hyn yr wyf yn ceisio'i wneud. Nid yw arweiniad, oherwydd ei natur, yn ddigon. Bu gennym arweiniad wedi'i sefydlu o'r blaen, megis 'Ymestyn Hawliau', ac nid oeddent yn effeithiol. Yn wir, mae'r dystiolaeth i'w gweld ym mhob cymuned yng Nghymru nad oeddent yn effeithiol. Mae angen inni weithio ar strategaeth yn seiliedig ar ddeddfwriaeth sylfaenol a fydd yn ymestyn y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc a'u galluogi i ymgysylltu'n adeiladol â'u cymunedau ledled Cymru, nid yn unig lle mae symiau cyfleus o arian yn digwydd bod ar gael, megis mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae llawer o waith da wedi bod yn mynd rhagddo mewn ardaloedd o'r fath, gan ddefnyddio'r adnoddau a ddarparwyd; er hynny, mae nifer o gymunedau nad ydynt yn elwa o'r cyllid hwnnw.

Os cytunwch â'r egwyddor y dylid cael ymrwymiad cadarnach i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc, fe'ch anogaf i roi chwe mis imi ddatblygu'r Mesur hwn yn gynnig cyflawn. Bryd hynny, byddwch mewn gwell sefyllfa i roi barn am rinweddau fy Mesur. Os ydych yn ansicr ai dyma'r ffordd orau i'w wneud, cefnogwch ef yn awr a'i ystyried drachefn pan ddaw yn ôl i'r Siambr. Gall y Llywodraeth barhau â'i harweiniad ochr yn ochr â hwn, ac mae'n gwbl bosibl y gall wneud gwahaniaeth. Ond os taflwn y Mesur hwn allan yn awr ac os gwelir bod yr arweiniad yn annigonol, byddwn wedi siomi cenhedlaeth o bobl ifanc erbyn inn i allu dychwelyd at y mater. Mae gennym ger ein bron wir gyfle i lunio egwyddorion y Mesur yn fframwaith cadarn a fydd yn sicrhau

Measure into a robust framework that will secure the provision of vital youth services across all parts of Wales. If the motion is carried granting leave to introduce the proposed Measure, we will be offering young people a genuine opportunity to escape the dangers of a life that can lead to victimisation and anti-social behaviour, and an alternative way to make the most of their future. I urge you therefore to support this motion today.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod cynnig NDM3918 yn cael ei gytuno. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf y bleidlais tan yr amser pleidleisio.

Gohiriwyd y bleidlais tan yr amser pleidleisio
Vote deferred until voting time.

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig **Welsh Conservatives Debate**

Pris Bwydydd Hanfodol **The Price of Essential Foodstuffs**

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3 a 5 yn enw Carwyn Jones, a gwelliant 4 yn enw Kirsty Williams.

Brynle Williams: I propose that

the National Assembly for Wales:

1. acknowledges the recent sharp increases in the price of essential foodstuffs, and the increased pressure this is putting on household budgets;

2. notes that increases in the prices of fuel, fertilizer and grain have substantially increased Welsh farmers' production costs;

3. regrets that supermarket practices, excessive red tape and market conditions have made farming increasingly unsustainable in the lifetime of the National Assembly for Wales;

4. notes that increased prices in agricultural commodities have direct implications on the future of agri-environment schemes in Wales;

darparu gwasanaethau ieuentid hanfodol ym mhob cwr o Gymru. Os derbynnir y cynnig gan roi caniatâd i gyflwyno'r Mesur arfaethedig, byddwn yn cynnig i bobl ifanc gyfle gwirioneddol i ddianc rhag peryglon bywyd a all arwain at erledigaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ynghyd â ffordd wahanol i fanteisio i'r eithaf ar eu dyfodol. Fe'ch anogaf, felly, i gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

The Presiding Officer: The proposal is that motion NDM3918 be agreed. Is there any objection? I see that there is. Therefore, I will defer the vote until voting time.

The Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3 and 5 in the name of Carwyn Jones, and amendment 4 in the name of Kirsty Williams.

Brynle Williams: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn cydnabod y codiadau serth diweddar ym mhrisiau bwydydd hanfodol a'r pwysau cynyddol y mae hyn yn ei roi ar gyllidebau aelwydydd;

2. yn nodi bod y codiadau ym mhrisiau tanwydd, gwrtaithe a grawn wedi cynyddu costau cynhyrchu ffermwyr Cymru'n sylweddol;

3. yn gresynu bod arferion archfarchnadoedd, gormod o fiwrocratiaeth ac amodau'r farchnad wedi gwneud ffermio'n fwy anghynaliadwy yn ystod oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

4. yn nodi bod y cynnydd ym mhrisiau nwyddau amaethyddol yn effeithio'n uniongyrchol ar ddyfodol cynlluniau amaeth-amgylchedd yng Nghymru;

5. *calls on the Welsh Assembly Government to work with stakeholders to develop a food production strategy for Wales, to maximise sustainable food production.* (NDM3934)

It seems that not a day has gone by in recent weeks when the rising cost of food and the challenges that that presents have not been mentioned in the news. The Welsh Conservatives have called for this debate not because it is topical, but because a fundamental shift is under way in Welsh agriculture, which needs the right response from the Government if the industry is to be meet the new challenges that it presents.

We are happy to support amendment 4 tabled by the Liberal Democrats, because locally procured food is often the model of sustainable production and should be supported wherever possible. We will not, however, be supporting the remaining amendments. I might add that the Government's amendment 1 conveniently glosses over the fact that its review of red tape was announced only after a Welsh Conservative took the lead on the issue in January.

Food inflation affects every household in Wales and most people will have noticed substantial increases in their monthly food bill. In just 12 months, the average shopping basket of essentials costs 15 per cent more. The price of bread has gone up a fifth, and the price of pasta and butter has almost doubled. For Welsh households, this could not have come at a worse time, when the cost of everything else is also shooting up, from mortgage repayments to gas and electricity bills, even filling your motor car.

It is the people on fixed incomes who feel the squeeze the most. It is an important point worth stressing that Welsh farmers have not escaped the squeeze either. Welsh farming, by and large, is geared towards rearing sheep and cattle, for producing meat and milk, and markets that are good for the big grain producers in the south of England mean a higher cost of feed for most farmers in Wales. Farmers must also deal with the rising costs of oil-based fertiliser. With the price of

5. *yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu strategaeth cynhyrchu bwyd ar gyfer Cymru, i gynyddu cynhyrchu bwyd cynaliadwy.* (NDM3934)

Mae'n ymddangos nad oes diwrnod wedi mynd heibio yn ystod yr wythnosau diwethaf pan na chrybwyllwyd yn y newyddion gostau cynyddol bwyd a heriau hynny. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi galw am y ddadl hon nid am ei bod yn amserol, ond oherwydd bod newid sylfaenol yn digwydd mewn amaethyddiaeth yng Nghymru, newid y mae angen yr ymateb yn iawn iddo gan y Llywodraeth os yw'r diwydiant i fodloni'r sialensiau newydd sydd ynddo.

Yr ydym yn fodlon cefnogi gwelliant 4 a gyflwynodd y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd mae bwyd wedi'i gaffael yn lleol yn fodel o gynhyrchu cynaliadwy, a dylid ei gefnogi ble bynnag y bydd yn bosibl. Er hynny, ni fyddwn yn cefnogi gweddill y gwelliannau. Hoffwn ychwanegu bod gwelliant 1 gan y Llywodraeth yn gyfleus iawn yn lliwio'r ffaith fod ei hadolygiad o fiwrocratiaeth wedi'i gyhoeddi dim ond ar ôl i un o'r Ceidwadwyr Cymreig gymryd yr awenau ar y mater ym mis Ionawr.

Mae chwyddiant bwyd yn effeithio ar bob aelwyd yng Nghymru, a bydd y rhan fwyaf o bobl wedi sylwi ar gynnydd sylweddol yn eu bil bwyd misol. Mewn cwta 12 mis, mae'r fasedged siopa arferol o hanfodion yn costio 15 y cant yn fwy. Mae pris bara wedi codi un rhan o bump, ac mae pris pasta a menyn wedi dyblu bron. I aelwydydd Cymru, ni allai hyn fod wedi dod ar adeg waeth, a chost popeth arall hefyd yn saethu i fyny, o ad-daliadau morgesei i filiau nwy a thrydan, hyd yn oed llenwi'ch car.

Y bobl ar incwm sefydlog sy'n teimlo'r wasgfa waethaf. Mae'n bwynt pwysig gwerth ei bwysleisio nad yw ffermwyr Cymru wedi dianc rhag y wasgfa ychwaith. Mae ffermio yng Nghymru, drwyddi draw, wedi'i gymhwysu i fagu defaid a gwartheg, i gynhyrchu cig a llaeth, ac mae'r marchnadoedd sy'n dda i'r cynhyrchwyr grawn mawr yn ne Lloegr yn golygu costau porthiant uwch i'r rhan fwyaf o ffermwyr yng Nghymru. Rhaid i ffermwyr hefyd ddelio â

oil at a record high, nitrate fertilisers have gone from £140 a tonne to £360 a tonne in 12 months, while the global demand for phosphates and potash has seen their prices rise from £90 or £100 a tonne to £600 a tonne.

chostau cynyddol gwrtaith, sy'n seiliedig ar olew. Gan fod pris olew yn uwch nag erioed, mae gwrtaith nitradau wedi codi o £140 y dunnell i £360 y dunnell mewn 12 mis, ac mae'r galw byd-eang am ffosffad a photash wedi peri i brisiau'r rheini godi o £90 neu £100 y dunnell i £600 y dunnell.

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 2.56 p.m.
Peter Black took the Chair at 2.56 p.m.*

The cost of fuel, which Labour Governments and Gordon Brown have had a direct influence over, is also ramping up costs on the farm, and in distribution through the haulage industry. Despite the rising international demand for oil, the UK has some of the cheapest fuel in Europe—that is, before the Chancellor takes his double cut of more than three quarters of the price paid at the pump through duty and VAT; afterwards, it is among the most expensive in Europe. Every time Gordon Brown has allowed the fuel duty to push the price at the pump higher, he has been driving up the cost of food and putting a double squeeze on any household running a car.

Mae cost tanwydd, y bu gan Lywodraethau Llafur a Gordon Brown ddylanwad uniongyrchol drosto, hefyd yn cynydd costau ar y fferm, ac o ran dosbarthu drwy'r diwydiant cludiant. Er gwaethaf y galw rhyngwladol cynyddol am olew, yn y DU mae'r tanwydd rhataf yn Ewrop—hynny yw, cyn i'r Canghellor gymryd ei gyfran ddwbl ef o dros dri chwarter y pris a delir wrth y pwmp drwy dreth a TAW; wedi hynny, mae ymysg y drutaf yn Ewrop. Bob tro wrth i Gordon Brown ganiatáu i'r dreth danwydd wthio'r pris wrth y pwmp yn uwch, mae'n gwthio cost bwyd i fyny ac yn rhoi gwasgfa ddwbl ar unrhyw aelwyd sy'n rhedeg car.

Every point in production and distribution is facing higher and higher costs, and it is impossible for these not to be passed on to the customer. Eventually, higher prices will mean higher levels of production, but the industry will take longer to respond because it has been operating under such difficult conditions for the past decade, when farm-gate prices stagnated while supermarkets made excessive profits.

Mae pob rhan o gynhyrchu a dosbarthu yn wynebu costau uwch ac uwch, ac mae'n amhosibl i'r rhain beidio â chael eu trosglwyddo i'r cwsmer. Yn y pen draw, bydd prisiau uwch yn golygu lefelau cynhyrchu uwch, ond bydd y diwydiant yn cymryd mwy o amser i ymateb oherwydd ei fod wedi gweithredu dan amodau mor anodd am y degawd diwethaf, pan oedd prisiau wrth gât y fferm yn sefyll yn eu hunfan tra oedd archfarchnadoedd yn gwneud elw gormodol.

The industry has lost thousands of farmers, and those who are left have less money to invest in their businesses. Over the past year, the Competition Commission has pointed out how unsustainable many supermarket contracts were, passing on their retail costs to the farmers and bullying them into compliance when they objected. This situation may be turning around thanks to shortages, but the damage has already been done. On top of that, Labour's tendency to gold-plate European Union regulations has left farmers with higher costs and a mountain of red tape.

Mae'r diwydiant wedi colli miloedd o ffermwyr, ac mae gan y rheini sydd ar ôl lai o arian i'w fuddsoddi yn eu busnesau. Dros y flwyddyn diwethaf, mae'r Comisiwn Cystadleuaeth wedi tynnu sylw at y ffaith fod llawer o gontractau archfarchnadoedd mo anghynaliadwy, yn trosglwyddo'u costau adwerthu i'r ffermwyr ac yn eu bwlio i gydymffurfio pan fyddent yn gwrthwynebu. Mae'n bosibl bod y sefyllfa hon yn newid oherwydd prinder, ond mae'r difrod eisoes wedi'i wneud. Yn ychwanegol at hynny, mae tueddiad Llafur i eurblatio rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd wedi achosi costau uwch i ffermwyr a mynydd o fiwrocratiaeth.

That is why Welsh farmers now have to contend with the ridiculous animal transport regulations, where you must take a test to see whether you are fit to transport animals. *[Interruption.]* Pardon? Do you want to intervene, Minister?

Elin Jones: Yes, if I may. I just want to remind the Welsh Conservatives that they supported that legislation when it was presented by the Government here during the last administration.

Brynle Williams: We voted in favour of the livestock in transit legislation, but not for that on the testing of farmers and keepers of pets, and so on. Seriously, Minister, I could go into this now, but time is precious.

Animal transport regulations add cost with no real benefit. Nitrate vulnerable zones are being expanded without any basis in evidence, which may result in a substantial loss of productivity. On the horizon, we have electronic identification for sheep that will cost producers thousands of pounds, despite the fact that there is already full traceability under the current system.

The Welsh Assembly Government needs to realise that a fundamental change is under way, and that the end of the era of cheap food makes much of its agricultural policy obsolete. The absurd situation of paying farmers not to produce food has gone, thankfully. That practice has been suspended, and no-one predicts that it will survive the common agricultural policy healthcheck. Similarly, consumer demand will inevitably mean that the argument that farmers should give up on food production to become glorified park wardens no longer holds any weight.

3.00 p.m.

There will be commercial opportunities that simply were not there when agriculture was

Dyna pam y mae'n rhaid i ffermwyr Cymru yn awr frwydro yn erbyn y rheoliadau chwerthinllyd ar gyfer cludo anifeiliaid, lle mae'n rhaid ichi sefyll prawf i weld a ydych yn addas i gludo anifeiliaid. *[Torri ar draws.]* Mae'n ddrwg gennyf? A oes arnoch eisiau ymyrryd, Weinidog?

Elin Jones: Oes, os caf. Hoffwn atgoffa'r Ceidwadwyr Cymreig eu bod wedi cefnogi'r ddeddfwriaeth honno pan gafodd ei chyflwyno gan y Llywodraeth yma yn ystod y weinyddiaeth ddiwethaf.

Brynle Williams: Pleidleisiom o blaid y ddeddfwriaeth ar dda byw wrth gael eu cludo, ond nid dros y ddeddfwriaeth ar brawf i ffermwyr a phobl sy'n cadw anifeiliaid anwes, ac ati. O ddifrif, Weinidog, gallwn fanylu am hyn yn awr, ond mae amser yn brin.

Mae rheoliadau cludo anifeiliaid yn ychwanegu cost heb ddim budd gwirioneddol. Mae parthau sy'n agored i nitradau'n cael eu hymestyn heb ddim sail mewn tystiolaeth, a gallai hyn arwain at golli cynhyrchiant sylweddol. Ar y gorwel, mae gennym dagiau adnabod electronig ar gyfer ddefaid a fydd yn costio miloedd o bunnoedd i gynhyrchwyr, er bod modd olrhain y cynnyrch yn llwyr eisoes dan y system gyfredol.

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sylweddoli bod newid sylfaenol yn digwydd, a bod diwedd cyfnod y bwyd rhad yn golygu bod nifer o'i pholisïau amaethyddol wedi mynd yn ddiwerth. Mae'r sefyllfa absŵrd o dalu i ffermwyr am beidio â chynhyrchu bwyd wedi mynd, diolch byth. Mae'r arfer hwnnw wedi ei roi heibio, ac nid oes neb yn rhagweld y bydd yn parhau ar ôl archwiliad iechyd y polisi amaethyddol cyffredinol. Yn yr un modd, mae'n anochel y bydd y galw gan gwsmeriaid yn golygu na fydd y ddadl y dylai ffermwyr roi'r gorau i gynhyrchu bwyd i fod yn ddim mwy na wardeiniaid parciau yn dwyn unrhyw bwysau mwyach.

Fe fydd cyfleoedd masnachol nad oeddent ar gael pan oedd amaethyddiaeth mewn cyfnod

in the doldrums. The agri-environment schemes undoubtedly have a substantial and long-term future in Wales, but if these schemes are to survive and expand in the long term, they will have to be enhanced and their importance must be balanced against the necessity to produce more food. The declining value of the pound against the euro will have an impact. However, it is wishful thinking to hope that that will match the dramatic changes that the market has seen, and will continue to see, in food prices. There is also a global obligation for Wales. The more that we produce here, the less pressure there is on developing countries, where people are being pushed back into poverty from which they have only recently escaped.

What the agriculture industry needs from the Government is a policy to help it meet the challenges and opportunities of this rapidly changing market. That is why we have called for a dedicated food production strategy to maximise food production alongside improvements to the environment. It is no longer practical to treat food production as being ancillary to farmers' work. It is now, and will continue to be, the most important role that they carry out, and one at which they can excel if the Government lets them.

The industry has wanted the Government to take food security seriously for years. However, until now, that has fallen on deaf ears. Successive Labour Governments have stood by while thousands of farmers have left the industry. Vast swathes of land have been taken out of food production. The end result is that, since 1995, the UK's ability to feed itself has been slashed by over a fifth and Britain is less than 60 per cent self-sufficient; it is dependent on shipping and flying in vast amounts of foreign food, at a massive environmental cost.

Increasing food production at home is the only sustainable option for Wales and the UK to meet their own needs. I hope that the coming years will see farmers appreciated once more for the essential work that they do to feed the nation and less like a political

anodd. Mae dyfodol sylweddol a hirdymor i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru yn sicr, ond os yw'r cynlluniau hyn i barhau ac ehngu yn y tymor hir, bydd yn rhaid eu gwella, a rhaid pwysu a mesur eu pwysigrwydd yn erbyn y rheidrwydd i gynhyrchu mwy o fwyd. Bydd y gostyngiad yng ngwerth y bunt o'i chymharu â'r ewro yn cael effaith. Fodd bynnag, dyheu ofer yw gobeithio y bydd hynny'n cyfateb i'r newidiadau dramatig y mae'r farchnad wedi'u gweld, ac y bydd yn parhau i'w gweld, ym mhrisiau bwyd. Mae rhwymedigaeth fyd-eang ar Gymru hefyd. Po fwyaf a gynhyrchwn yma, lleiaf oll o bwysau sydd ar wledydd sy'n datblygu, lle mae pobl yn cael eu gwthio'n ôl i'r tlogi y maent newydd ddianc ohono.

Yr hyn y mae ar y diwydiant amaethyddiaeth ei angen gan y Llywodraeth yw polisi i'w helpu i wynebu sialensiau a chyfleoedd y farchnad hon sy'n newid yn gyflym. Dyna pam yr ydym wedi galw am strategaeth bwrpasol i Gymru ar gynhyrchu bwyd ochr yn ochr â gwelliannau yn yr amgylchedd. Nid yw mwyach yn ymarferol trin cynhyrchu bwyd fel rhywbeth atodol at waith ffermwyr. Hyn yn awr yw'r rôl bwysicaf y maent yn ei chyflawni, ac y byddant yn ei chyflawni, ac mae'n rôl y gallant ragori ynddi os bydd y Llywodraeth yn gadael iddynt.

Ers blynyddoedd mae'r diwydiant wedi gofyn i'r Llywodraeth gymryd bwyd o ddifrif. Fodd bynnag, tan yn awr, mae hynny wedi disgyn ar glustiau byddar. Mae'r naill Lywodraeth Lafur ar ôl y llall wedi sefyll o'r neilltu tra mae miloedd o ffermwyr wedi gadael y diwydiant. Rhoddwyd y gorau i gynhyrchu bwyd ar ddarnau enfawr o dir. Canlyniad hynny, er 1995, yw bod gallu'r DU i'w bwydo ei hun wedi gostwng dros un rhan o bump, ac mae Prydain lai na 60 y cant yn hunangynhaliol; mae'n ddibynnol ar gludo llwythi anferth o fwyd tramor i'r wlad ar longau ac awyrennau, am gost amgylcheddol enfawr.

Cynyddu cynhyrchu bwyd gartref yw'r unig ddewis cynaliadwy i Gymru ac i'r DU i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gobeithio y bydd y blynyddoedd i ddod yn gweld ffermwyr yn cael eu gwerthfawrogi unwaith eto yn fwy am y gwaith hanfodol a wna't i

football for socialists, who have never understood or appreciated the countryside or how it works.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I propose the following amendments in the name of Carwyn Jones. Amendment 1: in point 3 delete all after 'farming' and replace with:

difficult in the past and welcomes the actions of the Minister for Rural Affairs in tackling red tape and calling for the creation of a supermarket ombudsman.

Amendment 2: in point 4 delete 'increased prices in agricultural commodities' and replace with:

both increased prices in agricultural commodities and the change in the price of the euro may.

Amendment 3: in point 4 delete 'the future of'.

Amendment 5: in point 5 delete all after 'stakeholders' and replace with:

to continue the Minister's commendable initiative to prepare a food and farming strategy.

Kirsty Williams: I propose amendment 4 in my name. Insert as new point 5 and renumber accordingly:

believes that the promotion of locally-sourced food will benefit the farming industry in Wales, will improve food security and will increase sustainable food production.

We have tabled this amendment today because we passionately believe that we need to do a lot more to encourage local food production.

The *Farmers Weekly* magazine's food miles research survey in 2006 noted that 47 per cent of people did not know where the food that they bought was produced. Eighty-three per cent of those surveyed said that they would prefer to buy local produce if it were

fwydo'r genedl ac yn llai fel pêl-droed wleidyddol i sosialwyr, nad ydynt erioed wedi deall na gwerthfawrogi cefn gwlad a'r ffordd y mae'n gweithio.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Carwyn Jones. Gwelliant 1: ym Mhwynt 3 dileu popeth ar ôl 'ffermio'n' a rhoi yn ei le

anodd yn y gorffennol ac yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig wrth fynd i'r afael â biwrocratiaeth ac wrth alw am greu ombwdsmon archfarchnadoedd.

Gwelliant 2: ym Mhwynt 4 dileu 'bod y cynnydd ym mhrisiau nwyddau amaethyddol yn' a rhoi yn ei le:

y gall y cynnydd ym mhrisiau nwyddau amaethyddol yn ogystal â'r newid ym mhris yr ewro.

Gwelliant 3: ym Mhwynt 4 dileu 'ddyfodol cynlluniau' a rhoi yn ei le 'gynlluniau'.

Gwelliant 5: ym Mhwynt 5 dileu popeth ar ôl 'handdeiliaid' a rhoi yn ei le:

i barhau â menter glodwiw y Gweinidog i baratoi strategaeth ar fwyd a ffermio.

Kirsty Williams: Cynigiau welliant 4 yn fy enw i. Cynnwys pwynt 5 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

yn credu y bydd hybu bwyd lleol o fudd i'r diwydiant ffermio yng Nghymru, yn gwella diogelwch bwyd ac yn cynyddu cynhyrchu bwyd cynaliadwy.

Yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliant hwn heddiw am ein bod yn credu'n gryf iawn fod angen inni wneud llawer mwy i annog cynhyrchu bwyd yn lleol.

Nododd arolwg o ymchwil milltiroedd bwyd gan y cylchgrawn *Farmers Weekly* yn 2006 nad yw 47 y cant o bobl yn gwybod ym mhle mae'r bwyd y maent yn ei brynu wedi ei gynhyrchu. Dywedodd 83 y cant o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y byddai'n well

clearly labelled and they knew what they were buying. However, given that 75 per cent of all food eaten in Wales comes from the supermarket, rather than from more direct sources and direct relationships between purchaser and producer, it is even more important that we get this right. Local food procurement is important to food security issues and to achieving our sustainability aims.

The Westminster Government is committed to reducing the social and environmental impact of food miles by 20 per cent by 2012. However, the figures show that, in 2006, almost a third more food was flown into the UK than in 2005, and air freight rose by 31 per cent according to figures from the Department for Environment, Food, and Rural Affairs. According to the World Wildlife Fund Cymru, if we apply the principles of fair trade, sustainable sourcing and corporate responsibility to all our food, we could save up to 10 per cent of our ecological footprint from the food sector alone.

Food transport is responsible for 25 per cent of the heavy goods vehicles travelling on our roads, and supermarkets have national distribution systems so that, even if food is produced near a local branch, it may have to be transported across the country to a central depot, and then back to its place of origin, before it reaches the shelves. All these journeys around Britain mean that HGVs transporting food are responsible for one quarter of our carbon dioxide emissions. Other figures show that there has been an increase in the number of short trips made by car for food shopping, and cars are now responsible for 20 per cent of the UK's carbon dioxide emissions from food transport. This is having a harmful effect on our environment, increasing our carbon emissions and our ecological footprint.

At the moment, there is simply far too much reliance on imports. If the Government is serious about tackling food shortages, we need support and investment so that we can realise the potential of the British agriculture industry. The UK has some of the highest

ganddynt brynu cynnyrch lleol petai'n cael ei labelu'n glir a'u bod yn gwybod beth yr oeddent yn ei brynu. Fodd bynnag, o gofio bod 75 y cant o'r holl fwyd a fwyteir yng Nghymru yn dod o'r archfarchnad, yn hytrach nag o ffynonellau mwy uniongyrchol a pherthynas uniongyrchol rhwng y prynwr a'r cynhyrchydd, mae'n bwysicach fyth inni wneud hyn yn iawn. Mae caffael bwyd lleol yn bwysig o ran materion diogelwch bwyd ac er mwyn cyflawni ein hamcanion cynaliadwyedd.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi ymrwmo i leihau effaith gymdeithasol ac amgylcheddol milltiroedd bwyd 20 y cant erbyn 2012. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos bod bron un rhan o dair yn fwy o fwyd wedi ei gludo i'r DU mewn awyrennau yn 2006 nag yn 2005, a chynyddodd cludiant awyrennau 31 y cant yn ôl ffigurau Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn ôl Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd Cymru, os cymhwyswn egwyddorion masnachu teg, defnyddio ffynonellau cynaliadwy a chyfrifoldeb corfforaethol i'n holl fwyd, gallem atal hyd at 10 y cant o'n hól-troed ecolegol o'r sector bwyd yn unig.

Mae cludo bwyd yn gyfrifol am 25 y cant o'r cerbydau nwyddau trwm sy'n teithio ar ein ffyrdd, ac mae gan archfarchnadoedd systemau dosbarthu cenedlaethol. Felly, hyd yn oed os caiff bwyd ei gynhyrchu'n agos at gangen leol, efallai y bydd yn rhaid ei gludo ar draws y wlad i fan canolog, ac yna'n ôl i'r man y mae'n tarddu ohono, cyn iddo gyrraedd y silffoedd. Mae'r holl siwrneiau hyn o amgylch Prydain yn golygu bod cerbydau nwyddau trwm sy'n cludo bwyd yn gyfrifol am chwarter ein hallyriadau o garbon deuocsid. Dengys ffigurau eraill bod cynnydd yn nifer y teithiau byr a wneir yn y car i siopa am fwyd, a bellach mae ceir yn gyfrifol am 20 y cant o allyriadau carbon deuocsid y DU o gludo bwyd. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ein hamgylchedd, gan gynyddu ein hallyriadau carbon a'n hól-troed ecolegol.

Ar hyn o bryd, mae llawer gormod o ddibyniaeth ar fewnforion. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am fynd i'r afael â phrinder bwyd, mae arnom angen cymorth a buddsoddiad fel y gallwn wireddu potensial diwydiant amaethyddiaeth Prydain. Mae'r

quality food products available, yet figures uncovered by my colleague Roger Williams at Westminster show that 85 per cent of the lamb used by national health service premises in the UK is imported. The Welsh Assembly Government must encourage the use of locally sourced food in schools and hospitals across Wales, as well as promoting it for individual consumers.

As Welsh Liberal Democrats, we strongly support locally sourced food, but it must be planned and supported by local and national Government if it is to be efficient and effective. We want to see the development of local food strategies to promote the consumption of locally sourced food, along with greater promotion of Welsh-branded produce, and more support for farmers markets and farmers co-operatives, which can build working relationships between farmers and retailers, as well as securing guarantees of supply from producers, so that farmers can rest assured that there is a market for their produce. If supermarkets are to continue to dominate the retail sector, and I suspect that they will, we must get tougher with them—we must encourage them to lead by example, and compete with one another to establish who sells the most local food within their shops.

The key to that has to be a clear and consistent system of food labelling, so that the consumer can make informed choices. I am sure that many people were shocked by the BBC report last week that looked at supposedly local beef supplied in west country restaurants; in fact it was nothing of the sort, and consumers were being ripped off. Therefore we need a proper system of food labelling, and not only in our supermarkets—I want to go further, so that it applies to our restaurants as well. Why is it that restaurants in France have certification on the wall to tell you where their meat has been sourced from? If it is good enough for them, I believe that it is good enough for Welsh and British consumers to have that same protection, as well as our farmers knowing that their produce is being properly

DU yn cynhyrchu rhai o'r bwydydd uchaf eu safon sydd ar gael, ond mae ffigurau a ddatgelwyd gan fy nghyd-Aelod Roger Williams yn San Steffan yn dangos bod 85 y cant o'r cig oen a ddefnyddir gan safleoedd y gwasanaeth iechyd gwladol yn y DU yn cael ei fewnforio. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru annog defnyddio bwyd o ffynonellau lleol mewn ysgolion ac ysbytai ar draws Cymru, yn ogystal â'i hyrwyddo i ddefnyddwyr unigol.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr ydym yn cefnogi bwyd o ffynonellau lleol yn gryf, ond rhaid iddo gael ei gynllunio a'i gefnogi gan Lywodraeth leol a chenedlaethol os yw i fod yn effeithlon ac effeithiol. Yr ydym am weld datblygu strategaethau bwyd lleol i hyrwyddo defnyddio bwyd o ffynonellau lleol, ynghyd â mwy o hyrwyddo cynnyrch sydd a brand Cymru arno, a mwy o gefnogaeth i farchnadoedd ffermwyr a chwmnïau cydweithredol ffermwyr, sy'n gallu meithrin perthynas weithio rhwng ffermwyr a manwerthwyr, yn ogystal â sicrhau gwarantau cyflenwi gan gynhyrchwyr, fel y gall ffermwyr fod yn sicr fod yna farchnad i'w cynnyrch. Os yw archfarchnadoedd i barhau i dra-arglwyddiaethu yn y sector manwerthu, ac yr wyf yn amau mai dyna fydd yn digwydd, rhaid inni fod yn llymach gyda nhw—rhaid inni eu hannog i arwain drwy esiampl, a chystadlu â'i gilydd i sefydlu pwy sy'n gwerthu fwyaf o fwyd lleol yn eu siopau.

Yr allwedd i hyn o reidrwydd yw system labelu bwyd sy'n glir a chyson, fel y gall y defnyddiwr ddewis ar sail gwybodaeth. Yr wyf yn siŵr bod llawer o bobl wedi'u synnu gan adroddiad y BBC yr wythnos diwethaf a oedd yn edrych ar gig eidion lleol honedig mewn tai bwyta yng ngorllewin Lloegr; mewn gwirionedd, nid oedd yn ddim byd o'r fath, ac yr oedd defnyddwyr yn cael eu twyllo. Felly, mae arnom angen system iawn o labelu bwyd, nid yn ein harchfarchnadoedd yn unig—yr wyf am fynd ymhellach, er mwyn iddo gael ei ddefnyddio yn ein tai bwyta hefyd. Pam mae gan dai bwyta yn Ffrainc dystysgrifau ar y wal yn dweud o ble y daeth eu cig? Os yw'n ddigon da iddynt hwy, credaf ei bod yn ddigon da i ddefnyddwyr Cymru a Phrydain gael yr un diogelwch, ac i'n ffermwyr wybod bod eu

treated.

Finally, if we are to supply local food, we must have the infrastructure to deliver it. We are greatly concerned, in the Welsh Liberal Democrats, about the survival of abattoirs. Local abattoirs are essential if we are to produce local food, and we need to protect them from the rising costs of meat inspection charges and veterinary hours, which are threatening the existence of the infrastructure that we need to deliver on this agenda.

Joyce Watson: I am glad to have the opportunity to contribute to this topical debate. There are real concerns about recent food and fuel price increases, and the strain that they are putting on farmers, growers and, indeed, everyone in Wales. Yesterday the Office for National Statistics reported that food prices were up by 6.6 per cent in the year to April. This sharp increase is being felt both at home and abroad. Worldwide, the escalation of food prices is causing social and political unrest, and there is demand for Governments and international and supra-national bodies to act and to develop a coherent response.

3.10 p.m.

Where the Welsh Assembly Government can act to counter the effects of these price increases, we can expect it to do so. I look forward to the new farming strategy and a framework that will enable the industry to meet the challenges of increased competition and higher input costs.

The Conservatives are today calling for the regulation of supermarket practices and market conditions and de-regulation to reduce farming red tape. The Assembly is working to alleviate the pressure on Welsh farmers. The Competition Commission has investigated the relationship between retailers and suppliers. The Minister has examined its recommendations and has called for the creation of a supermarket ombudsman to tackle practices that harm suppliers. The independent review of farming bureaucracy will look to reduce the regulatory burden on farmers. Therefore, I think that everyone in the Chamber can welcome those

cynnyrch yn cael ei drin yn iawn.

Yn olaf, os ydym i ddarparu bwyd lleol, rhaid inni gael y seilwaith i'w ddosbarthu. Yr ydym ni, Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn poeni'n fawr ynglŷn â dyfodol lladd-dai. Mae lladd-dai lleol yn hanfodol os ydym i gynhyrchu bwyd lleol, ac mae angen inni eu hamddiffyn rhag costau cynyddol taliadau archwilio cig ac oriau milfeddygon, sy'n bygwth bodolaeth y seilwaith y mae arnom ei angen i wireddu'r agenda hon.

Joyce Watson: Yr wyf yn falch cael y cyfle i gyfrannu at y ddaedl amserol hon. Mae nifer o bryderon gwirioneddol am y codiadau ym mhrisiau bwyd a thanwydd yn ddiweddar, a'r straen y maent yn ei rhoi ar ffermwyr, tyfwyr ac, yn wir, ar bawb yng Nghymru. Ddoe, dywedodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod prisiau bwyd wedi codi 6.6 y cant yn y flwyddyn hyd at fis Ebrill. Mae'r cynnydd sylweddol hwn i'w deimlo gartref a thramor. Ar draws y byd, mae'r cynnydd ym mhrisiau bwyd yn achosi aflonyddwch cymdeithasol a gwleidyddol, ac mae galw ar Lywodraethau a chyirff rhyngwladol a chydwladol i weithredu a datblygu ymateb cydlynol.

Lle gall Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu i wrthsefyll effeithiau'r codiadau hyn mewn prisiau, gallwn ddisgwyl iddi wneud hynny. Edrychaf ymlaen at y strategaeth ffermio newydd a fframwaith a fydd yn galluogi'r diwydiant i wynebu her mwy o gystadleuaeth a chostau mewnbyn uwch.

Mae'r Ceidwadwyr heddiw yn galw am reoleiddio arferion archfarchnadoedd ac amodau'r farchnad ac am ddadredeoli i leihau'r fiwrocratiaeth ym maes ffermio. Mae'r Cynulliad yn gweithio i liniaru'r pwysau ar ffermwyr Cymru. Mae'r Comisiwn Cystadleuaeth wedi ymchwilio i'r berthynas rhwng manwerthwyr a chyflenwyr. Mae'r Gweinidog wedi archwilio'i argymhellion ac wedi galw am greu ombwdsmon archfarchnadoedd i fynd i'r afael ag arferion sy'n niweidio cyflenwyr. Bydd yr adolygiad annibynnol o fiwrocratiaeth ffermio yn ystyried lleihau'r baich rheoleiddio ar ffermwyr. Felly, credaf y gall pawb yn y

developments, and I am sure that you will do so.

Likewise, under the new rural development plan, agri-environment schemes like Tir Gofal and Tir Cynnal are benefiting farmers in Wales and will continue to do so. The current strength of the euro may have positive implications for subsidies and for exports, which could come as a welcome boost to the Welsh meat industry in particular. Producers can be confident that the Assembly will continue to promote their best interests through strategies and policies to support locally sourced food and sustainable production. This is a 'One Wales' commitment, and the local sourcing strategy action plan that is being developed will take this agenda forward.

Nick Bourne: It is a great pleasure to contribute to this debate, because it is accepted on all sides of the Chamber that this is an issue that transcends party politics and is important not just in national Welsh terms or national UK terms, but, indeed, in global terms. The problems that we face at the moment are partly a result of the global challenges that we see because of the massive growth in the economies of China and India. There is no doubt that that is a massive contributing factor. If you think about the population of either India or China dwarfing the population of Europe alone, let alone together, you begin to see the size of the challenge that arises as people in both of these countries attain—and quite rightly so—better standards of living, with the expectations that they have and the impact that that is having on food prices, on energy prices, and so on. That puts it all in context.

It is important that we develop, in Wales, a national food strategy. It is important that we should seek self-sufficiency as far as it is possible. I understand that not every commodity can be grown or reared in Wales, but an enormous amount can be done to increase production in Wales. I agree with the local food agenda, and we will support the amendment that deals with that issue. It is wholly right to say that local food is healthier, it contributes to the green agenda,

Siambr groesawu'r datblygiadau hynny, ac yr wyf yn siŵr y gwnewch chi hynny.

Yn yr un modd, o dan y cynllun datblygu gwledig newydd, mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Tir Gofal a Tir Cynnal o fudd i ffermwyr yng Nghymru a bydd hynny'n parhau. Efallai y bydd cryfder yr ewro ar hyn o bryd yn golygu goblygiadau positif o ran cymorthdaliadau ac allforion, a allai fod yn hwb derbynol iawn i ddiwydiant cig Cymru yn arbennig. Gall cynhyrchwyr fod yn hyderus y bydd y Cynulliad yn dal i hyrwyddo'u buddiannau gorau drwy strategaethau a pholisïau i gefnogi bwyd o ffynonellau lleol a chynhyrchu cynaliadwy. Mae hyn yn ymrwymiad yn 'Cymru'n Un', a bydd cynllun gweithredu'r strategaeth, sy'n cael ei ddatblygu, i ddefnyddio ffynonellau lleol yn symud yr agenda hon ymlaen.

Nick Bourne: Mae'n bleser mawr cyfrannu at y ddadl hon, oherwydd mae pob ochr o'r Siambr yn derbyn bod hwn yn fater sydd y tu hwnt i wleidyddiaeth plaid ac yn bwysig nid yn unig ar raddfa genedlaethol Gymreig neu ar raddfa genedlaethol y DU, ond, yn wir, ar raddfa fyd-eang. Mae'r problemau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn deillio'n rhannol o'r sialensiau byd-eang a welwn oherwydd y twf enfawr yn economïau Tsieina ac India. Nid oes amheuaeth nad yw hwnnw'n ffactor sy'n cyfrannu'n fawr iawn. Os ystyriwch fod poblogaeth un ai India ynteu Tsieina ar eu pen eu hunain yn enfawr o'u cymharu â phoblogaeth Ewrop, heb sôn am gyda'i gilydd, gwelwch faint yr her sy'n codi wrth i bobl y ddwy wlad honno—yn hollol briodol—gael gwell safonau byw, gyda'r disgwyliadau sydd ganddynt a'r effaith a gaiff hynny ar brisiau bwyd, ar brisiau ynni, ac ati. Mae hynny'n rhoi'r cyfan yn ei gyd-destun.

Mae'n bwysig i ni, yng Nghymru, ddatblygu strategaeth fwyd genedlaethol. Mae'n bwysig inni geisio bod yn hunangynhaliol cyn belled ag y mae'n bosibl. Sylweddolaf nad oes modd tyfu neu fagu pob nwydd yng Nghymru, ond gellir gwneud llawer iawn i gynyddu cynhyrchiant yng Nghymru. Yr wyf yn cytuno â'r agenda fwyd leol, a byddwn yn cefnogi'r gwelliant sy'n delio â'r mater hwnnw. Mae'n hollol gywir dweud bod bwyd lleol yn iachach, mae'n cyfrannu at yr agenda

and it supports local communities. I also agree with what was said about local abattoirs. That is important, because it leads to meat being produced more healthily and, again, it contributes to the green agenda, because carcasses and animals are not travelling as far. The recent experience of foot and mouth disease shows how important supporting local abattoirs is to the Welsh economy and, more widely, to the British economy.

I also agree with what has been said about labelling local food, not just in supermarkets, but also in restaurants. It has always struck me as extraordinary that you can tell whether a wine or a cheese is locally produced, but you do not know that about the meat or the vegetables, and so on. It seems to be wholly sensible that we should support that. Indeed, other countries do that. Therefore, that is also important.

This debate is not divisive. It was a strange coincidence that the Minister brought forward the red tape review on the same date as our debate on that very issue—accepting that coincidences happen, it was a welcome development—and I would not doubt now that the Minister intends to move things in the direction that we are asking for. However, much remains to be done about labelling and encouraging best practice, and about looking at the supermarkets. They do not perhaps share Joyce Watson's rosy view that we can trust supermarkets, and the review says that everything in the garden is fine. Supermarkets are all-powerful. I will not name any one in particular, but they have gross profits larger than the economies of many countries, and we have to accept that they are big players and that they need regulating and watching. Some of what they do is right, often because they are responding to a market mechanism, but some of what they do is not right, and it threatens consumers, food production and choice, if we are not careful. We need to look to regulate that sector more effectively than we have perhaps done in the past.

That said, we need to learn important lessons

werdd, ac mae'n cefnogi cymunedau lleol. Cytunaf hefyd â'r hyn a ddywedwyd am ladd-dai lleol. Mae'n bwysig, oherwydd mae'n golygu bod cig yn cael ei gynhyrchu'n iachach ac, eto, mae'n cyfrannu at yr agenda werdd, oherwydd nid yw carcasau ac anifeiliaid yn teithio mor bell. Mae'r profiad diweddar o glwy'r traed a'r genau yn dangos mor bwysig yw cefnogi lladd-dai lleol i economi Cymru, ac, yn fwy eang, i economi Prydain.

Cytunaf hefyd â'r hyn a ddywedwyd am labelu bwyd lleol, nid mewn archfarchnadoedd yn unig, ond mewn tai bwyta hefyd. Mae wedi fy nharo erioed yn beth rhyfedd eich bod yn gallu dweud a yw gwin neu gaws yn cael ei gynhyrchu'n lleol, ond na wyddoch hynny am y cig neu'r llysiau, ac ati. Mae'n ymddangos yn gwbl synhwyrol y dylem gefnogi hynny. Yn wir, mae gwledydd eraill yn gwneud hynny. Felly, mae hynny hefyd yn bwysig.

Nid yw hon yn ddadl sy'n ein rhannu. Cyddigwyddiad rhyfedd oedd fod y Gweinidog wedi dod â'r adolygiad o fiwrocratiaeth gerbron ar yr un diwrnod â'n dadl ar yr union fater hwnnw—a derbyn bod cyddigwyddiadau yn digwydd, yr oedd yn ddatblygiad i'w groesawu—ac ni fyddwn yn amau gan fod y Gweinidog yn awr yn bwriadu symud pethau i'r cyfeiriad yr ydym a ofynnwn. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd o ran labelu ac annog arferion gorau, ac o ran edrych ar yr archfarchnadoedd. Efallai nad ydynt yn rhannu barn obeithiol Joyce Watson y gallwn ymddiried mewn archfarchnadoedd, a dywed yr adolygiad nad oes dim o'i le. Mae'r archfarchnadoedd yn hollbwerus. Nid enwaf yr un ohonynt yn benodol, ond mae ganddynt elw crynswth uwch nag economïau llawer o wledydd, a rhaid inni dderbyn eu bod yn fawr a bod angen eu rheoleiddio a'u gwyllo. Mae rhai o'r pethau a wnânt yn gywir, yn aml am eu bod yn ymateb i fecanwaith yn y farchnad, ond mae rhai o'r pethau a wnânt yn anghywir, ac mae'n bygwth defnyddwyr, cynhyrchu bwyd a dewis, os na fyddwn yn ofalus. Mae angen inni ystyried rheoleiddio'r sector hwnnw'n fwy effeithiol nag a wnaethom yn y gorffennol o bosibl.

Wedi dweud hynny, mae angen inni ddysgu

about a national food strategy, and Brynle Williams set that out clearly in opening up this debate.

Alun Ffred Jones: Wrth wrando ar Brynle, daeth dagrau i'm llygaid. Er fy mod yn cytuno â Nick Bourne fod y cynnig hwn yn croesi ffiniau pleidiol, mae'n gynnig sydd wedi'i fframio'n eithaf negyddol, yn anffodus. Yr oedd araith agoriadol Brynle yn negyddol iawn. Yr wyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr fod perygl, wrth siarad yn y termau hyn am y byd amaethyddol, ein bod yn gwneud cam, a hynny er gwaethaf y problemau dilys y cyfeiriodd Brynle atynt.

Mae'n fy atgoffa o'r hyn a ddigwyddodd yn yr eisteddfod genedlaethol yn yr Wyddgrug, lle yr oedd Brynle, minnau a rhai eraill yn trafod sefyllfa'r byd amaethyddol. Yn y cyfarfod hwnnw, yr oedd beirniadaeth a chwyno am y sefyllfa yn cael eu mynegi ar bob llaw, un ar ôl y llall, ond ar y panel gyda ni'r diwrnod hwnnw yr oedd ffermwr ifanc. Ar y diwedd, dywedodd ryw beth tebyg i hyn: 'Mae'n bwysig iawn ein bod ni'n stopio cwyno am bethau sydd y tu allan i'n rheolaeth ni ac yn trïo newid y pethau sydd o fewn ein gallu, ond, yn bwysicach na hynny, ein bod yn trïo cymryd camau cadarnhaol ymarferol i wella sefyllfa amaethwyr'. Yr oedd yntau'n aelod o gwmni cydweithredol sy'n hybu cynnyrch organig lleol, gan geisio ennill contractau gyda'r archfarchnadoedd. Gwelais ei agwedd ef yn chwa o awyr iach yng nghanol y negyddiaeth y mae rhywun yn ei chlywed mor aml wrth drafod y maes hwn. Mae'n rhaid inni ddod allan o'r arfer hwn o gwyno'n barhaol a bod yn llawer iawn mwy cadarnhaol yn y ffordd yr ydym yn trafod.

Brynle Williams: Yr wyf yn deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud, ond y peth pwysicaf yr ydym yn ei drafod heddiw yw sicrhau bod digon o fwyd. Yr wyf yn siarad yn negyddol yn aml, ond dyna'r sefyllfa mae'r diwydiant ynddi. Nid oes digon o arian i fuddsoddi i'r dyfodol. Yn sgîl yr hyn a ddigwyddodd yr haf diweddf, gwelodd yr archfarchnadoedd fod prinder llaeth a chodi'r pris rhyw 10c yn syth. Yr wyf yn cytuno â chi i raddau fy mod yn siarad yn negyddol, ond yr wyf yn ceisio esbonio pam bod rhaid inni gael elw ym mhocedi ffermwyr a phobl yng nghefn gwlad er mwyn ei ail-fuddsoddi.

gwersi pwysig am strategaeth fwyd genedlaethol, a gosododd Brynle Williams hynny allan yn glir wrth agor y ddadl hon.

Alun Ffred Jones: Brynle's speech brought tears to my eyes. Although I agree with Nick Bourne that this motion cuts across party lines, it is quite negatively framed, unfortunately. Brynle's opening speech was very negative. I have said before in the Chamber that there is danger that, in speaking about it in these terms, we are doing the agriculture industry a disservice, despite the valid problems which Brynle referred to.

It reminds me of what happened at the national eisteddfod in Mold, where I, along with Brynle and others, were discussing the situation of the agriculture industry. At that meeting, there were criticisms and complaints from all sides, one after another, but on the panel with us that day was a young farmer. At the end, he said something along these lines: 'It is very important that we stop complaining about things that are outside our control and try to change those things that we have the ability to change, but, more importantly, that we should try to take positive practical steps to improve the situation for farmers'. He was a member of a co-operative company that promotes local organic produce, trying to win contracts with supermarkets. I saw his attitude as a breath of fresh air in the midst of all the negativity which we hear so often when discussing this issue. We must come out of that mode of constantly complaining and be much more positive in the way that we discuss things.

Brynle Williams: I recognise what you say, but the most important thing we are discussing today is ensuring adequate food supplies. I often do speak negatively, but that is the situation in which the industry finds itself. There is not enough money to invest for the future. As a result of what happened last summer, the supermarkets saw that milk was scarce and raised the price straightaway by about 10p. I agree with you to a certain extent that I speak negatively, but I am trying to explain why farmers and those in rural areas should have profits in their pockets to re-invest.

Alun Ffred Jones: Diolch, Brynle. Ofnaf fod yr hyn a ddywedasoch wedi atgyfnerthu fy sylwadau blaenorol, ond ta waeth am hynny.

Alun Ffred Jones: Thank you, Brynle. I fear that that reinforces my earlier point, but that is beside the point.

Cyfeiriaf yn fyr at dri o'r pwyntiau yn y cynnig. Yn sicr, mae arferion yr archfarchnadoedd wedi rhoi gwasgfa wirioneddol ar y cynhyrchwyr—ffermwyr yn benodol, ond llawer o gynhyrchwyr eraill ym maes bwyd hefyd.

I will refer briefly to three of the points in the motion. Certainly, the practices of supermarkets have definitely put real pressure on producers—farmers specifically, but also on many other producers in the food industry.

3.20 p.m.

Cyfeiriodd Kirsty Williams at y ffaith bod tri chwarter y bwyd sydd yn cael ei fwyta yng Nghymru yn cael ei brynu o'r archfarchnadoedd—mae hwnnw'n ffigur syfrdanol o uchel ac yn dangos cyn lleied o ddewis sydd gennym bellach oherwydd yr arferion. Mae'r arferion hyn wedi datblygu, gyda llaw, dros 30 o flynyddoedd, ac nid oes un Llywodraeth wedi ceisio cyfyngu ar archfarchnadoedd a'u hatal rhag adeiladu. Pan oeddwn yn gynghorydd yn ceisio dadlau yn erbyn sefydlu archfarchnadoedd mewn trefi, nid oedd yn bosibl gwneud hynny drwy'r system gynllunio, ac ni wnaeth y Llywodraeth Dorïaidd a oedd mewn grym ar y pryd unrhyw beth i rwystro twf yr archfarchnadoedd. Yr ydym bellach mewn sefyllfa lle mae gan yr archfarchnadoedd fonopoli, i bob pwrpas, ar arwerthiant bwyd yn ein gwlad. Os cofiaf yn iawn, pan geisiais ddod â rhywfaint o reolaeth ar ddatblygu ac ehangu archfarchnadoedd, ni chefais lawer o gefnogaeth. Mae'n sefyllfa afiach, sydd angen sylw yn sicr.

Kirsty Williams referred to the fact that three quarters of the food consumed in Wales is bought from the supermarkets—that is an incredibly high figure and shows how little choice we have now as a result of these practices. These practices have developed, by the way, over 30 years and no Government has attempted to restrict supermarkets and prevent them from being built. When I was a councillor arguing against the establishment of supermarkets in towns, it was not possible to do so though the planning system, and the Conservative Government in power at the time did nothing to restrict the growth of supermarkets. We are now in a situation where supermarkets have a monopoly, more or less, on food retail in our country. If I remember correctly, when I tried to introduce some control on the development and expansion of supermarkets, I did not receive much support. It is an unhealthy situation that certainly warrants attention.

Wrth sôn am filltiroedd bwyd, gan dderbyn y ddadl yn gyffredinol, rhaid inni gofio fod amaethwyr Cymru yn dibynnu ar allforio. Os ydych o blaid allforio cig o Gymru, mae'n anodd iawn dadlau wedyn yn erbyn mewnfario bwyd o wledydd eraill. Felly, mae honno'n ddadl sydd angen tipyn o sylw, ac er ein bod yn derbyn y dadl ei bod yn well inni gael cynnyrch lleol, mae'n ffaith bod amaethwyr cefn gwlad a'r ucheldir yn dibynnu ar allforio cig, a hynny dros filltiroedd mawr. O ran cynnyrch lleol, ni allwn sôn, yn enwedig yn y diwydiant cig, am gynnyrch lleol os nad ydym yn cynnal y lladd-dai lleol sydd ar ôl, ac mae hynny ynddo'i hun yn her. Byddai rhywun hefyd yn

When talking about food miles, while accepting the general argument, we must remember that Welsh farmers depend on the export market. If you are in favour of exporting meat from Wales, it is very difficult to argue against importing food from other countries. That argument, therefore, needs some attention, and although we accept the argument that local produce is better, it is a fact that farmers in rural areas and in the uplands depend on exporting meat, over great distances. As for local produce, we cannot talk about local produce, especially in the meat industry, if we do not support the local abattoirs that remain, and that in itself is a challenge. One would also wish to see more

dymuno gweld rhagor ohonynt, oherwydd hebddynt mae'n anos cael sicrwydd bod cig sy'n cael ei werthu yn lleol yn cael ei gynhyrchu'n lleol.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â bwytai. Yr ydym wedi ennill y ddadl o safbwynt bwytai o safon uchel; mae'r rheini yn aml iawn yn brolio eu bod yn gwerthu bwyd lleol. Ond yr ydym yn methu'n llwyr o ran lleoedd bwyta cyffredin, fel caffis a thafarndai—mae'r bwyd hwnnw bron i gyd, yn yr un modd â bwyd yr archfarchnadoedd, yn dod o ganolfannau enfawr, Duw a wŷr ym mhle, ym Mhrydain neu thu hwnt. Mae hynny'n her fawr i'r Llywodraeth a hefyd i'r diwydiant twristiaeth.

Darren Millar: There is no doubt that people are feeling the squeeze on their household budgets. It is almost as if all aspects of our lifestyles are being hit. It costs the earth to keep our cars on the road simply to get to work or to take the children to school. It costs the earth to keep a roof over our heads, as we have been subjected to hikes in council tax and energy costs, and to put food on our tables, as our shopping baskets are now in the firing line, and that is what most of this debate is centred around. We are not naïve when it comes to acknowledging the current world-wide economic climate, with the infamous credit crunch, the rising cost of oil, and food shortages as the global population begins to boom. However, our responsibility lies here, closer to home, and it is the duty of the Labour-Plaid Government to do all that it can to support the people of Wales, and, wherever possible, to relieve the increasing burden on them.

To start making a dent in the problem, we need to look at the producers, those on the frontline of food production in Wales. There must be more support for farmers in Wales, acknowledging the essential role that they play in the food chain and in the management of the countryside and the environment. On the other hand, it would appear that Labour, in particular, fails to grasp these issues—not just here but in Westminster. Its inept policies and lack of appropriate action, especially in the previous Welsh Assembly Government, demonstrate a huge misunderstanding of the needs of farmers, and the decision by the

abattoirs, because without them it is more difficult to ensure that meat sold locally is produced locally.

My final point is about restaurants. We have won the argument with regard to fine restaurants; they often boast that they sell local food. However, we are failing completely with regard to ordinary eating places, such as cafes and pubs—nearly all that food, as is the case with supermarkets, comes from large centres, God knows where, in Britain or beyond. That is a major challenge for the Government and also for the tourism industry.

Darren Millar: Nid oes amheuaeth nad yw pobl yn teimlo pwysau ar gyllideb eu cartref. Mae bron bod pob agwedd ar ein ffordd o fyw yn dioddef. Mae'n costio ffortiwn i gadw ein ceir ar y ffordd er mwyn teithio i'r gwaith neu fynd â'r plant i'r ysgol yn unig. Mae'n costio ffortiwn i gadw to uwch ein pennau, gan inni weld cynnydd yn y dreth gyngor ac yng nghostau ynni, ac i roi bwyd ar ein byrddau, gan fod ein basgedi siopa bellach yn dioddef, a dyna graidd y rhan fwyaf o'r ddadl hon. Nid ydym yn naif o ran cydnabod yr hinsawdd economaidd fyd-eang bresennol, gyda'r argyfwng credyd gwaradwyddus, y cynnydd yng nghost olew a phrinder bwyd wrth i boblogaeth y byd ddechrau cynyddu. Fodd bynnag, yma y mae ein cyfrifoldeb ni, yn nes at adref, ac mae'n ddyletswydd ar y Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru i wneud popeth o fewn ei gallu i gynorthwyo pobl Cymru, ac i ysgafnhau'r baich cynyddol arnynt ble bynnag y mae'n bosibl.

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r broblem, mae angen inni edrych ar y cynhyrchwyr, y rheini yn rheng flaen cynhyrchu bwyd yng Nghymru. Rhaid rhoi mwy o gymorth i ffermwyr yng Nghymru, a chydabod eu rôl hanfodol yn y gadwyn fwyd ac wrth reoli cefn gwlad a'r amgylchedd. Ar y llaw arall, ymdengys nad yw Llafur, yn arbennig, yn gallu mynd i'r afael â'r materion hyn—nid yn unig yma ond yn San Steffan. Mae ei pholisïau anaddas a'i diffyg camau priodol, yn arbennig gan Lywodraeth flaenorol Cynulliad Cymru, yn dangos camddealltwriaeth enfawr o anghenion

current coalition Government to ensure that £200 million-worth of unspent Welsh money went back to the Treasury, while Welsh farmers were struggling with the impact on their businesses of the foot-and-mouth-disease outbreak in England, was an insult to the industry. What is more, the Labour-Plaid Government remains content to allow the farming industry to struggle on at the end of its leash of red tape. I accept, Minister, that you are seeking to reduce this burden in future, but we need a short and clear timetable for this work to be completed, because it appears to be totally open-ended.

Farmers need the freedom to do what they do best—to produce food. This Government should be doing all that it can to make this possible. Farmers' unions have highlighted several concerns that indicate the scale of the problem. We all know that, until recently, on average, three dairy farmers a week were leaving the industry because of the low returns. As food prices have increased, so have the input costs; fertiliser, fuel and feed have all become more expensive, with almost all types of fertiliser doubling in price over the past 12 months. Yet farm-gate prices have not increased proportionately.

For an industry that relies on plant, and particularly machinery, the spiralling cost of fuel is worrying. With Wales experiencing wetter weather due to climate change and more frequent flooding, with crops being spoilt, as happened last year in Wales, we need to take drastic action. This motion calls for a fairer deal for Welsh farmers. We would like to see the Labour-Plaid Government do more to work with supermarkets to promote locally sourced produce. The code of conduct between supermarkets and suppliers should be strengthened, as my colleague Nick Bourne mentioned. Opportunities for consumers to buy locally produced food that is properly labelled in supermarkets are essential. Farm shops, farmers' markets and food projects should also be supported, and, as I said earlier, red tape needs to be slashed.

ffermwyr, ac yr oedd penderfyniad y Llywodraeth glymblaid bresennol i sicrhau bod gwerth £200 miliwn o arian Cymru a oedd heb ei wario yn dychwelyd i'r Trysorlys—tra oedd ffermwyr Cymru yn brwydro yn erbyn effaith argyfwng clwy'r traed a'r genau yn Lloegr ar eu busnesau—yn sarhad ar y diwydiant. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru yn dal yn fodlon caniatáu i'r diwydiant ffermio frwydro ymlaen ynghanol ei biwrocratiaeth. Derbyniaf, Weinidog, eich bod yn ceisio lleihau'r baich hwn yn y dyfodol, ond mae arnom angen amserlen fer a chilir ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn, oherwydd mae'n hollol benagored i bob golwg.

Mae angen rhyddid ar ffermwyr i wneud yr hyn a wnânt orau—cynhyrchu bwyd. Dylai'r Llywodraeth hon wneud popeth o fewn ei gallu i wneud hyn yn bosibl. Mae undebau amaethwyr wedi tynnu sylw at nifer o bryderon sy'n dangos maint y broblem. Gwyddom i gyd fod tri ffermwr llaeth yr wythnos, ar gyfartaledd, wedi bod yn gadael y diwydiant, tan yn ddiweddar, oherwydd yr elw isel. Wrth i bris bwyd godi, felly hefyd y costau cynhyrchu; mae prisiau gwrtaith, tanwydd a phorthiant i gyd wedi codi, ac mae pris bron pob math o wrtaith wedi dyblu dros y 12 mis diwethaf. Ond eto nid yw'r pris wrth gât y fferm wedi cynyddu yn unol â hynny.

I ddiwydiant sy'n dibynnu ar beirianwaith, a pheiriannau'n arbennig, mae'r cynnydd diderfyn yng nghost tanwydd yn destun pryder. O gofio bod Cymru'n cael tywydd gwlypach oherwydd newid yn yr hinsawdd a llifogydd yn fwy rheolaidd, sy'n difetha cynydau, fel y digwyddodd y llynedd yng Nghymru, mae angen inni gymryd camau eithafol. Mae'r cynnig hwn yn galw am fargen decach i ffermwyr Cymru. Hoffem weld y Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru yn gwneud rhagor o waith gydag archfarchnadoedd i hybu cynnyrch lleol. Dylid cryfhau'r cod ymddygiad rhwng archfarchnadoedd a chyflenwyr, fel y soniodd fy nghyd-Aelod, Nick Bourne. Mae cyfleoedd i ddefnyddwyr brynu bwyd a gynhyrchir yn lleol sydd wedi'i labelu'n gywir mewn archfarchnadoedd yn hanfodol. Yn ogystal, dylid cefnogi siopau fferm, marchnadoedd ffermwyr a phrosiectau bwyd, ac, fel y dywedais yn gynharach, dylid

cwtogi'r fiwrocratiaeth.

Overall, food security needs to be a top priority for this Government and the UK Government. It should be acknowledged on a national level that it is the Labour Party that has allowed domestic food production to decline over the past 10 years. While it is still in Government, it is the Labour Party—along with its Plaid friends here in Wales—that needs to get its act together and sort it out.

I have mentioned the concerns about the spiralling fuel costs and the part that that plays in farming in Wales. The issue of biofuels is related to this. A much more common-sense approach to biofuels is needed, at the producer and consumer ends of the scale. The balance between biofuel production and food production is fragile and, along with our colleagues in Westminster, we have long called for a sustainable biofuels strategy. However, there is absolutely no reason why Wales cannot produce both food and biofuels or why biofuel producers, such as BML Biofuels Ltd in my constituency, should not be able to coexist in harmony with other farms. It happens elsewhere in Europe, including in Austria, which the Sustainability Committee recently visited. There is no reason why it should not happen in Wales.

There is no doubt that farmers in Wales, as in the rest of the United Kingdom, have an important part to play in reducing carbon emissions by producing biofuels, but that production must be accompanied by robust sustainability criteria and not be at the cost of food production. It is disappointing that the Labour-Plaid Government is not more active in getting its voice heard in Westminster, where, quite frankly, the biofuels policy of the Labour Government is in total disarray, to the detriment of those who have something significant to offer in this field.

Ultimately, there must be a drive towards greater sustainability on the part of producers and consumers. I urge Members to support the motion.

Yn gyffredinol, mae angen i ddiogelwch bwyd fod yn flaenoriaeth o bwys i'r Llywodraeth hon ac i Lywodraeth y DU. Dylid cydnabod yn genedlaethol mai'r Blaid Lafur sydd wedi caniatáu i gynhyrchu bwyd yn y DU ddirywio dros y 10 mlynedd diwethaf. Tra mae'n dal i lywodraethu, mae angen i'r Blaid Lafur—ynghyd â'i chyfeillion ym Mhlaid Cymru yma yng Nghymru—fynd i'r afael â phethau a datrys y sefyllfa.

Yr wyf wedi sôn am y pryderon ynghylch y cynnydd diderfyn yng nghostau tanwydd a rhan hynny yn y byd ffermio yng Nghymru. Mae biodanwydd yn gysylltiedig â hyn. Mae angen ymagwedd at fiodanwydd sy'n canolbwyntio mwy o lawer ar synnwyr cyffredin, o ran y cynhyrchydd a'r defnyddiwr. Mae'r cydbwysedd rhwng cynhyrchu biodanwydd a chynhyrchu bwyd yn fregus, a chyda'n cyd-Aelodau yn San Steffan yr ydym wedi galw ers tro am strategaeth ar fiodanwydd cynaliadwy. Fodd bynnag, nid oes rheswm o gwbl pam na all Cymru gynhyrchu bwyd a biodanwydd neu pam na ddylai cynhyrchwyr biodanwydd, fel BML Biofuels Cyf yn fy etholaeth i, allu byw mewn cytgor â ffermydd eraill. Mae'n digwydd mewn gwledydd eraill yn Ewrop, gan gynnwys Awstria, gwlad yr ymwelodd y Pwyllgor Cynaliadwyedd â hi yn ddiweddar. Nid oes rheswm pam na ddylai ddigwydd yng Nghymru.

Nid oes amheuaeth nad oes gan ffermwyr yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, ran bwysig i'w chwarae wrth leihau allyriadau carbon, ond ochr yn ochr â hynny rhaid cael meini prawf cynaliadwyedd cadarn a sicrhau na fydd hynny'n digwydd ar draul cynhyrchu bwyd. Mae'n siomedig nad yw'r Llywodraeth Lafur-Plaid Cymru yn fwy gweithgar i sicrhau bod ei llais yn cael ei glywed yn San Steffan, lle mae polisi biodanwydd y Llywodraeth Lafur, a bod yn onest, yn llastr llwyr, sy'n andwyol i'r rheini sydd â rywbeth arwyddocaol i'w gynnig yn y maes hwn.

Yn y pen draw, rhaid anelu at fwy o gynaliadwyedd ar ran cynhyrchwyr a defnyddwyr. Pwysaf ar yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Elin Jones: Fel sy'n arferol, mae'r cynnig yn enw'r Blaid Geidwadol heddiw'n rhoi darlun negyddol o orffennol, presennol a dyfodol ffermio yng Nghymru. Os yw popeth mor ddrwg â'r hyn mae'r Torïaid yn ei honni yn y byd amaethyddol, pam fod dau o'u Haelodau yn dal i fod yn ffermwyr? Mae'r Torïaid hefyd wedi ceisio creu cysylltiad rhwng sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol a phroblemau ffermio, sy'n rhyfedd iawn o ystyried bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn falch bod polisi amaeth yn dod o dan y Cynulliad yn hytrach nag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Efallai y byddai'r Torïaid am i'r pwerau ar amaethyddiaeth gael eu trosglwyddo yn ôl i DEFRA. Mae'n bosibl bod hynny yn rhan o'u cynllun heddiw.

Andrew R.T. Davies: Will the Minister take an intervention?

Elin Jones: Yr wyf yn cydnabod fod y diwydiant yn wynebu cryn ansicrwydd ond yr wyf hefyd yn teimlo fod yr amgylchiadau presennol yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â her. Mae'r cynnydd cyfredol ym mhrisiau nwyddau yn deillio o sawl ffactor, ac mae nifer fawr ohonynt wedi cael eu cyfleu yn y ddadl heddiw. Maent yn cynnwys tywydd garw mewn rhai gwledydd, sychder difrifol mewn gwledydd eraill, y galw cynyddol o Asia am fwyd a grawn ac, i raddau llai, y cynnydd mewn cynhyrchu biodanwyddau, cyfyngiadau ar allforio nwyddau gan rai gwledydd a hapfasnachu yn y farchnad nwyddau. Mae'r cyfan o'r materion hyn, gyda llaw, y tu hwnt i bwerau'r Cynulliad. Mae'r cyfryngau a gwleidyddion wedi rhoi cryn sylw yn ddiweddar i effeithiau'r ffactorau hyn ar gostau bwyd teuluoedd, ond mae'n bwysig cydnabod bod gwariant cartrefi ar fwyd wedi bod yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

3.30 p.m.

Brynle Williams: Synnaf braidd eich bod yn dweud ein bod yn paentio darlun du o'r diwydiant. Yr wyf innau'n mynd o gwmpas, fel yr ydych chi, mae'n siŵr. Mae popeth yn iawn yng Ngheredigion, ond mae llawer o bethau o'i le yng ngogledd Cymru. Yr wyf yn sôn am bris gwrtaith, pris tanwydd, a

Elin Jones: As usual, the motion in the name of the Welsh Conservatives paints a negative picture of the past, present and future of farming in Wales. If everything is as bad as the Tories allege in the agricultural world, I wonder why two of its Members continue to be farmers. The Tories have tried to create a link between the establishment of the National Assembly and farming problems, which is very strange given that the majority of farmers are pleased that agricultural policy comes under the Assembly rather than the Department for Environment, Food and Rural Affairs. Perhaps the Tories would like to see those powers transferred back to DEFRA. It is possible that that is part of their plan today.

Andrew R.T. Davies: A wnaiff y Gweinidog gymryd ymyriad?

Elin Jones: I acknowledge that the industry is facing a great deal of uncertainty, but I also feel that the circumstances we face at present offer opportunities as well as a challenge. Increases in the prices of goods have come about as a result of a number of factors, most of which have already been mentioned in today's debate. They include bad weather in some countries, serious droughts in other countries, increasing demand from Asia for food and cereals and, to a lesser extent, the increase in biofuel production, export restrictions on products introduced by some countries and speculation in the commodity market. All of these issues, by the way, are beyond the control of the Assembly. Recent media and political attention has focused on how these factors have impacted on family food costs, but it is important to recognise that household expenditure on food has remained relatively stable over recent years.

Brynle Williams: I am rather surprised that you are saying that we are painting a black picture of the industry. I go out and about, like you do, I am sure. All is well in Ceredigion, but there is a great deal amiss in north Wales. I am talking about the price of fertiliser, the price of fuel, and winter costs.

chostau'r gaeaf. Sut allwch sefyll yno, gyda phob parch, Weinidog, a dweud ein bod ni'n paentio darlun du? Ni allwn dalu ein costau. Mae'r diwydiant mewn cymaint o drafferth a dyma pam yr ydym am gael y cynllun tymor hir hwn. Dyna bwrpas y ddadl hon heddiw; nid ydym yn taro'n ôl; yr ydym yn ceisio dod â'r costau i lawr.

Elin Jones: Gallaf sefyll yma'n berffaith gyfforddus a dweud mai darlun du yn unig yr ydych wedi'i baentio, Brynle Williams. Yr wyf yn cydnabod, wrth gwrs, fod problemau yn y diwydiant amaethyddol, gan gynnwys problemau o ran costau. Serch hynny, mae cyfleoedd hefyd. Ni chlywaf unrhyw fath o gyfeiriad at y cyfleoedd sydd yn y diwydiant amaeth a'r optimistaeth sydd gan rai, fel y soniodd Alun Ffred, yn enwedig y to ifanc, sydd am glywed pobl yn siarad yn bositif ynglŷn â'r diwydiant bwyd ac amaeth yng Nghymru, nid pobl yn siarad i lawr ynglŷn â'r diwydiant amaeth a'i ddyfodol yn unig. Derbyniaf wrth gwrs—

Andrew R.T. Davies: Will you give way?

Elin Jones: Af ychydig ymhellach gyda'm cyfraniad.

Derbyniaf fod cynnydd wedi digwydd ym mhrisiau bwydydd yn ddiweddar, ac mae'r rheiny wedi effeithio'n bennaf ar y bobl ar incwm isel, gan y gwelwyd y cynnydd pris mwyaf gyda rhai o'r bwydydd mwyaf craidd, megis bara a llaeth. Fel y dywedais, mae cynnig y Ceidwadwyr hefyd yn awgrymu bod ffermio yng Nghymru yn gynyddol anghynaliadwy ers sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae hynny'n anwybyddu'n llwyr ymrwymiad Llywodraeth Cymru'n Un i ddatblygu ymhellach y diwydiant bwyd-amaeth yng Nghymru a'r gwaith sydd eisoes wedi'i gyflawni yn hyn o beth.

Mae'n wybodaeth gyhoeddus bod y Llywodraeth hon eisoes wedi mynd ati i ddatblygu strategaeth newydd er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy a llewyrchus ar gyfer ein ffermwyr a'n cynhyrchwyr bwyd. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ysgogi gwaith er mwyn cloriannu'r opsiynau ar gyfer lleihau'r baich gweinyddol ar ffermio, ac mae'r gwaith hwnnw eisoes yn mynd

With all due respect, Minister, how can you stand there saying that we are painting a black picture? We cannot pay our costs. The industry is in such a mess and that is why we want this long-term plan. That is the purpose of this debate today; we are not hitting back; we are simply trying to bring down the costs.

Elin Jones: I can stand here perfectly comfortably and say that you have given only a black picture, Brynle Williams. Of course, I acknowledge that there are problems in the agricultural industry, including problems in terms of costs. However, there are also opportunities. I do not hear any kind of reference to the opportunities in the agriculture industry and the optimism which exists in some quarters, as Alun Ffred mentioned, particularly the younger generation, who want to hear people talk positively about the food and agriculture industry in Wales, not talking down the agricultural industry and its future. I accept, of course—

Andrew R.T. Davies: A wnewch ildio?

Elin Jones: I will continue a little further into my contribution.

I accept that there has been an increase in the price of foods recently, and they have primarily affected those people on low incomes, because some of the most basic foods, such as bread and milk, have seen the greatest increase. As I said, the Conservative motion also implies that, since the inception of the National Assembly, Welsh farming has become increasingly unsustainable. This totally ignores the commitment of the One Wales Government to further develop the agri-food industry of Wales and the work already undertaken in this respect.

It is a matter of public record that this Government has already set about developing a new strategic framework to secure a sustainable and prosperous future for our farming and food producing community. In addition, the Government has initiated work to examine the options to reduce the administrative burden on farming, which is now well under way. We have also given

rhagddo. Yr ydym hefyd wedi rhoi cefnogaeth i sefydlu ombwdsmon archfarchnad. O ystyried hyn oll, ni allaf dderbyn y cynnig fel y'i cyflwynwyd gan y Ceidwadwyr.

Yn sail i'r gwelliannau a gynigir gan y Llywodraeth mae'r gydnabyddiaeth y bydd y diwydiant ffermio yn sicr o weld newidiadau dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd newid yn deillio o ffactorau allanol megis cynnydd mewn costau bwyd, cystadleuaeth yn y farchnad rydd a newid yn yr hinsawdd. Serch hynny, gall y diwydiant ysgogi newid. Mae'n wynebu cyfleoedd yn ogystal â heriau. Mae'n bwysig ein bod ni oll yn canolbwyntio ar y cyfleoedd mawr hynny ac yn manteisio arnynt, ac hefyd yn elwa ar y cymorth y mae'r Llywodraeth a'n partneriaid ar draws Cymru yn ei gynnig er mwyn helpu'r diwydiant i fanteisio ar y cyfleoedd. Yn y pen draw, wrth gwrs, mater i ffermwyr yw penderfynu sut y byddant yn ymateb i newid. Nid diwydiant wedi'i wladoli yw amaethyddiaeth, ac yn eironig iawn, ambell waith, gellir credu bod y Torïaid yn meddwl mai'r Llywodraeth sy'n rhedeg y diwydiant, nid y sector fusnes. Er fy mod yn sosialydd da, gadawaf y sector breifat i redeg amaethyddiaeth yng Nghymru, ac ni ddefnyddiaf bwerau deddfwriaethol newydd y Cynulliad i geisio gwladoli tir yng Nghymru.

Cynhyrchu bwyd yw prif ddiben amaethyddiaeth, a hynny gan gynhyrchu yn unol â gofynion y farchnad a'r galw gan gwsmeriaid. Un duedd amlwg iawn yw bod pobl am brynu rhagor o fwydydd a gaiff eu cynhyrchu'n lleol. Hoffwn weld y sector cyhoeddus hefyd yn defnyddio rhagor o fwydydd a gaiff eu cynhyrchu'n lleol. Mae'r cynllun gweithredu ar gaffael bwyd yn lleol wrthi'n cael ei ddatblygu yn unol â'n hymrwymiad yn rhaglen lywodraethu 'Cymru'n Un', a bydd yn cynyddu'r bwydydd a'r diodydd a gaiff eu caffael gan y sector cyhoeddus.

Mae'r gwelliant yn enw Kirsty Williams yn cyd-fynd â'r camau y mae'r Llywodraeth eisoes wedi'u cymryd ac yr ydym yn hapus i'w gefnogi. Cydnabyddaf hefyd y pwynt a wnaeth Kirsty Williams ynglŷn â phwysigrwydd lladd-dai bach yng Nghymru,

support to the establishment of a supermarket ombudsman. Bearing all of this in mind, I cannot accept the motion as tabled by the Conservatives.

Behind the amendments proposed by the Government is the acceptance that the farming industry is certain to change over the next 10 years. Change will arise from external factors such as rising food costs, competition in the open market and climate change. However, the industry can also become the driver of change. There are opportunities as well as challenges. It is important that we all focus on those big opportunities, seize them and benefit from the support arrangements available from the Government and our partners across Wales to help farming take advantage of the opportunities. Ultimately, of course, it is a matter for farmers themselves to decide how to respond to change. Agriculture is not a nationalised industry, and, quite ironically, at times one could imagine that the Tories believe it is the Government rather than the business sector that runs the industry. Although I am a good socialist, I will leave the private sector to run agriculture in Wales, and I will not use the new legislative powers of the Assembly to try to nationalise land in Wales.

Agriculture is primarily about food production, by focusing production on the market and consumer demand. One noticeable trend is that people want to buy more locally produced food. I also want to see more locally produced food being used by the public sector. The action plan on local procurement is now being developed in accordance with our commitment in the 'One Wales' programme, and it will increase the number of food and drink products that can be procured by the public sector.

The amendment in the name of Kirsty Williams is consistent with the action already undertaken by the Government and we are pleased to support her amendment. I also acknowledge the point made by Kirsty Williams about the importance of small

ac mae fy swyddogion eisoes yn gweithio gyda lladd-dai bach a chyda'r Gwasanaeth Hylendid Cig i ddiogelu'r sector bwysig hon i'n diwydiant amaethyddol a'n diwydiant cynhyrchu bwyd.

abattoirs in Wales, and my officials are already working with small abattoirs and the Meat Hygiene Service to safeguard this important sector for our agricultural and food production industry.

*Daeth y Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) i'r Gadair am 3.35 p.m.
The Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) took the Chair at 3.35 p.m.*

Fel rhan o gynllun datblygu gwledig Cymru, bydd y rhaglen Cyswllt Ffermio ar ei newydd wedd, a gaiff ei lansio yr haf hwn, yn cynnig hyfforddiant ac arweiniad er mwyn helpu busnesau ffermio a choedwigaeth i ddatblygu, i berfformio'n well ac i fanteisio ar gyfleoedd i arallgyfeirio a chreu dyfodol mwy cynaliadwy. Bydd y rhaglen yn annog ffermwyr i fynd ati i ddeall yn llwyr egwyddorion allweddol meincodi eu busnesau ac i ddatblygu ffordd effeithiol o leihau eu costau er mwyn gwella perfformiad y busnes a chreu rhagor o elw.

Under the rural development plan for Wales, the new Farming Connect programme, due to be launched this summer, will offer training and guidance to encourage farming and forestry businesses to develop, to improve performance and to investigate opportunities to diversify and create a more sustainable future. The programme will encourage farmers to understand thoroughly the key principles of benchmarking their businesses and to develop an effective way of reducing their own costs to improve business performance and profitability.

Mae cyfleoedd newydd am gyllid bellach ar gael drwy gynllun effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi a all helpu ffermwyr a thyfwyr i greu cyfleoedd i farchnata eu cynnyrch eu hunain. Gallant wneud hynny drwy ddefnyddio manau gwerthu traddodiadol megis marchnadoedd ffermwyr neu drwy werthu dros y rhyngwrwyd neu drwy gynlluniau blwch organig a siopau fferm. Bydd cymorth ar gael hefyd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r farchnad, i farchnata cynnyrch ac i ddatblygu sgiliau rheoli.

New funding opportunities have become available through the supply chain efficiency scheme, which can offer support to develop opportunities for farmers and growers to market their own produce. This can be through traditional outlets such as accredited farmers markets or through internet sales, organic box schemes and farm shops. Support will also be available to increase their market awareness, to help them market produce and to develop management skills.

Mae'r cynllun grant prosesu a marchnata—un arall o'r cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno o dan y cynllun datblygu gwledig—yn cynnig cyfle i fusnesau bach a chanolig eu maint wneud buddsoddiadau cyfalaf er mwyn gwella elw a chynaliadwyedd y cwmni.

The processing and marketing grant scheme—another of the schemes being introduced under the rural development plan—offers small and medium-sized businesses the opportunity to make capital investments to improve their company's profitability and sustainability.

Fel y soniais ynghynt, yn dilyn fy nghyhoeddiad ar 15 Ionawr, mae'r adolygiad o fiwrocratiaeth yn niwydiant ffermio Cymru yn mynd rhagddo. Bûm yng nghyfarfod cyntaf y grŵp rhanddeiliaid ddiwedd mis Mawrth. Bydd yr adolygiad yn tynnu sylw at y meysydd hynny lle mae asiantaethau arolygu yn dyblygu gwaith, a bydd yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o leihau hynny. Yr wyf yn falch bod Peredur Hughes wedi cytuno i fod yn gynghorydd allanol i'r adolygiad.

As I mentioned earlier, following my announcement on 15 January a review of red tape within the Welsh agricultural industry is now well under way. I attended the first meeting of the stakeholder group at the end of March. The review will identify areas where there is duplication of effort by inspection agencies, and will seek to find ways of minimising that duplication. I am pleased that Peredur Hughes has agreed to be involved in the review.

O ran archfarchnadoedd, cyflwynais fy sylwadau i i'r Comisiwn Cystadlu fis Rhagfyr y llynedd, yn galw am greu ombwdsmon i sicrhau bod ffermwyr yn cael pris teg yn y farchnad. Bydd Aelodau yn gwybod erbyn hyn fod y Comisiwn Cystadlu wedi argymhell cod ymarfer cadarnach a mwy cynhwysfawr ar gyflenwi yn ddiweddar, ynghyd â chreu ombwdsmon i sicrhau bod y cod yn cael ei orfodi'n effeithiol.

Mae'r farchnad, fel ag y mae ar hyn o bryd, yn un heriol. Ceir miloedd o gyflenwyr a dim ond llond dyrmaid o werthwyr. Tra fod cynnig y Comisiwn Cystadlu i greu ombwdsmon yn gallu helpu i unioni rhywfaint ar y diffyg cydbwysedd hwn, mae angen i gyflenwyr geisio hawlio mwy o rym yn y farchnad.

Mae gwerthu cydweithredol yn amlwg yn gweithio i ambell grŵp o ffermwyr ar draws Cymru, gan sicrhau prisiau uwch a chontractau hwy iddynt. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r cynllun datblygu gwledig a Chyswllt Ffermio i gefnogi trefniadau cydweithredu o'r math hwn. Serch hynny, ni fyddwn yn gorfodi ffermwyr i wneud hynny. Mater i fusnesau unigol fydd ystyried sut y gallant gydweithredu er mwyn lleihau eu risg ac i gynyddu eu helw.

Mae'r ffaith bod ffermwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amaeth-amgylcheddol o fantais fawr i gefn gwlad Cymru, yr amgylchedd, diwydiant twristiaeth ac i fusnesau fferm eu hunain.

Y Llywydd: Trefn. Mae'n rhaid imi dynnu sylw'r Gweinidog at y ffaith bod yr amser wedi dirwyn i ben.

Andrew R.T. Davies: I thank my colleague, Brynle Williams, for bringing this debate to Plenary today. I express my disappointment that when I tried to make an intervention, on at least two occasions, the Minister failed to take the intervention. I have the greatest admiration for you, Minister, and for your ability to fulfil your portfolio, but you made a direct accusation at the start with regard to why I continue to farm while being a Member of the National Assembly for Wales. I happen to find it refreshing to have an outside interest as well as a political interest.

As for supermarkets, I made representations in December last year to the Competition Commission, calling for the creation of an ombudsman post to help ensure that farmers get a fair price for their produce. Members will be aware that the commission recently recommended a stronger and more comprehensive code of practice for supply and the establishment of an ombudsman to ensure that the code is enforced effectively.

The marketplace as it is currently is challenging. There are thousands of suppliers and only a handful of retailers. While the Competition Commission's ombudsman proposal might redress some of the imbalance, suppliers need to try to assert more power in the marketplace.

Collaborative selling is shown to be working for many groups of farmers throughout Wales, giving them premium prices and longer term contracts. The Government will use the rural development plan and Farming Connect to support collaborative working. However, we will not force it upon farmers. It will be a matter for private businesses to consider how they can collaborate to reduce their risks and increase their profits.

Farmers' participation in agri-environment activity delivers real benefit to the Welsh countryside, as well as to the environment, the tourism industry and to individual farm businesses.

The Presiding Officer: Order. I have to draw the Minister's attention to the fact that time has run out.

Andrew R.T. Davies: Diolchaf i'm cyd-Aelod, Brynle Williams, am ddod â'r ddadl hon i'r Cyfarfod Llawn heddiw. Mynegaf fy siom fod y Gweinidog, ar o leiaf ddau achlysur pan geisiais ymyrryd, heb dderbyn yr ymyriad. Mae gennyf edmygedd o'r mwyaf ohonoch, Weinidog, ac o'ch gallu i gyflawni'ch portffolio, ond gwnaethoch gyhuddiad uniongyrchol ar y dechrau ynghylch pam yr wyf yn dal i ffermio a minnau'n Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. I mi, mae'n braf cael diddordeb allanol yn ogystal â diddordeb gwleidyddol.

Elin Jones: Will you give way?

Andrew R.T. Davies: The Record will show it, Minister. I am quite happy to allow you an intervention.

Elin Jones: I did not make an accusation with regard to why you continue to farm while being an Assembly Member.

Andrew R.T. Davies: You referred to two members of the Tories.

Elin Jones: I asked why you continue to farming when the picture that you paint is so black.

Andrew R.T. Davies: We will therefore agree to differ, Minister, but the accusation was made and the Record will show it.

Each part of the motion before the Assembly is a matter of fact but you disagreed with it. The price index was published yesterday and the first part of the motion asked the Assembly to acknowledge a sharp increase in commodity prices and that household budgets are being squeezed. That is a fact. It proposes that the National Assembly notes the increase in the prices of fuel, fertilizer and grain—those are costs that farmers have had to incur. In the last two months, the price of fuel has increased from 53p per litre to 68p per litre. The price of fertilizer has increased from £150 per tonne to £600 per tonne. The price of grain has increased from £80 per tonne to £180 per tonne. Those are facts, Minister. We are not living in fantasy land; this is what is happening.

3.40 p.m.

The motion proposes that the National Assembly regrets supermarket practices. We and the Office of Fair Trading have said—as, I believe, have you—that the power of supermarkets should be monitored and checked. We are not seeking confrontation on this, we are seeking consensus on it, so that there is a sustainable food base to sell to the consumer. The supermarkets have a critical role to play in that development. We agree with that.

Elin Jones: A wnewch chi ildio?

Andrew R.T. Davies: Bydd y Cofnod yn ei ddangos, Weinidog. Yr wyf yn ddibon bodlon caniatáu ymyriad gennyh.

Elin Jones: Ni wneuthum gyhuddiad ynghylch pam yr ydych yn dal i ffermio a chithau'n Aelod o'r Cynulliad.

Andrew R.T. Davies: Cyfeiriasoch at ddau aelod o'r Torïaid.

Elin Jones: Gofynnais pam yr ydych yn dal i ffermio a chithau'n peintio darlun mor ddu.

Andrew R.T. Davies: Byddwn felly'n cytuno i anghytuno, Weinidog, ond gwnaethpwyd y cyhuddiad a bydd y Cofnod yn ei ddangos.

Mae pob rhan o'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad yn fater o ffaith, ond yr oeddech yn anghytuno. Cyhoeddwyd y mynegai prisiau ddoe, ac yn rhan gyntaf y cynnig gofynnwyd i'r Cynulliad gydnabod bod cynnydd sydyn ym mhrisiau nwyddau a bod cyllidebau aelwydydd dan bwysau. Mae hynny'n ffaith. Mae'n cynnig y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol nodi'r cynnydd ym mhrisiau tanwydd, gwrtaiath a grawn—mae'r rheini'n gostau y bu'n rhaid i ffermwyr eu codi. Yn y ddau fis diwethaf, mae pris tanwydd wedi codi o 53c y litr i 68c y litr. Mae pris gwrtaiath wedi codi o £150 y dunnell i £600 y dunnell. Mae pris grawn wedi codi o £80 y dunnell i £180 y dunnell. Mae'r rheini'n ffeithiau, Weinidog. Nid byw ym myd ffantasi yr ydym; dyna beth sy'n digwydd.

Mae'r cynnig yn cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gresynu ynghylch arferion uwchfarchnadoedd. Yr ydym ni a'r Swyddfa Masnachu Teg wedi dweud—fel yr ydych chi, mi gredaf—y dylid monitro a ffrwyno grym uwchfarchnadoedd. Nid ydym yn ceisio creu gwrthdaro ar hyn: yr ydym yn ceisio creu consensws arno, fel y bydd sylfaen o fwydydd cynaliadwy i'w gwerthu i'r defnyddiwr. Mae rhan hollbwysig gan yr uwchfarchnadoedd yn y datblygiad hwnnw.

Cytunwn â hynny.

The motion then proposes that the Assembly notes the increasing prices of commodities and the direct implication of that for agri-environment schemes. I participate in the Tir Gofal scheme. We have a five-year break clause. Part of the Tir Gofal scheme has a 7m headland around arable fields. When we signed up, corn was £60 a tonne. If we carry on with the payment structure as it is, instead of seeing through the 10-year contract, at the five-year break, many farmers will choose to grow corn rather than continue with agri-environment schemes. That is an economic fact. All that we are asking in this motion is for the Assembly to note that ongoing fact. If we are serious about having an environmentally friendly Wales with a sustainable agri-environment scheme, we need to address the issues that are going on around us.

The final part of this motion looks at the food strategy and the agricultural strategy. We understand that the 2020 group is looking at the future of agriculture and rural development, but times are changing and we need to move away from the MacSherry proposals of the early 1990s that dealt with the mindset of surpluses, to the mindset of the world today, when commodities are in scarce supply and will remain so. Even the US Department of Agriculture acknowledged this yesterday in its forward estimates for world harvests. That is the foremost organisation to say what the trends will be. While there will be marginal improvement in grain supplies, the markets will continue to be tight because of the global demand due to population growth and wealth creation in emerging economies. We cannot avoid that.

Against that backdrop, the Labour Chancellor in Westminster is sending a letter to the European Commission asking it to do away with the common agricultural policy, which, with all its faults, is currently undergoing a mid-term review. Those discussions are ongoing. His intervention this week has been classed as unhelpful by President Sarkozy and Chancellor Merkel. This debate is not trying to be downbeat or negative; it is trying

Mae'r cynnig wedyn yn cynnig y dylai'r Cynulliad nodi'r cynnydd ym mhrisiau nwyddau a goblygiad uniongyrchol hynny i gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Yr wyf yn cymryd rhan yng nghynllun Tir Gofal. Mae gennym gymal terfynu o bum mlynedd. Mae rhan o'r cynllun Tir Gofal yn cynnwys talar o 7m o gwmpas caeau âr. Pan ymunasom, yr oedd grawn yd yn £60 y dunnell. Os parhawn gyda'r strwythur taliadau fel y mae, yn lle cwblhau'r contract 10 mlynedd bydd nifer o ffermwyr yn dewis tyfu yd ar ôl cyrraedd y terfyn pum mlynedd yn hytrach na pharhau gyda chynlluniau amaeth-amgylcheddol. Mae honno'n ffaith economaidd. Y cwbl a ofynnwn yn y cynnig hwn yw i'r Cynulliad nodi'r ffaith bresennol honno. Os ydym o ddifrif ynghylch cael Cymru eco-gyfeillgar a chanddi gynllun amaeth-amgylcheddol cynaliadwy, mae angen inni wynebu'r materion sy'n digwydd o'n cwmpas.

Mae rhan olaf y cynnig hwn yn ystyried y strategaeth fwyd a'r strategaeth amaethyddol. Deallwn fod y grŵp 2020 yn ystyried dyfodol amaethyddiaeth a datblygu gwledig, ond mae'r oes yn newid ac mae angen inni droi oddi wrth gynigion MacSherry ar ddechrau'r 1990au a oedd yn delio â'r syniad o gynhyrchu gormod, ac at syniad y byd heddiw, lle mae nwyddau'n brin ac i barhau felly. Yr oedd hyd yn oed Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau yn cydnabod hyn ddoe yn ei hamcangyfrifon o gynaeafau'r byd yn y dyfodol. Hwnnw yw'r corff mwyaf blaenllaw o ran rhagweld tueddiadau. Er y bydd ychydig welliant mewn cyflenwadau grawn, bydd y marchnadoedd yn dal yn dynn oherwydd y galw byd-eang am fod poblogaethau'n tyfu ac oherwydd creu cyfoeth mewn economïau sy'n datblygu. Ni allwn osgoi hynny.

Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r Canghellor Llafur yn San Steffan yn anfon llythyr at y Comisiwn Ewropeaidd yn gofyn iddo ddileu'r polisi amaethyddol cyffredin sydd, gyda'i holl ddiffygion, yn mynd drwy adolygiad canol tymor ar hyn o bryd. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Mae ei ymyriad wedi'i alw'n un di-fudd gan yr Arlywydd Sarkozy a'r Canghellor Merkel. Nid ymgais i fod yn ddiobaith neu'n negyddol yw'r ddatl

to form a consensus.

David Melding: This masterful winding-up has shown how the Minister failed to grapple with the facts that are before us and instead served up two complete red herrings. One was that, somehow, the Conservative group wanted control over agriculture to go to London and the other was that we were in favour of nationalising the land. If that was the best that she could come up with in this important debate, it shows how poor the performance was.

Andrew R.T. Davies: I concur with your intervention.

On the other contributions in the Chamber today, we have heard about sustainable food from Kirsty and biofuels from Darren, Joyce Watson came in on Government policy as it currently stands, Nick offered his support for the sustainability argument, especially with regard to his region of Mid and West Wales, where the environment is so important as is local procurement. However, a constructive debate is needed so that we as an institution and an Assembly can inform the mid-term review that is currently ongoing and shape a consensual view of where we want to be in Wales, post-2013, after the total reform of the common agricultural policy. Therefore, I fail to see how anyone can say that the motion before the Assembly is negative. It points out the facts as they stand, on the ground, today.

We must all be engaged with one thing—and it is regrettable that we have not had more of a debate today—and that is that households are struggling under the burden of rising costs. If you talk to people on the street, they will tell you that it seems that no action is being taken to try to mitigate those rising costs. Yesterday, in *The Times*, there was a picture in the financial section of oil on one side and milk on the other. I never thought that I would see oil and milk in the same—

Alun Ffred Jones: Are you therefore in favour of the Assembly having fiscal powers so that it can have an influence in this regard?

hon; mae'n ceisio cael consensws.

David Melding: Mae'r araith gloi feistrolgar hon wedi dangos sut y methodd y Gweinidog fynd i'r afael â'r ffeithiau sydd o'n blaen a chodi dau ysgyfarnog yn lle hynny. Un o'r rheini oedd bod y grŵp Ceidwadwyr, rywsut neu'i gilydd, yn dymuno i'r rheolaeth dros amaethyddiaeth fynd i ddwylo Llundain, a'r ail oedd ein bod o blaid gwladoli'r tir. Os hynny oedd y gorau y gallai ei gynnig yn y ddadl bwysig hon, mae'n dangos mor wael oedd y perfformiad.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn cyd-fynd â'ch ymyriad.

Ynghylch y cyfraniadau eraill yn y Siambr heddiw, clywsom am fwyd cynaliadwy gan Kirsty ac am fiodanwydd gan Darren, soniodd Joyce Watson am bolisi'r Llywodraeth fel y mae ar hyn o bryd, cynigiodd Nick ei gefnogaeth i'r ddadl ar gynaliadwyedd, yn enwedig mewn cysylltiad â'i ranbarth ef, sef Canolbarth a Gorrlewin Cymru, lle y mae'r amgylchedd yn bwysig iawn, fel y mae caffael yn lleol. Fodd bynnag, mae angen dadl adeiladol fel y gallwn ni fel sefydliad ac fel Cynulliad gyfrannu at yr adolygiad canol tymor sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd, a llunio barn gonsensws am y sefyllfa yr hofem ei gweld yng Nghymru, ar ôl 2013, ar ôl llwyr ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Felly, ni allaf weld sut y gall neb ddweud bod y cynnig sydd gerbron y Cynulliad yn negyddol. Mae'n dangos y ffeithiau fel y maent, ar lawr gwlad, heddiw.

Rhaid inni bob un fod yn effro i un peth—ac mae'n drueni na chawsom fwy o ddadl heddiw—a hynny yw bod aelwydydd yn ei chael yn anodd dygymod â baich y costau cynyddol. Os siaradwch â phobl yn y stryd, dywedant wrthy ch ei bod yn ymddangos nad oes dim yn cael ei wneud i geisio lliniaru effaith y costau cynyddol hynny. Ddoe, yn *The Times*, yr oedd llun yn yr adran ariannol o olew ar y naill law a llaeth ar y llall. Ni chredais erioed y gwelwn olew a llaeth yn yr un—

Alun Ffred Jones: A ydych felly o blaid cael pwerau cyllidol i'r Cynulliad fel y gall ddylanwadu yn hyn o beth? Ar hyn o bryd,

At present, we have no powers to do so.

Andrew R.T. Davies: I would certainly not be in favour of having those powers, because, at the end of the day, we work in the European Union under the common agricultural policy. We have a bright future in Wales if we are prepared to adapt to the situation that faces us. I agree, Alun Ffred, that we must never talk our industry down, and, as a young person, I am keener than anyone to ensure that my children can come into the industry in the future. We cannot avoid facing the reality that is before us, namely rising commodity prices.

We need to use the valuable resource of land to produce food, and we need to ensure that we have a coherent strategy, so that we play our part in the negotiations on the common agricultural policy post 2013, and that we take an aggressive stance in the mid-term review that is currently unfolding. This motion is constructive and concise, and it asks the Assembly to acknowledge as much. I am afraid that the Welsh Assembly Government—the nationalists and Labour—has failed to rise to that challenge, and the public will see through them.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod gwelliant 1 yn cael ei gytuno. A oes gwrthwynebiad? Gwela fod. Felly, gohiriaf y bleidlais tan yr amser pleidleisio.

*Gohiriwyd y bleidleisiau tan yr amser pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Anhwyllderau yn y Sbectrwm Awtistig Autistic Spectrum Disorders

Y Llywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Kirsty Williams.

Mark Isherwood: I propose that

the National Assembly for Wales:

welcomes the Welsh Assembly Government's publication of an action plan for autistic spectrum disorders, but notes that without

nid oes gennym bwerau i wneud hynny.

Andrew R.T. Davies: Yn sicr, ni fyddwn o blaid cael pwerau o'r fath, oherwydd yn y pen draw yr ydym yn gweithio yn yr Undeb Ewropeaidd dan y polisi amaethyddol cyffredin. Bydd ein dyfodol yn ddisglair yng Nghymru os ydym yn barod i ymaddasu i'r sefyllfa sy'n ein hwynebu. Cytunaf, Alun Ffred, na ddylem byth bychanu ein diwydiant, ac fel rhywun ifanc yr wyf yn fwy awyddus na neb i sicrhau y gall fy mhlant ymuno â'r diwydiant yn y dyfodol. Ni allwn osgoi'r gwir am y sefyllfa sydd o'n blaenau, sef y cynnydd ym mhrisiau nwyddau.

Mae angen inni ddefnyddio'r adnodd tir gwerthfawr hwn i gynhyrchu bwyd, ac mae angen inni sicrhau bod gennym strategaeth gydlynol, er mwyn gallu chwarae ein rhan yn y negodiadau ar y polisi amaethyddiaeth cyffredin ar ôl 2013, a mabwysiadu safbwynt cadarn yn yr adolygiad canol tymor sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r cynnig hwn yn un adeiladol a chryno, ac mae'n gofyn i'r Cynulliad gydnabod hynny. Ofnaf nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru—y cenedlaetholwyr a Llafur—wedi derbyn yr her ac y bydd y cyhoedd yn gweld hynny.

The Presiding Officer: The proposal is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, the vote will be deferred until voting time.

Mark Isherwood:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

yn croesawu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi cynllun gweithredu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig, ond

further work to tackle the specific difficulties that adults with autism face, they will remain isolated and ignored. (NDM3935)

I call on every party in the Assembly to support the motion. At the invitation of the National Autistic Society, on 19 February, I hosted the launch of its I Exist campaign in the Assembly, which aims to improve the lives of adults with autism in Wales. At that event, I asked the Deputy Minister for Social Services to take account of the recommendations of the campaign report in the Assembly Government's action plan, and I remind her that she agreed to do so.

The I Exist campaign was informed by evidence gathered from adults with autism and their families from across Wales, who had responded to a survey inviting them to put forward their views and experiences. The National Autistic Society also asked local authorities and local health boards in Wales for their views, and more than half of them responded. The campaign is based on what adults with autism and their families have to say about what happens when they do not receive the support that they need, and what it would take to improve their lives.

More needs to be done to tackle the specific difficulties that adults with autism in Wales face today, particularly those difficulties highlighted in the 'I Exist' report. We and the National Autistic Society welcomed the launch of 'The Autistic Spectrum Disorder (ASD) Strategic Action Plan for Wales' as a first step. This is the first time that there are guidelines specifically on autism for local agencies, such as local authorities and local health boards. The plan outlines what the Assembly Government will do, and what local agencies have to do, to think about people with autism and their families, and how they provide services to them. We particularly welcome the Assembly Government's commitment to resource the plan, to establish an autistic spectrum disorder support post in the Assembly, and to

yn nodi heb ragor o waith i fynd i'r afael â'r anawsterau penodol y mae oedolion ag awtistiaeth yn eu hwynebu, y byddant yn dal yn ynysig ac yn cael eu hanwybyddu. (NDM3935)

Galwaf ar bob plaid yn y Cynulliad i gefnogi'r cynnig. Yn dilyn gwahoddiad gan y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, ar 19 Chwefror yr oeddwn yn croesawu lansio yn y Cynulliad ei hymgyrch Rwy'n Bodoli, sy'n ymdrechu i wella bywydau oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru. Yn y digwyddiad hwnnw, gofynnais i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ystyried argymhellion adroddiad yr ymgyrch yng nghynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad, a hoffwn ei hatgoffa ei bod wedi cytuno i wneud hynny.

Mae'r ymgyrch Rwy'n Bodoli yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth oedolion sydd ag awtistiaeth a'u teuluoedd o bob cwr o Gymru. Yr oeddent wedi ymateb i arolwg yn eu gwahodd i gyflwyno'u sylwadau a'u profiadau. Hefyd, gofynnodd y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol am farn awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol Cymru, ac ymatebodd dros hanner. Mae'r ymgyrch yn seiliedig ar yr hyn sydd gan oedolion ag awtistiaeth a'u teuluoedd i'w ddweud am yr hyn sy'n digwydd pan na fyddant yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen, a'r hyn y byddai ei angen i wella'u bywydau.

Mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â'r anawsterau penodol sy'n wynebu oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru heddiw, yn enwedig y rheini sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad 'Rwy'n Bodoli'. Yr oeddem ni a'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn croesawu lansio 'Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (ASD)' fel cam cyntaf. Dyma'r tro cyntaf inni gael canllawiau ar awtistiaeth yn benodol ar gyfer asiantaethau lleol, megis awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae'r cynllun yn amlinellu'r hyn y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud, a'r hyn y bydd yn rhaid i asiantaethau lleol ei wneud, i feddwl am bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd, a sut y maent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Croesawn yn arbennig ymrwymiad Llywodraeth y

establish a national steering group. However, the document talks of little action on adult issues.

In a climate of scarce resources and capacity, we know that local agencies will focus only on the actions set out by the Assembly Government, if any. It is a concern to ensure that the real difficulties that adults with autism in Wales face are addressed adequately. The 'I Exist' report has highlighted major barriers that adults with autism in Wales currently face. The only commitment to action in the plan is to set up a task and finish group to consider the specific issues that adults have, and to act on its recommendations. The National Autistic Society's research has revealed that, if people with autism received the support that they needed at the right time, they could lead more independent and fulfilled lives.

However, wherever on the autism spectrum people are, they struggle to get appropriate support. Without that, many adults and their families find themselves in a desperate situation. I am told that adults with autism in Wales desperately need help, but are not receiving it. The adult autism population has been largely ignored in the past under successive Governments, but the action plan places an expectation on authorities to develop an autistic spectrum disorder co-ordinating group in each local area. We understand that these groups should inform and support the planning for, and commissioning of, services for people with autistic spectrum disorders.

3.50 p.m.

In rolling out the action plan, the Assembly Government must ensure that these groups give consideration to adult issues and that there are strong links between the work being undertaken for children's services and that

Cynulliad i ariannu'r cynllun, i sefydlu swydd cefnogi anhwylder sbectrwm awtistig yn y Cynulliad, ac i sefydlu grŵp llywio cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes llawer o sôn yn y ddogfen am weithredu ar faterion oedolion.

Mewn dyddiau pan yw anoddau a gallu'n brin, gwyddom y bydd asiantaethau lleol yn canolbwyntio'n unig ar y gweithredoedd a osodwyd allan gan Lywodraeth y Cynulliad, os hynny. Mae'n her ceisio sicrhau bod yr anawsterau gwirioneddol sy'n wynebu oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru yn cael sylw digonol. Mae'r adroddiad 'Rwy'n Bodoli' wedi tynnu sylw at rwystrau difrifol sy'n wynebu oedolion ag awtistiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Yr unig ymrwymiad yn y cynllun i weithredu yw sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried y materion penodol sy'n effeithio ar oedolion, a gweithredu ar ei argymhellion. Dangosodd ymchwil y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, petai pobl ag awtistiaeth yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei hangen ar yr adeg iawn, y gallent fyw bywydau mwy annibynnol a llawn.

Fodd bynnag, ym mha le bynnag ar y sbectrwm awtistig y mae pobl, maent yn brwydro i gael cefnogaeth briodol. Heb y gefnogaeth honno, mae nifer o oedolion a'u teuluoedd yn eu cael eu hunain mewn sefyllfa ddybryd. Dywedwyd wrthyf fod oedolion sydd ag awtistiaeth yng Nghymru yn crefu am gymorth, ond nad ydynt yn ei gael. Mae oedolion sydd ag awtistiaeth wedi'u hanwybyddu i bob pwrpas yn y gorffennol gan y naill Lywodraeth ar ôl y llall, ond mae'r cynllun gweithredu'n rhoi disgwyliad ar awdurdodau i ddatblygu grŵp cydlynu anhwylderau yn y sbectrwm awtistig ym mhob ardal leol. Deallwn y dylai'r grwpiau hyn ychwanegu at y broses o gynllunio a chomisioynu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau yn y sbectrwm awtistig, a'i chefnogi.

Wrth gyflwyno'r cynllun gweithredu, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod y grwpiau hyn yn ystyried materion oedolion a bod cysylltiadau cryf rhwng y gwaith sy'n cael ei wneud ar gyfer gwasanaethau plant a

for adults. A cohesive and co-ordinated approach is vital, especially to ensure that there are good structures for sharing information between children's and adults' services, to plan for those young people who will be coming through the system in the future.

There is a lack of understanding of autism in the assessments of need, and a shortage of staff who are trained to deal with autism. When people with a learning disability access services, they can find that they are not always the right kind of services and that they do not meet their needs as well as they could. For adults who do not have an accompanying learning disability, it can be very difficult to access a service. Getting any acknowledgement of the fact that they require a service can be extremely difficult. This is because of how the structure is set up, and means that adults with Asperger's syndrome in particular find that they fall between learning disability and mental health services. They can find themselves being passed between these two teams, receiving nothing.

In its recent review of learning disability services, Health Inspectorate Wales highlighted the problems that adults with Asperger's syndrome face, and noted that the Assembly Government should produce guidance on this issue. Forty one per cent of local agencies say that the reason they do not provide services for adults with autism is because they do not fit easily into learning disability or mental health services. Only three local authorities and three local health boards have a system in place to manage adults with autism. An example of one county that has addressed this problem is Conwy, which has set up a vulnerable adults' panel. The Assembly Government needs to put in place a statutory requirement for local agencies to have a protocol that makes sure that adults with autism can access an assessment.

In the 'I Exist' report for Wales, adults said that a lack of support was the biggest cause of the problems that they experience. Sixty three per cent of adults with autism have had

gwasanaethau oedolion. Mae dull cydlynus a chydlynol yn hanfodol, yn enwedig i sicrhau bod strwythurau da ar waith i rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau plant ac oedolion, i gynllunio ar gyfer y bobl ifanc hynny a fydd yn dod trwy'r system yn y dyfodol.

Mae diffyg dealltwriaeth o awtistiaeth yn yr asesiadau o angen, a phrinder staff wedi'u hyfforddi i ddelio ag awtistiaeth. Pan fydd pobl ag anabledd dysgu yn defnyddio gwasanaethau, byddant yn gweld ar adegau nad dyna'r math o wasanaethau y mae arnynt eu hangen, ac nad ydynt yn diwallu eu hanghenion gystal ag y gallent. Yn achos oedolion sydd heb anabledd dysgu cysylltiedig, gall fod yn anodd iawn cael gwasanaeth. Gall fod yn anodd dros ben cael unrhyw fath o gydnabyddiaeth o'r ffaith fod arnynt angen gwasanaeth o gwbl. Mae hyn oherwydd y ffordd y mae'r strwythur wedi'i sefydlu, ac mae'n golygu bod oedolion sydd â syndrom Asperger yn arbennig yn cael eu bod yn syrthio rhwng dwy stôl anabledd dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl. Cânt eu trosglwyddo rhwng y ddau dîm, a chael dim.

Yn ei arolwg diweddar o wasanaethau anabledd dysgu, tynnodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sylw at y problemau sy'n wynebu oedolion sydd â syndrom Asperger. Dywedai y dylai Llywodraeth y Cynulliad gynhyrchu arweiniad ar y mater. Dywed 41 y cant o asiantaethau lleol mai'r rheswm nad ydynt yn darparu gwasanaethau ar gyfer oedolion ag awtistiaeth yw nad ydynt yn ffitio'n daclus o fewn anabledd dysgu na gwasanaethau iechyd meddwl. Tri awdurdod lleol a thri bwrdd iechyd lleol yn unig sydd â system ar waith i reoli oedolion sydd ag awtistiaeth. Un enghraifft o sir sydd wedi rhoi sylw i'r broblem hon yw Conwy, sydd wedi sefydlu panel o oedolion sy'n agored i niwed. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad osod gofyniad statudol i sicrhau bod gan asiantaethau lleol brotocol sy'n sicrhau bod oedolion sydd ag awtistiaeth yn cael eu hasesu.

Yn yr adroddiad 'Rwy'n Bodoli' ar gyfer Cymru, dywedodd oedolion mai diffyg cefnogaeth oedd prif achos y problemau a oedd yn eu hwynebu. Mae 63 y cant o

problems trying to access the right support, and 36 per cent are not in receipt of a service because their local authority does not have provision in place. As one adult with autism said,

‘There is no front-line support and a complete and utter lack of understanding. In fact, my own GP did not have my diagnosis on file. It has been really hard to even get any help’.

The provision of support and services for adults with autism across Wales is extremely patchy. A lack of autism-specific services affects everyone with autism, whether they have a learning disability or Asperger’s syndrome. People with autism who do not receive the right support at the right time can become isolated, anxious and can develop mental health problems. Sixty three per cent of adults with autism have experienced anxiety due to a lack of support, and 49 per cent—almost half of all adults with autism—have experienced mental health problems because of the lack of support. An example of local action to address the problem of lack of support is the National Autistic Society’s Conwy and Denbighshire branch, which I have visited, and which is run by people who have Asperger’s syndrome. They recognised that more needed to be done for adults in the local area and so established their own adult support group.

National leadership is required from the Assembly Government. Having an autistic spectrum disorder action plan is a good start. However, we must now ensure that specific commitments are made by the Assembly Government to address the difficulties that adults face. Local agencies want that, too. Ninety one per cent of local authorities felt that the Assembly Government needed to take further action to help them to support adults with autism; 67 per cent—two thirds—of local health boards said that they would benefit from more guidance from the Welsh Assembly Government around commissioning services for people with autism. We call on the Welsh Assembly

oedolion sydd ag awtistiaeth wedi wynebu problemau wrth geisio cael y gefnogaeth briodol, ac nid yw 36 y cant yn cael gwasanaeth am nad oes gan eu hawdurdod lleol ddarpariaeth ar eu cyfer. Fel y dywedodd un oedolyn sydd ag awtistiaeth,

‘Does dim cefnogaeth rheng flaen a dim dealltwriaeth o fath yn y byd. Yn wir, doedd fy neiagnosis ddim ar fy ffeil gan fy meddyg fy hun. Mae wedi bod yn hynod o anodd cael unrhyw gymorth o gwbl’.

Mae darparu cefnogaeth a gwasanaethau i oedolion sydd ag awtistiaeth ledled Cymru yn ddarniog dros ben. Mae diffyg gwasanaethau sy’n benodol ar gyfer awtistiaeth yn effeithio ar bawb sydd ag awtistiaeth, p’un a oedd ganddynt anabledd dysgu ynteu syndrom Asperger. Os na chaiff pobl sydd ag gefnogaeth briodol ar yr adeg iawn, gallant fod yn ynysig ac yn bryderus, a gallant ddatblygu problemau iechyd meddwl. Mae 63 y cant o oedolion sydd ag awtistiaeth wedi dioddef pryder oherwydd diffyg cefnogaeth, ac mae 49 y cant—bron i hanner yr oedolion sydd ag awtistiaeth—wedi cael problemau iechyd meddwl oherwydd diffyg cefnogaeth. Un enghraifft o weithredu’n lleol i roi sylw i’r broblem diffyg cefnogaeth yw cangen Conwy a sir Ddinbych o’r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, cangen yr wyf wedi ymweld â hi ac sy’n cael ei rhedeg gan bobl sydd â syndrom Asperger. Yr oeddent yn cydnabod bod angen gwneud mwy ar gyfer oedolion yn yr ardal, felly aethant ati i sefydlu eu grŵp cefnogi eu hunain ar gyfer oedolion.

Mae angen arweiniad cenedlaethol gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae datblygu cynllun gweithredu ar anhwylder sbectrum awtistig yn ddechrau da. Fodd bynnag, rhaid inni yn awr sicrhau bod Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud ymrwymadau penodol i roi sylw i’r anawsterau sy’n wynebu oedolion. Mae asiantaethau lleol am weld hynny hefyd. Yr oedd 91 y cant o awdurdodau lleol yn teimlo bod angen i Lywodraeth y Cynulliad gymryd camau pellach i’w cynorthwyo i gefnogi oedolion sydd ag awtistiaeth; dywedodd 67 y cant—dwy ran o dair—o’r byrddau iechyd lleol y byddent yn elwa o gael mwy o arweiniad gan Lywodraeth y Cynulliad ar gomisiynu

Government to publish good practice guidance for local agencies on how to commission services for adults with autism.

Local agencies told the National Autistic Society in its survey that they felt that ring-fenced funding would be helpful to ensure that they spent the money on autism services and support. We know that the Assembly Government has allocated £1.7 million, recurring from last year, to support the delivery of 'The Autism Spectrum Disorder (ASD) Strategic Action Plan for Wales', which is paid to local authorities through the revenue support grant. However, this money is for children and young people's services. As the money is not ring-fenced, there is a lack of clarity over how this money has been spent. It is a concern that some of this money will not have been spent on autism, and we need to ensure that that does not happen again in the future.

We understand that £1.8 million has been announced to support the plan this year, but we want to know whether the Assembly Government will commit to putting formal monitoring arrangements in place for the £1.7 million to record how the money is spent, and to ensure that it is spent on autism. We also want to know how the £1.8 million will be allocated. We have been told that it will be ring-fenced, but will some of this money be used to support adults?

Not receiving the support needed could have an impact that manifests itself as anxiety, mental health problems, social exclusion, an overreliance on family, and escalating needs—hence, escalating costs. The Welsh Assembly Government, local authorities and local health boards must therefore act to ensure that all people with autism receive the support and services that they need at the right time, so that they can lead more independent and fulfilling lives.

Jenny Randerson: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 1: add as new point at end of motion:

gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth. Galwn ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi arweiniad ar arferion da i asiantaethau lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer oedolion sydd ag awtistiaeth.

Dywedodd asiantaethau lleol wrth y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn ei harolwg eu bod yn credu y byddai arian wedi'i neilltuo yn ddefnyddiol i sicrhau eu bod yn gwario'r arian ar wasanaethau a chefnogaeth i bobl ag awtistiaeth. Gwyddom fod Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £1.7 miliwn, ers y llynedd, i helpu cyflawni 'Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Anhwylder y Sbectwm Awtistig (ASD)', a delir i awdurdodau lleol trwy'r grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, mae'r arian hwn ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc. Gan nad yw'r arian wedi'i neilltuo, mae diffyg eglurder ynghylch y ffordd y gwariwyd yr arian hwn. Mae'n achos pryder y bydd rhywfaint o'r arian hwn heb ei wario ar awtistiaeth, ac mae angen inni sicrhau na fydd hynny'n digwydd eto yn y dyfodol.

Deallwn fod £1.8 miliwn wedi'i gyhoeddi i gefnogi'r cynllun eleni, ond hoffem wybod a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwmo i gyflwyno trefniadau monitro ffurfiol ar gyfer yr £1.7 miliwn i gofnodi sut y mae'r arian yn cael ei wario, ac i sicrhau ei wario ar awtistiaeth. Hoffem gael gwybod hefyd sut y caiff yr £1.8 miliwn ei ddyrannu. Dywedwyd wrthym y bydd yn cael ei neilltuo, ond a fydd rhywfaint o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi oedolion?

Gallai peidio â chael y gefnogaeth angenrheidiol gael effaith sy'n gael ei amlygu fel pryder, problemau iechyd meddwl, allgáu cymdeithasol, gorddibyniaeth ar y teulu, ac anghenion cynyddol sy'n arwain at gostau cynyddol. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithredu felly i sicrhau bod pawb sydd ag awtistiaeth yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen ar yr adeg iawn, i'w galluogi i fyw bywydau mwy annibynnol a llawn.

Jenny Randerson: Cynigaf y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

believes the Welsh Assembly Government should support local authorities to give appropriate social care support staff up-to-date information and training about autism.

yn credu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi awdurdodau lleol i roi gwybodaeth a hyfforddiant diweddar am awtistiaeth i staff cefnogaeth gofal cymdeithasol priodol.

Amendment 2: add as new point at end of motion:

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

calls upon the Welsh Assembly Government to:

yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru:

a) make it a requirement for local authorities and local health boards to accurately record the number of adults with autism.

a) i'w gwneud yn ofyniad ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i gofnodi nifer yr oedolion sydd ag awtistiaeth yn gywir.

b) issue guidance to local authorities and local health boards about how to accurately record the number of adults with autism.

b) i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ac i fyrddau iechyd lleol ynghylch sut mae cofnodi nifer yr oedolion sydd ag awtistiaeth yn gywir.

I thank Mark for ensuring that we have an opportunity to discuss an important issue. The amendments that we have tabled build unashamedly on the excellent work of the National Autistic Society and its I Exist campaign, which focuses on adults with autism. The society specifically hones in on two particular issues. The first is the training for social care support staff and the information given to them so that they are fully aware of the complexities of the issue, and can give the support they should give to adults with autism. The second relates to the simple recording of data and information.

Diolch i Mark am sicrhau ein bod yn cael cyfle i drafod mater pwysig. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd yn adeiladu'n ddiweddar ar waith rhagorol y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol a'i hymgyrch Rwy'n Bodoli, sy'n canolbwyntio ar oedolion sydd ag awtistiaeth. Mae'r gymdeithas yn canolbwyntio'n arbennig ar ddau fater penodol. Y cyntaf yw hyfforddiant staff cefnogi gofal cymdeithasol a'r wybodaeth a roddir iddynt i sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o gymhlethdodau'r mater, ac yn gallu darparu'r gefnogaeth y dylent ei rhoi i oedolion sydd ag awtistiaeth. Mae'r ail yn ymwneud â chofnodi data a gwybodaeth yn syml.

Autism is on the rise as a condition throughout the UK, and so Wales, but it is not a new condition. Many thousands of adults live with the condition, but, as Mark has outlined, they have little specialised support. One of the biggest flaws of the current system is that no-one knows how many of them there are, or where they live. There is no requirement of local authorities and local health boards to record where people with autism live or what level of support they need. Until the figures are fully compiled, any new action plan can have only a limited effect, because those who are most in need of support are most hidden. How can we have an effective action plan if we do not

Mae awtistiaeth fel cyflwr ar gynydd ledled y DU, a Chymru hefyd, ond nid yw'n gyflwr newydd. Mae miloedd lawer o oedolion yn byw gyda'r cyflwr, ond fel yr amlinellodd Mark, ychydig iawn o gefnogaeth arbenigol a gânt. Un o feiau mawr y system bresennol yw na wŷr neb faint ohonynt sydd â'r cyflwr, na lle maent yn byw. Nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol na byrddau iechyd lleol gofnodi ble mae pobl ag awtistiaeth yn byw na pha lefel o gefnogaeth y mae arnynt ei hangen. Nes caiff y ffigurau eu casglu'n llawn, cyfyngedig fydd effaith unrhyw gynllun gweithredu newydd, oherwydd y rhai sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth yw'r rhai mwyaf cudd. Sut y gallwn gael cynllun

even know the extent of the problem?

Current legislation and debate often focuses on parents, carers and teachers; indeed, that has been the focus of our debate up to now. That focus denies the sufferer the right to speak for themselves, and consultation with autism sufferers is often lacking, or even non-existent. Many autistic people can communicate effectively with others, although it may not be in the manner that we normally expect: their speech may be slow and they may prefer written communication. Nevertheless, they relish the chance to represent themselves in a public forum.

People with autism often have difficulty accessing help because of their problems expressing themselves. Above all, adults need social support to enable them to make their way through the maze of modern society. Someone with autism may be asked in an assessment by a professional—who had not been properly trained—whether they needed any support, and they may well reply ‘No’, because they would not understand the question or have sufficient awareness of their own needs. This is a complex condition.

4.00 p.m.

It is also important to point out that 49 per cent of adults with autism have experienced mental health problems as a result of a lack of support. Suicide rates among adults with autism are significantly higher than among the rest of the population. Those two factors should make us ashamed that society has not yet provided them with the social support that they need.

It is important to remember that this is a complex condition and that many people with autism are highly intelligent and are, with the support of others, more than capable of running their own lives and of fulfilling their own wishes. They do not want to be dictated to or patronised. However, it is a spectrum disorder and at the other end of the spectrum,

gweithredu effeithiol os na wyddom beth yw maint y broblem hyd yn oed?

Mae'r ddeddfwriaeth a'r ddadl bresennol yn aml yn canolbwyntio ar rieni, gofalwyr ac athrawon; yn wir, dyna fu pwyslais ein dadl ni hyd yn hyn. Mae'r pwyslais hwnnw'n gwadu'r hawl i'r dioddefwyr siarad drostynt eu hunain, ac mae unrhyw ymgynghori â dioddefwyr awtistiaeth yn brin, neu nid yw'n bodoli o gwbl hyd yn oed. Gall llawer o bobl awtistig gyfathrebu'n effeithiol ag eraill, er nad yw efallai yn y ffordd y byddem yn ei ddisgwyl yn arferol: gall eu lleferydd fod yn araf a gall fod yn well ganddynt gyfathrebu'n ysgrifenedig. Er hynny, maent yn awyddus iawn i gael y cyfle i'w cynrychioli eu hunain mewn fforwm cyhoeddus.

Mae pobl sydd ag awtistiaeth yn aml yn cael anhawster cael cymorth oherwydd eu problemau wrth fynegi eu hunain. Yn anad dim, mae angen cefnogaeth gymdeithasol ar oedolion i'w galluogi i wneud eu ffordd drwy ddrysa cymdeithas fodern. Gall gweithiwr proffesiynol—rhywun nad yw wedi cael hyfforddiant priodol—ofyn i berson ag awtistiaeth yn ystod asesiad a oes angen cefnogaeth arno, ac mae'n ddigon posibl y bydd yn dweud 'Na', am nad yw'n deall y cwestiwn neu am nad oes ganddo ddigon o ymwybyddiaeth o'i anghenion ei hun. Mae hwn yn gyflwr cymhleth.

Mae'n bwysig tynnu sylw hefyd at y ffaith fod 49 y cant o oedolion sydd ag awtistiaeth wedi cael problemau iechyd meddwl oherwydd diffyg cefnogaeth. Mae cyfraddau hunanladdiad lawer yn uwch ymhlith oedolion sydd ag awtistiaeth nag ymhlith gweddill y boblogaeth. Dylai'r ddau ffactor hynny wneud inni deimlo cywilydd nad yw cymdeithas eto wedi rhoi iddynt y gefnogaeth gymdeithasol y mae arnynt ei hangen.

Mae'n bwysig cofio bod hwn yn anhwylder cymhleth a bod llawer o bobl sydd ag awtistiaeth yn bobl ddeallus iawn. Gyda chefnogaeth pobl eraill, gallant fyw eu bywydau eu hunain a chyflawni eu dymuniadau eu hunain. Nid oes arnynt eisiau i neb ddweud wrthynt beth i'w wneud na chael eu trin yn nawddoglyd. Fodd bynnag,

there are people who find it difficult to make their wishes known and who need daily, 24-hour support.

If we can provide, as a modern society, the resources and the support and training for the staff who deal with them, and if we could start by finding out how many people we are talking about here, we will have made a significant advance that will enable the action plan to be effective.

Helen Mary Jones: I begin by saying how much I welcome this debate today. I put on record the Plaid Cymru group's thanks to the Conservative group for tabling this important debate and what I think is a constructive and thoughtful motion.

I must admit that I had not been properly aware of the problems faced by adults with autism, which is quite an admission from a former social worker and special needs teacher who has taught autistic pupils. In recent years, two experiences have made me aware of exactly what those challenges are.

The first relates to a young friend of the family. We had always thought of him as being awkward and a bit difficult, and someone who found it hard to get on with people. Some of us, and certainly his mum, felt that, at times, he was being an exaggerated version of a teenager. He is a very intelligent young man and is an academic high achiever. He struggled socially, but got to university. At that point, he found his world falling apart, because he simply could not cope with not living at home. He found that he could not cope with the social necessities of shopping, doing his washing and having to interact with people—things that his mum had always done for him, just as mums do for teenagers everywhere. He was going to drop out of university and come home. However, he was lucky enough to be at a university with a strong personal tutor system. His tutor recommended an assessment, and the university was able to put him in touch with a specialist service that could diagnose autism in adults. He was

mae hwn yn anhwylder sbectrwm, ac ym mhen arall y sbectrwm mae pobl sy'n cael anhawster i fynegi eu dymuniadau, ac sydd ag angen cefnogaeth 24 awr y dydd.

Os gallwn, fel cymdeithas fodern, ddarparu'r adnoddau, y gefnogaeth a'r hyfforddiant i'r staff sy'n ymdrin â hwy, a phe gallem ddechrau drwy ddarganfod am faint o bobl yr ydym yn sôn, byddwn wedi cymryd cam sylweddol a fydd yn galluogi'r cynllun gweithredu i fod yn effeithiol.

Helen Mary Jones: Hoffwn ddechrau drwy ddweud mor falch yr ydwyf ein bod yn cael y ddadl hon heddiw. Yr wyf am gofnodi bod grŵp Plaid Cymru'n diolch i'r grŵp Ceidwadol am gyflwyno'r ddadl bwysig hon a chynnig sydd, yn fy marn i, yn un adeiladol ac ystyriol.

Rhaid imi gyfaddef nad oeddwn yn hollol ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu oedolion sydd ag awtistiaeth. Mae'n dipyn o gyfaddefiad gan gyn weithwraig gymdeithasol ac athrawes anghenion arbennig sydd wedi dysgu disgyblion awtistig. Mae dau brofiad wedi gwneud imi sylweddoli, yn y blynyddoedd diwethaf, beth yn union yw'r heriau hynny.

Mae'r cyntaf yn ymwneud â chyfaill ifanc i'r teulu. Yr oeddem bob amser wedi meddwl ei fod yn dueddol o dynnu'n groes ac yn anodd ei drin, a'i fod yn methu â chyd-dynnu'n dda iawn â phobl eraill. Yr oedd rhai ohonom, a'i fam yn sicr, yn teimlo ar adegau mai fersiwn eithafol o berson ifanc yn ei ardegau ydoedd Mae'n wŵr ifanc deallus iawn ac mae'n gwneud yn dda iawn yn academaidd. Nid oedd yn dda am gymdeithasu, ond cafodd le mewn prifysgol. Dyna pryd y dechreuodd ei fyd ddisgyn yn dipiau o'i gwmpas, a phan ddechreuodd sylweddoli na allai ddygymod â byw oddi cartref. Gwelodd na allai ddygymod â'r tasgau cymdeithasol y mae angen eu cyflawni, fel siopa, golchi dillad ac ymwneud â phobl eraill—pethau yr oedd ei fam bob amser wedi'u gwneud drosto, fel pob mam arall sydd â phlant yn eu harddegau. Yr oedd yn mynd i adael y brifysgol a dod adref. Fodd bynnag, yn ffodus iawn yr oedd mewn prifysgol lle yr oedd system dda o diwtoriaid personol. Argymhellodd ei diwtor y dylai gael ei asesu,

assessed as being a very high functioning young person with Asperger syndrome. He was even luckier that his university had strong support systems in place for disabled students; he is now studying successfully and has every chance of building a successful career. However, he may always need some social support and the question still remains of whether he will get it.

That family talked to me about the relief of diagnosis and of simply understanding the challenges facing their son. I remember him saying to me that he now knew that it was not his fault—that sense that he was not quite right and did not see the world the way that other people did. Once he realised that there was a reason for it, it made a huge difference to him.

However, the other individual story that brought the plight of adults with autism to my notice was one where the diagnosis ended up not being a relief. This is about a slightly older constituent who had always had difficulties with social interaction. He was autistic, although he did not know it at the time, and his hypersensitivity to sound had led to real problems in terms of living with his neighbours. He was perceived in his community as a problem. He was, in one sense, fortunate, because a new GP joined his practice who instantly recognised the potential issue and that an assessment was needed. He then went through great hoops to get a specialised assessment—he was unable to get one in Wales, but was eventually referred to a specialist in England. That was the point at which my constituency office got involved, because we then had to have a long debate with the local health board about who should pay for this assessment. Sure enough, he was diagnosed with autism, and one of the manifestations—I do not think that ‘symptoms’ is the right word—was this hypersensitivity to sound. However, we still could not get the housing department to understand that the kind of accommodation that it was offering—a flat in a busy, noisy block—was completely unsuitable. That was a recurring problem. It was making his

a chyfeiriwyd ef at wasanaeth arbenigol a allai ddarganfod awtistiaeth mewn oedolion. Dangosodd yr asesiad ei fod yn berson ifanc galluog iawn sydd â syndrom Asperger. Yn fwy ffodus fyth, yr oedd gan ei brifysgol systemau da i gefnogi myfyrwyr anabl; erbyn hyn mae'n astudio'n llwyddiannus ac mae ganddo bob siawns o greu gyrfa lwyddiannus iddo'i hun. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd arno angen rhywfaint o gefnogaeth gymdeithasol bob amser, a'r cwestiwn o hyd yw a fydd yn ei chael.

Soniodd y teulu hwnnw wrthyf am eu rhyddhad o gael diagnosis a dod i ddeall yr heriau a oedd yn wynebu eu mab. Cofiaf iddo ddweud wrthyf ei fod yn gwybod erbyn hyn nad arno ef yr oedd y bai—y teimlad hwnnw nad oedd yn hollol iawn, ac nad oedd yn gweld y byd fel yr oedd pobl eraill yn ei weld. Cyn gynted ag y sylweddolodd fod rheswm dros hynny, bu gwahaniaeth mawr yn ei fywyd.

Fodd bynnag, yn yr achos unigol arall a ddaeth â phroblemau oedolion ag awtistiaeth i'm sylw, nid rhyddhad a deimlwyd yn dilyn y diagnosis. Mae'r achos hwn yn ymwneud â pherson ychydig yn hŷn yn fy etholaeth a oedd bob amser wedi cael anawsterau wrth ymwneud â phobl. Yr oedd yn awtistig, er na wyddai hynny ar y pryd, a'i orsensitifrwydd i sŵn wedi arwain at broblemau mawr gyda'i gymdogion. Câl ei ystyried yn broblem yn ei gymuned. Yr oedd yn ffodus ar un ystyr, oherwydd daeth meddyg teulu newydd i'r practis. Gwelodd y meddyg teulu ar unwaith beth allai fod yn achosi'r broblem a dywedodd fod angen asesiad. Aeth i gryn drafferth i gael asesiad arbenigol—nid oedd modd cael un yng Nghymru, ond cafodd ei gyfeirio at arbenigwr yn Lloegr yn y diwedd. Dyna pryd y cysylltwyd â'm swyddfa etholaethol i, oherwydd yr oedd yn rhaid inni wedyn gael dadl hir gyda'r bwrdd iechyd lleol ynglŷn â phwy ddylai dalu am yr asesiad hwn. Wrth gwrs, gwelwyd bod ganddo awtistiaeth, ac un o'r arwyddion—nid wyf yn credu mai ‘symptomau’ yw'r gair cywir—oedd y gorsensitifrwydd hwn i sŵn. Fodd bynnag, yr oeddem yn dal i fethu â chael yr adran tai i ddeall bod y math o lety yr oedd yn ei gynnig—fflat mewn bloc prysur, swnllyd—yn gwbl anaddas. Yr oedd y broblem yn codi drosodd a throsodd. Yr oedd

condition worse, as well as creating a huge difficulty for his neighbours that could have been avoided.

In the end, we had to threaten the local authority—this was in my previous incarnation as a regional Member, so I am not naming or shaming any particular authority here—with the Disability Discrimination Act 2005, and even then, it argued as to whether the Act applied to people with autism. With the support of his family, and with some support from my office, he eventually found a private let, which we eventually prevailed on the local authority to fund. His life is now bearable, his neighbours' lives are much better, and he is able to work from home.

These two stories had positive outcomes, but I am afraid that they are far from typical, as we heard from Jenny Randerson and Mark Isherwood. We cannot allow this situation to continue. The autism disorder action plan is welcome—I think that it is an international first, and something that we can be proud of—but the Government needs to ensure that it delivers, and is adapted, if necessary, to deliver for adults. The task and finish group must do its work speedily and effectively, and that work must produce specific, timetabled actions that will make a difference. We must make this action plan work for adults, as well as for children, with autism. I am, therefore, pleased to support the motion, and commend it to the Assembly.

Jonathan Morgan: I start by thanking my colleague Mark Isherwood for his comments in opening this debate. This is about looking at how we provide and improve services for people who have autism, whether they are young people or adults. Very often, it is adults with this condition who are overlooked.

However, I will stray into discussing young people as well, because they pose a number of challenges that need to be resolved by the

yn gwneud ei anhwylder yn waeth, yn ogystal ag achosi anhawster difrifol i'w gymdogion, y gellid bod wedi'i osgoi.

Yn y diwedd, yr oedd yn rhaid inni fygwth yr awdurdod lleol—yr oedd hyn yn ystod fy nghyfnod fel Aelod rhanbarthol, felly, nid wyf yn enwi nac yn codi cywilydd ar unrhyw awdurdod penodol yma—gyda Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabled 2005. Hyd yn oed wedyn, yr oedd yn dadlau a oedd y Ddeddf yn berthnasol i bobl sydd ag awtistiaeth. Gyda chymorth ei deulu, a chydag ychydig gymorth gan fy swyddfa i, daeth o hyd i lety preifat ar osod yn y diwedd, a llwyddwyd i berswadio'r awdurdod lleol i dalu'r rhent yn y diwedd. Mae ei fywyd yn haws ei ddiodef erbyn hyn, mae bywydau ei gymdogion yn well o lawer, ac mae'n gallu gweithio o'i gartref.

Yr oedd canlyniadau cadarnhaol i'r ddwy stori hyn, ond mae arnaf ofn eu bod ymhell o fod yn nodweddiadol, fel y clywsom gan Jenny Randerson a Mark Isherwood. Ni allwn ganiatáu i'r sefyllfa hon barhau. Mae'r cynllun gweithredu ar anhwylder awtistiaeth yn cael ei groesawu—credaf mai dyma'r cyntaf o'i fath drwy'r byd i gyd, ac mae'n rhywbeth y gallwn fod yn falch ohono—ond mae angen i'r Llywodraeth sicrhau bod y cynllun yn cyflawni ei ofynion, ac yn cael ei addasu, os oes angen, i ddarparu ar gyfer oedolion. Rhaid i'r grŵp gorchwyl a gorffen wneud ei waith yn gyflym ac yn effeithiol, a rhaid i'r gwaith hwnnw arwain at gamau penodol, gydag amserlen, a fydd yn gwneud gwahaniaeth. Rhaid inni wneud i'r cynllun gweithredu hwn weithio i oedolion, yn ogystal â phlant, sydd ag awtistiaeth. O ganlyniad, yr wyf yn falch cefnogi'r cynnig, a chymeradwyaf ef i'r Cynulliad.

Jonathan Morgan: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'm cyd-Aelod, Mark Isherwood, am ei sylwadau wrth agor y ddatl hon. Mae hyn yn ymwneud ag edrych ar y ffordd yr ydym yn darparu ac yn gwella gwasanaethau i bobl sydd ag awtistiaeth, yn bobl ifanc ynteu'n oedolion. Yn aml iawn, bydd oedolion sydd â'r anhwylder hwn yn cael eu hanwybyddu.

Fodd bynnag, yr wyf am grwydro i drafod pobl ifanc hefyd, gan fod llawer her yn gysylltiedig â phobl ifanc y mae angen i

Assembly Government. Perhaps I could start with a couple of congratulations. It is always a risk when an opposition Member says that the Government has got something right, but, in the field of autism, there are a few things that the Government has got right. We should be grown up enough to admit that, in this particular area, a number of things have been done that are the first of their kind. One such example is the publication of the autism action plan. That is a first—we are the only nation of the United Kingdom that has such a plan. We should celebrate that, and perhaps trumpet it a bit more than we are at the moment, because I know that our colleagues in the autism organisations of Northern Ireland, Ireland, Scotland and England are jealous of Wales's autism action plan. Of course, it is one thing to have a plan, and another to ensure that we deliver it and improve services for people in Wales. Nevertheless, this is a first-class start, and we should celebrate that fact.

The Assembly Government, in partnership with Autism Cymru, will also be funding a professorial chair at Cardiff University. That is terrific for Cardiff, because the one area in which we are deficient, both in Wales and throughout the United Kingdom, is in research. When we visited the United States Congress last year, as part of the Celtic nations autism partnership, we were struck by the substantial amount of investment in, and focus on, research. Wales could do its own thing in research—we could learn from what is happening around the world, but we should certainly not shy away from doing research into autism, its background, and its causes, if they can be assessed, as well as the question of how we can provide services to people who live with autism. Therefore, I am delighted with those two developments.

I pay tribute to Hugh Morgan, the chief executive of Autism Cymru, which has been providing the strategic direction in partnership with the Assembly Government. We must pay tribute to this small organisation, because it has worked wonders in ensuring that autism is part of the

Lywodraeth y Cynulliad eu datrys. Efallai y gallwn ddechrau drwy longyfarch. Mae risg bob amser pan fydd Aelod o wrthblaid yn dweud bod y Llywodraeth wedi gwneud rhywbeth yn iawn, ond ym maes awtistiaeth mae'r Llywodraeth wedi gwneud rhai pethau'n iawn. Dylem fod yn ddigon aeddfed i gyfaddef fod llawer o gamau blaengar wedi'u cymryd yn y maes penodol hwn. Un enghraifft o'r fath yw cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar awtistiaeth. Cymru yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig sydd â chynllun o'r fath. Dylem ddathlu hynny, a thynnu ychydig mwy o sylw ato nag a wnawn ar hyn o bryd, oherwydd gwn fod ein cyfeillion yn sefydliadau awtistiaeth Gogledd Iwerddon, Iwerddon, yr Alban a Lloegr yn genfigennus o gynllun gweithredu Cymru ar awtistiaeth. Wrth gwrs, un peth yw cael cynllun, ond mater arall yw sicrhau ein bod yn ei weithredu ac yn gwella gwasanaethau i bobl yng Nghymru. Er hynny, mae hwn yn ddechreuad arbennig o dda, a dylem ddathlu'r ffaith honno.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth ag Awtistiaeth Cymru, hefyd yn ariannu cadair athro ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae hynny'n wych i Gaerdydd, oherwydd un maes yr ydym yn ddiffygiol ynddo, yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig, yw gwaith ymchwil. Pan ymwelsom â Chyngres yr Unol Daleithiau y llynedd, fel rhan o bartneriaeth awtistiaeth y gwledydd Celtaidd, yr hyn a'n trawodd oedd cymaint o sylw a oedd yn cael ei roi i waith ymchwil, a chymaint o arian a oedd yn cael ei fuddsoddi ynddo. Gallai Cymru ddilyn ei thrywydd ei hun ym maes ymchwil—gallem ddysgu o'r hyn sy'n digwydd mewn gwahanol rannau o'r byd, ond yn sicr ni ddylem ofni gwneud rhywfaint o ymchwil ar awtistiaeth, ei gefndir, a'r hyn sy'n ei achosi, os gellir asesu hynny, yn ogystal â sut i ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n byw gydag awtistiaeth. Felly, yr wyf yn falch iawn o'r ddau ddatblygiad hyn.

Hoffwn roi teyrnged i Hugh Morgan, prif weithredwr Awtistiaeth Cymru, sydd wedi bod yn darparu'r cyfeiriad strategol mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad. Rhaid inni roi teyrnged i'r sefydliad bach hwn, oherwydd mae wedi gwneud gwyrrthiau i sicrhau bod awtistiaeth yn cael ei ystyried

Assembly Government's thinking, in terms of producing a strategy and trying to improve services. Congratulations, too, for poaching Hugh, who I understand will shortly be on secondment with the Assembly Government.

4.10 p.m.

However, there are a number of challenges that we need to address. Autism is a complex disorder—that is why there is a spectrum. Therefore, our response in providing services to young people and to adults will also have to be rather complex in the way that we think about this. One of the key problems is trying to get local government to identify the range of services that it provides or commissions for young people and adults who live with autism. It is about getting local government to work better with a variety of agencies in providing those services. Very often, we think of local government purely in terms of providing services, but, more often than not, we need to ask local government to think about how it commissions services.

There is a tendency in Wales for local government to think in isolation. It does not like to work with the private sector. I have seen this in relation to the new facilities that have been opened at Tŷ Coryton in my constituency by Orbis Education Ltd, which is a private sector organisation providing a residential facility for young people with autism. This facility and that in Brecon are the only facilities available in Wales. Local government cannot do it, and the public sector does not do it. We need to get local government to work better with such organisations to ensure that young people with complex needs get access to the services that they require. It is about getting people to think in a different way to the way in which they have thought about such services in the past.

It is also about getting local government to think about ensuring that young people—particularly those with autism—and families can have their needs assessed. I have dealt with several cases where local government has not been too keen on reassessing the needs of children, in particular, because it

gan Lywodraeth y Cynulliad, o ran llunio strategaeth a cheisio gwella gwasanaethau. Llongyfarchiadau, hefyd, am fachu Hugh, a fydd, yn ôl a ddeallaf, yn dod i weithio ar secondiad i Lywodraeth y Cynulliad cyn hir.

Fodd bynnag, mae llawer her y mae angen inni roi sylw iddynt. Mae awtistiaeth yn anhwylder cymhleth—dyna pam y mae sbectrwm. Felly, bydd yn rhaid i'n hymateb wrth ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc ac i oedolion hefyd fod yn ddigon cymhleth yn y ffordd yr ydym yn meddwl am hyn. Un o'r problemau mwyaf yw ceisio cael llywodraeth leol i nodi'r ystod o wasanaethau y mae'n eu darparu neu'n eu comisiynu ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sy'n byw gydag awtistiaeth. Mae'n golygu cael llywodraeth leol i weithio'n well gyda gwahanol asiantaethau er mwyn darparu'r gwasanaethau hynny. Yn aml iawn, meddyliwn am lywodraeth leol o ran darparu gwasanaethau'n unig, ond yn amlach na pheidio mae angen inni ofyn i lywodraeth leol feddwl sut y mae'n comisiynu gwasanaethau.

Mae tuedd yng Nghymru i lywodraeth leol feddwl am bethau ar ei phen ei hun. Nid yw'n hoffi gweithio gyda'r sector preifat. Yr wyf wedi gweld hyn mewn perthynas â'r cyfleusterau newydd sydd wedi eu hagor yn Nhŷ Coryton yn fy etholaeth i gan Orbis Education Cyf, sefydliad sector preifat sy'n darparu llety i bobl ifanc sydd ag awtistiaeth. Y cyfleusterau hyn a'r rheini yn Aberhonddu yw'r unig gyfleusterau sydd ar gael yng Nghymru. Ni all llywodraeth leol wneud hyn, ac nid yw'r sector cyhoeddus yn gwneud hyn. Mae angen inni gael llywodraeth leol i weithio'n well gyda sefydliadau o'r fath er mwyn sicrhau bod pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn cael y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Mae'n golygu newid y ffordd y mae pobl wedi bod yn meddwl am wasanaethau o'r fath yn y gorffennol.

Mae hefyd yn golygu cael llywodraeth leol i feddwl am sicrhau bod pobl ifanc—yn enwedig y rhai sydd ag awtistiaeth—a theuluoedd yn gallu cael asesiad o'u hanghenion. Yr wyf wedi ymdrin â nifer o achosion lle nad yw llywodraeth leol wedi bod yn awyddus iawn i ailasesu anghenion

knows that, by reassessing their needs and by establishing that their needs are more complex than they were perhaps a year or two ago, it will find itself in a position of spending more money on that individual in the next few years. Financial considerations are enormous when it comes to local government assessing the needs of young people and adults. I think that we are heading in the right direction, but there is an enormous mountain to climb, not just for young people, but for adults as well. I commend what has happened so far, but we need to ensure that the finances are there, that there is better co-ordination of agencies, and that local government, in particular, understands its responsibilities.

Joyce Watson: First, I welcome the new strategy and congratulate the Assembly Government on producing a national cross-cutting framework for developing effective and appropriate services for the estimated 30,000 people affected by autism in Wales. I will be meeting the National Autistic Society next week to discuss its latest campaign, I Exist, which aims to raise awareness about services for adults with an autistic spectrum disorder. One of the main obstacles to service delivery in the past has been the lack of understanding about the disorder, especially about its range and nature, which has already been alluded to. Therefore, raising awareness is vital, to ensure that people get the support that is right for them. I understand that the Assembly has also worked alongside Autism Cymru to produce awareness-raising training resources. I hope that the new framework will drive this agenda forward.

One area of support to which I would like to draw attention is ASD within the criminal justice system. Incidents can occur when people with ASD behave in a way that is misunderstood or found threatening, and the lack of personal awareness that is often associated with ASD can mean that people find themselves in dangerous situations or being manipulated by others. I am sure that many Members will have attended events to

plant, yn fwyaf arbennig, gan ei bod yn gwybod, drwy ailasesu eu hanghenion a thrwy sefydlu bod eu hanghenion yn fwy cymhleth nag oeddent efallai flwyddyn neu ddwy yn ôl, y bydd yn ei chael ei hun mewn sefyllfa lle bydd yn gwario mwy o arian ar yr unigolyn hwnnw yn ystod y blynyddoedd i ddod. Mae ystyriaethau ariannol yn aruthrol wrth i lywodraeth leol asesu anghenion pobl ifanc ac oedolion. Credaf ein bod yn mynd i'r cyfeiriad iawn, ond mae mynydd enfawr i'w ddringo, yng nghyswllt pobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd. Yr wyf yn cymeradwyo'r hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn, ond mae angen inni sicrhau bod arian ar gael, bod asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn well, a bod llywodraeth leol, yn enwedig, yn deall ei chyfrifoldebau.

Joyce Watson: Yn gyntaf, yr wyf yn croesawu'r strategaeth newydd ac yn llongyfarch Llywodraeth y Cynulliad ar lunio fframwaith trawsbynciol cenedlaethol i ddatblygu gwasanaethau effeithiol a phriodol ar gyfer y 30,000 o bobl yr amcangyfrif bod awtistiaeth yn effeithio arnynt. Byddaf yn cyfarfod â Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yr wythnos nesaf i drafod ei hymgyrch ddiweddaraf, 'Rwy'n Bodoli', sy'n ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau i oedolion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig. Un o'r prif rwystrau rhag darparu gwasanaeth yn y gorffennol yw diffyg dealltwriaeth o'r anhwylder, yn enwedig ei ystod a'i natur, fel y cyfeiriwyd eisoes. Felly, mae'n hanfodol inni gynyddu ymwybyddiaeth, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth sy'n briodol iddynt. Deallaf fod y Cynulliad hefyd wedi gweithio gydag Awtistiaeth Cymru i gynhyrchu adnoddau hyfforddi gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth. Gobeithio y bydd y fframwaith newydd hwn yn symud yr agenda hon yn ei blaen.

Un enghraifft o gefnogaeth yr hoffwn dynnu sylw ati yw anhwylder sbectrwm awtistig yn y system cyfiawnder troseddol. Bydd ymddygiad pobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig weithiau'n cael ei gamdeall neu ei gymryd fel bygythiad, a gall y diffyg ymwybyddiaeth bersonol a gysylltir yn aml ag anhwylder sbectrwm awtistig olygu bod pobl yn cael eu hunain mewn sefyllfaoedd peryglus neu eu

support the launch of Autism Cymru's card for people with ASD, which helps to ensure that a person with ASD has access, if needed, to an appropriate adult or intermediary. This initiative is an excellent example of how raising awareness can directly improve service provision and better include ASD sufferers in Wales.

David Melding: The tone of the debate has been constructive. Like other speakers, I welcome the Government's initiative and its record in this area. I give it two cheers; I cannot quite give the third, because it has taken a long time to get this far. The original announcement was made in 2002, if I remember correctly. However, this is a new area, and we are beating a path for the rest of the world in many ways—I hope that that is not too grand a way of putting it.

In looking at the desirability of having a comprehensive strategy to tackle ASD in society, it is important, but the third cheer cannot be given until we see this viewed as something that is not just principally related to children's services. That is the current weakness. In fact, as we improve ASD services, the real difficulty will come in the adult sector, because children will generally have advocates in their parents, they will go through the school system where the lesser disorders, as it were, that have various symptoms but can still be debilitating, can be picked up by a range of professionals. However, there are many people in their 30s, 40s, 50s and 60s who have never received a formal diagnosis. These are people who are currently being supported by their, often elderly, parents. Many of us will have had, whether in relation to ASD or other conditions, elderly parents come to talk to us about the situation, and what they really want to talk about is what is going to happen when they die. It is a very difficult conversation, and something that I am sure has moved many of us.

defnyddio gan bobl eraill. Yr wyf yn siŵr fod nifer o'r Aelodau wedi bod mewn digwyddiadau i gefnogi lansio cerdyn Awtistiaeth Cymru i bobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig. Mae'r cerdyn yn helpu sicrhau bod rhywun sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig yn gallu cysylltu, os oes angen, ag oedolyn neu gyfryngwr priodol. Mae'r fenter hon yn enghraifft wych o'r ffordd y gall codi ymwybyddiaeth wella darparu gwasanaeth yn uniongyrchol a chynnwys pobl sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig yng Nghymru yn well.

David Melding: Mae naws y ddadl wedi bod yn adeiladol. Fel y siaradwyr eraill, yr wyf finnau'n croesawu menter y Llywodraeth a'i record yn y maes hwn. Rhof ddwy hwrê iddi; ni allaf roi'r drydedd yn iawn, oherwydd mae wedi cymryd amser hir i gyrraedd cyn belled â hyn. Gwnaethpwyd y cyhoeddiad gwreiddiol yn 2002, os cofiaf yn iawn. Fodd bynnag, mae hwn yn faes newydd, ac yr ydym yn torri llwybr i weddill y byd mewn llawer ffordd—gobeithio nad yw hynny'n ffordd rhy fawreddog o'i fynegi.

Wrth ystyried mor ddymunol yw cael strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael ag ASD mewn cymdeithas, mae'n bwysig, ond ni allwn roi'r drydedd hwrê nes inni weld hyn yn cael ei ystyried fel rhywbeth sydd a wnelo'n bennaf â gwasanaethau plant. Dyna'r gwendid ar hyn o bryd. Yn wir, wrth inni wella gwasanaethau ASD, yn y sector oedolion y mae'r anhawster gwirioneddol, oherwydd yn gyffredinol bydd gan blant eiriolwyr yn eu rhieni, byddant yn mynd drwy'r gyfundrefn ysgol lle gall amryw o weithwyr proffesiynol sylwi ar yr anhwylderau llai, fel petai, sydd â symptomau amrywiol ond sy'n dal i allu andwyo. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn eu 30au, 40au, 50au a 60au nad ydynt erioed wedi cael diagnosis ffurfiol. Mae'r rhain yn aml yn bobl sy'n cael cymorth gan eu rhieni, sydd, yn aml, yn oedrannus. Bydd nifer ohonom wedi cael y profiad, boed mewn perthynas ag ASD neu gyflyrau eraill, o rieni oedrannus yn dod i siarad â ni am y sefyllfa, a'r hyn y maent am siarad amdano mewn gwirionedd yw beth fydd yn digwydd ar ôl iddynt hwy farw. Mae'n sgwrs anodd iawn, ac yn rhywbeth yr wyf yn siŵr sydd wedi cyffwrdd â nifer ohonom.

When we look at the services that we need for adults, it is not really about throwing masses of money at this. It is actually much more difficult than that; it is about reshaping some of our public services and the way in which people think. Joyce Watson was correct in saying that adults with ASD are particularly vulnerable, and they can be in situations where they are at risk of physical harm. They can be awkward; you can be in a supermarket queue, and someone will try to push by or behave in a slightly odd way, and unless people are aware of why that might be occurring, they can be very intolerant of such behaviour.

Helen Mary gave an interesting example about a housing issue. I have a similar example. I am changing the details slightly so that the person involved cannot be identified. A tenancy broke down because the person with the ASD condition had lived in a fairly high block of flats with his parents previously, and he liked to look out at the view of the town and its rooftops. The authority, however, did not have that type of accommodation, and he was placed in a second-floor flat. This person's tenancy collapsed in the end, because he would wander around the town or a neighbouring town, going to the top of multi-storey car parks to look out at the view. He would be picked up by the police at 2 a.m.—all sorts of things were happening, just because a flat could not be found in a high-storey building for him. It is this inability to stretch out and use one's imagination about what a person may really need that is the issue. With that stability, I am sure that the general condition in that case would have been much better managed.

Another example is the 'I can't wait' card, which people with ASD sometimes carry, because of the anxiety, which Jonathan mentioned, that is triggered when what is normally a familiar situation, such as going to the supermarket or a GP's surgery, suddenly changes a bit. Again, it is about getting people who provide these public services to think in these terms. It is important that we raise the general awareness of the population.

Pan edrychwn ar y gwasanaethau y mae arnom eu hangen i oedolion, nid taflu llwythi o arian at hyn yw hanfod y mater. Mae'n llawer anos na hynny mewn gwirionedd; mae'n golygu ail-lunio rhai o'n gwasanaethau cyhoeddus a'r ffordd y mae pobl yn meddwl. Yr oedd Joyce Watson yn iawn i ddweud bod oedolion sydd ag ASD yn neilltuol o agored i niwed, a gallant fod mewn sefyllfaoedd lle mae perygl niwed corfforol. Gallant fod yn lletchwith; gallwch fod mewn ciw yn yr archfarchnad, a bydd rhywun yn ceisio gwthio i mewn neu'n ymddwyn mewn ffordd ychydig yn rhyfedd, ac oni bai fod pobl yn ymwybodol pam mae hynny'n digwydd, gallant fod yn anoddefgar iawn o'r fath ymddygiad.

Rhoddodd Helen Mary enghraifft ddiddorol am fater tai. Mae gennyf fi enghraifft debyg. Yr wyf am newid y manylion ryw ychydig fel na ellir adnabod y person dan sylw. Methodd tenantiaeth am fod y person oedd â'r cyflwr ASD wedi byw mewn bloc gweddol uchel o fflatiau gyda'i rieni cyn hynny, ac yn hoffi edrych allan ar yr olygfa o'r dref a'i thoeau. Fodd bynnag, nid oedd gan yr awdurdod y math hwnnw o lety, ac fe'i rhoddwyd mewn fflat ail lawr. Methodd tenantiaeth y person hwn yn y pen draw, oherwydd byddai'n crwydro o amgylch y dref neu dref gyfagos, yn mynd i dop meysydd parcio amrylawr i edrych ar yr olygfa. Byddai'r heddlu'n ei nôl am 2 a.m.—yr oedd pob mathau o bethau'n digwydd, am y rheswm syml na ellid cael fflat iddo mewn adeilad uchel. Yr anallu hwn i estyn allan a defnyddio'r dychymyg ynglŷn â'r hyn y mae ei wir angen efallai ar berson yw'r broblem Gyda'r sefydlogrwydd hwnnw, yr wyf yn siŵr y byddai'r cyflwr cyffredinol wedi ei reoli lawer yn well yn yr achos hwnnw.

Enghraifft arall yw'r cerdyn 'Alla i ddim aros' y bydd pobl ag ASD yn ei gario weithiau, oherwydd y pryder, fel y soniodd Jonathan, sy'n cael ei achosi weithiau pan fydd yr hyn sydd fel rheol yn sefyllfa gyfarwydd, fel mynd i'r archfarchnad neu i'r feddygfa, yn sydyn yn newid fymryn. Eto, y broblem yw cael y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau cyhoeddus hyn i feddwl fel hynny. Mae'n bwysig inni gynyddu

ymwybyddiaeth gyffredinol y boblogaeth.

In conclusion, we are told by those who estimate the figures that there are many more people with ASD conditions in society now. I think that it is just that we are just diagnosing more. I am sure that, 30 or 40 years ago, people with ASD were just thought of as odd, and no-one thought there was an underlying condition. Modernity, however, despite some of the hysterical stories we read in the press, brings immense gifts as we understand our physical situation and the world and the phenomena around us. There is a great opportunity now to provide a much more caring and supportive environment for people with ASD.

4.20 p.m.

Lesley Griffiths: First, I wish to echo what has been said by every party in the Chamber today and by the National Autistic Society in congratulating the Government on the launch of the autistic spectrum disorder action plan. As other Members have said, Wales is the first country to devise a national strategic action plan for ASD, and we should all be very proud of that.

As we are all aware, the purpose of the plan is to set out a structured and systematic approach to developing services and support from providers, including local authorities, social services and the Welsh NHS. The fact that a task and finish group is being established to identify specific issues that adults face and that Hugh Morgan of Autism Cymru will play such an important role in taking this forward will also be welcomed.

I am particularly pleased to see that the plan includes commissioning research into the prevalence of autistic spectrum disorders among older people and to evaluate their needs. This is a very important step for the Government to take as it rules out numerical assumptions about the number of older people in Wales who are affected by ASD. It is probable that the role that local authorities will be asked to play will be crucial in delivering the strategy. Asking local

I gloi, dywedir wrthym gan y rheini sy'n amcangyfrif y ffigurau fod llawer mwy o bobl mewn cymdeithas erbyn hyn sydd â chyflyrau ASD. Credaf mai'r gwir yw ein bod yn darganfod mwy. Yr wyf yn siŵr, 30 neu 40 mlynedd yn ôl, fod pobl ag ASD yn cael eu hystyried ychydig yn od, ac nad oedd neb yn meddwl bod ganddynt gyflwr gwaelodol. Mae moderniaeth, fodd bynnag, er gwaethaf rhai o'r storïau hysterig a welwn yn y wasg, yn dod â manteision aruthrol wrth inni ddeall ein sefyllfa gorfforol a'r byd a'r ffenomenâu o'n cwmpas. Mae cyfle gwych yn awr i ddarparu amgylchedd llawer mwy gofalgaf a chefnogol i bobl sydd ag ASD.

Lesley Griffiths: Yn gyntaf, hoffwn adleisio'r hyn sydd wedi ei ddweud gan bob plaid yn y Siambr heddiw a chan y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth wrth longyfarch y Llywodraeth ar lansio'r cynllun gweithredu ar anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Fel y mae Aelodau eraill wedi ei ddweud, Cymru yw'r wlad gyntaf i ddyfeisio cynllun gweithredu strategol cenedlaethol ar gyfer ASD, a dylem i gyd fod yn falch iawn o hynny.

Fel y gwyddom bob un, pwrpas y cynllun yw cyflwyno ffordd strwythuredig a systematig o ddatblygu gwasanaethau a chymorth gan ddarparwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau lleol a GIG Cymru. Bydd croeso hefyd i'r ffaith fod grŵp gorchwyl a gorffenn yn cael ei sefydlu i nodi materion penodol sy'n wynebu oedolion, ac y bydd Hugh Morgan o Awtistiaeth Cymru yn chwarae rhan mor bwysig wrth symud hyn ymlaen.

Yr wyf yn arbennig o falch gweld bod y cynllun yn cynnwys comisiynu ymchwil i weld pa mor gyffredin yw anhwylderau sbectrwm awtistig ymysg pobl hŷn ac i werthuso'u hanghenion. Mae hwn yn gam pwysig iawn i'r Llywodraeth ei gymryd gan ei fod yn ymwrthod â rhagdybiaethau ynglŷn â nifer y bobl hŷn yng Nghymru y mae ASD yn effeithio arnynt. Mae'n debygol y bydd y rôl y gofynnir i awdurdodau lleol ei chyflawni yn dyngedfennol wrth roi'r

authorities to ensure that their respective local health, social care and wellbeing strategies include an overview when it comes to the commissioning of services for adults with ASD again demonstrates the commitment of the Government to addressing this issue.

Add to that the requirement on local authorities to put in place arrangements to commission the regional provision of diagnostic and treatment services and to identify their own autism champion to look at local service needs, including those of adults, and we begin to realise that ASD will be well and truly on the radar of local service providers. This is a huge step forward.

The Government is providing improved co-ordination between the various local services that deal with adults with autism, including healthcare, social services, mental health services and housing. As far as adults with autism are concerned, they, their families and their carers are now involved and central to determining needs. The Welsh Assembly Government is providing financial support to Autism Cymru to help it to develop the work it undertakes to support adults with autism. The whole culture of how Wales, as a nation, addresses the needs of people with autism is changing and must continue to change, develop and become more responsive. As I said at the beginning, we can all be rightly proud of this plan.

Nick Ramsay: I concur with the sentiments expressed by Lesley Griffiths and other Members who have spoken this afternoon. There is a good deal of consensus on this important issue, and I am pleased that the Welsh Conservative group has brought forward this debate. Autism is not a new condition, but, for whatever reason, it is on the increase. That is why I welcome the publication of the action plan. It is certainly an innovation, a first in the UK, and it has a great deal of potential to help people suffering from this condition.

strategaeth ar waith. Mae gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod eu strategaethau lleol ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cynnwys trosolwg pan ddaw'n fater o gomisiynu gwasanaethau i oedolion sydd ag ASD eto'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Ychwanegwch at hynny y gofyniad ar awdurdodau lleol i sefydlu trefniadau i gomisiynu darpariaeth gwasanaethau diagnostig a thrin yn rhanbarthol ac i ddynodi eu hyrwyddwr awtistiaeth eu hunain i edrych ar anghenion gwasanaeth lleol, gan gynnwys anghenion oedolion, a byddwn yn dechrau sylweddoli y bydd ASD yn wir ar radar darparwyr gwasanaethau lleol. Mae hyn yn gam enfawr ymlaen.

Mae'r Llywodraeth yn darparu gwell cyd-drefnu rhwng y gwahanol wasanaethau lleol sy'n delio ag oedolion ag awtistiaeth, gann gynnwys gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl a thai. Cyn belled ag y mae oedolion ag awtistiaeth yn bod, maent hwy, eu teuluoedd a'u gofawr yn cael eu cynnwys erbyn hyn ac y maent yn ganolog wrth benderfynu anghenion. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth ariannol i Awtistiaeth Cymru i'w helpu i ddatblygu'r gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi oedolion sydd ag awtistiaeth. Mae holl ddiwylliant y ffordd y mae Cymru, fel cenedl, yn ymdrin ag anghenion pobl ag awtistiaeth yn newid, a rhaid iddo barhau i newid, datblygu a dod yn fwy abl i ymateb. Fel y dywedais ar y dechrau, gallwn i gyd fod yn haeddiannol falch o'r cynllun hwn.

Nick Ramsay: Cytunaf â'r teimladau a fynegwyd gan Lesley Griffiths ac Aelodau eraill sydd wedi siarad y prynhawn yma. Mae llawer iawn o gytundeb ar y mater pwysig hwn, ac yr wyf yn falch fod grŵp Ceidwadwyr Cymru wedi dod â'r ddadl hon gerbron. Nid yw awtistiaeth yn gyflwr newydd, ond am ba reswm bynnag mae ar gynydd. Dyna pam yr wyf yn croesawu cyhoeddi'r cynllun gweithredu. Mae'n sicr yn beth newydd, y cyntaf o'i fath yn y DU, ac mae wedi rhoi llawer iawn o botensial inni i helpu pobl sy'n dioddef gan y cyflwr hwn.

Many of the previous speakers have outlined the statistics on the number of people suffering from autism in Wales. I will just run through them again, because they are staggering. Approximately 18,000 adults in Wales at the moment are known to be autistic. According to the National Autistic Society, 63 per cent of adults with autism encountered difficulties when attempting to access help and support. In part, this is due to the fact that, too often, adults with autism find themselves pushed from pillar to post by administrators whose lack of knowledge regarding the condition often renders them unsure as to whether to classify the individual in front of them as needing mental health services or learning disability services. Often, these people fall into a grey area, and I hope that this action plan will make the way ahead much clearer.

The real tragedy is that a significant number of adults suffering from autism receive no support whatsoever. The most recent statistics suggest that approximately 36 per cent of adults with the condition fall into this category. Several Members mentioned local authorities, which clearly do not have the necessary infrastructure in place to deal with the problem.

The plan has been welcomed by many of my constituents, many of whom who have been involved in fighting for a plan and progressing it to this stage, and it has the potential to be a very successful plan. However, the question of what funding will be available to allow for identifying where people suffering from autism are will be a key factor. I understand that, in England, a sum of money is being made available for that. If the action plan is to be as successful as we want it to be, it is clear that, in Wales, we need some kind of plan to allow for that identification, and I would be grateful to hear from the Minister what she has to say about the funding of that aspect of the plan.

This is an innovation, as my colleague Jonathan Morgan has said, and we can be proud of it. I hope that other areas of the UK will follow suit. We can also learn from what has been done across the border, as I have

Mae nifer o'r siaradwyr blaenorol wedi amlinellu'r ystadegau am nifer y bobl sy'n dioddef gan awtistiaeth yng Nghymru. Yr wyf am fynd drostynt eto, oherwydd maent yn rhyfeddol. Gwyddom ar hyn o bryd fod 18,000 yn fras o oedolion yng Nghymru yn awtistig. Yn ôl y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, yr oedd 63 y cant o oedolion sydd ag awtistiaeth yn cael wrth geisio cael cymorth a chefnogaeth. Yn rhannol, mae hyn i'w briodoli i'r ffaith fod pobl sydd ag awtistiaeth, yn rhy aml, yn cael eu gwthio o bared i bost gan weinyddwyr sydd â'u diffyg gwybodaeth am y cyflwr yn aml yn eu gwneud yn ansicr pa un i bennu bod yr unigolyn sydd o'u blaen yn berson y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl arno ynteu wasanaethau anabledd dysgu. Yn aml, mae'r bobl hyn yn disgyn rhwng dwy stôl, a gobeithio y bydd y cynllun gweithredu hwn yn gwneud y ffordd ymlaen lawer yn gliriach.

Y gwir drasiedi yw bod nifer sylweddol o oedolion sy'n dioddef o awtistiaeth yn methu cael dim cefnogaeth o gwbl. Mae'r ystadegau diweddaraf yn awgrymu bod tua 36 y cant o oedolion sydd â'r cyflwr yn y categori hwn. Soniodd amryw o Aelodau am awdurdodau lleol, nad yw'r seilwaith angenrheidiol ganddynt yn ei le yn amlwg i ddelio â'r broblem.

Mae'r cynllun wedi cael ei groesawu gan lawer o'm hetholwyr, nifer ohonynt wedi bod wrthi'n ymladd am gynllun a'i symud ymlaen i'r cam hwn, ac mae iddo'r potensial i fod yn gynllun llwyddiannus iawn. Fodd bynnag, bydd y cwestiwn pa gyllid a fydd ar gael i ganiatau nodi ymhle mae'r bobl sy'n dioddef gan awtistiaeth yn ffactor allweddol. Yn Lloegr, deallaf fod swm o arian yn cael ei ddarparu ar gyfer hynny. Os yw'r cynllun gweithredu i fod mor llwyddiannus ag yr ydym am iddo fod, mae'n amlwg bod arnom ni, yng Nghymru, angen rhyw fath o gynllun i ganiatau nodi'r bobl hynny, a byddwn yn ddiolchgar clywed gan y Gweinidog yr hyn sydd ganddi i'w ddweud am gyllido'r agwedd honno o'r cynllun.

Mae hwn yn beth newydd, fel y dywedodd fy nghyd-Aelod Jonathan Morgan, a gallwn fod yn falch ohono. Gobeithio y bydd ardaloedd eraill yn y DU yn dilyn ein hesiampl. Gallwn ddysgu hefyd o'r hyn a wnaethpwyd dros y

already mentioned in relation to funding, just as England can learn from what is happening here. There is great potential to help people suffering from autistic spectrum disorder to lead as normal a life as possible, and this plan is a key part of that.

I support the motion, and I am grateful to my colleagues for what they have said and for bringing this forward. Let us move forward on this, let us give the individuals who are suffering from ASD the respect that they deserve, and ensure that they have support and can lead as normal a life as possible.

Bethan Jenkins: I have a few points. I also congratulate the Government on this strategic action plan. The only concern that has been expressed to me by experts is that the strategic action plan does not make a connection between child poverty and autism. Many of the experts have asked me to raise the issue that provision should be made for families with autistic children to be encouraged to get financial advice and support in relation to benefit take-up. There have been numerous reports over the last few years showing how having children with autism has affected families and their capacity to afford certain services. This is supported by the Shirley Foundation, which says that autism costs families £28 billion a year. I urge the Government to look at this again to see how we can incorporate autism into the child poverty remit.

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas): Yr wyf yn falch fod fy nghyfeillion yn y Blaid Geidwadol wedi croesawu 'Cynllun Gweithredu Cymru Ar Gyfer Anhwyllderau'r Sbectrwm Awtistig' a lansiais ar 22 Ebrill yng nghynhadledd awtistiaeth rhyngwladol Awtistiaeth Cymru. Yr wyf yn hapus i gefnogi'r cynnig.

Yr wyf yn cydnabod y sylwadau positif a wnaed gan Mark Isherwood ar y dechrau. Yr wyf wedi nodi ei sylwadau ynghylch yr anawsterau sy'n wynebu oedolion ag awtistiaeth. Mae nifer o oedolion ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn teimlo'n

ffin, fel yr wyf wedi'i grybwyll eisoes mewn perthynas â chyllido, yn union fel y gall Lloegr ddysgu o'r hyn sy'n digwydd yma. Mae potensial mawr i helpu pobl sy'n dioddef gan anhwylder sbectrwm awtistig i fyw bywyd mor normal â phosibl, ac mae'r cynllun hwn yn rhan allweddol o hynny.

Cefnogaf y cynnig, ac yr wyf yn ddiolchgar i'm cyd-Aelodau am yr hyn y maent wedi'i ddweud ac am ddod â hyn gerbron. Gadewch inni symud ymlaen ar hyn, gadewch inni roi i'r unigolion sy'n dioddef gan ASD y parch y maent yn ei haeddu, a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth ac yn gallu byw bywyd mor normal â phosibl.

Bethan Jenkins: Mae gennyf ychydig bwyntiau. Yr wyf fi hefyd yn llongyfarch y Llywodraeth ar y cynllun gweithredu strategol hwn. Yr unig bryder sydd wedi ei fynegi wrthyf gan arbenigwyr yw nad yw'r cynllun gweithredu strategol yn gwneud cysylltiad rhwng tlodi plant ac awtistiaeth. Mae llawer o'r arbenigwyr wedi gofyn imi godi'r mater y dylid darparu i deuluoedd sydd â phlant awtistig gael eu hannog i gael cyngor ariannol a chymorth i fanteisio ar fudd-daliadau. Bu nifer o adroddiadau dros y blynyddoedd diwethaf sy'n dangos sut y mae cael plant sydd ag awtistiaeth wedi effeithio ar deuluoedd a'u gallu i fforddio rhai gwasanaethau. Cefnogir hyn gan Sefydliad Shirley, sy'n dweud bod awtistiaeth yn costio £28 biliwn y flwyddyn i deuluoedd. Anogaf y Llywodraeth i edrych eto ar hyn i weld sut y gallwn ymgorffori awtistiaeth yn y cylch gwaith ar dlodi plant.

The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas): I am pleased that my colleagues in the Conservative Party have welcomed 'The Autistic Spectrum Disorder (ASD) Strategic Action Plan for Wales', which I launched on 22 April in Autism Cymru's international conference on autism. I am pleased to support the motion.

I acknowledge the positive comments that were made by Mark Isherwood at the outset. I have noted his remarks about the difficulties that face adults with autism. Many adults who have autistic spectrum disorder feel isolated and that they are being neglected.

ynysig ac yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu. Dyma un o'r materion a nodwyd yn adroddiad Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, 'Rwy'n Bodoli'. Bûm yn y lansiad yn y Senedd ym mis Chwefror a chlywais straeon teimladwy gan unigolion am eu profiadau. Yr ydym wedi clywed straeon tebyg y prynhawn yma gan Helen Mary.

There is no single tool for diagnosing ASD in adults, and that point was ably made by Lesley Griffiths. As a consequence, there is no reliable information on the actual number of adults with ASD in Wales—another point made and repeated this afternoon—or their needs, or any comprehensive service provision. As is evident from the Department of Health's announcement last week, the situation is the same in England. There are pockets of good practice in delivering services to adults with ASD across Wales, but little evidence about what interventions are effective. I wish to mention initiatives such as Ysgol Plas Bron Dyffryn in north Wales, which is funded by the Welsh Assembly Government, and units such as Ashgrove School in Penarth and Longford Court unit in my constituency.

The strategic action plan therefore sets out a structured and systematic approach to developing appropriate and effective service and support responses from local authorities and the national health service. Bethan, I take your point about the need for a link with child poverty, and perhaps we will be able to raise that when we introduce the strategy for vulnerable children.

4.30 p.m.

The first key steps in the strategic action plan, which apply equally to adult services, are for local commissioners to undertake the mapping of prevalence, identifying and recording clients with autistic spectrum disorders, and specifically, Jonathan, with Asperger's syndrome, within their existing client population; the mapping of services; and estimating current and future demand for services. Jenny and Nick also referred to the extent of the problem. Authorities have been asked to ensure that their local health, social

That was one issue which was raised in the National Autistic Society's report, 'I Exist'. I attended its launch in the Senedd in February, and I heard some poignant stories from the individuals concerned about their experiences. We have heard similar stories from Helen Mary this afternoon.

Nid oes un arf unigol i adnabod ASD mewn oedolion, a gwnaed y pwynt hwnnw'n fedrus gan Lesley Griffiths. O ganlyniad, nid oes gwybodaeth ddibynadwy am nifer gwirioneddol yr oedolion sydd ag ASD yng Nghymru—pwynt arall a wnaethpwyd ac a ailadroddwyd y prynhawn yma—na'u hanghenion, nac unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth gynhwysfawr. Fel sy'n amlwg o gyhoeddiad yr Adran Iechyd yr wythnos diwethaf, yr un yw'r sefyllfa yn Lloegr. Mae pocedi o arferion da wrth ddarparu gwasanaethau i oedolion ag ASD ar draws Cymru, ond nid oes fawr o dystiolaeth pa ymyriadau sy'n effeithiol. Hoffwn sôn am gynlluniau fel Ysgol Plas Bron Dyffryn yn y gogledd, sy'n cael ei chyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac unedau fel Ysgol Ashgrove ym Mhenarth ac uned Longford yn f'etholaeth i.

Mae'r cynllun gweithredu strategol felly yn gosod allan ffordd strwythuredig a systematig i ddatblygu ymatebion gwasanaeth a chymorth priodol ac effeithiol gan awdurdodau lleol a'r gwasanaeth iechyd gwladol. Bethan, derbyniaf eich pwynt fod angen cysylltu hyn â thlodi plant, ac efallai y gallwn godi hynny wrth gyflwyno'r strategaeth ar gyfer plant sy'n agored i niwed.

Y camau allweddol cyntaf yn y cynllun gweithredu strategol, sydd yr un mor berthnasol i wasanaethau oedolion, yw i gomisiynwyr lleol fynd ati i fapio pa mor gyffredin yw'r cyflwr, gan nodi a chofnodi cleientiaid sydd ag anhwylderau'r sbectrum awtistig, ac yn benodol, Jonathan, syndrom Asperger, yn eu poblogaeth bresennol o gleientiaid; mapio gwasanaethau; ac amcangyfrif y galw'n awr ac yn y dyfodol am wasanaethau. Cyfeiriodd Jenny a Nick hefyd at faint y broblem. Mae awdurdodau wedi

care and wellbeing strategies, to be completed in 2008, include an overview of the commissioning of services for adults with ASD over the lifetime of the plans, and that individual agencies' operational plans, including those in the fields of health, social services, leisure services and housing, which was mentioned by Helen Mary, support the commissioning, development and delivery of the range of services required. They have also been asked to develop arrangements to commission the regional provision of diagnostic and treatment services to bring together the appropriate specialisms. That would include adult psychiatry and learning disability.

The strategic action plan's comprehensive proposals for ASD awareness raising and the development of training materials recognise that this is not just a matter for health and social services. Other professionals in, for example, job centres, career offices, employment training agencies and colleges will also be embraced. To support these actions, we intend to establish a task and finish group to identify specific issues that adults face, and to investigate, evaluate and report on the evidence for effective interventions and models of service. The membership of this task and finish group is not yet determined, but it needs to be small and have the required expertise to fulfil its tasks. Hugh Morgan, our ASD implementation support manager, will be considering how to take this forward. In moving down this path, it is better to get the outcomes right rather than rush into developing service solutions or models that are not evidence based, and, therefore, are ineffective or inappropriate. We will also commission research into the prevalence of ASD in older people and their needs. One of the key actions in the strategic action plan is the identification of an autism champion by each local authority, who will be tasked with mapping out needs and services at a local level. Jenny and Joyce Watson made the point about the need to listen to people with autism, and the champion would be expected to do that. This will apply equally to adult services.

cael cais i sicrhau bod eu strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol, sydd i'w cwblhau yn 2008, yn cynnwys trosolwg o gomisiynu gwasanaethau i oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn ystod cyfnod y cynlluniau, a bod cynlluniau gweithredol asiantaethau unigol, gan gynnwys y rheini ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau hamdden a thai, a grybwyllwyd gan Helen Mary yn cefnogi comisiynu, datblygu a darparu'r amrywiaeth gwasanaethau angenrheidiol. Gofynnwyd iddynt hefyd ddatblygu trefniadau i gomisiynu darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaeth yn rhanbarthol i ddod â'r arbenigeddau priodol at ei gilydd. Byddai hynny'n cynnwys seiciatreg oedolion ac anabledau dysgu.

Mae cynigion cynhwysfawr y cynllun gweithredu strategol ar gyfer cynyddu ymwybyddiaeth o anhwylderau'r sbectrwm awtistig a datblygu deunyddiau hyfforddi yn cydnabod nad mater i wasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn unig yw hyn. Cynhwysir pobl broffesiynol eraill, er enghraifft, mewn canolfannau gwaith, swyddfeydd gyrfaedd, asiantaethau hyfforddiant cyflogaeth a cholegau hefyd. I ategu'r camau hyn, bwriadwn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i nodi materion penodol sy'n wynebu oedolion, ac i ymchwilio, gwerthuso ac adrodd am y dystiolaeth o blaid modelau gwasanaeth ac ymyriadau effeithiol. Nid yw aelodaeth y grŵp gorchwyl a gorffen hwn wedi'i phenderfynu eto, ond mae angen iddo fod yn fychan a chael yr arbenigedd gofynnol i gyflawni ei orchwylion. Bydd Hugh Morgan, ein rheolwr cefnogi gweithredu ar anhwylderau'r sbectrwm awtistig, yn ystyried sut i fynd â hyn yn ei flaen. Wrth symud i lawr y llwybr hwn, mae'n well cael y canlyniadau'n iawn na rhuthro i ddatblygu gwasanaethau neu fodelau sydd heb eu seilio ar dystiolaeth, ac sydd, felly, yn aneffeithiol neu'n amhriodol. Byddwn yn comisiynu ymchwil hefyd i weld pa mor gyffredin yw anhwylderau'r sbectrwm awtistig mewn pobl hŷn a beth yw eu hanghenion. Un o'r camau gweithredu allweddol yn y cynllun gweithredu strategol yw i bob awdurdod lleol enwi eiriolwr awtistiaeth, a gaiff y dasg o fapio anghenion a gwasanaethau ar lefel leol. Gwnaeth Jenny a Joyce Watson y pwynt fod angen gwranddo

ar bobl sydd ag awtistiaeth, a byddai disgwyl i'r eiriolwr wneud hynny. Bydd hyn lawn mor wir am wasanaethau oedolion.

We have committed funding of £1.8m to support these early actions, and that is in addition to the recurrent sum of £1.7 million that has been allocated in the revenue support grant since last year to support children with ASD.

Yr ydym wedi ymrwymo cyllid o £1.8m i gefnogi'r camau cynnar hyn, a hynny ar ben y swm rheolaidd o £1.7 miliwn sydd wedi'i glustnodi yn y grant cynnal refeniw ers y llynedd i gefnogi plant sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

The appointment of an implementation support manager, with the expertise of Hugh Morgan, to drive forward the first important key actions, will play an integral part in the success of the strategic action plan. Hugh Morgan will liaise with the local authority champions and draw together the delivery of the strategic action plan. He will be working closely with stakeholders. A letter to local authorities outlining the implementation support manager's role, the need to identify a champion within each local authority, the allocation of the funding and the timelines for mapping needs and existing services, will issue shortly.

Bydd penodi rheolwr cefnogi gweithredu, gydag arbenigedd Hugh Morgan, i yrru'r camau allweddol pwysig cyntaf yn eu blaen, yn cyfrannu'n hanfodol at lwyddiant y cynllun gweithredu strategol. Bydd Hugh Morgan yn cysylltu ag eiriolwyr yr awdurdodau lleol ac yn cydlynu darparu'r cynllun gweithredu strategol. Bydd yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid. Cyhoeddir llythyr cyn hir i awdurdodau lleol yn amlinellu rôl y rheolwr cefnogi gweithredu, yr angen i enwi eiriolwr ym mhob awdurdod lleol, dyrannu'r cyllid a'r llinellau amser ar gyfer mapio anghenion a gwasanaethau sy'n bodoli.

The strategic action plan is groundbreaking and innovative and is, to my knowledge, the first of its kind in the world. I thank Jonathan for his contribution and positive remarks. This is an all-agency plan and includes the agencies that I have already mentioned, along with the voluntary and private sectors. I know that this is a first for the UK, and our colleagues in England, Scotland and Ireland are looking to us to act as pioneers in this respect. I am confident that the measures outlined within the strategic action plan clearly demonstrate the Welsh Assembly Government's commitment to ensuring that a fair and equitable service is provided to all individuals with ASD, their families and carers.

Mae'r cynllun gweithredu strategol yn torri tir newydd ac yn arloesol, a dyma'r cyntaf o'i fath yn y byd, hyd y gwn i. Diolch i Jonathan am ei gyfraniad a'i sylwadau cadarnhaol. Mae hwn yn gynllun rhwng yr holl asiantaethau ac mae'n cynnwys yr asiantaethau yr wyf wedi'u crybwyll eisoes, ynghyd â'r sectorau gwirfoddol a phreifat. Gwn mai dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yn y Deyrnas Unedig, ac mae ein cyfeillion yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon yn troi atom ni i arwain y ffordd yn hyn. Yr wyf yn hyderus bod y mesurau a amlinellir yn y cynllun gweithredu strategol yn dangos yn eglur ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau darperu gwasanaeth teg a chyfiawn i bob unigolyn sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

I look forward to raising that third cheer from David Melding. However, I cannot support the two amendments raised by Kirsty Williams.

Edrychaf ymlaen at godi'r trydydd hwrê hwnnw gan David Melding. Fodd bynnag, ni allaf gefnogi'r ddau welliant a gynigiwyd gan Kirsty Williams.

William Graham: It is a privilege to try to sum up in this debate, which, as I think all Members would agree, has been mature and

William Graham: Mae'n ffrainc ceisio crynhoi yn y ddadl hon sydd, fel y credaf y cytunai pob Aelod, wedi bod yn aeddfed ac

reflects our compassion, I suppose, for those less fortunate members of society whom the Assembly is, frankly, charged with helping and whose future we are charged with making as good as our own.

Mark introduced the debate by making specific reference to the action plan and, particularly, to I Exist. We welcome the task and finish group and he pointed out how necessary it is for the co-ordinating groups to get to grips with the adult issues. I was surprised by the enormous width of Asperger's spectrum. It may be difficult to accept until you meet people who suffer from various aspects of the syndrome.

Mark particularly remarked on the disparity of service provision across Wales. I know, from the Deputy Minister's remarks just now, that there is a definite intention to try to spread those pockets of good practice that she referred to right across Wales.

Jenny referred to the complexity and to the fact that people who suffer from this problem are abnormally subject to mental health problems, for reasons that have been discussed. All Members will be disappointed to hear, but not surprised perhaps, that the suicide rate is high among this particular group.

Helen Mary gave a description of an individual and noted the importance of early diagnosis and of particular problems being identified at the earliest possible opportunity, and noted that early intervention was often the key to a successful outcome.

Jonathan gave us a good picture of the challenge for young people and of how relevant the autism plan in Wales is for so many people's future. The recruitment of the professional chair in Cardiff University is something of a remarkable occurrence in Wales as, until relatively recently, this has been an almost untutored part of our research programmes.

A variety of agencies in local government were mentioned, and Members emphasised how necessary partnership is. Jonathan made particular reference to Orbis and the

sy'n adlewyrchu ein tosturi, mae'n debyg gennyf, tuag at aelodau llai ffodus cymdeithas y mae gan y Cynulliad, a dweud y gwir, ddyletswydd i'w helpu a dyletswydd i geisio sicrhau y bydd eu dyfodol cystal â'n dyfodol ni.

Cyflwynodd Mark y ddatl drwy gyfeirio'n benodol at y cynllun gweithredu, ac yn arbennig at Rwy'n Bodoli. Croesawn y grŵp gorchwyl a gorffen, a dangosodd Mark mor angenrheidiol ydyw i'r grwpiau cydgysylltu fynd i'r afael â phroblemau oedolion. Yr oeddwn yn synnu mor eithriadol o lydan yw sbectwm Asperger. Gall fod yn anodd ei dderbyn nes i chi gwrdd â phobl sy'n dioddef o wahanol agweddau ar y syndrom.

Cyfeiriodd Mark yn benodol at y gwahaniaeth mewn darpariaeth gwasanaethau ar draws Cymru. Gwn, o sylwadau'r Dirprwy Weinidog gynnu, fod bwriad pendant i geisio lledaenu'r pocedi hynny o arfer da y cyfeiriodd atynt ar draws Cymru gyfan.

Cyfeiriodd Jenny at y cymhlethdod ac at y ffaith fod pobl sy'n dioddef gan y broblem hon yn abnormal o dueddol o gael problemau iechyd meddwl, am resymau sydd wedi'u trafod. Bydd yr Aelodau i gyd yn siomedig clywed, ond nid yn synnu efallai, fod y gyfradd hunanladdiad yn uchel ymysg y grŵp arbennig hwn.

Rhoddodd Helen Mary ddisgrifiad o unigolyn a nododd bwysigrwydd diagnosis cynnar a darganfod problemau penodol ar y cyfle cyntaf posibl, a dywedodd mai ymyriad cynnar oedd yr allwedd yn aml i ganlyniad llwyddiannus.

Rhoddodd Jonathan ddarlun da inni o'r her i bobl ifanc ac o berthnasedd y cynllun awtistiaeth yng Nghymru i ddyfodol cynifer o bobl. Mae recriwtio i'r gadair broffesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddigwyddiad digon rhyfeddol yng Nghymru, oherwydd tan yn gymharol ddiweddar y mae hon wedi bod yn rhan o'n rhaglenni ymchwil a oedd fwy neu lai heb diwtor.

Soniwyd am amrywiaeth o asiantaethau mewn llywodraeth leol, a phwysleisiodd Aelodau mor angenrheidiol yw partneriaeth. Cyfeiriodd Jonathan yn arbennig at Orbis a'r

community at Tŷ Coryton, which is a modern and innovative facility. It is necessary for partnerships to develop to take full advantage of that excellent facility.

Joyce made us aware of the range of complexity and necessity, which the Welsh Assembly Government—to be fair—has tried to address in recent years.

David Melding gave us a fairly personal reflection on what happened to a particular constituent of his. Anyone who has had any particular contact with people who have autism will know how important it is for them to have regularity in their lives and that when they depart from routine, the anxieties develop. When David was speaking, I could not help but reflect that it is difficult to identify the particular problems of a sufferer. A good example of a supermarket was given, in that if someone was in a wheelchair or had a stick, or even glasses or a hearing aid, you would offer them help. Therefore, greater awareness is particularly necessary. Recognition and a lack of formal diagnosis is clearly a worry for the past.

Lesley gave us a view on how important it was for local authorities, who are crucial to this, to commission services; the necessity of adequate financial support; and the need to be far more responsive.

Nick Ramsay reminded us of the statistics involved and the innovation of recent years. Bethan Jenkins made an important point on how, although child poverty is clearly not a contributor to autism, families with a member or members who suffer from autism can often be those who have difficulty in managing financial affairs.

We did not refer much to the statementing of children, but that has been much discussed in previous education committees. The Deputy Minister told us that she is well aware of how people with ASD can feel isolated and ignored and how necessary it is to have reliable information. She reminded us of Ysgol Plas Brondyffryn. Again, I pay tribute to the previous education Minister who,

gymuned yn Nhŷ Coryton, sy'n gyfleuster modern ac arloesol. Mae angen i bartneriaethau ddatblygu i fanteisio'n llawn ar y cyfleuster rhagorol hwnnw.

Hysbysodd Joyce ni am yr amrediad cymhlethdod ac angen, ac y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru—a bod yn deg—wedi ceisio rhoi sylw iddo yn y blynyddoedd diweddar.

Rhoddodd David Melding fyfyrddod eithaf personol inni ar yr hyn a ddigwyddodd i un o'i etholwyr. Bydd unrhyw un sydd wedi cael unrhyw gysylltiad penodol â phobl sydd ag awtistiaeth yn gwybod mor bwysig yw iddynt gael cysondeb yn eu bywydau a bod y pryderon yn datblygu pan symudant i ffwrdd o'u trefn arferol. Pan oedd David yn siarad, ni allwn lai na meddwl ei bod yn anodd enwi problemau penodol dioddefwr. Rhoddwyd enghraifft dda o archfarchnad, sef petai rhywun mewn cadair olwyn neu'n cerdded â ffon, neu hyd yn oed yn gwisgo sbectol neu declyn clywed, y byddech yn cynnig help iddynt. Felly, mae angen arbennig am fwy o ymwybyddiaeth. Mae adnabod y broblem a diffyg diagnosis ffurfiol yn amlwg yn bryder sy'n perthyn i'r gorffennol.

Soniodd Lesley mor bwysig ydoedd i awdurdodau lleol, sy'n hollbwysig i hyn, gomisiynu gwasanaethau; mor angenrheidiol yw cael cefnogaeth ariannol ddigonol; a'r angen i fod lawer yn fwy ymatebol.

Atgoffodd Nick Ramsay ni am yr ystadegau perthnasol a'r arloesi sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar. Gwnaeth Bethan Jenkins bwynt pwysig am y ffordd y gall teuluoedd sydd ag aelod neu aelodau sy'n dioddef gan awtistiaeth, er nad yw tlodi plant yn amlwg yn gyfrannwr ar gyfer awtistiaeth, yn aml fod yn deuluoedd sy'n cael anhawster i ymdopi â materion ariannol.

Ni chyfeiriwyd lawer at roi datganiadau i blant, ond mae hynny wedi'i drafod yn helaeth mewn pwyllgorau addysg blaenorol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym ei bod yn ymwybodol iawn o'r modd y gall pobl ag anhwylderau'r sbectwm awtistig deimlo'u bod wedi'u hynysu a'u hanwybyddu, ac mor angenrheidiol yw cael gwybodaeth ddibynadwy. Atgoffodd ni am

through her intervention, made an enormous difference to what has happened in that regard since the first visit that we made as a group to that school in north Wales. The intervention of the Minister ensured adequate financial support, particularly for the buildings, which enabled it to go on doing excellent work.

4.40 p.m.

The mapping of services is vital for the future. The strategy developed in 2008 will give an overview of commissioning, and the operational plan will ensure that commissioning arrangements are monitored and scrutinised, as they should be, so that they meet our aspirations. Regional diagnostic problems and the equitability of ensuring that everyone has an adequate plan that is followed was a particular feature of the Deputy Minister's reply. We will no doubt return to this subject, in the form of statements and probably a debate. The depth of the emotion shown today demonstrates that the National Assembly for Wales is determined that autistic spectrum disorders be treated to the best of our ability, now and in future.

Y Llywydd: Gan fod y Gweinidog wedi datgan ei gwrthwynebiad i'r ddau welliant, awn yn syth ymlaen i'r cyfnod pleidleisio, os nad yw'r Prif Chwip eisiau canu'r gloch. Gwelaf nad ydyw.

Ysgol Plas Brondyffryn. Eto, rhoddaf deyrnged i'r Gweinidog addysg blaenorol a wnaeth wahaniaeth aruthrol, drwy ei hymyriad, i'r hyn sydd wedi digwydd yn hynny ers ein hymweliad cyntaf fel grŵp â'r ysgol honno yn y gogledd. Sicrhaodd ymyriad y Gweinidog gefnogaeth ariannol ddigonol, yn enwedig ar gyfer yr adeiladau, a'i galluogodd i ddal ati i wneud gwaith rhagorol.

Mae mapio gwasanaethau'n hollbwysig i'r dyfodol. Bydd y strategaeth a ddatblygwyd yn 2008 yn rhoi trosolwg o gomisiynu, a bydd y cynllun gweithredol yn sicrhau y bydd trefniadau comisiynu yn destun monitro a chraffu, fel y dylent fod, er mwyn iddynt wireddu ein dyheadau. Yr oedd problemau diagnostig rhanbarthol, a thegwch sicrhau bod gan bawb gynllun digonol a ddilynir, yn nodwedd arbennig o ateb y Dirprwy Weinidog. Deuwn yn ôl at y pwnc hwn, yn ddi-os, ar ffurf datganiadau a dadl, mae'n debyg. Mae dyfnder y teimlad a fynegwyd heddiw yn dangos bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benderfynol y dylid trin anhwylderau'r sbectrum awtistig hyd eithaf ein gallu, yn awr ac yn y dyfodol.

The Presiding Officer: Given that the Minister has stated her objection to the two amendments, we will move straight to voting time, unless the Chief Whip asks that the bell be rung. I see that he does not.

Amser Pleidleisio Voting Time

*Cynnig (NDM3918): O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 29.
Motion (NDM3918): For 15, Abstain 0, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Melding, David
Millar, Darren

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion defeated.*

*Gwelliant 1 i NDM3934: O blaid 31, Ymatal 4, Yn erbyn 10.
Amendment 1 to NDM3934: For 31, Abstain 4, Against 10.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Williams, Brynle

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Black, Peter
German, Michael

Randerson, Jenny
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 2 i NDM3934: O blaid 35, Ymatal 0, Yn erbyn 9.
Amendment 2 to NDM3934: For 35, Abstain 0, Against 9.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Black, Peter
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 3 i NDM3934: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 14.
Amendment 3 to NDM3934: For 31, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Black, Peter
Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark

Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment carried.*

*Gwelliant 4 i NDM3934: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 4 to NDM3934: For 44, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Andrew R.T.
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw

Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

*Gwelliant 5 i NDM3934: O blaid 31, Ymatal 0, Yn erbyn 14.
 Amendment to NDM3934: For 31, Abstain 0, Against 14.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton
 Asghar, Mohammad
 Barrett, Lorraine
 Chapman, Christine
 Davidson, Jane
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 Hutt, Jane
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Alun Ffred
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment carried.*

Motion NDM3934 as amended: that
the National Assembly for Wales:

*1. acknowledges the recent sharp increases
 in the price of essential foodstuffs, and the*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
 The following Members voted against:

Black, Peter
 Bourne, Nick
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

Cynnig NDM3934 fel y'i diwygiwyd: bod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

*1. yn cydnabod y codiadau serth diweddar
 ym mhrisiau bwydydd hanfodol a'r pwysau*

- increased pressure this is putting on household budgets;*
- 2. notes that increases in the prices of fuel, fertilizer and grain have substantially increased Welsh farmers' production costs;*
- 3. regrets that supermarket practices, excessive red tape and market conditions have made farming difficult in the past and welcomes the actions of the Minister for Rural Affairs in tackling red tape and calling for the creation of a supermarket ombudsman;*
- 4. notes that both increased prices in agricultural commodities and the change in the price of the euro may have direct implications on agri-environment schemes in Wales;*
- 5. believes that the promotion of locally-sourced food will benefit the farming industry in Wales, will improve food security and will increase sustainable food production;*
- 6. calls on the Welsh Assembly Government to work with stakeholders to continue the Minister's commendable initiative to prepare a food and farming strategy.*
- cynyddol y mae hyn yn ei roi ar gyllidebau aelwydydd;*
- 2. yn nodi bod y codiadau ym mhrisiau tanwydd, gwrtaitaith a grawn wedi cynyddu costau cynhyrchu ffermwyr Cymru'n sylweddol;*
- 3. yn gresynu bod arferion archfarchnadoedd, gormod o fiwrocratiaeth ac amodau'r farchnad wedi gwneud ffermio'n anodd yn y gorffennol ac yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig wrth fynd i'r afael â biwrocratiaeth ac wrth alw am greu ombwdsmon archfarchnadoedd;*
- 4. yn nodi y gall y cynnydd ym mhrisiau nwyddau amaethyddol yn ogystal â'r newid ym mhris yr ewro effeithio'n uniongyrchol ar gynlluniau amaeth-amgylchedd yng Nghymru;*
- 5. yn credu y bydd hybu bwyd lleol o fudd i'r diwydiant ffermio yng Nghymru, yn gwella diogelwch bwyd ac yn cynyddu cynhyrchu bwyd cynaliadwy;*
- 6. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid i barhau â menter glodwiw y Gweinidog i baratoi strategaeth ar fwyd a ffermio.*

Cynnig NDM3934 fel y'i diwygiwyd: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 12.

Motion NDM3934 as amended: For 33, Abstain 0, Against 12.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Black, Peter
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Williams, Brynle

Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Randerson, Jenny
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM3934 fel y'i diwygiwyd.
Motion NDM3934 as amended carried.*

*Gwelliant 1 i NDM3935: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 30.
Amendment 1 to NDM3935: For 14, Abstain 0, Against 30.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Gwelliant 2 i NDM3935: O blaid 14, Ymatal 0, Yn erbyn 31.
Amendment 2 to NDM3935: For 14, Abstain 0, Against 31.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton

Bourne, Nick
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Asghar, Mohammad
Barrett, Lorraine
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Neagle, Lynne
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.
Amendment defeated.*

*Cynnig (NDM3935): O blaid 41, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion (NDM3935): For 41, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Bourne, Nick
Chapman, Christine
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Evans, Nerys
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary

Jones, Ieuan Wyn
 Lewis, Huw
 Lloyd, Val
 Melding, David
 Mewies, Sandy
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Morgan, Rhodri
 Neagle, Lynne
 Randerson, Jenny
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.
 Motion carried.*

Dadl Fer Short Debate

Gwneud Cymunedau'n Hapusach Making Communities Happier

Christine Chapman: I have given Huw Lewis and Joyce Watson permission to contribute to the debate.

While canvassing for the recent elections, many of us met people on their doorsteps who said that they were disillusioned with politics and politicians, and some accused us of not understanding real people's lives. There could be many reasons for that, some of which I am sure are unjustified. However, I believe that there are factors at play that explain why some people feel disconnected with the democratic process. It is partly due to the language that we use, and the priorities that we emphasise. For example, we are used to trotting out terms such as 'economic growth', 'skills gap' and 'GDP', which I believe have little resonance with many people's day-to-day lives.

If that is the case, how should we address it? One way would be to concentrate on what I believe is a basic human need: happiness. Britain has become more than three times richer in real terms since the beginning of the twentieth century. However, research suggests that this has not made people any happier than they ever were. The change in material wealth over the last two generations has been great. Our great-grandparents, who

Christine Chapman: Yr wyf wedi rhoi caniatâd i Huw Lewis a Joyce Watson gyfrannu at y ddadl.

Wrth ganfasio ar gyfer yr etholiadau diweddar, cyfarfu llawer ohonom â phobl wrth eu drysau a ddywedodd eu bod wedi'u dadrithio gan wleidyddiaeth a gwleidyddion, a chawsom ein cyhuddo gan rai o beidio â deall bywydau pobl go iawn. Gallai fod nifer o resymau dros hynny, rai ohonynt yr wyf yn siŵr nad oes modd eu cyfiawnhau. Fodd bynnag, credaf fod ffactorau ar waith sy'n esbonio pam y mae rhai pobl yn teimlo nad oes cysylltiad rhyngddynt a'r broses ddemocrataidd. Mae'n rhannol oherwydd yr iaith a ddefnyddiwn, a'r blaenoriaethau y byddwn yn eu pwysleisio. Er enghraifft, yr ydym yn gyfarwydd â rhaffu termau megis 'twf economaidd', 'bwlch sgiliau' a 'CDC' a'r rheini'n golygu fawr ddim, dybiwn i, i lawer o bobl yn eu bywyd beunyddiol.

Os felly, sut y dylem fynd i'r afael â hyn? Un ffordd fyddai canolbwyntio ar yr hyn sydd yn fy marn i'n angen dynol sylfaenol: hapusrwydd. Mae Prydain dros deirgwaith yn gyfoethocach mewn termau real ers dechrau'r ugeinfed ganrif. Fodd bynnag, awgryma ymchwil nad yw hyn wedi gwneud pobl yn hapusach nag oeddent o'r blaen. Mae'r newid o ran cyfoeth materol dros y ddwy genhedlaeth ddiwethaf wedi bod yn enfawr.

struggled with hardship, would be amazed by what could be on offer in 2008 as a result of this progress. Progress is to be welcomed, but it is what we do with the wealth that is even more important. Despite its success, Britain's wealth does still not equal that of other European countries, and as some researchers, such as Richard Wilkinson, have argued, that widening gap makes for worse health, shorter lives, higher levels of violence, and weaker community life.

Increasingly, more emphasis is given to what makes people and communities happy, on the basis that this indicator is one that governments at all levels should focus on. Of course, that view is not new. In 1789, the utilitarian philosopher, Jeremy Bentham, talked about governments needing to ensure the greatest happiness of the greatest number, so there are some powerful historical precedents for this. More recently in the UK, Professor Richard Layard, who pioneered the New Deal, has been a major influence. Layard has argued that, for Britain to become a happier nation, economic growth must cease to be a top priority. The best society is one where people are the happiest, and the best policy is one that produces the greatest happiness. If we were to be successful in that, it would give us a greater chance of getting people connected to politics.

How are we doing on the happiness barometer in Wales? Happiness is undeniably a subjective matter. What makes one person happy would not necessarily appeal to another. Nevertheless, I believe that there are common factors. We also understand what unhappiness is, which is symptomatic of the things that we too often see in our communities. These include a familiar set of social problems, such as mental ill health, depression, eating disorders, stress, alcoholism, obesity and drug addiction. Even if you are not affected by these individually, your community definitely is.

4.50 p.m.

Byddai ein hen neiniau a'n hen deidiau, a fu'n brwydro yn erbyn caledi, yn rhyfeddu o weld yr hyn a allai fod ar gael yn 2008 oherwydd y cynnydd hwn. Mae cynnydd i'w groesawu, ond mae'r hyn a wnawn â'r cyfoeth yn bwysicach byth. Er ei llwyddiant, eto i gyd nid yw Prydain mor gyfoethog â gwledydd eraill yn Ewrop, ac fel y mae rhai ymchwilyr, megis Richard Wilkinson, wedi'i ddadlau, mae'r bwch hwnnw sy'n lledu yn arwain at waeth iechyd, bywydau byrrach, lefelau uwch o drais a bywyd cymunedol gwannach.

Yn gynyddol rhoddir mwy o bwyslais ar yr hyn sy'n gwneud pobl a chymunedau'n hapus, ar y sail bod y dangosydd hwn yn un y dylai llywodraethau ar bob lefel ganolbwyntio arno. Wrth gwrs, nid yw'r agwedd honno'n un newydd. Yn 1789, dywedodd yr athronydd iwtilitaraidd, Jeremy Bentham, fod angen i lywodraethau sicrhau'r hapusrwydd mwyaf i'r nifer fwyaf, felly, mae yna aml i gysail pwerus i hyn mewn hanes. Yn fwy diweddar yn y DU mae'r Athro Richard Layard, arloeswr y Fargen Newydd, wedi bod yn ddylanwad mawr. Mae Layard wedi dadlau, er mwyn i Brydain ddod yn wlad hapusach, ei bod yn rhaid rhoi'r gorau i ystyried twf economaidd yn un o'r prif flaenoriaethau. Y gymdeithas orau yw honno lle mae'r bobl hapusaf, a'r polisi gorau yw hwnnw sy'n cynhyrchu'r hapusrwydd mwyaf. Petaem yn llwyddiannus yn hynny, byddai'n rhoi gwell cyfle inni ddenu pobl i ymwneud â gwleidyddiaeth.

Ble yr ydym yn sefyll ar y baromedr hapusrwydd yng Nghymru? Rhywbeth goddrychol yw hapusrwydd, wrth gwrs. Ni fyddai'r hyn sy'n gwneud y naill berson yn hapus o reidrwydd yn apelio at y llall. Fodd bynnag, credaf fod yna ffactorau cyffredin. Yr ydym hefyd yn deall beth yw anhapusrwydd, sy'n symptom o'r pethau a welwn yn rhy aml yn ein cymunedau. Mae'r rhain yn cynnwys set gyfarwydd o broblemau cymdeithasol, megis afiechyd meddwl, iselder, anhwylderau bwyta, straen, alcoholiaeth, gordewdra a bod yn gaeth i gyffuriau. Hyd yn oed os nad yw'r rhain yn effeithio arnoch fel unigolion, maent yn sicr yn effeithio ar eich cymuned.

For many, work is the route to self-esteem and status. Much has been achieved under a Labour Government, with the introduction of the national minimum wage and the working families' tax credit, which have helped to lift many families out of poverty. However, job insecurity is still a major source of heartache and stress for many. That nagging doubt that perhaps you could be laid off next week and have to put all your plans, like holidays with the kids, on hold. The Trades Union Congress's recent commission on vulnerable employment paints a stark picture of how insecurity affects our poorest communities. It is not always the amount that you earn that is important, but the fear that even that will be denied to you if you fall sick or want a holiday. Trade union membership, which, over the years, has helped to curb the worst excesses of bad employers, has plummeted, leaving many workers vulnerable, isolated and unhappy. Disgracefully, Alan Sugar's 'You're fired' mentality seems to be the regarded as the epitome of good working practice.

The Welsh Assembly Government must be commended for its efforts to engage with the trade unions in an equal and meaningful way, clearly understanding the vital role that that relationship can play in our communities. It also recognises the importance of employers investing in their workforce and enabling workers to reach their potential—the failure to do so must surely be another source of unhappiness—and the Wales union learning fund is an excellent example of that. We should realise that, while people want to improve their skills in order to better their job prospects, they also want to broaden their horizons—learning for learning's sake, if you like. I think that that is a very human yearning that provides happiness and satisfaction, which we sometimes overlook. I welcome Adult Learners' Week this week, which celebrates those thousands of people across Wales whose lives are being changed because they are taking up new interests.

I lawer, gwaith yw'r llwybr sy'n arwain at hunan-gred a statws. Mae llawer wedi'i gyflawni dan Lywodraeth Lafur, drwy gyflwyno'r isafswm cyflog a'r credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio. Mae'r rhain wedi helpu codi llawer o deuluoedd allan o dlodi. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn â swyddi'n dal i achosi loes calon a straen fawr i lawer; yr hen boen honno yng nghefn y meddwl y gallech efallai golli'ch gwaith yr wythnos nesaf a gorfod rhoi'ch cynlluniau i gyd, megis gwyliau gyda'r plant, o'r neilltu. Mae comisiwn y Gyngres Undebau Llafur yn ddiwedd ar gyflogaeth fregus yn rhoi darlun llym o'r ffordd y mae ansicrwydd yn effeithio ar ein cymunedau tlotaf. Nid faint yr ydych yn ei ennill sy'n bwysig bob amser, ond yr ofn y caiff hyd yn oed hwnnw ei wrthod ichi os digwydd ichi fynd yn sâl, neu os ydych am gael gwyliau. Mae aelodaeth o undeb llafur, sydd dros y blynyddoedd wedi helpu ffrwyno eithafion gwaethaf cyflogwyr gwael, wedi gostwng yn sylweddol, gan adael llawer o weithwyr yn agored i niwed, wedi'u hynysu ac yn anhapus. Mae'n gywilyddus bod meddylfryd Alan Sugar, y meddylfryd 'Allan â chi', yn cael ei ystyried yn esiampl o arfer gweithio da.

Rhaid cymeradwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei hymdrechion i feithrin cysylltiad â'r undebau llafur mewn ffordd gyfartal ac ystyrlon, gan ei bod yn amlwg yn deall y swyddogaeth hollbwysig a all fod i'r berthynas honno yn ein cymunedau. Mae'n cydnabod hefyd mor bwysig ydyw i gyflogwyr fuddsoddi yn eu gweithlu a galluogi gweithwyr i gyflawni eu potensial—mae methu â gwneud hynny, mae'n siŵr, yn ffynhonnell arall o anhapusrwydd—ac mae cronfa ddysgu undebau Cymru yn enghraifft ragorol o fuddsoddi fel hyn. Dylem sylweddoli, er eu bod yn awyddus i wella'u sgiliau er mwyn gwella'u rhagolygon am waith, fod pobl hefyd yn dymuno ehangu eu gorwelion—dysgu er mwyn dysgu, os mynnwch. Credaf fod hyn yn ddyhead dynol iawn sy'n arwain at hapusrwydd a boddhad, ac mae'n ddyhead nad yw bob amser yn cael sylw dyledus. Yr wyf yn croesawu Wythnos Addysg Oedolion yr wythnos hon, sy'n dathlu'r miloedd hynny ledled Cymru sy'n newid eu bywydau drwy ddilyn diddordebau newydd.

People are also social beings. We depend on others throughout our lives for our social and emotional needs. ‘No man is an island’, said the poet John Donne, and, to fulfil that basic need, we need to connect with other people. I contend that that basic desire has been undermined over the past 30 years. One of the main legacies of Margaret Thatcher was the celebration of the individual above the many, which has blighted our communities ever since.

Change in our communities over the past 50 years has been great, with more emphasis on private needs and less on the public, but if we are to achieve a greater sense of wellbeing, as a community, we need to make better use of public space. By achieving that, we can begin to create public confidence and transform public spaces for everyone to enjoy. A recent Joseph Rowntree Foundation report provided clear evidence of the importance of public space to the success of regeneration policies and for creating sustainable communities. It is good to see the fruits of European money in projects such as cycle trails and town centre regeneration, which will ultimately encourage more social interaction. We should not undervalue the importance of projects like those that bring people together. In planning terms, public space should be at the heart of developments, not an afterthought. That collective sense of wellbeing and pride can be hugely exhilarating and, for a flavour of that, just think for a minute of the collective happiness that Wales experienced with the Grand Slam win and you will know what I mean.

We also need to replace our ‘them’ and ‘us’ language with that of the collective ‘we’ when discussing our relationship with young people. Let us have fewer closed-circuit television cameras and mosquito devices, please, and more investment in intergenerational projects. Such projects are operating in many of our schools, where older people can recount and discuss their lives with children, helping to forge much stronger links between the generations.

Mae pobl hefyd yn fodau cymdeithasol. Drwy gydol ein hoes, byddwn yn dibynnu ar bobl eraill i ddiwallu ein hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Fel y dywedodd y bardd John Donne, nid ynys yw dyn, ac er mwyn diwallu'r angen sylfaenol hwnnw, mae angen inni gysylltu â phobl eraill. Dadleuaf fod y dyhead sylfaenol hwnnw wedi ei danseilio dros y 30 mlynedd diwethaf. Un o brif waddolion Margaret Thatcher oedd dathlu'r unigolyn ar draul y llu, ac mae hynny wedi bod yn falltod ar ein cymunedau byth ers hynny.

Mae ein cymunedau wedi newid yn fawr dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gyda mwy o bwyslais ar anghenion preifat a llai ar anghenion cyhoeddus. Ond er mwyn sicrhau gwell ymdeimlad o les, fel cymuned, mae angen inni ddefnyddio ein man cyhoeddus yn well. Drwy gyflawni hynny, gallwn ddechrau creu hyder yn y cyhoedd a gweddnewid manau cyhoeddus i bawb eu mwynhau. Mewn adroddiad yn ddiweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree, cafwyd tystiolaeth glir am bwysigrwydd man cyhoeddus i lwyddiant polisïau adfywio a chreu cymunedau cynaliadwy. Mae'n dda gweld ffrwyth arian Ewrop mewn prosiectau megis llwybrau beicio ac adfywio canol trefi a fydd, yn y pen draw, yn annog mwy o ryngweithio cymdeithasol. Ni ddylem danbristio pwysigrwydd prosiectau fel y rheini sy'n dod â phobl at ei gilydd. O ran cynllunio, dylai man cyhoeddus fod wrth galon datblygiadau, nid syniad sy'n datblygu wedyn. Gall rhannu'r ymdeimlad o les a balchder lonni pobl drwyddynt, ac i gael blas ar hynny, meddyliwch am funud am yr hapusrwydd torfol a deimlwyd yng Nghymru pan enillwyd y Gamp Lawn a byddwch yn deall yr hyn a olygaf.

Yn lle'r iaith 'nhw' a 'ni', mae angen inni ddefnyddio'r ffurf gyfunol 'ni', wrth drafod ein perthynas â phobl ifanc. Gadewch inni gael llai o gamerâu teledu cylch-cyfyng a dyfeisiau mosgito, os gwelwch yn dda, a mwy o fuddsoddi mewn prosiectau rhwng cenedlaethau. Mae prosiectau o'r fath ar waith mewn llawer o'n hysgolion, lle gall pobl hŷn sôn wrth y plant am eu bywyd a'i drafod, gan helpu creu cysylltiadau llawer cryfach rhwng y cenedlaethau.

It was interesting to note a recent BBC survey that showed how few people knew their neighbours and felt that they could trust them with their house key. That is a sad indictment of life in 2008. Neighbourhood disputes form a big part of my casework, with problems often stemming directly from drug and alcohol abuse, which affects the quality of community life. Poor communities are affected disproportionately, and individuals often struggle to cope alone by using antidepressants, in the absence of any real solution from agencies and Government. Unhappiness with our relationships can adversely affect all aspects of life. If you are a parent and are working long hours, your relationship with your child may be affected. Work-life balance is vital if we are to nurture the children who will be the adults of tomorrow. We know that children who are neglected and who do not get the attention that they need, are, without intervention, more likely to be involved in anti-social behaviour. We should not stint on youth services, but see this work as a valuable investment for the future happiness and wellbeing of our communities.

A report from the United Nations Children's Fund in 2006 showed how the UK came near the bottom of a league table of rich countries that were being monitored for children's wellbeing and happiness, and I think that that is shameful.

Finally, it is an outrage that we have 170,000 children living in poverty in Wales, whose lives are blighted, whose relationships are suffering and whose chances for happiness are curtailed as a result of the circumstances into which they were born. Those 170,000 children, as Huw Lewis told us last week, could fill the Millennium Stadium twice over. The Children and Young People's Committee is taking a keen interest in this issue, as it starts its inquiry into the child poverty implementation plan.

I believe that we have talked enough about

Yr oedd yn ddiddorol sylwi ar arolwg yn ddiweddar gan y BBC a ddangosai gyn lleied o bobl a oedd yn adnabod eu cymdogion ac yn teimlo y gallent ymddiried ynddynt i gadw allwedd i'w tŷ. Mae hynny'n feirniadaeth drist ar fywyd yn 2008. Mae anghydfodau yn y gymdogaeth yn rhan fawr o'm gwaith achos, a'r problemau'n aml yn deillio'n uniongyrchol o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, sy'n effeithio ar ansawdd bywyd y gymuned. Effeithir yn waeth ar gymunedau tlawd, a bydd unigolion yn aml yn straffaglu i ymdopi ar eu pen eu hunain drwy gymryd tabledi gwrth-iselder, gan nad yw'r asiantaethau a'r Llywodraeth i bob golwg yn cynnig unrhyw ateb go iawn. Gall anhapusrwydd yn ein perthynas â phobl eraill effeithio er gwaeth ar bob agwedd ar fywyd. Os ydych yn rhiant sy'n gweithio oriau hir, efallai y bydd hynny'n effeithio ar eich perthynas â'ch plentyn. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn hollbwysig er mwyn inni feithrin y plant a fydd yn oedolion yfory. Gwyddom fod plant sy'n cael eu hesgeuluso ac nad ydynt yn cael y sylw angenrheidiol yn fwy tebygol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol, heb ymyrryd. Ni ddylem fod yn grintachlyd wrth noddi gwasanaethau ieuencid. Yn hytrach, dylem weld y gwaith hwn fel buddsoddiad gwerthfawr i sicrhau hapusrwydd a lles ein cymunedau yn y dyfodol.

Dangosodd adroddiad gan Gronfa Blant y Cenhedloedd Unedig yn 2006 fod y DU yn agos at waelod y tabl cynghrair o wledydd cyfoethog a oedd yn cael eu monitro i fesur lles a hapusrwydd plant, a chredaf fod hynny'n gywilydd o beth.

Yn olaf, mae'n warth bod gennym 170,000 o blant yn byw mewn tloedi yng Nghymru, a'u bywydau'n cael eu difetha, a'u perthynas yn dioddef a'u cyfleoedd i gael hapusrwydd yn cael eu llesteirio oherwydd amgylchiadau eu geni. Gallai'r 170,000 hynny o blant, fel y dywedodd Huw Lewis wrthym yr wythnos diwethaf, lenwi Stadiwm y Mileniwm ddwywaith. Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ymddiddori'n fawr yn y mater hwn, wrth iddo ddechrau ei ymchwiliad i'r cynllun gweithredu ar dlodi plant.

Credaf inni siarad digon am theori tloedi plant.

the theory of child poverty. We want action now and we want all layers of Government, and those whose actions touch the lives of those 170,000 children, to be fully involved.

I wish to end with a quote from the UNICEF report, which encapsulates what our priorities should be:

‘The true measure of a nation’s standing is how well it attends to its children – their health and safety, their material security, their education and socialisation, and their sense of being loved, valued, and included in the families and societies into which they were born’.

Therefore, we should give due care and attention to happiness in communities, because not to do so will leave a poor legacy for the future. It is our choice.

Huw Lewis: I welcome Chris’s far-sightedness in choosing the subject for the short debate; it is not often that we get an opportunity to talk about the basics of politics in such a way, and I commend Chris’s obvious commitment to the anti-poverty agenda.

Income is not everything when it comes to the recipe for happiness, but, as Chris pointed out, poverty and misery often go hand in hand. Ask any parent what they most want for their child, and they will simply reply, ‘That they be happy’.

On the other hand, the accumulation of wealth alone is not all, as Layard has shown and as Chris has quoted. Social solidarity is of as much importance as the accumulation of wealth, if not more. Having the smallest gap possible between the richest and the poorest in society would act as the mortar to hold the bricks of society together. A happy society cannot be attained otherwise.

The aim of politics should coincide with the aim of attaining social happiness. A good society is not just marked by the absence of fear, but by the presence of solidarity.

Yr ydym am weld gweithredu yn awr ac yr ydym am weld pob haen o’r Llywodraeth a’r rheini y mae eu gweithredoedd yn cyffwrdd â bywydau’r 170,000 hynny o blant, yn ymwneud yn llawn â hyn.

Dymunaf gau pen y mwdwl drwy ddyfynnu o adroddiad UNICEF, sy’n crynhoi’r hyn y dylem eu hystyried yn flaenoriaethau:

Gwir fesur o ruddin cenedl yw i ba raddau y mae’n gofalu am ei phlant—am eu hiechyd a’u diogelwch, am eu sicrwydd materol, am eu haddysg a’u cymdeithasu, a’u hymdeimlad fod rhywun yn eu caru, yn eu gwerthfawrogi ac yn eu cynnwys yn y teuluoedd a’r cymdeithasau y’u ganwyd iddynt’.

Felly, dylem roi sylw a gofal dyledus i hapusrwydd mewn cymunedau, oherwydd o beidio â gwneud hynny byddwn yn gadael gwaddol dlawd i’r dyfodol. Ni biau’r dewis.

Huw Lewis: Croesawaf bell-welediad Chris wrth ddewis y pwnc ar gyfer y ddadl fer. Anaml y cawn gyfle i drafod hanfodion gwleidyddiaeth fel hyn, a chymeradwyaf ymrwymiad amlwg Chris i’r agenda atalodi.

Nid incwm yw popeth wrth inni sôn am y rysâit ar gyfer hapusrwydd, ond fel y dywedodd Chris, mae tlodi a diflastod yn aml yn mynd law yn llaw. Gofynnwch i unrhyw riant beth yw ei ddymuniad pennaf ar gyfer ei blentyn, a’i ateb syml fydd, ‘Iddo fod yn hapus’.

Ar y llaw arall, nid crynhoi cyfoeth ar ei ben ei hun yw popeth, fel y mae Layard wedi’i ddangos, ac fel y mae Chris wedi’i ddyfynnu. Mae cadernid cymdeithasol yr un mor bwysig â chrynhoi cyfoeth, os nad yn fwy felly. Sicrhau’r bwlch lleiaf posibl rhwng y cyfoethocaf a’r tlotaf yn y gymdeithas fyddai’r mortar a fyddai’n cydio brics ein cymdeithas wrth ei gilydd. Nid oes modd sicrhau cymdeithas hapus oni wneir hynny.

Dylai nod gwleidyddiaeth gyd-fynd â nod sicrhau hapusrwydd cymdeithasol. Nid absenoldeb ofn yw’r unig beth sy’n nodweddu cymdeithas dda, ond presenoldeb cydlynad.

Joyce Watson: I welcome the opportunity to speak in this important short debate. I will not go over the ground that has already been covered. There have been many debates and policy initiatives examining why communities are not happy, and I no-one would disagree that happy communities are achieved by building trust and understanding between people. I want to use the minute that I have to reflect on the role of the car, and on how the use of the car plays its part in community breakdown.

The majority of people travel in and out of the areas where they live by car, they walk to the house, they shut the door behind them, and that process is reversed when they leave. They never speak to, listen to, share local gossip with, or even learn the names of their neighbours, who may live next door or just a few doors down. This movement of people and reliance on the car has played a significant role in the decline of understanding and trust that was naturally developed between people when the majority walked along the streets on which they lived. We now use the terms 'community engagement' and 'partnership working' to promote happy communities, and see them as vital tools of delivery, but all we need to do is encourage people to leave their cars at home, walk down the street, talk to their neighbours, and at least learn their names. In most cases, I am sure that the outcome will be increased trust and understanding between people, which creates a happy community.

To that end, I ask parents to think about the part that they can play in this crucial role. They could leave their cars at home and accompany their children to school and to the shops. Maybe along the way, they could do some intergenerational relationship-building, such as talking to their neighbours.

5.00 p.m.

To that end, I support the initiatives that the Assembly has brought forward to encourage people to take exercise, because we should not only be paying attention to the focus on

Joyce Watson: Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl fer bwysig hon. Nid wyf am fynd dros y tir sydd wedi'i droedio eisoes. Mae llawer o ddadleuon a chynlluniau polisi wedi bod sy'n archwilio pam nad yw cymunedau'n hapus, ac ni fyddai neb yn anghytuno mai drwy feithrin ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng pobl y mae sicrhau cymunedau hapus. Yr wyf am ddefnyddio'r munud sydd gennyf i ystyried rôl y car, a sut mae defnyddio'r car yn cyfrannu at chwalu cymunedau.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn teithio i mewn ac allan o'r ardaloedd lle maent yn byw mewn car, yn cerdded at y tŷ, yn cau'r drws ar eu hól, a bydd y broses yn digwydd i'r gwrthwyneb wrth iddynt adael. Ni fyddant byth yn siarad â'u cymdogion, yn gwrandao arnynt, yn rhannu clecs â hwy, na hyd yn oed yn dysgu eu henwau, a'r rheini efallai'n byw y drws nesaf neu ddrws neu ddau i ffordd. Mae symudiadau pobl a'u dibyniaeth ar y car wedi chwarae rhan bwysig yn nirywiad y ddealltwriaeth a'r ymddiriedaeth a ddatblygai'n naturiol rhwng pobl pan fyddai'r mwyafrif yn cerdded ar hyd y strydoedd lle'r oeddent yn byw. Byddwn yn awr yn defnyddio'r termau 'Ymgysylltu cymunedol' a 'gwaith partneriaeth' i hyrwyddo cymunedau hapus, ac yn eu gweld yn gyfryngau hollbwysig i wireddu hynny, ond y cyfan y mae angen inni ei wneud yw annog pobl i adael eu ceir gartref, cerdded i lawr y stryd, sgwrsio â'u cymdogion, a dysgu eu henwau, o leiaf. Yr wyf yn siŵr mai'r canlyniad gan amlaf fydd mwy o ymddiriedaeth a dealltwriaeth rhwng pobl, sy'n creu cymuned hapus.

Gyda hynny mewn golwg, gofynnaf i rieni feddwl am y rhan y gallant hwy ei chwarae yn y rôl hollbwysig hwn. Gallent adael eu ceir gartref a mynd gyda'u plant i'r ysgol ac i'r siopau. Ar hyd y ffordd, efallai y gallent wneud ychydig feithrin perthynas rhwng y cenedlaethau, megis siarad â'u cymdogion.

I'r diben hwnnw, yr wyf yn cefnogi'r mentrau y mae'r Cynulliad wedi'u cyflwyno i annog pobl i wneud ymarfer corff, oherwydd dylem fod yn rhoi sylw i'r canolbwyntio ar

reducing obesity, but also to the focus of building community relations.

The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons): I start by thanking Chris for what was a thoughtful and challenging contribution to a subject that had a very enigmatic title to say the least. It was the American declaration of independence on 4 July 1776 that asserted that some truths were held to be self-evident: that all men were created equal and that they were endowed by their creator with certain inalienable rights. Among those rights were the right to life, liberty and the pursuit of happiness. Accepting the gender bias and the theological rationale of these statements, the pursuit of happiness has, from the very start of the democratic era, been regarded as a legitimate goal of public and Government policy. However, we need to draw attention to what the founding fathers said—it is the pursuit of happiness rather than the guarantee of happiness that we need to strive for and work at.

We could spend the rest of this debate arguing about what happiness is; there are a wide range of well-validated tools and health and social research that can be used to establish people's mental state of health and wellbeing with reasonable validity. Equally, there is a fairly wide body of respectable research that takes a rather pragmatic approach to letting people decide for themselves if they are happy or not, which is used as a basis for assessing progress, or otherwise, in creating happy people in happy societies, at peace with themselves.

Chris quoted John Donne, but I will quote John Lennon who said that 'money can't buy me love'. However, as Huw said, it can contribute to securing happiness in some respects. Many recent studies have assessed people's current state of happiness on a 10-point wellbeing scale. People in developed countries, on average, score quite highly at around eight, while people in less developed countries generally have lower scores.

Similarly, within any society, the rich tend to be happier compared with those who are

adeiladu cysylltiadau cymunedol, yn ogystal â'r ffocws ar leihau gordewdra.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons): Dechreuaf drwy ddiolch i Chris am gyfraniad meddylgar a heriol at bwnc sydd â theitl enigmatig iawn a dweud y lleiaf. Datganiad annibyniaeth America ar 4 Gorffennaf 1776 a ddywedodd fod rhai gwirioneddau'n hunaneglur: bod pob dyn wedi'i greu'n gyfartal a bod eu creawdwr wedi rhoi rhai hawliau penodol anaralladwy iddynt. Ymysg yr hawliau hynny yr oedd yr hawl i fywyd, rhyddid a cheisio hapusrwydd. A derbyn y gogwydd rhyw a rhesymeg ddiwinyddol y datganiadau hyn, ystyriwyd o gychwyn cyntaf yr oes ddemocrataidd fod ceisio hapusrwydd yn un o nodau dilys polisi cyhoeddus a pholisi Llywodraeth. Fodd bynnag, rhaid inni dynnu sylw at yr hyn a ddywedodd y sefydlwyr—ceisio hapusrwydd yn hytrach na gwarant o hapusrwydd yw'r hyn y mae angen inni ymdrechu amdano a gweithio arno.

Gallem dreulio gweddill y ddadl hon yn dadlau am yr hyn yw hapusrwydd; mae yna amrywiaeth eang o offer ac ymchwil iechyd a chymdeithasol y gellir eu defnyddio i sefydlu cyflwr iechyd a lles meddyliol pobl yn rhesymol ddilys. Yn yr un modd, mae corff eithaf eang o ymchwil parchus sy'n defnyddio dull digon pragmataidd o adael i bobl benderfynu drostynt eu hunain a ydynt yn hapus ai peidio, a defnyddir hynny fel sail ar gyfer asesu cynnydd, neu fel arall, o ran creu pobl hapus mewn cymdeithasau hapus, sy'n byw mewn heddwch.

Dyfynnodd Chris eiriau John Donne, ond dyfynnaf fi John Lennon, a ddywedodd 'money can't buy me love'. Fodd bynnag, fel y dywedodd Huw, gall gyfrannu at sicrhau hapusrwydd mewn rhai ffyrdd. Mae nifer o astudiaethau diweddar wedi asesu hapusrwydd presennol pobl ar raddfa les o 10 pwynt. Ar gyfartaledd, bydd pobl mewn gwledydd datblygedig yn cael sgôr eithaf uchel, tuag wyth, tra bydd pobl mewn gwledydd llai datblygedig, yn gyffredinol, yn cael sgoriau is.

Yn yr un modd, mewn unrhyw gymdeithas bydd pobl gyfoethog yn tueddu i fod yn

poor. However, the story is a bit more complicated, because, as Chris pointed out, over recent decades many of our societies, particularly in the western world, have become richer and more affluent, but there is not a lot of evidence that these societies have become happier. So, the reality is that this is more complex than a direct association between wealth and happiness. It has often been noted that the average scores in developed countries do not tend to rise much with income or gross domestic product, but given that the scale is constrained at 10 by definition and that people already start from a pretty high level of satisfaction, this result may be regarded as an artefact of the measurement scheme.

Notwithstanding these reservations, research into happiness yields a lot of interesting conclusions: people do care about many things beyond being rich in a monetary sense. For example, secure family relationships, health, being in employment, particularly secure employment, and trust and confidence within communities are all found to be important. People also care about their relative position in society and there is some indication that inequality also makes people unhappy. There is also evidence of a threshold effect, in that the poor usually have lower levels of happiness, but once a certain level of income is achieved—it does not have to be very high—the links between further income growth and happiness become much less apparent.

Chris quoted Richard Wilkinson, who has many interesting things to say about this subject, particularly in his groundbreaking work on health inequality. He notes that there is a link between material wealth and health and wellbeing, but again, he argues that this link is not constant and weakens once certain levels of wealth are achieved. Once this threshold effect is achieved, other factors kick in and, according to Wilkinson, one of the key factors that need to be considered is the inequalities in wealth in society. He asserts that many unequal societies do worse in every way, in terms of mortality and life expectancy, health—both physical and

hapusach na phobl dlawd. Fodd bynnag, mae'r stori ychydig yn fwy cymhleth, oherwydd fel y dywedodd Chris, dros y degawdau diwethaf mae nifer o'n cymdeithasau, yn enwedig yn y byd gorllewinol, wedi dod yn fwy cyfoethog a chefnog, ond nid oes llawer o dystiolaeth fod y cymdeithasau hyn wedi dod yn hapusach. Felly, y realiti yw bod hyn yn fwy cymhleth na chysylltiad uniongyrchol rhwng cyfoeth a hapusrwydd. Nodwyd yn aml nad yw'r sgoriau cyfartalog mewn gwledydd datblygedig yn tueddu i godi rhyw lawer gydag incwm neu gynnyrch mewnwladol crynswth, ond o gofio bod y raddfa wedi'i chyfyngu i 10 yn ôl ei diffiniad, a bod pobl eisoes yn dechrau o lefel lled uchel o foddhad, gellir ystyried mai un o arteffactau'r cynllun mesur yw'r canlyniad hwn.

Er gwaethaf yr amheuon hyn, mae ymchwil i hapusrwydd yn rhoi llawer o gasgliadau diddorol: mae pobl yn poeni am nifer o bethau heblaw bod yn gyfoethog mewn ystyr ariannol. Er enghraifft, gwelir bod perthynas deuluol gadarn, iechyd, bod mewn cyflogaeth, yn enwedig cyflogaeth gadarn, ac ymddiriedaeth a hyder mewn cymunedau i gyd yn bwysig. Mae pobl hefyd yn poeni am eu safle cymharol mewn cymdeithas, ac mae rhywfaint o awgrym fod anghydraddoldeb hefyd yn gwneud pobl yn anhapus. Mae dystiolaeth hefyd o effaith trothwy, lle mae gan bobl dlawd fel rheol lefelau isel o hapusrwydd, ond wedi iddynt gyrraedd lefel incwm benodol—nid oes yn rhaid iddi fod yn uchel iawn—daw'r cysylltiadau rhwng twf incwm pellach a hapusrwydd lawer yn llai amlwg.

Dyfynnodd Chris eiriau Richard Wilkinson, sydd â nifer o bethau diddorol i'w dweud am y mater hwn, yn enwedig yn ei waith arloesol ar anghydraddoldeb iechyd. Mae'n nodi bod cysylltiad rhwng cyfoeth materol ac iechyd a lles, ond eto, mae'n dadlau nad yw'r cysylltiad hwn yn gyson a'i fod yn gwanhau ar ôl cyrraedd lefelau penodol o gyfoeth. Ar ôl cyrraedd y trothwy hwn, bydd ffactorau eraill yn dod i rym, ac yn ôl Wilkinson un o'r ffactorau allweddol y mae angen eu hystyried yw'r anghydraddoldebau mewn cyfoeth mewn cymdeithas. Mae'n dweud bod nifer o gymdeithasau anghyfartal yn gwneud yn waeth ym mhob ffordd, o ran marwolaeth a

mental—obesity, educational failure, teenage pregnancy, drug abuse, violence and homicide. However, he has pointed out that these problems are often viewed as being quite separate and distinct, when in reality, he believes, they are all rooted in low social status and relative deprivation and inequality. Indeed, Wilkinson has gone further, arguing that the biopsychosocial processes that set these wellbeing differentials in motion often have their roots in early life experience.

Does any of this given us any clues as to the way forward? Two messages seem to emerge clearly and consistently. As Huw said, regardless of whether it is true that wealth brings happiness, poverty certainly breeds unhappiness. Therefore, tackling poverty and its associated disadvantages must be a priority, and that should start as early in life as is possible. Equally, once a certain level of prosperity has been achieved, further improvements in wellbeing are more likely to occur in equal, socially cohesive societies. That must be our message.

In many ways, this addresses the paradoxical observation that many people who lived through the 1920s and 1930s make when contrasting their hard times with present-day life. Despite the poverty and hardship of those times, which Chris referred to, many of the hardest hit communities did not disintegrate into anarchy and dysfunction. It was the sense of social coherence, solidarity and shared communal experience that prevented that from happening.

Many of us who have been out on the doorstep over recent weeks will know that the notion of 'happiness' is an umbrella term for a whole set of issues that, taken together, make a difference to how people think about themselves and the places in which they live. The First Minister has set out, on a number of occasions, our ambition as an administration to establish a high-trust relationship between ourselves as a Government and the citizen who uses the services that we provide.

disgwyliad oes, iechyd—yn gorfforol ac yn feddyliol—gordewdra, methiant addysgol, beichiogrwydd ymysg pobl ifanc yn eu harddegau, camddefnyddio cyffuriau, trais a llofruddiaeth. Fodd bynnag, mae wedi nodi bod y problemau hyn yn aml yn cael eu hystyried ar wahân i'w gilydd, er eu bod, mewn gwirionedd, yn ei farn ef i gyd â'u gwreiddiau mewn statws cymdeithasol isel ac amddifadiad ac anghydraddoldeb cymharol. Yn wir, aeth Wilkinson ymhellach, gan ddadlau bod y prosesau bioseicogymdeithasol sy'n sbarduno'r gwahaniaethau lles hyn yn aml â'u gwreiddiau mewn profiadau bywyd cynnar.

A oes unrhyw ran o hyn yn rhoi unrhyw gliwiau inni am y ffordd orau ymlaen? Ymddengys fod dwy neges yn dod i'r amlwg yn eglur ac yn gyson. Fel y dywedodd Huw, heb ystyried a yw'n wir fod cyfoeth yn dod â hapusrwydd, mae tlodi'n sicr yn creu anhapusrwydd. Felly, rhaid rhoi blaenoriaeth i ymdrin â thlodi a'i anafanteision cysylltiedig, a dylai hynny ddechrau mor gynnar â phosibl mewn bywyd. Yn yr un modd, ar ôl cyrraedd lefel benodol o ffyniant mae gwelliannau pellach mewn lles yn fwy tebygol o ddigwydd mewn cymdeithasau cyfartal, cymdeithasol gydlynol. Dyna'r neges y mae'n rhaid inni ei rhoi.

Mewn nifer o ffyrdd, mae hyn yn ymdrin â'r sylw paradocsiaidd y bydd nifer o bobl a oedd yn fyw drwy'r 1920au a'r 1930au yn ei wneud wrth gymharu eu hamserau caled â bywyd heddiw. Er gwaethaf tlodi a chaledi'r blynyddoedd hynny y cyfeiriodd Chris atynt, ni chwallowd nifer o'r cymunedau a gafodd eu taro galetaf mewn anarchiaeth a chamweithredu. Yr ymdeimlad o gydlynad cymdeithasol, undod a phrofiadau cymunedol a rannwyd oedd yn atal hynny rhag digwydd.

Bydd nifer ohonom sydd wedi bod allan ar gerrig drysau dros yr wythnosau diwethaf yn gwybod bod y syniad o 'hapusrwydd' yn derm cyffredinol am amrywiaeth o faterion sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y bydd pobl yn meddwl amdanynt eu hunain ac am y manau lle maent yn byw. Mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu droeon ein huchelgais fel gweinyddiaeth i sefydlu perthynas sy'n llawn ymddiriedaeth rhyngom ni fel Llywodraeth

Societies must achieve high levels of trust if they are to achieve the high levels of individual and communal satisfaction that we are debating today. These are societies where health outcomes are better, where economies work better, and where, most of all, crime levels, and especially the level of fear of crime, are low.

Why should this be? The answer, for those who believe in a socialist or collective message, is clear enough. Happiness is not simply a state of mind rooted in individual psychology. Happiness is a product of social relationships, rooted in the place where we live, and the people with whom we live. Kaplan's trailblazing work from Alameda County in California in the mid-1960s showed the links between poverty, social networks and health and wellbeing outcomes, in both physical and mental terms. When we are secure in our social position, when we are treated with respect and valued as contributors, and not simply consumers, our sense of wellbeing or happiness improves. That is why, as socialists, we not only believe that there is such a thing as society, but that what matters is the way in which those societies work and what connects the individual to the collective. When those relationships are strong, respectful and rooted in a sense of equal worth, then greater happiness of the greatest number is the result.

The pursuit of happiness is about seeking to do things better to produce better outcomes for all citizens, but particularly those who suffer most disadvantage, and so are least likely to benefit from the wealth of modern society. We can do this by attacking, at an earlier stage, the unacceptable level of poverty that many of our citizens face. We need to promote greater equality across our society. It is not enough to tackle poverty—we also need a range of policies that are more distributive in their impact, and which spread the benefits of society more widely across the community.

We need to promote a greater sense of community cohesion and social solidarity as

a'r dinesydd sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarparwn. Rhaid i gymdeithasau gael lefelau uchel o ymddiriedaeth os ydynt am gyrraedd y lefelau uchel o foddhad unigol a chymunedol yr ydym yn eu trafod heddiw. Mae'r rhain yn gymdeithasau lle mae canlyniadau iechyd yn well, lle mae economïau'n gweithio'n well a lle mae lefelau troseddu, yn anad dim, ac yn enwedig lefel ofn troseddau, yn isel.

Pam hynny? Mae'r ateb, i'r rheini sy'n credu mewn neges sosialaidd neu gyfunol, yn ddigon eglur. Nid cyflwr meddwl sydd â'i wraidd mewn seicoleg unigol yn unig yw hapusrwydd. Mae hapusrwydd yn gynnrych perthynas gymdeithasol, ble'r ydym yn byw, a'r bobl yr ydym yn byw gyda hwy. Dangosodd gwaith arloesol Kaplan o Alameda County yn California ganol y 1960au y cysylltiadau rhwng tlodi, rhwydweithiau cymdeithasol a chanlyniadau iechyd a lles, yn gorfforol ac yn feddyliol. Pan ydym yn gadarn yn ein safle cymdeithasol, pan gawn ein trin gyda pharch a'n gwerthfawrogi fel cyfranwyr, ac nid fel defnyddwyr yn unig, bydd ein syniad o les neu hapusrwydd yn cynyddu. Dyna pam yr ydym, fel sosialwyr, yn credu bod cymdeithas nid yn unig yn bodoli, ond ei bod yn bwysig sut y mae'r cymdeithasau hynny'n gweithio a beth sy'n cysylltu'r unigolyn â'r cyfunol. Pan fydd y berthynas honno'n gryf, yn barchus a'i gwreiddiau mewn syniad o werth cyfartal, yna'r canlyniad yw mwy o hapusrwydd i'r nifer mwyaf posibl.

Mae ceisio hapusrwydd yn fater o geisio gwneud pethau'n well i gynhyrchu canlyniadau gwell i bob dinesydd, ond yn enwedig i'r rheini sy'n dioddef o'r anfantais fwyaf, ac sydd felly'n lleiaf tebygol o elwa o gyfoeth cymdeithas fodern. Gallwn wneud hyn drwy ymosod, yn gynharach, ar lefel annerbyniol y tlodi sy'n wynebu nifer o'n dinasyddion. Mae angen inni hyrwyddo mwy o gydraddoldeb ar draws ein cymdeithas. Nid yw mynd i'r afael â thlodi yn ddigon—mae arnom angen hefyd ystod o bolisïau sy'n fwy dosbarthol eu heffaith, ac sy'n lledaenu buddiannau cymdeithas yn ehangach ar draws y gymuned.

Mae angen inni hyrwyddo syniad cryfach o gydlyniant cymunedol ac undod cymdeithasol

core public values, rather than promoting the notion of looking after No. 1 and letting the devil take the hindmost. As Joyce said, we must work to create a greater sense of public space and a new localism and social cohesion. We can achieve this by valuing our communities and promoting them as an asset, by giving people greater ownership of their communities and the decisions that affect their lives, by ensuring that the communities in which they live are safe, strong and supportive, and by recognising that families are a basic unit of our communities and that we need to do more to support them, particularly in their role of giving children the best start in life. We also need to promote communal activities such as volunteering and public services, which make such a massive contribution to the quality of life and the life opportunities of our citizens.

Therefore, I believe that the pursuit of happiness is a legitimate policy goal, not least because there are strong pointers as to what we need to do to achieve improvement. I would suggest that it is the work of practical politics and not some utopian will-o'-the-wisp. As long as we focus on the pursuit of happiness rather than being disheartened by our failure to achieve ultimate, perfect happiness, we have a task and a challenge before us. These messages fit very well with the cultural and aspirational values that make Wales a distinctive nation in its own right. Many of the priorities of the One Wales Government encapsulate the same aspiration.

In conclusion, my message is that we should be positive and optimistic. Let us work together to build a more prosperous, equal and fairer country that is diverse and cohesive but is bound together by a strong sense of social solidarity. If we do that, we can genuinely hope to build a happier society and happier communities.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog ac i Chris. Braf yw diweddu ein trafodion ar nodyn mor hapus.

fel gwerthoedd cyhoeddus craidd, yn hytrach na hyrwyddo'r cysyniad o ofalu amdanom ein hunain heb hidio dim am neb arall. Fel y dywedodd Joyce, rhaid inni weithio i greu mwy o synnwyr o fannau cyhoeddus a brogarwch newydd a chydlynid cymdeithasol. Gallwn gyflawni hyn drwy werthfawrogi ein cymunedau a'u hyrwyddo fel ased, drwy roi mwy o berchenogaeth i bobl dros eu cymunedau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, drwy sicrhau bod y cymunedau lle maent yn byw yn ddiogel, yn gryf ac yn gefnogol, a thrwy gydnabod bod teuluoedd yn uned sylfaenol yn ein cymunedau a bod angen inni wneud mwy i'w cefnogi, yn enwedig yn eu swyddogaeth o roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant. Mae angen hefyd inni hyrwyddo gweithgareddau cymunedol megis gwirfoddoli a gwasanaethau cyhoeddus, sy'n gwneud cyfraniad mor enfawr i ansawdd bywyd a chyfleoedd bywyd ein dinasyddion.

Felly, credaf fod ceisio hapusrwydd yn nod polisi dilys, yn enwedig gan fod yna arwyddion cryf o ran yr hyn y mae angen inni ei wneud er mwyn gwella. Byddwn yn awgrymu mai gwaith gwleidyddiaeth ymarferol yw hyn, ac nid rhyw gannwyll gorff iwtopaidd. Cyn belled â'n bod yn canolbwyntio ar geisio hapusrwydd yn hytrach na chael ein digalonni wrth fethu sicrhau hapusrwydd perffaith, eithaf, mae gennym dasg a her o'n blaenau. Mae'r negeseuon hyn yn cyd-fynd yn dda iawn â'r gwerthoedd diwylliannol ac uchelgeisiol sy'n gwneud Cymru'n wlad nodedig ar ei phen ei hun. Mae nifer o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n Un yn crynhoi'r un uchelgais.

I gloi, fy neges yw y dylem fod yn gadarnhaol ac yn optimistaidd. Gadewch inni weithio gyda'n gilydd i adeiladu gwlad fwy ffyniannus, cyfartal a theg sy'n amrywiol a chydlynol ond sy'n cael ei dal ynghyd gan syniad cryf o undod cymdeithasol. Os gwnawn hynny, gallwn yn wir obeithio adeiladu cymdeithas hapusach a chymunedau hapusach.

The Presiding Officer: I thank the Minister and Chris. It is pleasing to end the proceedings on such a happy note.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 p.m.
The meeting ended at 5.101 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)